
Adroddiad Blynyddol Estyn

Estyn

# Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

2018-2019



# Cynnwys

| | |
|---|---|
| 2-3 | Cynnwys |
| 4-8 | Rhagair |
| | |
| 9-67 | **Themâu allweddol mewn diwygio addysg** |
| 10-12 | Datblygu'r cwricwlwm |
| 13-20 | Datblygu medrau |
| 21-30 | Proffesiwn addysg ansawdd uchel |
| 30-33 | Arweinwyr ysbrydolgar |
| 34-44 | Rhagoriaeth, tegwch a lles |
| 45-52 | Cefnogi system hunanwella |
| 53-67 | Addysg a hyfforddiant ôl-16 |
| | |
| 68-160 | **Crynodebau sector** |
| 68-76 | Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed |
| 77-88 | Ysgolion cynradd |
| 89-100 | Ysgolion uwchradd |
| 101-105 | Ysgolion pob oed a gynhelir |
| 106-109 | Ysgolion arbennig a gynhelir |
| 110-114 | Ysgolion arbennig annibynnol |
| 115-118 | Ysgolion prif ffrwd annibynnol |
| 119-122 | Colegau arbenigol annibynnol |
| 123-127 | Unedau cyfeirio disgyblion |
| 128-133 | Gwasanaethau addysg llywodraeth leol |
| 134-140 | Colegau addysg bellach |
| 141-146 | Dysgu yn y gwaith |
| 147-149 | Dysgu oedolion yn y gymuned |
| 150-153 | Addysg gychwynnol athrawon |
| 154-155 | Cymraeg i Oedolion |
| 156-157 | Gyrfaoedd |
| 158-160 | Dysgu yn y sector cyfiawnder |

## Canllaw i'r adroddiad

**Adroddiad eleni yw'r 27ain adroddiad blynyddol olynol i'w gyhoeddi yng Nghymru ers i Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1992 ei gwneud yn ofynnol i'w gynhyrchu.**

**Mae'r adroddiad yn cynnwys:**

**Rhagair y Prif Arolygydd**

**Adran 1: Adran thematig yn canolbwyntio ar themâu allweddol mewn diwygio addysg**

**Adran 2: Adroddiadau sector unigol am ganfyddiadau arolygu yn 2018-2019**

**Atodiad 1: Trosolwg o'r fframwaith arolygu a nodiadau am y geiriau, ymadroddion a'r data a ddefnyddir yn yr adroddiad**

**Atodiad 2: Sylwebaeth ar y canfyddiadau PISA ar gyfer 2018 a gyhoeddwyd yn ddiweddar**

**Atodiad 3: Cyfres o siartiau yn dangos deilliannau arolygu Estyn ar gyfer 2018-2019**

**Atodiad 4: Dolenni at y dogfennau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 161-170 | Atodiad 1: Trosolwg |
| 171-178 | Atodiad 2: Canfyddiadau PISA 2018 |
| 179-185 | Atodiad 3: Deilliannau arolygu 2018-2019 |
| 186-195 | Atodiad 4: Rhestr cyfeiriadau |

# Rhagair



## Diwygio sylfaenol

Yr hyn sydd fwyaf nodedig am addysg yng Nghymru dros y tair blynedd diwethaf yw cyfres o ddiwygiadau sylfaenol a'r paratoadau ar gyfer y diwygiadau hynny. Yn y cyfnod addysg orfodol, mae'r diwygiadau yma wedi canolbwyntio ar ddylunio a chynllunio cwricwlwm ysgol newydd, ac ar effaith hynny ar arferion addysgu ac asesu, dysgu proffesiynol staff, datblygiad arweinyddiaeth, a bron pob agwedd arall ar addysg ac ysgolion. Yn y cyfnod addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, mae'r bwriad i greu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn cynrychioli newid strwythurol enfawr i gynllunio a llywodraethiant addysg uwch, addysg bellach, prentisiaethau, darpariaeth chweched dosbarth ac addysg oedolion. Ac mae newidiadau sylweddol hefyd ar y gweill ym maes anghenion addysgol arbennig sy'n pontio'r sectorau gorfodol ac ôl-orfodol.

Mae consensws cyffredinol ymhlith addysgwyr yng Nghymru a thu hwnt ynglŷn â'r angen am newid sylfaenol i system addysg Cymru. Ac yn wir, mae cryn gytundeb ynghylch cyfeiriad cyffredinol diwygiadau penodol, er y bu dadlau ynglŷn ag elfennau, fel cyflymder y newid ac adnoddau. Hyd yn oed o ystyried y consensws cyffredinol hwn, mae gweddnewid system addysg gyfan yn ymrwymiad cymhleth a hir dymor, ac un bydd yn cymryd degawd o leiaf.

Gellir ystyried y rhaglen ddiwygio yma nid yn unig o safbwynt cyfres o newidiadau polisi sydd â'r bwriad o ailffurfio ymarfer, ond hefyd o safbwynt newid ehangach yn niwylliant sylfaenol ein system addysg genedlaethol. Gwelir maint y gorchwyl hwn drwy nodi rhai o'r newidiadau diwylliannol a fwriedir:

- symud o system addysg lle'r eir i'r afael ac amrywioldeb ac yr ysgogir gwelliant drwy gystadleuaeth i system sy'n seiliedig ar hunanwella a chydweithio
- symud tuag at ddefnydd mwy cytbwys o ddata perfformiad sy'n osgoi canlyniadau anfwriadol system atebolrwydd a gosod targedau sydd â-llawer-yn-y-fantol
- symud i system addysg fwy myfyriol, seiliedig ar dystiolaeth, gyda mwy o bwyslais ar ymholi ac ymchwil broffesiynol



**Meilyr Rowlands**

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Rhagair

## Momentwm cynyddol

Mae cynnydd yn cael ei wneud gyda chamau cychwynnol y rhaglen ddiwygio hon, a gwelwyd cyflymu'n ddiweddar. Er enghraifft, mae'r cwricwlwm newydd wedi'i gyhoeddi ac mae diwylliant cynyddol o gydweithio rhwng sefydliadau addysg cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae camau cychwynnol y gwaith hwn wedi cymryd amser, fel y gellir disgwyl o broses sy'n seiliedig yn bennaf ar gyd-greu rhwng llywodraeth ac ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys y proffesiwn addysgu. O ran diwygio'r cwricwlwm yn benodol, rydym wedi cyrraedd pwynt erbyn hyn pan fo angen i bob ysgol feddwl yn ofalus am beth mae'r cwricwlwm newydd yn ei olygu iddyn nhw. Mae'r Cwricwlwm i Gymru sydd newydd ei gyhoeddi yn cynnig strwythur cyffredinol ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm, ond mae'r cyfrifoldeb ar bob ysgol i ddylunio'i chwricwlwm ei hun er mwyn darparu'r hyn sydd ei angen ar ei dysgwyr i ffynnu yn y byd modern.

Yn ystod cyfnod o ddiwygio strwythurol, mae'n bwysig nad yw ansawdd addysg a safonau yn llithro. Mae llawer ar ôl i'w wneud eto ac, ynghyd â nodi llawer o arfer dda a rhagorol, mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai o'r heriau sy'n parhau. Mae'r negeseuon ynglŷn â'r sectorau a'r cyfnodau addysg a hyfforddiant rydym yn eu harolygu yn debyg i'r llynedd, gyda deilliannau arolygu eleni yn ddigon tebyg i rai blynyddoedd blaenorol. Mae cryfderau sefydledig mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion arbennig, a darpariaeth ôl-16. Bu gwelliannau hefyd eleni mewn deilliannau arolygu ar gyfer ysgolion pob oed, sef sector sy'n cynyddu.

Mae safonau'n dda neu'n rhagorol mewn wyth o bob deg ysgol gynradd ac mewn ychydig o dan hanner o ysgolion uwchradd. Mae cyfran yr ysgolion uwchradd sy'n peri pryder o gymharu â sectorau eraill yn parhau yn her i nifer o awdurdodau lleol ac i'r system gyfan. Trafodwyd rhesymau posibl am hyn mewn adroddiadau blynyddol blaenorol. Gwella addysgu a dysgu yw'r argymhelliad arolygu mwyaf cyffredin ar gyfer yr ysgolion hyn. Mae gwella addysgu a phrofiadau dysgu pob disgybl yn un o brif nodau'r diwygiadau cwricwlaidd presennol. Mae diwygio cymwysterau i gyfateb â'r cwricwlwm newydd a sicrhau nad yw mesurau atebolrwydd yn ystumio addysgu a dysgu yn orchwylion pwysig ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Yn y cyfamser, mae'n dda bod dull aml-asiantaeth newydd o gefnogi ysgolion uwchradd yn cael ei threialu ledled Cymru.

Mae'n galonogol hefyd fod arwyddion o welliannau mewn nifer o themâu addysg trawsbynciol. Mae gwelliannau mewn agweddau ar lythrennedd a rhifedd dros y blynyddoedd diwethaf wedi cael eu hatgyfnerthu, er bod mwy i'w wneud i ddatblygu medrau lefel uwch dysgwyr. Mae ennyn cariad gydol oes at ddarllen yn waith allweddol i unrhyw system addysg. Mae darllen eang o lyfrau ffuglen a ffeithiol yn ehangu gorwelion, yn datblygu meddwl beirniadol, ac yn helpu adeiladu geirfa gyfoethog sy'n galluogi dysgwyr i gyfleu eu meddyliau a'u teimladau. Hefyd, mae mwy i'w wneud i wella cymhwysedd digidol dysgwyr, ac yn arbennig eu dealltwriaeth dechnegol.

# Rhagair

## Bodloni anghenion pob dysgwr

Eleni, rydym wedi gweld gwelliannau yn neilliannau dysgwyr mwy abl, yn cynnwys yn eu perfformiadau PISA, TGAU a Safon Uwch. Mae angen mwy o gymorth eto ar gyfer y dysgwyr hyn, oherwydd pan fyddant yn perfformio'n dda maen nhw'n modelu rhagoriaeth i'w cyfoedion ac yn dangos y ffordd at beth ellir ei gyflawni, sy'n fuddiol i ddysgwyr eraill a'r system gyfan. Mae'n hanfodol hefyd yn ystod cyfnod o newid y gofelir am y rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas ac y darperir ar eu cyfer. Fel gwlad, mae gennym enw da am werthfawrogi tegwch a chynhwysiant. Mae ysgolion arbennig a gynhelir gan awdurdodau lleol wedi bod yn gyson gryf dros lawer o flynyddoedd, gyda fawr ddim amrywioldeb yn ansawdd y ddarpariaeth – maen nhw'n gweithio'n dda â'i gilydd ac yn rhannu arbenigedd yn effeithiol. Eleni, rydym wedi gweld gwelliannau hefyd mewn ysgolion arbennig annibynnol ac mewn unedau cyfeirio disgyblion, gan gynnwys tystiolaeth o ragoriaeth yn y sectorau hyn am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer. Mae'r sectorau hyn yn gweithio gyda dysgwyr sydd wedi'u gwahardd o ysgolion eraill neu ddysgwyr sydd â gofynion cymhleth nad yw ysgolion a gynhelir yn gallu darparu ar eu cyfer.

Er gwaetha'r gwelliannau hyn mewn tegwch, nid yw'r 'bwlch tlodi' wedi lleihau. Nid yw'r gwahaniaethau mewn cyrhaeddiad a phresenoldeb rhwng disgyblion o gefndiroedd breintiedig a difreintiedig wedi cau dros y degawd diwethaf. Gan amlaf, mae'r bylchau hyn yn mynd yn fwy wrth i ddysgwyr fynd yn hŷn, ac yn deillio'n rhannol o leiaf o'r modd y mae teuluoedd a'r gymuned leol yn gweld addysg, yn ogystal ag ansawdd y ddarpariaeth addysg ei hun. Mewn adroddiadau blynyddol blaenorol, rwyf wedi dadlau bod angen dull dwy-big i gau'r bwlch hwn: drwy wella addysgu a phrofiadau dysgu pob disgybl, a thrwy ddarparu system addysg â mwy o ffocws cymunedol. Ni all disgyblion elwa'n llawn o ddarpariaeth addysg well os nad ydynt yn yr ysgol neu os nad ydynt yn cael eu cefnogi adeg amgylchiadau anodd yn eu bywydau. Mae gwaith yr asiantaethau amrywiol sy'n helpu ysgolion i gefnogi disgyblion a theuluoedd yn gofyn rheolaeth, cydlyniant ac adnoddau. Rydym wrthi'n cynnal adolygiad o amryw o fodelau ysgolion cymunedol i'w gyhoeddi y nes ymlaen eleni.

Mae diwygio yn nodwedd allweddol o'r cyfnod addysg a hyfforddiant ôl-orfodol hefyd. Fel y mae'r cwricwlwm newydd yn cynnig ffocws ar gyfer newidiadau polisi yn y sector gorfodol, bwriedir i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil wneud yr un peth ar gyfer y sector ôl-orfodol. Gyda'i gilydd, mae potensial gan y diwygiadau hyn i wella'r cydweithio rhwng ysgolion a darparwyr ôl-16. Dylai polisi ac arfer mwy di-dor helpu sicrhau bod profiadau pobl ifanc ar gyfnodau gwahanol o'u haddysg yn adeiladu'n gynyddol i'w cynorthwyo i ddod yn gyfranwyr mentrus a chreadigol mewn gweithleoedd ledled Cymru. Ar hyn o bryd, mae gormod o bobl ifanc nad ydyn nhw'n symud ymlaen at y ddarpariaeth ôl-16 fwyaf priodol i gyfateb i'w huchelgeisiau, diddordebau a galluoedd. Bydd ein hadroddiad yn ddiweddarach eleni ar gydweithio rhwng colegau addysg bellach ac ysgolion yn rhoi enghreifftiau defnyddiol i adeiladu arnynt.

# Rhagair

## Gwrando a dysgu gyda'n gilydd

Mae Estyn yn newid hefyd. Yn y flwyddyn academaidd nesaf, 2020-2021, yn lle arolygu sampl o ysgolion, byddwn yn ymweld â bron pob ysgol i ddysgu am y modd y maen nhw'n cynllunio ac yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd, ac adrodd ar hynny. Cewch wybod y diweddaraf am y modd rydym ni'n newid ar ein gwefan.

Mae diwygio addysg yn broses bellgyrhaeddol a chymhleth. Mae'n bryd nawr i ysgolion feddwl o ddifrif am yr hyn y mae'r cwricwlwm yn ei olygu iddyn nhw a chymryd cyfrifoldeb am ddylunio profiadau dysgu sy'n bodloni anghenion eu holl ddisgyblion. Ond ni all ysgolion wneud hyn ar eu pennau'u hunain. Mae angen i'r system addysg gyfan weithio gyda'i gilydd i gynorthwyo ein hysgolion a'n gweithlu addysg i drawsnewid addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

## Ynglŷn â'r adroddiad a'i ddata

Mae strwythur yr adroddiad blynyddol yn adlewyrchu graddfa a natur gynhwysfawr y diwygiadau addysg presennol a grybwyllwyd uchod. Mae'r adroddiad mewn dwy ran: mae rhan thematig yn mynd i'r afael â'r prif ddatblygiadau polisi a themâu trawsbynciol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf; a rhan sectoraidd sy'n cynnwys adrannau ar wahân ar bob un o'r sectorau a arolygwn.

Cyhoeddom ein holl farnau arolygu ar gyfer blwyddyn academaidd 2018-2019 fel ystadegau swyddogol yn Hydref 2019. Mae ein gwefan data ryngweithiol yn galluogi darllenwyr i archwilio'r barnau hyn. Mae'r adroddiad hwn yn darparu sylwebaeth ar y data hwnnw ac yn ei roi yn ei gyd-destun.


# Rhagair

Yn 2018-2019, fe wnaethom gydnabod rhagoriaeth y darparwyr hynny a gyflawnodd 'rhagorol' ym mwyafrif eu barnau arolygu.

Cydnabod Rhagoriaeth Recognising Excellence

| | |
|---|---|
| **Meithrinfeydd nas cynhelir** | Cylch Chwarae Dwyieithog Aberporth<br>Cylch Meithrin Llanhari<br>Cylch Meithrin Talgarreg<br>Meithrinfa Little Stars PAC |
| **Ysgolion cynradd** | Ysgol Bryn Tabor<br>Ysgol Brynaerau<br>Ysgol Dolbadarn<br>Ysgol Dyffryn Cledlyn<br>Ysgol Feithrin Tremorfa<br>Ysgol Ffordd Dyffryn<br>Ysgol Gymraeg Sant Curig<br>Ysgol Gymraeg Y Gwernant<br>Ysgol Gynradd Bethel<br>Ysgol Gynradd Broughton<br>Ysgol Gynradd Carno<br>Ysgol Gynradd Drenewydd Gelli-farch<br>Ysgol Gynradd Garnteg<br>Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Sant Joseph, Casnewydd<br>Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Wrecsam<br>Ysgol Gynradd Glenboi<br>Ysgol Gynradd Gymunedol Ewloe Green Ysgol Gynradd Gymunedol Ynysowen<br>Ysgol Gynradd Rhisga<br>Ysgol Gynradd Sirol Bryn Coch<br>Ysgol Gynradd St Julian<br>Ysgol Gynradd Trinant<br>Ysgol Gynradd y Clâs<br>Ysgol Llanbrynmair<br>Ysgol Mynach<br>Ysgol Pant Pastynog<br>Ysgol Pen Barras<br>Ysgol Twm o'r Nant<br>Ysgol Y Foryd<br>Ysgol Y Garnedd |
| **Ysgolion uwchradd** | Ysgol Gyfun y Bont-faen<br>Ysgol Gymunedol Cwmtawe<br>Ysgol Uwchradd Caerdydd<br>Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley |
| **Ysgolion annibynnol** | Landsker Education<br>Ysgol Headlands<br>Ysgol Woodlands<br>Ysgol y Gadeirlan |
| **Ysgolion arbennig** | Ysgol a Chanolfan Adnoddau Trinity Fields |
| **Unedau cyfeirio disgyblion** | Canolfan Addysgol Tai<br>UCD Sir Ddinbych |

# Adran 1 Themâu allweddol mewn diwygio addysg



# Datblygu'r cwricwlwm

Ers cyhoeddi Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015), mae nifer gynyddol o ysgolion yn rhoi cynnig ar ymagweddau newydd at y cwricwlwm, ac mae'r duedd hon wedi cyflymu ers cyhoeddi'r Cwricwlwm drafft i Gymru yn Ebrill 2019. Mae llawer o'r ysgolion sy'n gwneud y cynnydd mwyaf wrth baratoi ar gyfer y newidiadau i'r cwricwlwm yn ysgolion a weithiodd fel ysgolion arloesi[1] ac sydd bellach yn ysgolion 'gwella ansawdd' neu 'ysgolion braenaru'[2]. Ceir enghreifftiau da hefyd o ymagweddau creadigol a diddorol at baratoi ar gyfer y cwricwlwm mewn ysgolion nad ydynt wedi bod yn uniongyrchol gysylltiedig â gwaith arloesi.

Cafodd y rhan fwyaf o ysgolion sydd wedi dechrau meddwl o ddifrif am baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd eu hysbrydoli gan y pedwar diben a'r egwyddorion a gyflwynwyd gyntaf yn Dyfodol Llwyddiannus. Roedd llawer o'r ysgolion hyn yn awyddus i ddechrau ystyried sut gallent gymhwyso'r egwyddorion hyn i'w hysgol eu hunain, gan ddechrau meddwl am y math o gwricwlwm yr oeddent eisiau ei ddylunio ar gyfer eu disgyblion. Fe wnaeth darllen am yr ysgolion a gafodd sylw yn yr adroddiad Arloesi'r Cwricwlwm mewn Ysgolion Cynradd (Estyn, 2018b) a siarad â staff o'r ysgolion hynny roi'r hyder i lawer o athrawon ac arweinwyr ysgol hefyd i ddechrau meddwl am y posibiliadau amrywiol ar gyfer paratoi at y cwricwlwm newydd yn eu hysgolion eu hunain.

Mae cydweithio o fewn ysgolion ac ar draws ysgolion i gynllunio'r cwricwlwm wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn aml daw hyn â buddion sylweddol i athrawon a disgyblion. Er enghraifft, mae athrawon cynradd yn aml yn rhannu arbenigedd ac yn gweithio ar draws grwpiau blwyddyn a chyfnodau i gynllunio prosiectau penodol, datblygu eu meddwl neu roi cynnig ar ymagweddau newydd mewn maes dysgu a phrofiad ar draws yr ysgol. Mewn ysgolion uwchradd, ceir enghreifftiau defnyddiol o athrawon yn cydweithio â chydweithwyr cynradd i ailystyried cwricwlwm cyfnod allweddol 3, neu rannau ohono, ac i wella parhad a dilyniant mewn gwaith ysgol o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 a Blwyddyn 8 o fewn y cwricwlwm presennol. Mae Ysgol Gymunedol Cwmtawe, er enghraifft, yn gweithio'n agos gyda'i hysgolion cynradd partner i gynllunio gweithgareddau pontio heriol sy'n helpu athrawon Blwyddyn 7 i gynllunio cwricwlwm sy'n adeiladu ar y medrau TGCh, cyfathrebu a'r medrau creadigol sydd eisoes gan ddisgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae gan lawer o ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion hanes blaenorol da o addasu'r cwricwlwm i fod yn addas i'w disgyblion. O ganlyniad i weithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol eraill ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, mae'r darparwyr hyn yn aml yn cynnig cwricwlwm unigoledig sydd wedi'i deilwra at anghenion, galluoedd a diddordebau penodol eu disgyblion. Yn aml, mae'r cwricwlwm yn ymarferol ac yn darparu profiadau dysgu sy'n ystyrlon iddynt ac a fydd yn eu paratoi'n dda ar gyfer y dyfodol.

[01] I gael rhagor o wybodaeth am ysgolion arloesi, ewch i wefan Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/cwricwlwm-newydd-i-ysgolion-trosolwg

[02] I gael rhagor o wybodaeth am ysgolion gwella ansawdd ac ysgolion braenaru', gweler https://cwricwlwmigymru.llyw.cymru/2019/09/18/gweithredu-ar-eich-adborth-mireinior-cwricwlwm-drafft/

# Datblygu'r cwricwlwm

Yn gyffredinol, mae ysgolion cynradd yn mynd yn llai dibynnol ar gynlluniau gwaith masnachol. Maent yn fwy parod i feddwl yn greadigol i ddylunio prosiectau pwrpasol sy'n berthnasol i'w hysgol a disgyblion. Mae'r rheini sy'n dal i ddefnyddio cynlluniau yn tueddu gwneud hynny'n fwy hyblyg, gan deilwra testunau i fodloni anghenion a diddordebau eu disgyblion a thrwy gynnwys disgyblion wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau ynglŷn â beth a sut maent yn dysgu. Mae disgyblion yn Ysgol Gynradd Gymunedol Ynysowen, er enghraifft, yn gwerthuso'r cwricwlwm bob wythnos ac yn cyfrannu'n ddychmygus at gynllunio rhaglen waith yr wythnos ganlynol. Mae hyn yn cymell disgyblion i ymgysylltu ag ystod eang o dasgau. Yn Ysgol Gynradd Treganna, cyn cynllunio testun newydd, mae athrawon a disgyblion yn gweithio gyda'i gilydd i ystyried y gweithgareddau yr hoffent ymgymryd â nhw fel rhan o'u thema ddewisedig, a'r modd yr hoffent drefnu amgylchedd eu hystafell ddosbarth i adlewyrchu'r thema. Mae hyn yn golygu bod athrawon yn cynllunio cwricwlwm cynhwysfawr a dilyniadol, ac yn creu ystafell ddosbarth gyfoethog ac ysgogol i adlewyrchu cyfraniadau'r disgyblion.

Mae'r agwedd at newid sydd i ddod yn gynyddol gadarnhaol yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd. Mae mwyafrif o arweinwyr ysgol yn dod yn fwy hyderus i ystyried a rhoi cynnig ar ymagweddau newydd at y cwricwlwm, i gymryd risgiau ystyriol y maent yn teimlo y gallent fod o fudd i ddisgyblion, ac i werthuso llwyddiannau a methiannau eu hymdrechion i barhau i wella. Mae'r llai o bwyslais ar ddata diwedd cyfnod allweddol mewn ysgolion cynradd wedi helpu ac wedi'i groesawu'n eang. Mae ysgolion wedi ymateb yn gadarnhaol i waith Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol, ac Estyn, i greu amgylchedd sy'n cydnabod pwysigrwydd profiadau ac ehangder y cwricwlwm a gynigir i ddisgyblion, sy'n cefnogi creadigrwydd, ac nad yw'n cael ei yrru gan ddehongliad rhy gul o ddeilliannau. Mae hyn wedi dechrau newid amgyffrediad arweinwyr ysgol ac athrawon ynglŷn â beth sy'n bwysig yn y system addysg, ac mae wedi gyrru gwelliannau mewn ysgolion cynradd.

Mae ysgolion uwchradd sy'n ysgolion arloesi, ysgolion gwella ansawdd ac ysgolion braenaru wedi ymgysylltu'n llawn hefyd â meddwl am ddiwygio'r cwricwlwm a pharatoi ar ei gyfer, ond mae'r archwaeth am newid yn llai cyffredin mewn ysgolion uwchradd eraill. Yn gyffredinol, mae staff uwchradd yn gadarnhaol ynghylch nodau'r cwricwlwm newydd, er bod ansicrwydd ynghylch natur cymwysterau yn y dyfodol a mesurau atebolrwydd yn golygu bod arweinwyr ysgolion uwchradd yn fwy gochelgar yn gyffredinol ynglŷn â pharatoi ar gyfer newidiadau i gynnwys a threfniadaeth eu cwricwlwm. Er hynny, mae lleiafrif o ysgolion uwchradd yn dechrau archwilio ymagweddau gwahanol at y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3, yn bennaf drwy gysylltu meysydd pwnc gyda'i gilydd yn fwy cydlynus, trwy drefnu prosiectau rhyngddisgyblaethol, neu drwy ailystyried y cwricwlwm i ddarparu cyfleoedd gwell i ddatblygu meysydd dysgu penodol. Enghraifft dda yw Ysgol Uwchradd Islwyn, lle mae rhaglen 'Hyrwyddwyr Her' yng nghyfnod allweddol 3 yn defnyddio ystod o feysydd pwnc traddodiadol i helpu datblygu medrau creadigol, arloesol, medrau cynllunioa  meddwl yn feirniadol disgyblion drwy un her amlddisgyblaethol. Enghraifft arall yw Ysgol Gyfun Bryn Tawe, lle mae pwyllgor addysgu a dysgu yn frwd ynglŷn ag ehangu gwybodaeth ddiwylliannol disgyblion. Drwy weithio'n agos gydag athrawon, maent wedi sicrhau pwyslais cryfach ar hanes a diwylliant Cymru ar draws y cwricwlwm.

# Datblygu'r cwricwlwm

Mewn llawer o ysgolion uwchradd, caiff ystod y dewisiadau pynciau ac opsiynau a gynigir yng nghyfnod allweddol 4 ei dylanwadu'n drwm gan natur dangosyddion perfformiad.  Un enghraifft yw cofrestru carfanau cyfan o ddysgwyr ar gyfer cymwysterau medrau neu gymwysterau galwedigaethol yn fras, nad ydynt yn cael eu haddysgu gan staff addysgu arbenigol yn aml.  Er eu bod yn fuddiol i ychydig o ddysgwyr, ar y cyfan, mae'r cymwysterau hyn yn anaddas i'r ystod lawn o ddisgyblion sy'n cael eu cofrestru.  Cânt eu cyflwyno'n fynych yn ystod cyfnodau cofrestru dosbarth i grwpiau gallu cymysg gan diwtor dosbarth, yn lle defnyddio'r amser hwn at ddibenion gofal, cymorth ac arweiniad.  Hefyd, mae ystod yr opsiynau yng nghyfnod allweddol 4 yn gyfyngedig mewn llawer o ysgolion.  Mewn ychydig o ysgolion, mae nifer yr opsiynau sydd ar gael i ddisgyblion ddewis eu hunain mor isel â dau.  Caiff y duedd hon ei gwaethygu gan anawsterau cyllidebol yn aml.  Mae nifer y cyrsiau galwedigaethol sy'n cael eu cynnig nawr yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol ac, o ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion is eu gallu yn dilyn arlwy o gyrsiau traddodiadol gan mwyaf.

## Cymwysterau

Dros y tair blynedd diwethaf, bu newidiadau mawr i'r cymwysterau sydd ar gael i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4, yn cynnwys newidiadau i fanylebau, i brosesau asesu, ac i ba bryd y gall disgyblion sefyll arholiadau. Mae ein hadroddiad 'Cymwysterau Newydd' (Estyn, 2018d) yn trafod y newidiadau i 2018, ac yn gwerthuso effaith y newidiadau ar ysgolion.  Mae ein hadroddiad sector ar ysgolion uwchradd yn cynnwys ein gwerthusiad diweddaraf o ddeilliannau yng nghyfnod allweddol 4.

Hefyd, mae cymwysterau Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch wedi cael eu newid dros y blynyddoedd diwethaf.  Ar lefel Safon Uwch, mae'r gyfradd lwyddo gyffredinol wedi aros yn sefydlog a bu cynnydd yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni gradd A* neu A.  (Y Cyd-Gyngor Cymwysterau CGC, 2020)

Gwnaed newidiadau sylweddol hefyd i'r modd y caiff cymwysterau eu crynhoi ar lefel disgybl, ysgol gyfan, lefel leol a chenedlaethol i gynhyrchu dangosyddion perfformiad.  Mae'r newidiadau hyn yn ei gwneud hi'n anodd dadansoddi neu arddangos deilliannau disgyblion yn raffigol yng nghyfnod allweddol 4 yn ystod y cyfnod hwn, ac nid yw cymariaethau ar sail debyg rhwng blynyddoedd mewn llawer o gymwysterau a dangosyddion yn ddilys.

Bydd newidiadau i'r cwricwlwm yn arwain at newidiadau pellach i'r cymwysterau sydd ar gael i ddisgyblion. Ceir amserlen ar gyfer datblygu cymwysterau newydd yn Cymwysterau Cymru, 2019.

# Datblygu medrau

## Profiad cynnar plant o addysg

O ganlyniad i'w profiadau yn ystod tair blynedd gyntaf eu bywyd, mae plant yn dechrau addysg gydag amrywiaeth o lefelau o ran iaith, mathemateg a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r byd. Yn gyffredinol, mae plant o gefndiroedd difreintiedig yn tueddu bod â lefelau medrau is na'u cyfoedion, yn enwedig mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Mae eu datblygiad personol a chymdeithasol, datblygiad corfforol, a datblygiad creadigol ar gyfnodau gwahanol i gyd hefyd. Yn benodol:

*"Mae'r 1000 diwrnod cyntaf, yn ystod beichiogrwydd a hyd at ail ben-blwydd plentyn, yn rhan hollbwysig o blentyndod pan fyddwn yn ffurfio ymlyniadau â'r rhai sy'n rhoi gofal i ni, yn dysgu sut i archwilio'n ddiogel ac ymddiried yn y byd o'n cwmpas, ac yn dechrau cyfathrebu. Dyma pryd y gwelwn gyfnod cyflymaf twf a datblygiad yr ymennydd a lle gosodir y sylfeini ar gyfer ein hiechyd a'n lles yn y dyfodol. Caiff y cyfnod hollbwysig hwn effaith hirbarhaol ar unigolion a theuluoedd. Maent yn llywio'r dynged ar gyfer plant wrth iddynt dyfu: eu cyflawniadau addysgol, eu gallu i sicrhau incwm, eu dylanwadau ar eu plant eu hunain, a'u hiechyd mewn oedran hyn (GIG Cymru, 2018").*

Mae llawer o leoliadau nas cynhelir ac ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig yn cynnig darpariaeth Dechrau'n Deg i blant dwy i dair oed yn ychwanegol at ddarparu addysg gynnar. Mae Dechrau'n Deg yn hyrwyddo datblygiad iaith, datblygiad gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol, a datblygiad corfforol. Lle mae lleoliadau ac ysgolion yn datblygu cysylltiadau cryf gyda'u darpariaeth Dechrau'n Deg yn lleol, mae ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a dderbyniant pan fydd plant yn trosglwyddo, ac yn adeiladu arni. Yn y lleoliadau ac ysgolion hyn, mae ymarferwyr, yn gyffredinol, yn adnabod eu plant yn dda, yn ymateb i'w hanghenion unigol ac yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu'u medrau. Mae hyn yn cynorthwyo plant i ymgysylltu ag agweddau ehangach ar gwricwlwm y cyfnod sylfaen.

Mae holl blant tair oed yn gymwys i dderbyn addysg a ariennir, ac mae'r rhan fwyaf o rieni yn derbyn y cynnig hwn. Ar y dechrau, mae'r plant hyn yn derbyn eu haddysg mewn lleoliad nas cynhelir y mae'r awdurdod lleol yn ei ariannu i gyflwyno addysg, fel grŵp chwarae neu feithrinfa ddydd, neu mewn dosbarth meithrin a gynhelir mewn ysgol.

Mae cwricwlwm y cyfnod sylfaen yn amlinellu'r addysg y mae plant tair i saith oed yn ei derbyn ar hyn o bryd. Mewn ysgolion a lleoliadau effeithiol, mae ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth o'u harsylwadau ac asesiadau i ddatblygu medrau disgyblion drwy ddysgu gweithredol a thrwy brofiad[3] sy'n darparu cyfleoedd ymarferol, yn seiliedig ar chwarae i adeiladu ar lefelau medrau plant. Maent yn ymateb yn reddfol i anghenion plant ac yn datblygu'u medrau drwy gydbwysedd priodol o weithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion a gweithgareddau sy'n cael eu hysgogi gan blant.

[03] I gael mwy o wybodaeth am ystyr y termau hyn, gweler ein hadroddiad 'Dysgu gweithredol a thrwy brofiad' Estyn, 2017a).

# Datblygu medrau

Defnyddiant gwestiynu yn fedrus i ddatblygu meddwl plant ac maent yn gwybod pryd i sefyll yn ôl a phryd i ymyrryd er mwyn dwyn dysgu yn ei flaen. Yn yr ysgolion a'r lleoliadau mwyaf effeithiol, mae ymarferwyr yn cyfuno'r dull hwn gyda dealltwriaeth gryf o ddatblygiad plant. Maent yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gynllunio tasgau ar lefel briodol, ac nid ydynt yn cyflwyno plant i gysyniadau newydd cyn eu bod yn barod nac yn ceisio gorfodi eu dysgu, er enghraifft trwy gyflwyno plant i lythrennau cyn eu bod ar gyfnod datblygiadol addas. Maent yn gwybod pan fydd plant yn barod i symud ymlaen a phan fydd angen iddynt gyfnerthu'u medrau drwy amrywiaeth ehangach o brofiadau ymarferol.

Yn yr ysgolion a'r lleoliadau effeithiol hyn, mae plant, gan gynnwys plant o gefndiroedd difreintiedig, yn gwneud cynnydd cryf ac yn meithrin hyder wrth gymhwyso'u medrau i sefyllfaoedd newydd. Mewn ysgolion a lleoliadau lle mae datblygu medrau yn llai effeithiol, mae plant yn dechrau teimlo bod yna bethau nad ydynt yn gallu'u gwneud ar oedran cynnar.

Mae datblygiad corfforol oddeutu tri chwarter o blant pedair oed yn gyson â hynny a ddisgwylir am eu hoedran (Llywodraeth Cymru 2019g). Yn yr ysgolion a'r lleoliadau gorau, mae proffil uchel i ddatblygiad corfforol a gwna ymarferwyr ddefnydd da o adnoddau dan do ac yn yr awyr agored i ddarparu cwricwlwm gweithredol lle mae plant yn cymryd risgiau dan reolaeth ac yn datblygu'u medrau corfforol, fel drwy falansio a dringo. Mae gan ryw saith o bob deg plentyn pedair oed ddeilliannau ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol sy'n gyson â'u hoedran (Llywodraeth Cymru 2019g).

Yn y blynyddoedd diwethaf, bu llai o ffocws ar ddatblygiad creadigol plant ifanc mewn ysgolion a lleoliadau. Lle mae datblygiad creadigol yn rhan o dasg â ffocws[4], mae oedolion yn aml yn gorgyfarwyddo'r gweithgaredd i wneud yn siŵr bod plant yn cyflawni deilliant neu gynnyrch penodol, yn hytrach nag addysgu medr ac yna darparu cyfleoedd cyffrous i blant ddysgu, datblygu ac ymarfer y medr hwn. Mewn llawer o ysgolion a lleoliadau, nid oes digon o gyfleoedd yn gyffredinol ychwaith i blant ddatblygu'u medrau creadigol trwy gerddoriaeth a dawns.

## Datblygu medrau llythrennedd – siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu

Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, er gwaethaf gwelliannau mewn agweddau ar fedrau llythrennedd, mae safonau llythrennedd, yn gyffredinol, yn ddigon tebyg i safonau tair blynedd yn ôl. Cyfyngedig fu cynnydd i leihau effaith anfantais ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion mewn llythrennedd, ac o ran darparu digon o her mewn addysgu llythrennedd i fodloni anghenion disgyblion mwy abl. Dylai'r meysydd hyn barhau'n flaenoriaethau i lawer o ysgolion.

[04] Tasg â ffocws yn y cyfnod sylfaen yw pan fydd oedolion yn addysgu medrau, gwybodaeth a chysyniadau penodol i ddisgyblion, drwy addysgu dosbarth cyfan, gweithio mewn grwpiau neu ochr yn ochr ag unigolion.

# Datblygu medrau

Lle mae ysgolion yn defnyddio strategaethau addysgu a dysgu effeithiol yn y cyfnod sylfaen, caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau siarad a gwrando disgyblion, ac mae'n darparu sylfaen gadarn ar gyfer datblygu'u darllen a'u hysgrifennu nes ymlaen. Mewn ysgolion lle mae safonau yn dda neu'n well, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd a gydag oedolion. Maent yn ymestyn eu geirfa ac yn siarad yn hyderus am eu profiadau yn yr ysgol a gartref yn iaith y lleoliad neu'r ysgol.

Mae bron yr holl leoliadau ac ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn datblygu medrau iaith eu disgyblion yn effeithiol trwy drochi mewn Cymraeg ar draws yr holl feysydd dysgu yn ystod y cyfnod sylfaen, beth bynnag yw iaith gartref y disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd Cymraeg yn siarad yn dda yn Gymraeg ac maent yn defnyddio'r iaith yn hyderus mewn cyd-destunau gwahanol ar draws y cwricwlwm. Mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg, mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu medrau siarad a gwrando cryf. Mae'r disgyblion hyn yn gwrando ac yn ymateb i rai eraill yn ofalus. Defnyddiant eirfa gyffredinol eang a geirfa penodol i bwnc i gyfleu eu syniadau yn glir.

Yn gyffredinol, nid yw disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn cael digon o gyfleoedd bob amser i gymryd rhan mewn profiadau dysgu sy'n canolbwyntio'n benodol ar siarad, er enghraifft i wella eu gallu i gwestiynu, herio ac adeiladu ar gyfraniadau eraill trwy drafodaeth. Mewn ysgolion llai effeithiol, gwelir gwrando a siarad fel medrau sy'n cefnogi darllen ac ysgrifennu, yn hytrach nag fel medrau y mae angen eu datblygu eu hunain. Yn aml, mae ymyriadau a sylwadau athrawon yn canolbwyntio'n benodol ar yr hyn y mae disgyblion yn siarad amdano yn hytrach nag ar y ffordd y maent yn ei ddweud hefyd.

Yn gyffredinol, mae gan ddisgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ddealltwriaeth ychydig yn well o strategaethau darllen gwahanol na thair blynedd yn ôl, ac maent yn gwneud defnydd ehangach ohonynt. Mae cymhwyso'r strategaethau hyn yn cefnogi dysgu annibynnol disgyblion ar draws y cwricwlwm ac yn cyflymu'r cynnydd a wnânt. Mewn lleiafrif o ysgolion cynradd, mae diffyg cyfle i ddisgyblion wrando ar oedolion yn modelu darllen yng nghyfnod allweddol 2, neu i ymgysylltu â llyfrau ffuglen a ffeithiol mwy heriol. Nid yw ysgolion bob amser yn adeiladu geirfa disgyblion a'u gwybodaeth am iaith gystal ag y gallent, nac yn datblygu'u medrau darllen lefel uwch yn ddigon da. Yn gyffredinol, nid oes digon o athrawon yn darllen llenyddiaeth newydd i blant, ac nid yw hyn yn annog plant i ddarllen llyfrau sydd wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar. Mewn mwyafrif o ysgolion uwchradd, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddefnyddio a datblygu'u medrau darllen lefel uwch, yn enwedig rhesymu a dod i gasgliad, er mwyn cynyddu'u dealltwriaeth o destunau heblaw'r rhai maent eisoes yn eu gwybod yn dda, fel testunau gosod Llenyddiaeth Saesneg neu Gymraeg TGAU. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn datblygu nac yn trosglwyddo'r medrau hyn i sefyllfaoedd newydd yn ddigon da.

# Datblygu medrau

Mae'r canlyniadau PISA diweddaraf yn cadarnhau'r canfyddiadau hyn yn fras[5]. Yn benodol, fe wnaeth disgyblion berfformio'n well mewn tasgau oedd yn gofyn iddynt ystyried mwy nag un testun. Maent yn teimlo'n fwy hyderus ynglŷn â'u gallu i ddarllen na'r disgybl cyffredin ar draws y gwledydd eraill sy'n cymryd rhan yn PISA, ond maent yn llai tebygol o ddarllen llyfr. Mae disgyblion yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn parhau i berfformio gryn dipyn yn well mewn darllen nag yng Nghymru.

Mae safon ysgrifennu disgyblion mewn llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn parhau'n wannach nag agweddau eraill ar eu llythrennedd. Caiff disgyblion, yn gyffredinol, fwy o gyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig na thair blynedd yn ôl, ond mae ansawdd y cyfleoedd hynny a'r disgwyliad i ddisgyblion wirio, cywiro ac ailysgrifennu eu gwaith yn rhy amrywiol. Hyd yn oed mewn lleiafrif o ysgolion lle mae disgyblion yn datblygu medrau golygu defnyddiol i wirio a gwella cywirdeb eu hysgrifennu, ychydig o'r ysgolion hyn sy'n helpu disgyblion wella cynnwys a strwythur eu hysgrifennu yn ddigon da. Mae hyn, ynghyd ag adborth aneffeithiol gan athrawon mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd, yn arwain at barhau i wneud camgymeriadau sylfaenol ac mae'n cyfrannu at leiafrif o ddisgyblion, yn enwedig bechgyn yng nghyfnod allweddol 4, yn methu strwythuro'u hysgrifennu na mynegi'u syniadau yn ddigon clir. Yn ogystal, nid yw athrawon yn nodi gwendidau yn ysgrifennu disgyblion yn ddigon manwl.

Yn yr ysgolion sy'n fwyaf llwyddiannus o ran datblygu medrau llythrennedd disgyblion, ceir strategaeth ysgol gyfan a ddeellir yn glir ac a gydlynir ar gyfer gwneud hynny. Mae'r ysgolion hyn wedi ymgorffori'r agweddau llythrennedd o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (Llywodraeth Cymru, 2013) i'w cynllunio a'u haddysgu. Mae arweinwyr yn sicrhau ymagwedd systematig at ddatblygu llythrennedd ar draws y cwricwlwm ac yn adolygu'r ymagwedd hon yn gyson, gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth uniongyrchol i werthuso safonau disgyblion. Mae hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn galluogi'r ysgolion i nodi'n union agweddau penodol ar ddarpariaeth llythrennedd y mae angen eu gwella. Mae hyn yn helpu'r ysgolion hyn i sicrhau bod profiadau dysgu yn cynnig lefel her addas o uchel i'r holl ddisgyblion ddatblygu'u llythrennedd wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Yn gynyddol, wrth ymateb i ddatblygiadau Cwricwlwm Cymru, mae ysgolion cynradd yn defnyddio ystod eang o gyd-destunau go iawn a dychmygus difyr i ddatblygu neu ymestyn medrau gwrando, siarad, darllen, ac ysgrifennu disgyblion. Mae athrawon sydd â dealltwriaeth gryf o'r modd y mae plant yn datblygu iaith yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth drylwyr o ddiben, cynulleidfa fwriadedig, strwythur a nodweddion iaith ffurfiau gwahanol o destunau ysgrifenedig a lleferydd. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn defnyddio'r ffurfiau gwahanol hyn yn eu sesiynau iaith ac yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau yn annibynnol y tu allan i sesiynau iaith. Mae cynnydd wrth ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n medrau llythrennedd disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn parhau'n arafach o lawer.

[05] Gweler Atodiad 2 ar gyfer ein dadansoddiad o'r canlyniadau PISA diweddaraf. Mae canlyniadau PISA ar gyfer Cymru ar gael yma: https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/achievement-15-year-olds-program-international-student-assessment-pisa-national-report-2018_0.pdf

# Datblygu medrau

Lle mae'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd yn effeithiol, mae arweinwyr yn sicrhau bod athrawon a staff cymorth yn cael mynediad i ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar agweddau technegol ar ddysgu iaith ac ar sut i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion yn gynyddol. Mae hyn yn cynnwys sut i ddatblygu geirfa ac ymwybyddiaeth ffonolegol disgyblion yn y blynyddoedd cynnar, a'u defnydd o resymu a dod i gasgliad er mwyn deall amrywiaeth o destunau yn y cyfnod uwchradd. Yn yr ysgolion hyn, mae staff â gwybodaeth arbenigol yn aml yn rhannu'u harbenigedd o fewn eu hysgolion eu hunain a gydag eraill. Mae ysgolion sy'n fwyaf effeithiol o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn caffael iaith yn darparu addysgu a dysgu eithriadol sy'n bodloni anghenion disgyblion unigol. Maent yn dewis yr ymyriadau a ddefnyddiant yn ofalus, yn defnyddio ymchwil yn briodol i lywio'u harfer, ac yn monitro cynnydd disgyblion yn fanwl.

Mewn ysgolion lle nad eir i'r afael yn ddigon da â diffygion ym medrau llythrennedd disgyblion, mae hyn yn aml oherwydd nad yw arweinwyr yn hyrwyddo ymagwedd gydlynus at ddatblygu llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Nid yw athrawon yn adeiladu ar beth mae disgybl wedi'i gyflawni'n flaenorol i gynllunio gweithgareddau llythrennedd sy'n herio'r disgyblion i ddatblygu'r medr ymhellach neu i gymhwyso'r medr mewn cyd-destun gwahanol. Yn rhy aml, mae disgyblion yn cwblhau gweithgareddau lefel isel nad ydynt yn eu galluogi i gymhwyso'u medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm ar y lefel o fewn eu cyrraedd. Nid yw creu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llythrennedd ond heb ymyrraeth glir gan athro, yn helpu disgyblion i ddatblygu'u medrau, ac yn y rhan fwyaf o achosion, mae ond yn eu galluogi i ymarfer yr hyn y gallant ei wneud yn barod. Mae arweinwyr yn monitro agweddau generig ar addysgu ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar agweddau ar addysgu iaith sy'n benodol i bwnc. Mae hyn yn golygu nad yw arweinwyr yn nodi anghenion dysgu proffesiynol athrawon ac ychydig o effaith a geir ar lythrennedd disgyblion.

## Datblygu medrau rhifedd

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd wedi gwella ychydig. Mae'n dda o leiaf mewn rhyw wyth o bob deg ysgol gynradd a bron hanner yr ysgolion uwchradd.[6]

Mewn lleoliadau nas cynhelir ac mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn, mae plant yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda pan gânt ddigon o gyfleoedd cyfoethog i ddefnyddio'r medrau y maent wedi'u dysgu yn eu chwarae annibynnol. Maent yn dysgu cyfrif trwy ganu caneuon a rhigymau rhif, a defnyddiant rifau mewn cyd-destunau dyddiol cyfarwydd, fel cyfrif faint o blant sy'n bresennol neu faint o blatiau sydd eu hangen ar gyfer amser byrbryd. Lle mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, mae ymarferwyr yn hyrwyddo cyfleoedd i'r eithaf i blant ddefnyddio rhifau mewn cyd-destunau go iawn a defnyddiant iaith fathemategol gywir wrth siarad â phlant am eu chwarae. Er enghraifft, maent yn siarad am y meintiau dillad mwyaf a lleiaf wrth ddidoli'r golch ar gyfer y tair arth. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd diddorol i blant edrych ar batrymau a siapiau a siarad amdanynt, ac i greu patrymau ailadroddus yn eu chwarae annibynnol.

[06] I gael mwy o fanylion am safonau mewn rhifedd, gweler yr adrannau sector yr adroddiad hwn.

# Datblygu medrau

Yn yr ysgolion gorau, mae arweinwyr yn sicrhau bod cynllunio ar gyfer datblygiad cynyddol medrau rhifedd disgyblion yn flaenoriaeth ysgol gyfan. Maent yn cynllunio darpariaeth yn systematig fel bod disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau rhifedd o flwyddyn i flwyddyn ac ar adegau pontio allweddol, fel pan fydd disgyblion yn symud rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn darparu gweithgareddau gwerthfawr i ddisgyblion sy'n mynnu bod disgyblion yn cymhwyso'r medrau rhifiadol y maent yn eu dysgu mewn gwersi mathemateg mewn amrywiaeth o feysydd pwnc eraill. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio'u gwybodaeth am graffiau i ddewis y graff mwyaf priodol i arddangos canlyniadau eu harbrofion gwyddoniaeth, gan ddadansoddi eu canlyniadau er mwyn llunio casgliadau. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn defnyddio'r agweddau rhifedd ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (Llywodraeth Cymru, 2013) a'u gwybodaeth am allu disgyblion unigol i sicrhau bod y cyfleoedd maent yn eu darparu yn briodol o heriol i'r holl ddisgyblion. Yn yr ysgolion gorau, mae athrawon dosbarth yn gweithio mewn partneriaeth â'r cydlynydd rhifedd neu arbenigwr mathemateg i sicrhau bod y cyfleoedd a ddarperir yn cyfoethogi'r pwnc a'u bod ar lefel briodol o her.

Mae llawer o ysgolion yn darparu'r profiadau angenrheidiol i ddisgyblion mewn sesiynau mathemateg i ddysgu'r ffeithiau mathemategol sylfaenol y mae eu hangen arnynt i gefnogi'u dysgu yn llinynnau rhif, mesur a dadansoddi data y Fframwaith Rhifedd. Yn yr ysgolion gorau, mae athrawon mathemateg yn sicrhau bod disgyblion o bob oed yn datblygu dealltwriaeth ddofn o gysyniadau mathemategol, ynghyd â strategaethau ymarferol sy'n eu galluogi i gymhwyso'u medrau rhifedd mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm. Maent yn nodi camsyniadau yn nealltwriaeth disgyblion ac yn ymyrryd mewn modd amserol. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu'u medrau rhesymu rhifiadol a datrys problemau.

Mae arweinwyr yn yr ysgolion gorau yn defnyddio data ochr yn ochr â thystiolaeth uniongyrchol arall o arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion a thrafodaethau gyda disgyblion i werthuso ansawdd y ddarpariaeth rhifedd. Maent yn cefnogi staff trwy ddarparu ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol iddynt er mwyn gwella'u medrau. Ceir cyfleoedd rheolaidd i drafod a chytuno ar fethodolegau addas ar gyfer addysgu rhifedd. Maent yn aml yn trefnu cyfleoedd i staff arsylwi a rhannu arfer effeithiol, yn eu hysgol eu hunain neu yn rhywle arall. Pan fydd arweinwyr yn gweld addysgu aneffeithiol, maent yn annog ac yn cefnogi'u staff i ddatblygu'r medrau priodol ac yn sicrhau eu bod yn gwella'u dealltwriaeth o'r pwnc.

Mae systemau effeithiol gan lawer o ysgolion ar gyfer monitro cynnydd disgyblion mewn rhifedd. Gwnânt ddefnydd da o'r wybodaeth hon i nodi'r disgyblion hynny â medrau rhifedd gwan ac maent yn cynllunio ymyriadau sy'n eu helpu i wneud cynnydd.

Mewn ychydig o ysgolion cynradd ac oddeutu hanner yr ysgolion uwchradd, mae gwendidau yn y ddarpariaeth ar gyfer rhifedd. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn colli cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd mewn sefyllfaoedd go iawn neu mewn meysydd dysgu eraill o'r cwricwlwm. Yn aml, mae cyflwyno rhifedd i feysydd dysgu eraill yn brin ac ar lefel is o lawer nag y mae disgyblion yn gallu eu cymhwyso mewn gwersi mathemateg. Mewn ychydig o'r dosbarthiadau lleiaf llwyddiannus, nid yw'r medrau gan athrawon i

addysgu mathemateg na'r agwedd rhifedd ar eu pwnc. Gan mwyaf, maent yn addysgu agweddau ar fathemateg y maent yn gyfforddus â nhw ac nid ydynt yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u rhifedd y tu allan i sesiynau mathemateg. Yn aml, ni ddangoswyd i'r athrawon hyn sut i gynllunio tasgau sy'n annog disgyblion i ddefnyddio'u medrau mathemategol mewn meysydd dysgu eraill. Mewn ychydig iawn o achosion, mae athrawon yn addysgu cysyniadau mathemategol yn anghywir.

Am y tro cyntaf, nid oedd perfformiad Cymru mewn mathemateg yn y prawf PISA diweddaraf yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer yr holl wledydd (Sizmur et al., 2019). Mae'r gwelliant mewn mathemateg yn dilyn strategaethau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod o godi safonau disgyblion mewn mathemateg:

- y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn 2013
- profion rhesymu rhifiadol ym Mai 2014
- TGAUau newydd mewn mathemateg a mathemateg-rhifedd ar gyfer eu haddysgu gyntaf ym Medi 2015

Mae'r cymwysterau TGAU mathemateg a mathemateg rhifedd newydd yn gofyn bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth ddofn o gysyniadau mathemategol, eu bod yn gallu rhesymu'n fathemategol, a datrys problemau sydd wedi'u gosod mewn cyd-destun. Hefyd, mae'r medrau hyn yn ganolog i faes mathemateg fframwaith PISA.

## Datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a chymhwysedd digidol

Mae safonau medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda neu'n well mewn rhyw bedair o bob deg ysgol gynradd a chwarter o ysgolion uwchradd. Er bod safonau wedi gwella ychydig dros y tair blynedd diwethaf, maent yn dal yn is o lawer nag ar gyfer llythrennedd neu rifedd. I gael rhagor o fanylion, gweler yr adroddiadau rydym wedi'u cyhoeddi ar sut mae ysgolion yn datblygu medrau TGCh ar draws y cwricwlwm (Estyn 2013, 2014, 2017b, 2018e).[7]

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio medrau TGCh sylfaenol yn fedrus i ymchwilio i ffeithiau, ac i adalw a chyflwyno gwybodaeth. Mae llawer o ddisgyblion cynradd yn cymhwyso'u medrau TGCh ochr yn ochr â'u medrau creadigol, er enghraifft wrth ddefnyddio sgriniau gwyrdd i greu fideos ac animeiddiadau difyr. Mae llawer o ysgolion cynradd yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion i ymholi a chreu eu cronfeydd data eu hunain. Mewn ychydig iawn o enghreifftiau rhagorol, mae disgyblion yn deall y gall meysydd data ddal gwahanol fathau o wybodaeth a defnyddiant hyn i wirio dilysrwydd y data a gaiff ei adalw. Mae'r mwyafrif o ysgolion cynradd yn cyflwyno codio syml, ac mae medrau codio disgyblion yn datblygu'n dda, wrth iddynt ddysgu dyfalbarhau a deall pwysigrwydd bod yn fanwl gywir wrth ddatblygu

[7] Rydym yn arolygu safonau medrau TGCh ar hyn o bryd, am fod TGCh yn rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol presennol. Cymhwysedd digidol yw'r 'set o sgiliau, gwybodaeth ac agweddau i alluogi'r defnydd hyderus, creadigol a beirniadol o dechnolegau a systemau' (Llywodraeth Cymru, 2018b, tud 1). Mae cymhwysedd digidol yn gyfrifoldeb trawsgwricwlaidd sy'n wahanol i TGCh, ac mae'n anstatudol ar hyn o bryd. Bydd Cwricwlwm newydd Cymru yn cyflwyno cymhwysedd digidol fel medr trawsgwricwlaidd gorfodol a fydd yn eistedd ochr yn ochr â llythrennedd a rhifedd. Mae'r cwricwlwm newydd yn cynnwys Gwyddoniaeth a Thechnoleg fel Maes Dysgu a Phrofiad, ac o fewn hwnnw, bydd gofynion cwricwlwm penodol ar gyfer cyfrifiadura. Mae rhagor o wybodaeth am y gwahaniaeth rhwng TGCh a chymhwysedd digidol i'w chael gan Lywodraeth Cymru: https://hwb.gov.wales/storage/d5a657fd-47bd-46e4-bb0b-bfbbec1ad8d9/fframwaith-cymhwysedd-digidol-atebion-i-ch-cwestiynau.pdf

algorithmau.  Er bod gwelliant mewn medrau trin data a modelu mewn ysgolion cynradd, mae'n ddyddiau cynnar o hyd o ran datblygu'r rhain mewn llawer o ysgolion.  Mae hyn yn rhwystro datblygiad medrau meddwl a datrys problemau disgyblion, a chymhwyso'u medrau rhif lefel uwch.

Nid yw llawer o ysgolion uwchradd yn darparu digon o gyfleoedd heriol i ddisgyblion gymhwyso a datblygu'u medrau TGCh ar draws y cwricwlwm.  Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn aml yn copïo gwybodaeth o wefannau heb ei chrynhoi yn eu geiriau eu hunain na'i had-drefnu wrth baratoi ar gyfer cyflwyniad.  Mewn llawer o ysgolion uwchradd, mae disgyblion yn tueddu defnyddio medrau prosesu geiriau a chyflwyno sylfaenol yn unig y tu allan i wersi TGCh ffurfiol, a braidd mae safon y gwaith yn well nag ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.  Mae ychydig o ysgolion uwchradd yn gwneud cynnydd da, fel y nodwyd yn yr astudiaethau achos yn 'Paratoi ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol' gan Estyn (2018e).

Mae safonau gwael yn y defnydd o TGCh ar draws y cwricwlwm mewn llawer o ysgolion uwchradd, ynghyd â gwendidau mynych mewn lleiafrif o ysgolion cynradd, yn awgrymu nad yw arweinwyr ysgol wedi defnyddio'r ddwy flynedd ers y gwnaed y fframwaith cymhwysedd digidol (FfCD) ar gael yn ddigon da i baratoi ar gyfer ei roi ar waith.  Nid oes digon o athrawon, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, wedi derbyn hyfforddiant i'w galluogi i roi'r FfCD ar waith yn hyderus.  Ar y llaw arall, bu twf nodedig yng nghyfran y staff a disgyblion sy'n defnyddio llwyfan dysgu yn dda.  Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio'r llwyfan dysgu Hwb a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, ac mae llawer yn ei ddefnyddio i gael mynediad at adnoddau digidol, i gydweithio ar dasgau a chadw eu gwaith.

Mae ychydig o arweinwyr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn newid iaith ryngwyneb meddalwedd cyfrifiadur allweddol i'r Gymraeg, sy'n atgyfnerthu bod y Gymraeg yn rhan naturiol o'r byd digidol.  Mewn arfer orau arall, mae ysgol uwchradd yn defnyddio arbenigedd pwnc ei staff i hyfforddi ac uwchsgilio staff yn ei hysgol gynradd bartner wrth greu fideos.

**PISA**

Gallwch ddarllen mwy am ein barn am ganlyniadau PISA mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth yn Atodiad 2.

# Proffesiwn addysg ansawdd uchel

## Addysgu

Mae ‘Dyfodol Llwyddiannus’ (Donaldson, 2015) yn nodi 12 o egwyddorion addysgegol addysgu a dysgu da y mae angen i ysgolion eu hystyried wrth iddynt benderfynu sut i wireddu Cwricwlwm newydd Cymru:

**Ffigur 1: Mae addysgu a dysgu da yn:**

- canolbwyntio’n gyson ar ddibenion cyffredinol y cwricwlwm
- rhoi her i’r holl ddysgwyr drwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrechu’n barhaus i gwrdd â disgwyliadau sy’n uchel ond o fewn eu cyrraedd
- galw am ddefnyddio cymysgedd o ddulliau sy’n cynnwys addysgu uniongyrchol
- golygu defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy’n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a’r gallu i feddwl mewn modd beirniadol
- golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy’n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb
- creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu
- golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu
- ymestyn oddi mewn ac ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad
- cryfhau y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd yn gyson, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, ac yn darparu cyfleoedd i’w hymarfer
- cymell plant a phobl ifanc i gymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu dysgu eu hunain
- hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol
- hybu cydweithio

(Estyn, 2018c, tud.6)

# Proffesiwn addysg ansawdd uchel

Lle mae ysgolion yn llwyddiannus wrth wella ansawdd addysgu a meithin gallu addysgu i'r dyfodol, maent yn adeiladu diwylliant o gydweithio ac ymddiriedaeth sy'n annog staff i werthuso'u harfer eu hunain yn onest. Maent yn hyrwyddo ethos lle mae athrawon yn dysgu oddi wrth ei gilydd ac yn siarad yn agored am y cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn eu harfer eu hunain ac arfer eu cydweithwyr. Yn yr ysgolion sy'n fwyaf llwyddiannus, mae arweinwyr yn annog athrawon i gymryd risgiau rhesymol ac arbrofi â dulliau gwahanol, gan bwysleisio effaith newidiadau ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion. Maent yn sicrhau bod monitro ansawdd addysgu yn canolbwyntio ar sut mae dysgwyr yn gwneud cynnydd dros gyfnod, ac nid ydynt yn llunio barnau gor-syml ynglŷn ag ansawdd addysgu drwy raddio gwersi unigol. Mewn ysgolion gwannach, nid yw arweinwyr yn sicrhau ymagwedd strategol at ddatblygu addysgu ac nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd i staff drafod cryfderau a gwendidau addysgu yn eu hysgol.

Mae llawer o athrawon, yn enwedig yn y sector cynradd, yn mynd yn fwy myfyriol wrth iddynt weithio gyda chydweithwyr yn eu hysgol eu hunain ac mewn ysgolion eraill i archwilio eu harfer broffesiynol. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae athrawon yn ymgysylltu â thystiolaeth ymchwil i lywio'u harfer. Lle mae hyn yn fwyaf llwyddiannus, maent yn nodi angen penodol o fewn eu harfer eu hunain neu arfer eu hysgolion, ac yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth ymchwil i adnabod yr ateb mwyaf priodol. Yn yr achosion gorau, maent yn addasu'r ymagwedd awgrymedig i gyfateb i gyd-destun penodol eu hysgol. Mewn gormod o achosion, fodd bynnag, mae ysgolion yn ymgysylltu ag ymchwil ar lefel rhy arwynebol ac nid ydynt yn canolbwyntio ar b'un a yw ymagweddau newydd at addysgu ac addysgeg yn arwain at welliannau mewn safonau neu les ar gyfer disgyblion.

Mae ansawdd addysgu yn dda neu'n well mewn rhyw wyth o bob deg o leoliadau nas cynhelir, tua thri chwarter o ysgolion cynradd, a thua hanner yr ysgolion uwchradd. Mae'r canfyddiadau hyn yn dynodi anghysondeb o ran ansawdd ac ymagweddau at addysgu wrth i ddisgyblion symud drwy'r cyfnodau addysg amrywiol. Er enghraifft, yn y lleoliadau nas cynhelir mwyaf effeithiol, mae ymarferwyr yn defnyddio technegau i ddatblygu medrau plant fel dysgwyr annibynnol. Maent yn gweithredu egwyddorion y cyfnod sylfaen i sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i ddewis adnoddau, datrys problemau a datblygu medrau cydweithio. Mewn llawer o ysgolion cynradd, mae athrawon yn adeiladu ar y medrau hyn, gan greu cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar lwyddiant eu dysgu a chyfrannu eu syniadau eu hunain i wersi a thestunau. Mewn llawer o ysgolion uwchradd, caiff disgyblion gyfleoedd mwy cyfyngedig i ddatblygu'u medrau fel dysgwyr myfyriol ac annibynnol. Wrth i ddisgyblion symud i mewn i gyfnod allweddol 3, nid yw'r addysgu yn aml yn adeiladu digon ar gyflawniadau disgyblion ar ddiwedd yr ysgol gynradd, ac nid yw disgwyliadau athrawon o allu disgyblion yn ddigon uchel, ac nid yw tasgau yn ddigon heriol, yn enwedig i'r rhai mwy abl.

# Proffesiwn addysg ansawdd uchel

Mae mwy o ysgolion bellach yn defnyddio ffyrdd arloesol i ddatblygu medrau disgyblion. Mae hyn yn arbennig o gyffredin yn y cyfnod sylfaen, ond mae'n dod yn fwy amlwg yng nghyfnod allweddol 2 hefyd. Er enghraifft, mewn lleiafrif o ysgolion, mae athrawon yn plethu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh drwy'r cwricwlwm gan ddefnyddio elfennau creadigol, fel dawns, celf a barddoniaeth. Mewn ychydig o achosion, mae ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd i rannu arbenigedd ar sut i ddefnyddio'r celfyddydau mynegiannol i ddatblygu medrau disgyblion. Mae hyn yn digwydd yn arbennig mewn ysgolion pob oed ac mewn clystyrau lle mae arbenigedd uwchradd, er enghraifft mewn drama a chelf, yn cael ei rannu gyda chydweithwyr cynradd.

Yn gynyddol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu a sut. Yn yr achosion gorau, mae disgyblion a staff yn cydweithio ar beth yr hoffent ei ddysgu er mwyn llywio'r themâu y bydd y dosbarth yn eu hastudio. Mewn ychydig o ysgolion cynradd, mae athrawon yn gweithio gyda disgyblion i nodi'r medrau y byddant yn eu dysgu ac yn cynllunio gweithgareddau o amgylch y rhain. Fodd bynnag, mae defnyddio technegau asesu i ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu a sicrhau ei fod yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae disgyblion eisoes yn ei wybod, yn parhau'n gyfyngedig. Yn y sector uwchradd, mae'r technegau hyn, pan gânt eu defnyddio, yn aneffeithiol yn aml, yn enwedig y defnydd o asesiadau cyfoedion neu hunanasesu ar gyfer tasgau lle byddai disgyblion yn elwa mwy o gael adborth arbenigol gan eu hathro.

Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae athrawon yn mabwysiadu dull strategol o roi adborth i ddisgyblion ac nid ydynt yn teimlo'r angen i ddarparu sylwadau ysgrifenedig manwl ar bob darn o waith. Yn hytrach, maent yn rhoi blaenoriaeth i agweddau ar waith disgyblion lle byddai adborth ysgrifenedig yn fwyaf cynhyrchiol, ac yn cydbwyso hyn â dulliau eraill, fel adborth llafar sy'n mynd i'r afael â chamsyniadau cyffredin ymhlith grwpiau disgyblion penodol. Mewn gormod o ysgolion, nid yw adborth yn cynorthwyo disgyblion i wella eu medrau. Yn aml, mae hyn oherwydd nad yw athrawon yn darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ymateb i'r adborth neu ymarfer y medrau sy'n angenrheidiol i sicrhau'r gwelliannau.

# Proffesiwn addysg ansawdd uchel

## Staff cymorth

Mae staff cymorth yn cynrychioli rhyw hanner y gweithlu ysgol. Cynorthwywyr addysgu cyffredinol yw tua hanner y staff cymorth, mae rhyw ddau o bob deg yn gynorthwywyr addysgu sy'n cynorthwyo disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig, a chyflogir y gweddill mewn amrywiaeth o rolau, fel y dangosir yn ffigur 2 isod (StatsCymru, 2019l).



**Ffigur 2: Staff cymorth mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, yn ôl categori, 2018-2019**

**51%**
Cynorthwywyr Addysgu (a)

**20%**
Staff cymorth anghenion arbennig

**8%**
Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch

**14%**
Staff gweinyddol

**3%**
Staff cymorth bugeiliol

**4%**
Staff cymorth eraill (c)

**(a) yn cynnwys cynorthwywyr ieithoedd tramor**

**(b) yn cynnwys swyddogion arholiadau, rheolwyr busnes ysgolion a staff gweinyddol eraill**

**(c) yn cynnwys technegwyr, gofal plant, nyrsys, staff meddygol a staff llyfrgell**

Cyflogir ychydig dros dri chwarter o gynorthwywyr addysgu mewn ysgolion cynradd, tra cyflogir cynorthwywyr cymorth anghenion arbennig yn fwy cyfartal ar draws ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd (StatsCymru, 2019l). Mae nifer y staff cymorth â statws Cynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch a ddefnyddir yn y rôl honno yn parhau i gynyddu (StatsCymru, 2019l).

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio cynorthwywyr addysgu i gefnogi cynnydd unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn defnyddio'r ymarferwyr ychwanegol hyn yn dda i wella darpariaeth y cyfnod sylfaen. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r ymarferwyr hyn yn defnyddio'u harbenigedd i ymateb i anghenion disgyblion ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o ba bryd a sut i ymyrryd yn nysgu disgyblion. Mae'r ymyriadau hyn yn helpu annog datblygu gwydnwch ac annibyniaeth disgyblion. Fodd bynnag, yn aml, mae cynorthwywyr addysgu yn gorgyfarwyddo gwaith disgyblion ac mae hyn yn rhwystro'u datblygiad fel dysgwyr annibynnol. Yn yr ysgolion gorau, mae cynorthwywyr addysgu yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at asesu cynnydd disgyblion yn barhaus, ac maent yn gweithio'n gynhyrchiol gydag athrawon i gynllunio gwersi a gweithgareddau.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae arweinwyr yn defnyddio cynorthwywyr addysgu i gefnogi cynnydd disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Mewn ysgolion uwchradd, dyma yw rôl graidd y rhan fwyaf o gynorthwywyr addysgu. Ym mron pob ysgol, mae hyn fel arfer yn cynnwys cyflwyno rhaglenni ymyrraeth i gynorthwyo disgyblion â bylchau penodol yn eu medrau neu i gynorthwyo disgyblion â heriau emosiynol ac ymddygiadol. Er enghraifft, mewn llawer o

# Proffesiwn addysg ansawdd uchel

ysgolion cynradd, mae cynorthwywyr addysgu yn cyflwyno cymorth lleferydd ac iaith i ddisgyblion iau sy'n eu galluogi i wneud cynnydd da â'u medrau cyfathrebu. Mewn llawer o achosion, mae ysgolion yn defnyddio cyllid grant yn briodol i ddarparu cynorthwywyr addysgu ychwanegol i gefnogi anghenion dysgwyr sy'n agored i niwed, er nad yw arweinwyr, yn gyffredinol, yn gwerthuso effaith y cyllid hwn.

## Dysgu proffesiynol

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno strategaethau ar gyfer gwella ansawdd addysgu a dysgu, ac ar gyfer helpu ymarferwyr i ddatblygu'u harfer trwy gydol eu gyrfaoedd. Y nod yw meithrin gallu a chael gwared ar amrywiadau mewn ansawdd o fewn ysgolion a rhwng ysgolion. Mae diwygiadau addysg presennol yn seiliedig ar fodel o hunanwella a gweithio rhwng ysgolion. Mae hyn yn golygu, yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, fod arweinwyr ac athrawon yn cymryd cyfrifoldeb am eu datblygiad eu hunain a datblygiad eu cymheiriaid. Caiff yr ymagwedd hunanwella hon ei harwain gan yr ysgol, a'i chydbwyso gan gymorth gan awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru. Yn ddiweddar, mae dysgu proffesiynol yn cael ei lywio'n well hefyd gan ymchwil berthnasol. Mae'r arweinwyr ysgol gorau yn chwilio am dystiolaeth fod arloesi arfaethedig yn debygol o gael buddion i athrawon a disgyblion, ac yn defnyddio tystiolaeth ymchwil bresennol ac ymchwil weithredu i lywio penderfyniadau.

Ar ei orau, caiff dysgu proffesiynol ei deilwra i bob ysgol ac mae'n ymateb i anghenion staff fel unigolion a grwpiau. Mae dysgu proffesiynol ar gael i athrawon ar bob cam o'u gyrfa ac mae'n cefnogi datblygiad athrawon yn gynyddol. Mae diwylliant dysgu proffesiynol yn annog a hyrwyddo cylch parhaus o wella. Mae athrawon ac arweinwyr yn defnyddio cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol i fyfyrio ar eu harfer a'i datblygu. Caiff y cyfleoedd hyn eu hailystyried a'u gwerthuso i sicrhau eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar arfer yn yr ystafell ddosbarth. Yr arfer leiaf effeithiol yw pan fydd ysgolion ond yn buddsoddi'n sylweddol mewn dysgu proffesiynol ar gyfnod penodol mewn gyrfa athro, fel adeg mynediad i'r proffesiwn neu flynyddoedd cynnar ymarfer, neu pan fydd athrawon yn cael anhawster (Cordingley, 2013).

Lle mae arweinyddiaeth dysgu proffesiynol yn effeithiol, ceir ffocws clir ar wella addysgu a'i effaith ar gynnydd disgyblion. Mae meysydd allweddol eraill sy'n cyfrannu at ddysgu proffesiynol llwyddiannus ac addysgeg yn cynnwys:

- creu'r diwylliant a'r amodau cywir ar gyfer dysgu proffesiynol
- meithrin perthnasoedd proffesiynol cydweithredol a chefnogol o fewn ysgolion a rhwng ysgolion
- cael polisi ystafell ddosbarth agored sy'n annog arsylwi cymheiriaid
- creu amser pwrpasol i staff ymgysylltu â thystiolaeth ymchwil a gwneud eu hymchwil weithredu eu hunain
- defnyddio data a thechnolegau newydd fel ysgogwyr ar gyfer gwella ac arloesi
- gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth dysgu proffesiynol yn rheolaidd o fewn prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ehangach
- defnyddio diwrnodau datblygiad proffesiynol fel cyfleoedd strategol i archwilio mentrau pellach mewn addysgu a dysgu
- dysgu sut i arwain dysgu proffesiynol a datblygiad staff

# Proffesiwn addysg ansawdd uchel

Mae arweinwyr cryf yn adnabod eu staff yn dda ac yn deall lefel ymarfer gyfredol athrawon unigol a'r camau nesaf sydd eu hangen ar gyfer eu datblygiad. O ganlyniad i'r wybodaeth sylfaenol hon, mae ymagwedd gynlluniedig a phwrpasol at ddysgu proffesiynol yn bosibl, gan ddefnyddio ystod o weithgareddau gwahanol wedi'u teilwra i lwybr gyrfa a blaenoriaethau gwella'r unigolyn. Mae athrawon yn datblygu orau pan fydd arweinwyr yn eu galluogi i "feiddio arbrofi" drwy werthfawrogi'r staff hynny sy'n cymryd 'risgiau' ystyriol (OECD, 2016, tud.5). Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn ymddiried mewn staff i wneud dewisiadau proffesiynol ac yn eu hannog i fod yn agored eu meddwl. Maent yn cefnogi staff i fynd i'r afael â'u harfer yn wahanol trwy gymryd problemau fel cyfleoedd i ddysgu. Mae hyn yn annog staff i feddwl yn feirniadol am eu harfer.

Mewn ysgolion effeithiol, mae arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddysgu proffesiynol ar gyfer staff cymorth. Maent yn darparu cyfleoedd i gynorthwywyr addysgu i arsylwi arfer dda yn eu hysgolion eu hunain ac ysgolion eraill. Maent yn hwyluso rhannu arfer dda, er enghraifft galluogi staff sydd â medrau mewn technoleg 'sgrin werdd' i rannu'r rhain gyda chydweithwyr. Maent yn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer adolygu perfformiad ar waith i alluogi staff i fyfyrio ar eu harfer a gweithio gydag arweinwyr i nodi'u cryfderau a meysydd i'w gwella. Mewn ysgolion lle mae arweinyddiaeth yn fwyaf effeithiol, mae arweinwyr yn sicrhau bod staff cymorth yn chwarae rhan lawn mewn gweithgareddau hunanwerthuso a gwella, ac yn ystyried eu barnau'n weithredol. Er enghraifft, yn Ysgol Gynradd Cogan, mae cynorthwywyr addysgu yn cyfranogi mewn trafodaethau gydag arweinwyr, athrawon eraill a disgyblion fel ffynhonnell anffurfiol i fonitro darpariaeth yr ysgol a'i heffaith ar safonau.

Lle mae dysgu proffesiynol yn llai effeithiol a lle nad yw'n cael effaith ar waith yr ysgol, yn aml nid yw gweithgareddau dysgu proffesiynol yn cael eu cynllunio'n strategol. O ganlyniad, mae gweithgareddau yn ddigyswllt yn aml ac nid ydynt yn cyfateb i anghenion gwella'r ysgol na'r unigolyn. Yn yr achosion hyn, nid yw arweinwyr yn defnyddio prosesau hunanwerthuso i nodi agweddau allweddol sy'n angen cymorth. Mewn ysgolion llai effeithiol, mae arweinwyr yn mabwysiadu ymagwedd gyffredinol at ddysgu proffesiynol, ni waeth am unrhyw anghenion unigol.


## Recriwtio a chadw athrawon

At ei gilydd, mae cyfraddau cadw athrawon yng Nghymru wedi aros yn sefydlog dros y pum mlynedd diwethaf. Yn nodweddiadol, mae tua 3% o athrawon yn gadael y proffesiwn bob blwyddyn (StatsCymru, 2019n). Mae cyfran yr athrawon sy'n parhau yn y proffesiwn addysgu yng Nghymru yn cymharu'n ffafriol â'r gyfradd yn Lloegr, lle mae canran yr athrawon sy'n gadael y proffesiwn wedi parhau tua 10% y flwyddyn dros yr un cyfnod (Yr Adran Addysg, 2019).

Er hynny, dros y pum mlynedd diwethaf, bu gostyngiad cyson yn nifer yr athrawon yng Nghymru. Yn ystod yr un cyfnod, hyd at 2018, mae nifer y disgyblion oedran ysgol gynradd wedi cynyddu, tra bod niferoedd disgyblion oedran ysgol uwchradd wedi gostwng. Fe wnaeth y ddwy duedd wrthdroi yn 2019 (gweler ffigur 3 isod).

# Proffesiwn addysg ansawdd uchel


**Ffigur 3: Nifer yr athrawon cymwysedig cyfwerth ag amser llawn mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed yng Nghymru, 2014 i 2019**




(StatsCymru, 2019o).

Bydd y niferoedd disgyblion mewn ysgolion uwchradd a'r cyfnod uwchradd mewn ysgolion pob oed yn cynyddu ymhellach dros y pum mlynedd nesaf wrth i niferoedd uwch o ddisgyblion ddod drwodd o ysgolion cynradd (StatsCymru, 2019k).

**Ffigur 4: Nifer y disgyblion mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, 2013-2014 hyd 2018-2019**





(StatsCymru, 2019k)

# Proffesiwn addysg ansawdd uchel

Bu gostyngiad yn nifer y myfyrwyr sy'n cael eu recriwtio i raglenni addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru, fel mewn gwledydd eraill. Mae recriwtio i raglenni cynradd wedi gostwng ryw 10% yn y pum mlynedd diwethaf, ac mae'r recriwtio i raglenni uwchradd wedi gostwng 40% dros yr un cyfnod (StatsCymru, 2019d). O fewn y gostyngiad cyffredinol hwn, mae nifer o bynciau wedi gweld recriwtio'n disgyn 50% neu fwy, yn cynnwys cemeg, TGCh, mathemateg, ieithoedd tramor modern, celf a ffiseg. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer recriwtio athrawon dan hyfforddiant yn dangos bod niferoedd wedi gostwng eto mewn rhyw hanner o'r pynciau (StatsCymru, 2019e).

Mae nifer y swyddi addysgu sydd wedi'u hysbysebu yn ysgolion Cymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi aros yn gymharol sefydlog (StatsCymru, 2019m). Mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gan ysgolion ar gyfer swyddi sy'n cael eu cynnig wedi gostwng yn gyffredinol (StatsCymru, 2019m). Ar gyfartaledd, mae ychydig dros ddwywaith gymaint o geisiadau am swyddi addysgu mewn ysgolion cynradd o gymharu ag ysgolion uwchradd (StatsCymru, 2019m). Dros y pum mlynedd diwethaf, mewn llawer o bynciau uwchradd, mae ysgolion yn derbyn llai na deg o geisiadau ar gyfer pob swydd ar gyfartaledd. (StatsCymru, 2019m). Mae ychydig o bynciau yn denu niferoedd isel iawn o ymgeiswyr. Dros y pum mlynedd diwethaf, derbyniwyd cyfartaledd o saith o geisiadau ar gyfer pob swydd a hysbysebwyd ar gyfer bioleg, a phump ar gyfer cemeg a ffiseg (StatsCymru, 2019m).




**Ffigur 5: Nifer gyfartalog o geisiadau fesul swydd addysgu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, 2014-2018**

Mae'r ffigurau hyn ar gyfer ysgolion ledled Cymru ac mae recriwtio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion gwledig, ac ysgolion mewn ardaloedd ag amddifadedd uchel, yn fwy heriol (StatsCymru, 2019m).

# Proffesiwn addysg ansawdd uchel

## Addysg gychwynnol i athrawon

Erbyn hyn, am y tro cyntaf, ceir ymagwedd genedlaethol at ddysgu proffesiynol â'r nod o greu model strwythuredig a fydd yn cael effaith ar addysgu, arweinyddiaeth a safonau. Mae'r dull integredig hwn sy'n gweld addysg gychwynnol i athrawon fel cam cychwynnol dysgu a datblygu gydol gyrfa i athrawon, a sefydlu arfer fyfyriol o'r cychwyn cyntaf, i'w chroesawu.

Mae addysg gychwynnol i athrawon wedi newid yn sylweddol yng Nghymru, gyda threfniadau achredu newydd ar gyfer rhaglenni sy'n pwysleisio pwysigrwydd ysgolion a phrifysgolion yn gweithio gyda'i gilydd (Llywodraeth Cymru, 2018a). Yn 2018, cynhaliodd Estyn arolwg thematig 'Y continwwm dysgu proffesiynol: mentora mewn addysg gychwynnol athrawon' (Estyn, 2018g). Nododd yr adroddiad hwn nodweddion da a meysydd i'w datblygu yn y ddarpariaeth cyn diwygio addysg gychwynnol i athrawon. Darparodd dystiolaeth i lywio'r rhaglenni newydd a ddechreuodd ym Medi 2019.

Mae darparwyr addysg gychwynnol i athrawon yn helpu athrawon dan hyfforddiant i drefnu'u myfyrdodau ysgrifenedig ar eu haddysgu drwy fframweithiau gwerthuso strwythuredig. Mae'r fframweithiau hyn yn helpu myfyrwyr i ystyried agweddau ar eu haddysgu nhw a dysgu disgyblion, ac i gynnig eu targedau eu hunain ar gyfer gwella. Gan fwyaf, fodd bynnag, nid yw myfyrwyr yn myfyrio'n ddigon beirniadol ar eu haddysgu nac ar eu cynnydd yn erbyn targedau yn y gwerthusiadau ysgrifenedig neu fel arall. Nid ydynt yn dangos tystiolaeth o feddwl dyfnach, fel gwneud cysylltiadau rhwng profiadau dysgu eraill, neu ddefnyddio canfyddiadau ymchwil neu waith darllen ehangach. Yn gyffredinol, nid yw myfyrwyr yn gwneud digon o gynnydd yn y medrau hyn dros gyfnod eu hyfforddiant cychwynnol. Ychydig iawn o fentoriaid sy'n trafod gwerthusiadau ysgrifenedig myfyrwyr, neu'n darparu adborth i helpu myfyrwyr i wella'r agwedd hon ar eu gwaith. Yn ogystal, mae llawer o fyfyrwyr yn ystyried eu gwerthusiadau ysgrifenedig fel tasg i'w chwblhau, yn hytrach nag fel offeryn i'w helpu i ddatblygu. Dim ond ychydig o fyfyrwyr sy'n gwneud cysylltiadau effeithiol rhwng eu gwerthusiadau o wersi a'u cynlluniau gwersi. Nid yw mwyafrif o fyfyrwyr yn sicrhau bod eu hamcanion dysgu sydd wedi'u cynllunio ar gyfer disgyblion yn disgrifio dysgu'n ddigon penodol. Mae hyn yn golygu nad yw gwerthusiadau o wersi yn dadansoddi pa mor llwyddiannus oedd eu strategaethau addysgu wedi'u cynllunio o ran helpu disgyblion.

Yn yr enghreifftiau gorau, mae mentoriaid yn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu'u medrau beirniadol a myfyriol drwy sgyrsiau dysgu sy'n cysylltu theori gydag arfer. Maent yn helpu myfyrwyr i adeiladu'r medrau sydd eu hangen arnynt ar gyfer cynllunio a gwerthuso trwy gyfeirio at ymchwil a'r modd y mae hyn yn cysylltu â phrofiad a chyd-destun. Fe wnaeth adroddiad thematig Estyn ar fentora mewn addysg gychwynnol i athrawon nodi bod gan fentoriaid effeithiol iawn "ddealltwriaeth dda o sut i gynyddu gwybodaeth a phrofiad myfyrwyr fesul tipyn, gan ddechrau gyda gweithgareddau dysgu â mwy o strwythur a chefnogaeth, a datblygu annibyniaeth, myfyrdod a medrau beirniadol myfyrwyr wrth iddynt ddod yn fwy profiadol" (2018g, tud.6). Mae'r mentoriaid hyn yn aml yn dilyn eu hastudiaethau addysg uwch eu hunain.

# Proffesiwn addysg ansawdd uchel

Mae ysgolion lle mae mentora yn effeithiol yn cynnwys eu myfyrwyr yn llawn yn y gweithgareddau dysgu proffesiynol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol. Mae hyn yn rhoi delfryd o arfer dda mewn dysgu proffesiynol gydol gyrfa i fyfyrwyr, a darlun realistig o'r hyn y mae ysgolion da yn ei wneud. Mewn llawer o ysgolion, gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig sydd gan fentoriaid ac arweinwyr o'r ffyrdd y mae'r brifysgol yn datblygu medrau meddwl beirniadol a medrau myfyrio athrawon dan hyfforddiant. O ganlyniad, nid ydynt yn gwneud cysylltiadau â'r dysgu hwn i gefnogi'r athro dan hyfforddiant wrth ddatblygu'r agwedd hon ar ei arfer broffesiynol.

# Arweinwyr ysbrydolgar

## Arweinyddiaeth ysgolion

Mae arweinyddiaeth yn dda neu'n rhagorol mewn rhyw dri chwarter o ysgolion cynradd a rhyw hanner o ysgolion uwchradd. Mae arweinwyddiaeth ragorol mor gyffredin mewn ysgolion uwchradd ag ysgolion cynradd. Mae ysgolion uwchradd bron deirgwaith yn fwy tebygol nag ysgolion cynradd i fod ag arweinyddiaeth anfoddhaol.

Ar draws pob sector, mae'r arweinwyr gorau yn cefnogi gwelliant ysgolion a rhediad hwylus eu sefydliadau trwy ddosbarthu rolau a chyfrifoldebau yn fedrus a thrwy flaenoriaethu gwella addysgu a deilliannau ar gyfer disgyblion. Mae arweinwyr llwyddiannus yn arwain drwy esiampl ac yn meithrin ethos cryf o waith tîm yn eu hysgolion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion ac o gyflawniad a lles staff. Mae gweledigaeth glir gan yr arweinwyr hyn ar gyfer datblygiad yr ysgol, ac maent yn rhannu'r weledigaeth honno gyda disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr.


Mae arweinwyr ysgol llwyddiannus yn sicrhau bod gwella addysgu a dysgu yn ganolog i'w gwaith. Gwnânt yn siŵr bod staff yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol ac maent yn sefydlu diwylliant sy'n cefnogi datblygu medrau staff a medrau disgyblion. Maent yn meithrin diwylliant o arweinyddiaeth ar draws yr ysgol trwy ddarparu cyfleoedd i staff ymgymryd â chyfrifoldebau arwain go iawn. Mae gan lawer o ysgolion uwchradd llwyddiannus gynllun olyniaeth clir, ac yn aml maent yn 'tyfu' eu harweinwyr eu hunain.

Mae lles staff yn ffactor allweddol i gyflawni deilliannau da ar gyfer disgyblion. Mae arweinwyr llwyddiannus yn creu ac yn cynnal diwylliant lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi i ffynnu mewn amgylchedd sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar eu boddhad yn eu swydd. Mae arweinwyr effeithiol yn hyrwyddo lles staff. Er enghraifft, fe wnaeth Ysgol Gynradd Penllergaer, Abertawe, dalu i wasanaeth cwnsela ysgolion lleol ddarparu goruchwyliaeth broffesiynol reolaidd ar gyfer unrhyw aelod o staff a oedd yn dymuno cyfranogi. Roedd staff yn gallu rhannu'u teimladau a'u profiadau, a hefyd fe wnaethant ddysgu medrau i gefnogi'i gilydd. Erbyn hyn, mae'r ysgol yn cynnal ei goruchwyliaeth ei hun yn fewnol. Yn Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf, Caerdydd, mae'r tîm arwain yn dangos ei werthfawrogiad cryf o ymrwymiad staff trwy ddarparu lluniaeth yn ystod

amserau egwyl a threfnu profion MOT ar geir.  Mae hyn wedi arwain at dîm llawn cymhelliant sy'n amcanu at welliant parhaus.  Mae'r uwch dîm arwain yn Ysgol Uwchradd Caerdydd yn gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo lles staff hefyd, ac mae wedi datblygu siarter staff arloesol sydd â'r nod o wneud yr ysgol yn fan deniadol i weithio a dysgu.

Mae'r arweinwyr ysgol mwyaf llwyddiannus yn rheoli newid yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth ddofn o gyd-destun yr ysgol.  Maent yn cynllunio beth sydd orau i'w hysgol o ran diwygiadau ehangach, ac yn llywio'r modd y mae mentrau newydd yn perthnasu i'w gweledigaeth gyffredinol ar gyfer yr ysgol.  Maent yn gwarchod staff rhag cael eu gorlwytho ac oddi wrth fiwrocratiaeth ddiangen.  Maent yn tawelu argyfyngau ac yn lliniaru sefyllfaoedd emosiynol.  Mae'r arweinwyr hyn yn grymuso'u staff i arloesi ac maent yn barod i gymryd risgiau ystyriol wrth iddynt roi cynnig ar ymagweddau newydd.  Maent yn hyrwyddo trafodaeth broffesiynol gwrthrychol a beirniadol am effaith y newidiadau hyn.

**Ffigur 6: Ysgolion yng Nghymru yn gweithredu fel sefydliadau sy'n dysgu**




(Llywodraeth Cymru, 2018f)

# Arweinwyr ysbrydolgar

Yn gynyddol, mae arweinwyr llwyddiannus yn gweithio gydag ysgolion eraill i rannu a datblygu arfer dda. Maent yn ystwyth ac yn ymateb i faterion uniongyrchol yn greadigol ac yn gyflym. Ar yr un pryd, maent yn flaengar, yn rhagweld problemau, ac yn cynllunio ar gyfer y tymor hir heb fynd ar goll mewn busnes o ddydd i ddydd.

Mae'r arweinwyr mwyaf effeithiol yn sicrhau bod trefniadau sicrhau ansawdd cadarn ar waith i nodi cryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu. Maent yn sefydlu diwylliant agored o hunanwerthuso sy'n defnyddio ystod o dystiolaeth uniongyrchol a deilliannau disgyblion. Yn yr ysgolion hyn, mae'r holl staff yn gweld eu hunain fel rhan o'r broses hunanwerthuso a gwelliant parhaus yr ysgol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi hyrwyddo'r cysyniad o ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu. Mae'r model ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu yn cynnwys saith dimensiwn sy'n cipio nodweddion arweinyddiaeth ysgol ragorol a amlinellwyd uchod ac mae'n cael ei ddefnyddio'n gynyddol gan arweinwyr ysgol.

Lle mae'r arweinyddiaeth yn llai effeithiol, nid yw uwch arweinwyr yn canolbwyntio'u gwaith yn ddigon da ar yrru gwelliannau neu godi disgwyliadau, yn enwedig drwy wella addysgu a dysgu. Nid ydynt yn gwerthuso effeithiolrwydd addysgu o ran ei effaith ar ddysgu disgyblion yn ddigon da. Mewn ysgolion uwchradd gwannach, nid yw rôl arweinwyr canol wedi'i datblygu'n ddigonol yn aml. Nid yw arweinwyr canol yn cael digon o gyfleoedd i arwain mentrau, i werthuso deilliannau nac i nodi meysydd i'w datblygu ac i gynllunio ar gyfer gwelliant.

Yn yr ysgolion gorau, mae aelodau'r corff llywodraethol yn gweithio ochr yn ochr ag arweinwyr ysgol i ddarparu cyfeiriad strategol cryf ar gyfer gwaith yr ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau o amgylch yr ysgol sy'n eu helpu i gael cipolwg uniongyrchol ar ba mor dda mae'r ysgol yn bodloni ei blaenoriaethau. Defnyddiant ystod eang o dystiolaeth, yn ogystal â data perfformiad, i ddeall cryfderau'r ysgol a'r meysydd y mae angen eu gwella. Yn y lleiafrif o ysgolion, lle mae llywodraethu'n wan, mae aelodau'r corff llywodraethol yn dibynnu gormod ar wybodaeth a ddarperir gan arweinwyr ysgol, nid oes dealltwriaeth sicr ganddynt o ansawdd yr addysg a ddarperir, ac maent ym methu herio arweinwyr ar waith yr ysgol.

Ym mron pob ysgol, mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod uwch aelod o staff â chyfrifoldeb dros gydlynu darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA). Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r aelod hwn o staff yn rhan o drafodaethau'r tîm arwain a gall ddylanwadu ar ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant a chymorth, gan yr awdurdod lleol yn aml, ar ddiwygio anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Yn benodol, mae arweinwyr llwyddiannus yn darparu cymorth a hyfforddiant priodol i staff er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud addasiadau priodol i adnoddau, y cwricwlwm a dulliau addysgu i fodloni anghenion addysgol arbennig disgyblion unigol.

# Arweinwyr ysbrydolgar

O ganlyniad, mae gan lawer o arweinwyr ysgol ac UCD ymwybyddiaeth dda o'r newidiadau sydd wedi'u cynllunio o dan y ddeddf newydd, sef Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, ac maent yn ymwybodol o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) drafft a gyhoeddwyd yn Chwefror 2017 (Llywodraeth Cymru, 2018c). Mae ysgolion ac UCDau sydd â rolau arwain clir ac arfer ragorol mewn sefyllfa dda i drosglwyddo o'r system AAA bresennol i'r system ADY newydd.

Mewn llawer o ysgolion, mae arweinwyr yn defnyddio cyllid yn strategol i ddarparu'r addysg orau bosibl, er enghraifft drwy nodi arbenigedd staff unigol a defnyddio'r rhain i wella darpariaeth a safonau ar draws yr ysgol. Dim ond lleiafrif o ysgolion cynradd sy'n cyflogi rheolwr busnes, er bod y gyfran hon wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, gyda mwy o achosion o un rheolwr busnes yn cael ei gyflogi ar y cyd gan glwstwr o ysgolion. Fel rhan o beilot cenedlaethol a ddechreuwyd ym Medi 2017, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gefnogi rheolwyr busnes ar gyfer clystyrau o ysgolion mewn nifer o awdurdodau lleol, a gwireddwyd y buddion yn gyflym. Er enghraifft, yng Nghonwy, mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn llwyth gwaith gweinyddol penaethiaid, gan roi mwy o amser iddynt gefnogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu, cydweithio gwell rhwng ysgolion, a chefnogi cynaliadwyedd ysgolion bach a gwledig (Llywodraeth Cymru, 2019e).


Yn gyffredinol, mae lefel y cyllid wrth gefn a gedwir gan ysgolion cynradd wedi bod oddeutu £40 miliwn dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cronfeydd a gedwir gan ysgolion uwchradd wedi lleihau dros yr un cyfnod, ac ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2018-2019, roedd ganddynt ddiffyg cyffredinol o £4.4 miliwn (Llywodraeth Cymru, 2019l).

# Rhagoriaeth, tegwch a lles

## Llais y disgybl

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae ysgolion yng Nghymru wedi cryfhau eu hymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Y Cenhedloedd Unedig, 1989), gyda niferoedd cynyddol yn ei ddefnyddio i danategu'u gwaith i hyrwyddo rhagoriaeth, tegwch a lles. Yn rhan o'r gwaith hwn, maent yn rhoi llais mwy dylanwadol i ddisgyblion mewn penderfyniadau ynglŷn â'u haddysg, o ddewis gweithgaredd dysgu i gytuno ar y cymorth unigol y byddant yn ei gael neu lywio polisïau ysgol. Mae oddeutu naw o bob deg disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn teimlo bod athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn gwrando arnynt ac yn ymboeni ynghylch beth yw eu barn am yr ysgol. Fodd bynnag, mae hyn yn gostwng i ryw saith o bob deg disgybl yng nghyfnod allweddol 3, ac i ryw hanner y disgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Mewn ychydig o ysgolion cynradd ac mewn mwyafrif o ysgolion uwchradd, mae grwpiau 'llais y disgybl' yn cael eu cyfarwyddo'n ormodol gan oedolion. Yn yr ysgolion hyn, er gwaethaf cyfleoedd i gyfranogi, nid yw disgyblion yn cael eu cynnwys digon mewn penderfyniadau ynghylch agweddau craidd ar fywyd ysgol, gan gynnwys agweddau ar addysgu a dysgu.

**Ffigur 7: Llais y disgybl (2016-2019)**




*Nid oedd cwestiwn ar lais y disgybl yn 2016-2017 ar gyfer cyfnod allweddol 2

### Cwestiynau


?

**Cyfnod allweddol 2**
Mae athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn gwrando arnaf ac mae fy marn i am yr ysgol yn bwysig iddyn nhw


**Cyfnodau allweddol 3 a 4**
Mae athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn gwrando arnaf ac mae fy marn i am yr ysgol yn bwysig iddyn nhw

# Rhagoriaeth, tegwch a lles

**Ffigur 8: Mae ganddynt rywun i siarad â nhw (2016-2019)**




**Ffigur 9: Mae'r ysgol yn delio â bwlio yn dda**




### Cwestiynau

**Cyfnod allweddol 2**
Rwy'n gwybod gyda phwy i siarad os ydw i'n poeni neu'n gofidio yn yr ysgol

**Cyfnodau allweddol 3 a 4**
Os byddaf i'n pryderu neu'n gofidio yn yr ysgol, rwy'n gwybod bod aelod o staff rwy'n gallu siarad ag ef/â hi

### Cwestiynau

**Cyfnod allweddol 2**
Os bydd unrhyw fwlio yn digwydd, bydd yr ysgol yn delio ag ef yn dda

**Cyfnodau allweddol 3 a 4**
Os oes unrhyw fwlio, aflonyddu neu wahaniaethu'n digwydd, mae'r ysgol yn delio ag ef yn dda

# Rhagoriaeth, tegwch a lles

## Hyrwyddo rhagoriaeth

Dros y ddwy flynedd diwethaf, bu gwelliant yng nghyrhaeddiad dysgwyr mwy abl yng Nghymru mewn arholiadau allanol (StatsCymru, 2019h). Mae'r canlyniadau PISA diweddaraf wedi dangos hefyd fod cyfran y disgyblion yng Nghymru sy'n cyflawni'r lefelau uchaf wedi gwella'n gyffredinol, er ei bod yn parhau'n is na gwledydd eraill y DU a chyfartaledd yr OECD. Mewn rhyw draean o ysgolion, nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni gystal ag y dylent nac yn defnyddio'u medrau i lefel sy'n cyfateb i'w gallu. Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, mae merched mwy abl yn perfformio'n well na bechgyn ar y lefelau uwch. Nid yw disgyblion mwy abl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio gystal â disgyblion eraill sy'n fwy abl (Estyn, 2018f, tud.3,17).

Ceir ymagwedd strategol glir mewn ysgolion sy'n effeithiol wrth gefnogi dysgwyr mwy abl. Maent yn canolbwyntio'n gryf ar ddarparu her gyson i'r disgyblion hyn drwy eu gwersi dyddiol a bod â disgwyliadau uchel o'r holl ddysgwyr. Ychwanegir at hyn gan raglen o weithgareddau cyfoethogi, ac mae'n seiliedig ar fonitro cynnydd dysgwyr mwy abl yn ofalus. Mae'r ysgolion hyn yn deall yr angen i ysgolion cynradd ac uwchradd weithio gyda'i gilydd i sicrhau nad yw disgyblion sy'n cyflawni'n uchel yn yr ysgol gynradd yn ailadrodd gwaith ac yn llithro'n ôl ar ddechrau'r ysgol uwchradd. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn deall beth yw addysgeg effeithiol ar gyfer dysgwyr mwy abl. Defnyddiant yr arbenigedd hwn, law yn llaw â'u gwybodaeth fanwl am alluoedd pob dysgwr, i gydweddu gweithgareddau i fodloni anghenion pob unigolyn. Maent yn holi dysgwyr yn fedrus, gan archwilio ac ymestyn eu dealltwriaeth.

Dim ond ychydig o ysgolion sy'n trefnu i gynorthwywyr addysgu fynd i'r afael ag anghenion penodol disgyblion mwy abl, er enghraifft trwy ddefnyddio cynorthwywyr addysgu i ddatblygu medrau meddwl disgyblion trwy dasgau llythrennedd a rhifedd heriol. Yn yr achosion gorau, mae arweinwyr yn ystyried defnyddio cynorthwywyr addysgu i fynd i'r afael ag anghenion penodol disgyblion a chyd-destun lleol eu hysgol. Er enghraifft, yn Ysgol Gynradd Alltwen, mae cynorthwywyr addysgu yn cynnal prosiect ymyrraeth darllen sy'n annog rhieni i fynychu 'caffi darllen' gyda'u plant, a dysgu sut i gynorthwyo medrau llythrennedd disgyblion gartref.

Mae mwyafrif o ysgolion yn darparu cyfleoedd cyfoethogi sy'n targedu galluoedd neu ddoniau penodol ac sy'n ehangu gorwelion dysgwyr mwy abl. Mae'r cyfleoedd hyn yn arbennig o werthfawr mewn ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd â lefel amddifadedd uchel. Mewn llawer o achosion, cynigir y profiadau ychwanegol hyn mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol. Er enghraifft, gall pobl ifanc fynychu dosbarthiadau meistr mewn prifysgol leol, neu glybiau diddordeb arbennig, fel seryddiaeth, neu deithiau astudio i brifysgolion blaenllaw.


## Hyrwyddo tegwch a lles

Dywed dogfen Llywodraeth Cymru, 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl', "rhaid parchu pob dysgwr a'i herio i gyflawni hyd eithaf ei allu … a'i gefnogi i oresgyn rhwystrau sy'n ei atal rhag dysgu ar yr un pryd" (Llywodraeth Cymru, 2017b, tud.31). Mae grwpiau penodol o ddisgyblion yng Nghymru sydd, yn hanesyddol, wedi tangyflawni neu wedi cael anhawster o ran eu lles. Yn y tudalennau canlynol, cyfeiriwn at rai o'r grwpiau hyn sy'n agored i niwed er mwyn tynnu sylw at gryfderau a meysydd i'w gwella.

## Disgyblion sydd dan anfantais oherwydd tlodi

Mae canlyniadau PISA ar gyfer 2018 yn awgrymu, yn rhyngwladol, nad yw disgyblion sydd dan anfantais oherwydd tlodi yn cyflawni gystal â'u cyfoedion yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae maint yr effaith hon yn gymharol llai yng Nghymru. Er enghraifft, nid oes cysylltiad mor agos rhwng sgorau darllen disgyblion â'u cefndir economaidd-gymdeithasol ag yn rhan fwyaf o wledydd eraill yr OECD (Sizmur et al., 2019). Er hynny, mae lliniaru effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion yn parhau yn her fawr i ysgolion yng Nghymru.

Yng Nghymru, defnyddiwn berfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim fel dangosydd o ba mor dda mae disgyblion sydd dan anfantais oherwydd tlodi yn perfformio. Mae tua 69,000 o ddisgyblion oed ysgol statudol yng Nghymru yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sef rhyw 18% o ddisgyblion (Llywodraeth Cymru, 2019m). Er i berfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wella rhwng 2007 a 2016, mae perfformiad disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella hefyd ar gyfradd debyg (gweler ffigur 10). Mae gwneud cymariaethau rhwng y blynyddoedd diwethaf a pherfformiad hyd at 2016 yn anodd oherwydd newidiadau mawr mewn dangosyddion perfformiad yng nghyfnod allweddol 4, a chyflwynwyd newidiadau pellach yn 2018. Ni waeth am y newidiadau hyn, mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion wedi aros yr un fath fwy neu lai am fwy na degawd.





(StatsCymru, 2018; Llywodraeth Cymru, 2019h)

**Ffigur 10: Canran y disgyblion yn cyflawni lefel 2 yn cynnwys Saesneg/ Cymraeg a mathemateg, yn ôl cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim (PYDd), 2006-2007 i 2018-2019**

# Rhagoriaeth, tegwch a lles

**Ffigur 11: Sgôr 9 pwynt cyfartalog wedi'i chapio (fersiwn mesur interim), yn ôl cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim, 2018-2019**


Cymwys i gael PYDd
Ddim yn gymwys i gael PYDd




(StatsCymru, 2019h)


**Ffigur 12: Sgorau pwyntiau cyfartalog mewn mesurau perfformiad interim cyfnod allweddol 4, yn ôl cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim, 2018-2019**

Cymwys i gael PYDd
Ddim yn gymwys i gael PYDd




(StatsCymru, 2018, 2019g)

Mae'r darlun yn debyg gyda phresenoldeb yn yr ysgol. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r gwahaniaeth mewn presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â'u cyfoedion wedi aros fwy neu lai yr un peth (Llywodraeth Cymru, 2019a). Yn nodweddiadol, tri phwynt canran yw'r gwahaniaeth hwn mewn ysgolion cynradd, a phum pwynt canran mewn ysgolion uwchradd (Llywodraeth Cymru, 2019a).




**Ffigur 13: Bwlch pwyntiau canran mewn cyfraddau presenoldeb rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, 2011-2012 i 2017-2018**

(Llywodraeth Cymru, 2019a).

Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn llai tebygol o lawer o fod â phresenoldeb cyffredinol o 95% neu'n uwch (Llywodraeth Cymru, 2019a). Mae cydberthynas agos rhwng presenoldeb yn yr ysgol a deilliannau addysgol, felly mae gwella presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau yn fater pwysig. Er y gall gwobrau am bresenoldeb da helpu, mae'r ysgolion gorau yn canolbwyntio ar ysbrydoli athrawon i feithrin perthnasoedd cryf gyda disgyblion ac yn darparu gweithgareddau difyr i fodloni'u hanghenion. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn gwerthfawrogi dysgu ac eisiau bod yn yr ysgol yn rheolaidd.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae rhyw dwy ran o dair o ysgolion cynradd ac uwchradd yn defnyddio cyllid wedi'i dargedu, fel y Grant Datblygu Disgyblion, yn briodol i liniaru effaith tlodi. Er enghraifft, maent yn cyflwyno strategaethau effeithiol i wella lles disgyblion sydd dan anfantais oherwydd tlodi, neu'n cefnogi disgyblion unigol gydag ymyriadau i'w helpu gydag agweddau ar eu dysgu. Mewn ysgolion lle mae disgyblion difreintiedig yn cyflawni'n dda, mae arweinwyr yn ymroddedig iawn i wella cyfleoedd addysgol a chyfleoedd bywyd disgyblion sydd dan anfantais oherwydd tlodi.

Mae ysgolion cryf yn cydnabod na allant fynd i'r afael ag anfantais a achosir gan dlodi ar eu pennau'u hunain. Maent yn gweithio gyda theuluoedd, cymunedau ac ystod o bartneriaid i leihau effaith tlodi ar ddisgyblion sy'n agored i niwed. Er enghraifft, maent yn cynnal banciau bwyd i deuluoedd ac yn cynnig cyngor a chwnsela i rieni sydd mewn amgylchiadau anodd. Un o gryfderau lu gwaith Ysgol Gynradd Pencaerau gyda rhieni yw partneriaeth lwyddiannus gyda Phrifysgol Caerdydd lle gall rhieni ddilyn cyrsiau mynediad dethol sy'n eu galluogi i ddilyn cyrsiau cyfnod sylfaen[8]. Mae gan Ysgol Maes Hyfryd, sy'n ysgol arbennig, gysylltiadau â dros 20 o ddarparwyr gwaith lleol[9]. Mae'r ddarpariaeth hon wedi galluogi disgyblion i fynychu lleoliadau profiad gwaith, ac mae wedi arwain hefyd at nifer ohonynt yn cael swyddi

[08] Darllenwch fwy yn ein hastudiaeth achos arfer effeithiol: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/cefnogi-lles-disgyblion

[09] Darllenwch fwy yn ein hastudiaeth achos arfer effeithiol: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/creu-cysylltiadau-teuluol-rhwng-y-cartref-r-ysgol

rhan-amser yn y lleoliadau hyn. Mae'r holl leoliadau yn yr ardal leol ac mae llawer yn cefnogi mentrau cymunedol fel caffi cymunedol Buzz, prosiect annibyniaeth Sidewalk a chaffi Age Connects. Mae'r holl ddisgyblion yn elwa o ysgol sydd â pherthnasoedd cryf gyda rhieni a'r gymuned leol. Yn 2020, byddwn yn cyhoeddi adroddiad thematig ar ysgolion yn y gymuned. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn cyflogi staff i gydlynu darpariaeth a gwerthuso effaith y gwaith. Nid ydynt yn dibynnu ar ddulliau 'dal i fyny' tymor byr i gynorthwyo disgyblion yng nghyfnod allweddol 4, ond yn hytrach eu nod yw datblygu medrau meddwl yn feirniadol a fydd o fudd i ddisgyblion ar draws yr ysgol, ac a fydd yn aros gyda nhw i'r dyfodol. Mewn ychydig o ysgolion, mae ymagwedd lwyddiannus at fynd i'r afael ag effaith tlodi yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'u cyd-destun lleol, gan gynnwys gwybodaeth am deuluoedd unigol, ac ymwybyddiaeth o arfer effeithiol ac ymchwil. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i deilwra strategaethau sy'n cefnogi gwelliannau cynaliadwy ar gyfer eu disgyblion. Er enghraifft, creodd Ysgol Uwchradd Gatholig yr Esgob Hedley raglen gyfoethogi o'r enw 'Opening Minds'[10] . Mae'r rhaglen yn helpu disgyblion i ddatblygu medrau bywyd pwysig ac mae'n ategu cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Caiff disgyblion eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau nad ydynt wedi'u gwneud o'r blaen, sy'n herio eu meddylfryd. Mae'r rhaglen wedi galluogi dysgwyr i gymryd perchnogaeth o'u datblygiad ac wedi gwella lles ac agweddau at ddysgu.

## Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig

Mae anghenion addysgol arbennig (AAA) gan ryw 100,000 o ddisgyblion yng Nghymru, sef rhyw 22% o ddisgyblion (Llywodraeth Cymru, 2019m). Bodlonir anghenion llawer o'r disgyblion hyn mewn ysgolion meithrin, ysgolion cynradd, uwchradd neu ysgolion pob oed y brif ffrwd. Mae ychydig o ddisgyblion ag AAA yn cael eu hanghenion wedi'u bodloni mewn dosbarthiadau arbenigol o fewn ysgol brif ffrwd, ysgolion arbennig a gynhelir neu ysgolion annibynnol[11].

Ym mron pob ysgol brif ffrwd, mae systemau i olrhain cynnydd disgyblion ag AAA wedi'u seilio, gan mwyaf, ar fframweithiau cenedlaethol fel y cyfnod sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol neu arholiadau fel TGAU. Mae asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol yn seiliedig ar y fframweithiau hyn yn dangos bod deilliannau ar gyfer llawer o ddisgyblion ag AAA islaw deilliannau eu cyfoedion, ac yn is na'r disgwyl o'u mannau cychwyn. Ar ddiwedd y cyfnod sylfaen, yn nodweddiadol, dim ond rhyw hanner o ddisgyblion ag AAA sy'n cyflawni'r deilliant disgwyliedig o gymharu â dros naw o bob deg o'u cyfoedion (StatsCymru, 2019i). Erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, dim ond rhyw ddau o bob deg disgybl ag AAA sy'n cyflawni o leiaf bum cymhwyster lefel 2, yn cynnwys Saesneg a mathemateg, o gymharu â rhyw saith o bob deg o'u cyfoedion (StatsCymru, 2019j).

Mae materion yn ymwneud â phresenoldeb a gwahardd o'r ysgol yn parhau i gael effaith negyddol ar allu disgyblion ag AAA i wneud cynnydd. Yn nodweddiadol, mae gan ddisgyblion ag AAA gyfraddau uwch o absenoldeb cyson ac absenoldeb cyffredinol na grwpiau eraill o ddisgyblion, ar wahân i'r rheini sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (Llywodraeth Cymru, 2019a). Yn yr un modd, mae'r gyfradd gwaharddiadau parhaol a gwaharddiadau cyfnod penodol gryn dipyn yn uwch ar gyfer disgyblion ag AAA nag ar gyfer disgyblion heb AAA

[10] Darllenwch fwy yn ein hastudiaeth achos arfer effeithiol: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/defnyddio-rhaglen-gyfoethogi-i-wella-medrau

[11] Darllenwch fwy yn ein hastudiaeth achos arfer effeithiol: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/defnyddio-rhaglen-gyfoethogi-i-wella-medrau

(Llywodraeth Cymru, 2019j). Er enghraifft, mae plentyn yn y categori Gweithredu gan yr Ysgol a mwy 16 gwaith yn fwy tebygol o gael ei wahardd yn barhaol o'r ysgol na phlentyn heb AAA (Llywodraeth Cymru, 2019j).

I lawer o'r disgyblion hyn, mae cynnydd mewn perthynas â'u mannau cychwyn unigol neu'r nodau personol a gynhwysir mewn cynlluniau addysg unigol yn darparu dangosyddion mwy realistig o gynnydd a chyflawniad. Mae llawer o ddisgyblion ag AAA yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn y mesurau hyn, yn ystod eu cyfnod mewn ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig. Wrth i ddisgyblion dyfu, mae'r darlun hwn yn mynd yn llai cadarnhaol, gyda disgyblion ag AAA yn gwneud cynnydd da mewn rhyw draean o ysgolion uwchradd a arolygwyd dros y tair blynedd diwethaf.

Mewn ysgolion sy'n fwyaf llwyddiannus wrth gynorthwyo disgyblion ag AAA, mae arweinwyr yn sefydlu ethos cynhwysol sy'n pennu dyheadau uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion, beth bynnag yw lefel eu gallu neu angen. Mae pwyslais cryf ar hyrwyddo lles pob disgybl yn sicrhau bod disgyblion ag AAA yn cyfranogi'n gyfartal ym mhob agwedd ar fywyd ysgol. Maent yn ymgymryd â swyddi cyfrifol o fewn yr ysgol sy'n eu helpu i ddatblygu'u hannibyniaeth a magu eu hyder mewn dysgu. Yn yr ysgolion hyn, mae'r CydAAA yn gweithio'n agos gydag athrawon a staff cymorth ar draws yr ysgol i sicrhau bod yr holl staff yn deall anghenion disgyblion ac yn mynd i'r afael â nhw, ac mae arweinwyr yn darparu dysgu proffesiynol wedi'i gynllunio'n dda i staff. Mae ymagwedd strategol gryf at godi deilliannau ar gyfer y disgyblion hyn yn sicrhau bod prosesau cadarn i werthuso darpariaeth yr ysgol ar gyfer AAA ac i gynllunio gwelliannau i'r dyfodol.

Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion hyn, mae trefniadau trwyadl i nodi anghenion disgyblion yn sicrhau eu bod yn derbyn cymorth amserol drwy ystod o ymyriadau sy'n cyfateb yn fanwl i'w hanghenion. Mae staff yn olrhain ac yn adolygu cynnydd a lles yn rheolaidd. Maent yn gosod targedau heriol i ddisgyblion sy'n perthnasu'n dda â'u hanghenion personol a'u dyheadau i'r dyfodol, ac yn sicrhau bod profiadau dysgu yn cynnwys cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion fynd i'r afael â'r rhain. Mae'r ysgolion hyn yn meithrin perthnasoedd gweithio da gyda rhieni a gofalwyr a gydag ystod eang o asiantaethau allanol sy'n eu helpu i gynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer eu disgyblion, ac adolygu'u cynnydd. Maent yn sefydlu cysylltiadau agos gydag ysgolion eraill sy'n galluogi'r ysgol i rannu arfer a sicrhau trosglwyddo gwybodaeth er mwyn cynorthwyo pontio effeithiol ar gyfer disgyblion o un cyfnod o'u haddysg i gyfnod arall.

Mewn ysgolion lle ceir diffygion yn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA, mae hyn yn aml oherwydd nad yw trefniadau ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion unigol yn ddigon cadarn. Yn yr ysgolion hyn, mae dealltwriaeth athrawon o AAA yn gyffredinol ac o anghenion penodol y disgyblion y maent yn eu haddysgu yn arbennig, yn rhy gyfyngedig. Nid oes digon o ysgolion yn rhoi blaenoriaeth i hyfforddiant ysgol gyfan ar AAA i'r holl staff nac yn gwneud digon i ddatblygu ymagweddau cynhwysol ysgol gyfan at ddisgyblion ag AAA. Mae hyn yn golygu nad yw'r hyder gan athrawon unigol i reoli anghenion disgyblion, neu nid oes dealltwriaeth ganddynt o'r strategaethau sydd eu hangen i'w cefnogi. Nid ydynt yn gwahaniaethu nac yn addasu'u dulliau addysgu yn ddigon da i fodloni anghenion disgyblion ag AAA nac yn defnyddio strategaethau a awgrymwyd mewn cynlluniau addysg unigol (CAUau). Nid yw arfer dda yn cael ei rhannu rhwng athrawon ac nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon da o anghenion a chynnydd disgyblion. Mae hyn yn rhwystro'u gallu i gynllunio a gweithredu strategaethau priodol i gefnogi'r disgyblion hyn.

# Rhagoriaeth, tegwch a lles

## Hyrwyddo lles

Canfu ein hadroddiad, 'Iach a Hapus: Effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion' (Estyn, 2019b) fod gan rwy ddwy ran o dair o ysgolion cynradd, a thraean o ysgolion uwchradd yng Nghymru, ymagwedd gynhwysol ysgol gyfan at gefnogi iechyd a lles disgyblion. Nod yr ysgolion hyn yw sicrhau bod profiad ysgol bob dydd disgyblion yn gyson â negeseuon a roddir am iechyd a lles mewn gwersi, gwasanaethau a pholisïau ysgol. Maent yn datblygu disgyblion i fod yn unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau bodlon fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas – sef un o bedwar diben Cwricwlwm Cymru. Mae ganddynt:

Gweler ffigurau 7 i 9 ar dudalennau 34 i 35 am ragor o wybodaeth

- bolisïau ac arferion i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu
- arweinwyr sy'n 'gwneud y dweud' o ran cefnogi iechyd a lles disgyblion
- diwylliant anogol, lle y mae perthnasoedd cadarnhaol yn galluogi disgyblion i ffynnu
- cymuned ac ethos cynhwysol
- gwybodaeth fanwl am iechyd a lles disgyblion sy'n dylanwadu ar bolisïau a chamau gweithredu
- cwricwlwm eang a chytbwys, yn cynnwys profiadau dysgu ar wahân, yn seiliedig ar dystiolaeth, sy'n hyrwyddo iechyd a lles
- gofal bugeiliol cefnogol ac ymyriadau targedig i ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol
- amgylchedd a chyfleusterau sy'n hybu iechyd a lles da, fel lle i chwarae, cymdeithasu ac ymlacio amser egwyl
- partneriaethau agos â rhieni a gofalwyr

# Rhagoriaeth, tegwch a lles

dysgu proffesiynol parhaus i'r holl staff, sy'n eu galluogi i gefnogi iechyd a lles disgyblion

cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau allanol

Mae ymatebion i holiaduron gan ddisgyblion mewn ysgolion a arolygwyd yn y cylch presennol yn dangos bod gan bron yr holl ddisgyblion mewn ysgolion cynradd rywun y gallent siarad â nhw os ydynt yn poeni neu'n pryderu yn yr ysgol.  Fodd bynnag, mae disgyblion mewn ysgolion uwchradd bum gwaith yn fwy tebygol na disgyblion mewn ysgolion cynradd i anghytuno neu anghytuno'n gryf fod "ganddynt rywun i siarad â nhw os ydynt yn poeni neu'n pryderu yn yr ysgol".  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd yn meddwl "os oes unrhyw fwlio yn digwydd, y bydd yr ysgol yn delio ag ef yn dda", ond erbyn cyfnod allweddol 4 mae rhyw draean o ddisgyblion yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â hyn.

Mae lles gwael yn ffactor yn nhangyflawniad grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed.  Er enghraifft, mae presenoldeb disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi gwella dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ond mae'n dal yn rhy isel ac yn cyfrannu at gyrhaeddiad gwael ar gyfer y disgyblion hyn[12]. Mae gan fwyafrif o ysgolion ac awdurdodau lleol gynlluniau cymorth bugeiliol ar gyfer disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr i'w cefnogi i fynychu'r ysgol.  Dywed llawer o rieni disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr mai un o'r prif resymau pam nad yw eu plant yn mynychu ysgol uwchradd yw ofn cael eu bwlio.  Fodd bynnag, dim ond rhyw hanner o bolisïau gwrthfwlio a chydraddoldeb ysgolion sy'n rhoi ystyriaeth i anghenion penodol disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr, er enghraifft trwy gydnabod sut gallai eu diwylliant a'u traddodiadau effeithio ar eu presenoldeb.  Mae gwasanaeth addysg Teithwyr Caerdydd yn darparu cymorth cryf i ddisgyblion a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, ac mae hyn wedi arwain at gynnydd nodedig yn nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgol uwchradd.

Mae ymchwil wedi dangos y gall bod yn ofalwr ifanc effeithio'n niweidiol ar bresenoldeb yn yr ysgol, cyflawniad ac iechyd meddwl[13] .  Nid yw llawer o ddarparwyr addysg yn gwybod gan ba rai o'u dysgwyr y mae rôl ofalu, ac felly mae'r ddarpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc yn amrywio'n fawr.  Mae darparwyr sy'n bodloni anghenion gofalwyr ifanc yn fwyaf effeithiol yn gweithredu systemau i adnabod y dysgwyr hyn ac olrhain eu hanghenion lles.

[12] Darllenwch fwy yn ein hadroddiad 'Darpariaeth ar gyfer disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr oed uwchradd', Estyn (2019c)
[13] Er enghraifft, gweler https://carers.org/key-facts-about-carers-and-people-they-care

# Rhagoriaeth, tegwch a lles

Mae'r ysgolion mwyaf effeithiol yn gwneud defnydd da o broffiliau un dudalen disgyblion fel rhan o ddarpariaeth AAA i gofnodi beth sy'n bwysig i blant ac ar gyfer plant. Mae hyn yn helpu rhoi llais i ofalwyr ifanc ac yn galluogi ysgolion i dargedu'r cymorth cywir i fodloni'u hanghenion unigol. Ceir cynlluniau gwobrau sy'n darparu adnoddau a phecynnau cymorth defnyddiol i ysgolion uwchradd, colegau ac UCDau i lywio'u darpariaeth er mwyn bodloni anghenion gofalwyr ifanc. Er enghraifft, mae awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf yn ariannu Prosiect Cymorth i Ofalwyr i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion i weithredu Gwobr Ysgolion i Ofalwyr Ifanc, sydd wedi cynyddu ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc yn yr ardal ac wedi gwella'r ddarpariaeth ar eu cyfer[14]. At ei gilydd, fodd bynnag, ychydig o ddarparwyr addysg sy'n gwneud defnydd digon da o'r adnoddau sydd ar gael a all eu helpu i wella'u cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc[15].

Mae llawer o ddisgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsryweddol (LGBT), a'r rheiny sy'n cwestiynu'u hunaniaeth rywiol neu rywedd, yn teimlo'n agored i niwed yn yr ysgol. Er enghraifft, canfu adroddiad gan Stonewall (2017) fod tua hanner y disgyblion hyn yn wynebu bwlio yn yr ysgol. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae disgyblion yn gweithredu fel cenhadon dros gydraddoldeb rhywedd. Er enghraifft, mae disgyblion yn Ysgol Basaleg wedi ffurfio grŵp Cynghrair Queer a Strêt i hyrwyddo hawliau unigolion. Mae'r grŵp yn cefnogi disgyblion i deimlo'n ddiogel, yn hyderus ac yn angerddol ynglŷn â siarad am eu profiadau i helpu pobl eraill. Mae hyn wedi cefnogi gweledigaeth yr ysgol o ddatblygu diwylliant lle mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu dathlu[16]. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad thematig yn 2020 ar ba mor dda y mae ysgolion yn cefnogi disgyblion LGBT.

Mae'r hyfforddiant a noddir gan Lywodraeth Cymru ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn cael effaith gadarnhaol ar waith ysgolion ledled Cymru. Yn gyffredinol, mae ysgolion sy'n darparu'n dda ar gyfer disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn deall effaith andwyol y profiadau hyn ar gyfleoedd bywyd disgyblion. Mae llawer o ysgolion wedi hyfforddi staff allweddol i gyflwyno rhaglenni ymyrraeth gymdeithasol ac emosiynol buddiol ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod[17]. Mewn ysgolion cynradd, mae trefniadau cadarn fel arfer i sicrhau bod gan blant sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a disgyblion eraill sy'n agored i niwed yn cael mannau tawel, anogol a chefnogol i fynd iddynt pan fyddant yn teimlo'n bryderus neu'n ofidus. Er y gall ysgolion uwchradd gynnig lleoedd tebyg hefyd, maent yn cael eu gweld yn bennaf fel mannau ar gyfer y disgyblion ieuengaf neu'r rhai ag anghenion addysgol arbennig.

Mae'r ysgolion gorau yn gwneud y gorau o'r cymorth allanol sydd ar gael iddynt. Mae pob ysgol uwchradd yn cynnal gwasanaeth cwnsela annibynnol a ariennir gan yr awdurdod lleol. Yn gyffredinol, mae ysgolion cynradd yn ei chael hi'n anodd cael gwasanaethau cwnsela neu wasanaethau therapiwtig eraill ar gyfer eu disgyblion pan fydd eu hangen. Yn 2020, byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar ba mor dda mae ysgolion ac UCDau yn adeiladu gwydnwch emosiynol ymhlith dysgwyr.

---

[14] Ceir astudiaeth achos lawn ar Brosiect Cymorth i Ofalwyr Rhondda Cynon Taf yn ein hadroddiad: 'Darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru', Estyn, 2019f
[15] Darllenwch fwy yn ein hadroddiad 'Darpariaeth ar gyfer disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr oed uwchradd', Estyn (2019c)
[16] Darllenwch fwy yn ein hadroddiad arfer effeithiol 'Defnyddio rhaglenni ysgol i gefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth'.
[17] Darllenwch fwy yn ein hadroddiad 'Adnabod eich plant – cefnogi disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod', (Estyn 2020)

# Cefnogi system hunanwella

**Ffigur 14: Niferoedd athrawon a disgyblion ym mhob consortiwm rhanbarthol yng Nghymru, Ionawr 2019**

**Ffynhonnell:** Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a StatsCymru

**Nodiadau:**
Mae'r data ar ysgolion, disgyblion ac athrawon yn gysylltiedig ag ysgolion a gynhelir ac fe'i cafwyd o CYBLD Ionawr 2019. Mae data ar y boblogaeth ac arwynebedd tir yn amcangyfrifon canol blwyddyn o 2018.

## GwE

1 Ynys Môn
2 Gwynedd
3 Conwy
4 Sir Ddinbych
5 Sir y Fflint
6 Wrecsam


Nifer yr ysgolion a gynhelir: 411
Canran yr ysgolion a gynhelir: 27.5%

Nifer y disgyblion: 101,100
Canran y disgyblion: 21.6%

## Cymru

Nifer yr ysgolion a gynhelir:1,494

Nifer y disgyblion: 468,398




## CSC

13 Pen-y-bont ar Ogwr
14 Bro Morgannwg
15 Rhondda Cynon Taf
16 Merthyr Tudful
17 Caerdydd

Nifer yr ysgolion a gynhelir: 381
Canran yr ysgolion a gynhelir: 25.5%

Nifer y disgyblion: 148,683
Canran y disgyblion: 31.7%

## ERW

7 Ceredigion
8 Powys
9 Sir Benfro
10 Sir Gaerfyrddin
11 Abertawe
12 Castell-nedd Port Talbot

Nifer yr ysgolion a gynhelir: 469

Canran yr ysgolion a gynhelir: 31.4%

Nifer y disgyblion: 128,320
Canran y disgyblion: 27.4%

## EAS

18 Caerffili
19 Blaenau Gwent
20 Torfaen
21 Casnewydd
22 Sir Fynwy

Nifer yr ysgolion a gynhelir: 233

Canran yr ysgolion a gynhelir: 15.6%

Nifer y disgyblion: 90,295
Canran y disgyblion: 19.3%

# Cefnogi system hunanwella

## Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ar gyfer ysgolion

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru gyfrifoldeb statudol am berfformiad eu hysgolion, a phwerau i ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder. Maent hefyd yn darparu ystod o wasanaethau sy'n cefnogi addysg plant a phobl ifanc, fel gwasanaethau ieuenctid, cwnsela a gweithgareddau chwaraeon. Mae gwariant ar y gwasanaethau addysg llywodraeth leol hyn wedi gostwng mewn termau real dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae awdurdodau lleol wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer ysgolion wrth reoli gostyngiadau cyffredinol mewn cyllidebau ar yr un pryd (StatsCymru, 2019a).

Mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd trwy bedwar consortiwm rhanbarthol i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion sy'n herio ac yn cynorthwyo ysgolion (gweler ffigur 14).

Dros y tair blynedd diwethaf, mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi gwella eu gwybodaeth am gryfderau ysgolion unigol a'u meysydd i'w gwella. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, mae staff gwella ysgolion yn cefnogi ac yn herio ysgolion yn well, yn enwedig ysgolion sy'n yn peri pryder. Mae'r consortia rhanbarthol wedi rhoi blaenoriaeth i gynorthwyo ysgolion i ddatblygu llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae cymorth i ysgolion i ddatblygu cymhwysedd digidol disgyblion yn gymharol wannach. O ran ysgolion sy'n peri pryder, nid yw staff gwella ysgolion bob amser yn rhoi digon o ffocws ar wella ansawdd addysgu.

Mae consortia rhanbarthol yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i gynorthwyo ysgolion gyda diwygio'r cwricwlwm. Mae eu cymorth yn cynnwys darparu dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon ac arweinwyr ysgol, ac ar gyfer nodi a hwyluso ysgolion i gynorthwyo ysgolion eraill. Hyd yma, mae'r rhan fwyaf o'r gweithgarwch wedi canolbwyntio ar gynorthwyo ysgolion i ddeall y broses diwygio'r cwricwlwm drwy ymgysylltu â datblygu'r cwricwlwm drafft, ac ar gefnogi uwch arweinwyr ysgol wrth reoli newid. Mae pob rhanbarth wedi mynd i'r afael â darparu cymorth i ysgolion er mwyn paratoi ar gyfer diwygio'r cwricwlwm mewn ffyrdd gwahanol, ac mae wedi dylunio'i hoffer ei hun i fesur a chefnogi ymgysylltiad â diwygio'r cwricwlwm. Defnyddir yr offer hyn i nodi cryfderau mewn ymarfer a meysydd blaenoriaeth i'w datblygu.

Fel rhan o raglen diwygio ADY Llywodraeth Cymru, mae pum arweinydd trawsnewid ADY wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i gynorthwyo'u gwaith mewn prosesau diwygio ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r arweinwyr ADY yn darparu cyngor, cymorth a her i awdurdodau lleol wrth iddynt baratoi i weithredu'r diwygiadau. Mae awdurdodau lleol wedi datblygu cynlluniau lleol i helpu ysgolion, lleoliadau nas cynhelir a sefydliadau addysg bellach yn eu hardal i baratoi ar gyfer newid. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gydnabod maint yr her o ran diwygio ADY, a chyhoeddodd y Gweinidog Addysg ym Medi 2019 y byddai oedi o ran gweithredu'r system ADY newydd ac y byddai'n dechrau, fesul cam, o Fedi 2021 yn hytrach na 2020, er mwyn "darparu amser ar gyfer hyfforddiant a datblygiad pwrpasol pellach" (Llywodraeth Cymru, 2019n).

# Cefnogi system hunanwella

## Trefniadaeth ysgolion

Bu llawer o achosion o ad-drefnu ysgolion yn llwyddiannus yn y blynyddoedd diwethaf. Eleni, roedd 55 o gynigion i ad-drefnu ysgolion o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Llywodraeth Cymru, 2018e), sef cryn dipyn yn fwy nag yn y ddwy flynedd flaenorol. O'r rhain, derbyniwyd 31 yn nhymor yr hydref cyn cyhoeddi Cod Trefniadaeth Ysgolion newydd Llywodraeth Cymru a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 2018, ac mae hynny'n fwy o gynigion nag ar gyfer y flwyddyn flaenorol gyfan, pan gyflwynodd awdurdodau lleol 29 o gynigion. Roedd rhyw draean o gynigion eleni ar gyfer cynyddu capasiti mewn ysgolion unigol, gan gynnwys cynyddu'r ystod oedran i ganiatáu ar gyfer mwy o ddisgyblion meithrin. Cyflwynodd ychydig o awdurdodau lleol gynigion fel rhan o adolygiad addysg mewn ardal benodol, a oedd yn cyfrif am draean arall o gyflwyniadau. Yn ogystal, cyflwynodd ychydig o awdurdodau lleol gynigion i ad-drefnu'r ddarpariaeth AAA, er enghraifft drwy adleoli, ailddynodi ac agor canolfannau adnoddau dysgu newydd[18]. Yn unol â thueddiadau diweddar, roedd dau gynnig yn ad-drefnu darpariaeth addysg drwy agor ysgolion pob oed. Roedd tua thraean o'r holl gynigion yn gysylltiedig â chynyddu addysg cyfrwng Cymraeg, er enghraifft, drwy newid statws iaith pump o ysgolion cynradd dwy ffrwd i fod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin.

Yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, cytunodd Estyn bod y cynnig yn debygol o gynnal safonau addysg o leiaf. Gwella ysgolion yn bennaf ddylai fod wrth wraidd rhaglenni ad-drefnu ysgolion yn hytrach na'u bod yn ymarferiad rheoli adnoddau sydd ar wahân i fuddiannau dysgwyr. Mewn rhai achosion, mae awdurdodau lleol yn cyffredinoli'n fras ynglŷn a buddion ad-drefnu heb werthuso'r effaith ar ddeilliannau dysgwyr yn y sefyllfaoedd penodol.

Ar hyn o bryd, mae ystod o strategaethau, fel cau ysgolion, uno ysgolion, ffedereiddio a thynnu adeiladau segur ac ystafelloedd dosbarth dros dro, yn cael eu defnyddio ledled Cymru i resymoli lleoedd ysgol a gwella adeiladau ysgol. Mae modelu darpariaeth y sector cynradd yn lleol wedi disodli llawer o adeiladau anaddas ac aneffeithlon gyda darpariaeth newydd briodol, sydd yn aml yn gwasanaethu ardaloedd ehangach nag o'r blaen. Mae ffedereiddio ysgolion ac ysgolion pob oed yn opsiynau mwyfwy poblogaidd ar gyfer ailfodelu darpariaeth addysgu.

Yn aml, mae angen buddsoddiad ariannol sylweddol, ac ymrwymiad gwleidyddol, ar y strategaethau ad-drefnu ysgolion hyn. Mae cyllid gan Lywodraeth Cymru yn aml yn sbardun ar gyfer cynorthwyo awdurdodau lleol i ailstrwythuro'u hystâd ysgolion. Mae cyflwyno'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cymhwyso cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru yn fwy strategol. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi bod yn amharod i wneud penderfyniadau ynglŷn â rhesymoli ysgolion er bod gostyngiad sylweddol yn nifer y disgyblion mewn rhai ardaloedd o'u hawdurdod. Gwrthwynebiad cryf yn lleol gan gymunedau a chan eu cynrychiolwyr gwleidyddol lleol sy'n peri'r amharodrwydd hwn yn aml.

[18] Ystafell ddosbarth neu ystafelloedd dosbarth mewn ysgol brif ffrwd ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth yw canolfan adnoddau dysgu. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i wneud yn siŵr y cefnogir anghenion unigol y disgyblion hyn tra'n darparu cyfleoedd iddynt ar yr un pryd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a gwersi prif ffrwd a chymdeithasu â'u cyfoedion.

# Cefnogi system hunanwella

Lle mae ad-drefnu yn gweithio'n dda, mae arweinwyr ysgol yn cael eu cynnwys yn dda yn y cyfnod paratoi cyn bod ysgol newydd yn agor, am flwyddyn o leiaf ymlaen llaw yn aml.  Mae hyn yn eu galluogi i gyd-ddatblygu'r weledigaeth gydag arweinwyr eraill ac athrawon ac i sicrhau nad oes unrhyw darfu ar ddysgu disgyblion.  Lle nad yw ysgolion newydd wedi bod yn llwyddiannus, yn enwedig ysgolion uwchradd, mae hynny'n aml oherwydd bod y gwaith paratoi hwn yn wan yn y flwyddyn cyn i'r ysgol agor.

Mae ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth yn gynyddol gydag asiantaethau statudol a gwirfoddol eraill i fodloni ystod o anghenion cymunedol.  Mae'r defnydd hwn yn gyson â datblygu ffocws cymunedol ysgolion, a gall arwain at leoedd dros ben mewn ysgol yn cael eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau eraill.  Lle mae hyn yn digwydd, ceir cyfleoedd ar gyfer gweithio amlasiantaeth agosach gyda'r heddlu, gwasanaethau llyfrgell, gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol.  Er bod arfer o'r fath yn cynyddu, mae'n anarferol o hyd i weld capasiti dros ben yn cael ei ddefnyddio yn y modd hwn.

## Ysgolion ffederal

Mae nifer yr ysgolion ffederal wedi cynyddu'n gyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.  Mae ffedereiddio yng Nghymru yn gytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae rhwng dwy a chwech o ysgolion yn rhannu trefniadau llywodraethu a lle mae ganddynt un corff llywodraethol.  Gall ffederasiynau gynnwys cymysgedd o ysgolion a gynhelir sydd naill ai'n ysgolion meithrin, ysgolion cynradd, ysgolion arbennig neu'n ysgolion uwchradd.  Ar ddechrau Medi 2019, roedd 34 o ffederasiynau ar hyd a lled Cymru, yn cynnwys rhyw 5% o'r holl ysgolion a gynhelir.  Mae'r rhan fwyaf o'r ffederasiynau hyn yn cynnwys ysgolion cynradd. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae cyrff llywodraethol ac awdurdodau lleol yn ffurfio ffederasiwn i gynyddu'r tebygolrwydd o sicrhau arweinyddiaeth effeithiol a hyfywedd hirdymor ysgolion.  Mae hyn yn arbennig o wir i ysgolion bach, ysgolion mewn ardaloedd gwledig neu ysgolion sydd mewn sefyllfaoedd ynysig eraill, i ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac i ysgolion lle mae recriwtio pennaeth yn arbennig o heriol.  Mae rôl y pennaeth mewn ffederasiwn yn fwy deniadol gan ei fod yn golygu yn aml y bydd ganddo lai o ymrwymiad addysgu os oes ganddo ymrwymiad o gwbl, ac maent yn 'benaethiaid gweithredol' gyda chyfrifoldeb am arwain mwy nag un ysgol.

Mae diwygio Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, a ddaeth i rym yn Nhachwedd 2018, yn gwneud trefniadau arbennig mewn perthynas ag ysgolion gwledig ac yn sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn eu cau.  Mae'r cod yn nodi, "nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau, ond bod yn rhaid i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwybodol gan y cynigydd, gan gynnwys ffedereiddio" (Llywodraeth Cymru, 2018e, tud.11).  Ers cyflwyno'r cod newydd hwn, bu cynnydd yn nifer yr ysgolion sy'n ffurfio ffederasiwn.

Yn 2019, cyhoeddodd Estyn (2019a) adroddiad thematig ar nodweddion cyffredin ffedereiddio effeithiol.  Pan fydd ffedereiddio yn fwyaf llwyddiannus, mae gan gyrff llywodraethol, uwch arweinwyr ac awdurdodau lleol weledigaeth glir o'r hyn y maent yn dymuno'i gyflawni trwy'r broses ffedereiddio.  Mae eu gweledigaeth yn canolbwyntio'n graff ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion.  Maent

yn eglur o'r cychwyn ynglŷn â'r hyn y mae'r ffederasiwn yn ei olygu a ddim yn ei olygu, ac maent yn cyfleu hyn yn glir i staff, rhieni a disgyblion. Maent yn sefydlu strwythurau arwain yn fuan sy'n cefnogi eu gweledigaeth ar gyfer y ffederasiwn.

Mewn ychydig o achosion, mae ffederasiynau'n defnyddio arbenigedd staff i gefnogi cynnydd grwpiau penodol o ddysgwyr, fel y rheiny ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Ond at ei gilydd, nid yw uwch arweinwyr yn manteisio'n ddigon llawn ar yr arbenigedd staff sydd ar gael ar draws y ffederasiwn i wella profiadau i bob disgybl a sicrhau bod cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion yn ddigon cyflym, gan gynnwys y rhai mwy abl neu'r sydd dan anfantais.

Mewn lleiafrif o ysgolion ffederal, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gydweithio â'u cyfoedion mewn ysgolion eraill. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar fedrau cymdeithasol disgyblion a'u synnwyr o les. Bron ym mhob achos, caiff ffedereiddio effaith gadarnhaol ar y profiad pontio i lawer o ddisgyblion, wrth iddynt symud o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw ysgolion ffederal yn defnyddio TGCh yn effeithiol i gefnogi cydweithio ymhlith disgyblion ar draws safleoedd ysgol.

Mae ansawdd y cymorth y mae awdurdodau lleol yn ei ddarparu i gyrff llywodraethol i'w cynorthwyo trwy'r broses ffedereiddio yn amrywiol. Yn yr achosion gorau, mae awdurdodau lleol yn sicrhau cymorth cyson ar draws yr holl ysgolion yn y ffederasiwn, er enghraifft trwy ddefnyddio'r un ymgynghorydd her i bob ysgol. Fodd bynnag, nid oes digon o gymorth i benaethiaid a fydd yn eu paratoi i arwain ffederasiwn.

Yn aml, mae ffedereiddio yn arwain at arbedion o ran cyllidebau i ysgolion, fel trwy rannu staff gweinyddol. Mewn ffederasiynau sy'n cynnwys ysgolion llai, gall rheoli dwy neu dair cyllideb ar wahân a chydgyfrannu adnoddau fod yn her i gyrff llywodraethol a phenaethiaid.

## Ysgolion pob oed

Mae ysgolion pob oed yn darparu addysg i ddisgyblion o dair neu bedair oed tan iddynt gyrraedd 16 neu 19 oed. Yn Ionawr 2019, roedd 19 o ysgolion pob oed yng Nghymru. Mae'r sector yn parhau i dyfu gyda chynlluniau i agor dwy ysgol arall ym Medi 2019, a chynlluniau ac ymgynghoriadau mewn pum ardal arall o leiaf. Mae'r sector yn amrywiol o ran y niferoedd gwahanol o safleoedd ar gyfer pob ysgol, yr ystod eang o niferoedd disgyblion yn y cyfnodau gwahanol, lleoliadau trefol yn ogystal â lleoliadau gwledig yr ysgolion, ac o ran y cyfrwng iaith.

Un nodwedd arbennig o'r holl ysgolion pob oed yw'r parhad mewn gofal a chymorth i ddisgyblion wrth iddynt symud ymlaen drwy'r cyfnodau mewn un ysgol. Er hynny, mae'r holl ysgolion pob oed sydd wedi'u harolygu hyd yma yn derbyn o leiaf hanner eu carfan Blwyddyn 7 o ysgolion cynradd allanol, felly mae gwahaniaeth o fewn y garfan disgyblion ar ôl Blwyddyn 7 o ran graddau'r parhad gofal a chymorth y mae disgyblion wedi'i gael.

Yn 2020, byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar arweinyddiaeth, darpariaeth a pherfformiad mewn ysgolion pob oed, a fydd yn canolbwyntio ar fuddion a heriau'r model pob oed.

# Cefnogi system hunanwella

## Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr

Yn Awst 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2017a) ei strategaeth, 'Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr' (2017a) gyda thargedau cyffredinol o filiwn o bobl yn siarad Cymraeg erbyn 2050 ac 20% o'r rheiny yn siarad Cymraeg bob dydd. Mae gan addysg ran bwysig i'w chwarae i gyflawni'r targedau hyn. Un o nodau allweddol strategaeth y Llywodraeth yw ehangu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion. Mae tua 21% o ddisgyblion Blwyddyn 1 yn cael eu haddysgu mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, ac mae'r ffigur hwn wedi aros fwy neu lai'r un fath dros y blynyddoedd diwethaf. Mae 'Cymraeg 2050' yn cynnwys targed i gynyddu'r gyfran hon i 30% erbyn 2031 a 40% erbyn 2050.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cyhoeddi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg statudol er 2014. Mae'r cynlluniau hyn wedi darparu fframwaith defnyddiol a strwythuredig i awdurdodau lleol ddatblygu'u darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg (Estyn, 2016). Bu gwendidau yn y ffordd y mae llawer o awdurdodau lleol yn gweithredu'u Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, a dyma un rheswm dros y cynnydd araf a wnaed yn erbyn llawer o'r targedau yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010). Mae cynlluniau mwy diweddar yn dangos ymrwymiad cryfach gan arweinwyr i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae darpariaeth effeithiol iawn gan ychydig o awdurdodau lleol ar gyfer trochi iaith i ddisgyblion sy'n ymuno ag ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog sydd â fawr o Gymraeg neu ddim Cymraeg cyn hynny. Maent yn cynnig cyfleoedd i garfan newydd o ddisgyblion ddatblygu'u medrau mewn Cymraeg, ac yn darparu sylfaen ieithyddol gadarn iddynt gyfranogi'n llawn mewn addysg ddwyieithog a manteisio ar y profiadau a gynigir.

Mae cyfran y disgyblion nad ydynt yn parhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg rhwng y cyfnodau addysg cynradd ac uwchradd wedi lleihau dros gyfnod. Er enghraifft, ni chafodd 10% o ddisgyblion a aseswyd mewn Cymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2013 eu hasesu yn 2016 ar ddiwedd cyfnod allweddol 3. Mae hyn yn cymharu â bron i 18% yn y cyfnod 2008-2011 bum mlynedd yn gynharach. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw tua 20% o ddisgyblion sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar ddiwedd y cyfnod sylfaen yn parhau i ddatblygu'u medrau Cymraeg i'w potensial llawn yn ystod eu cyfnod mewn addysg statudol, ac nid ydynt yn ennill cymhwyster TGAU mewn Cymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Yn yr un modd, mae gormod o ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd dwyieithog mewn lleiafrif o awdurdodau lleol nad ydynt yn derbyn digon o gyfleoedd i barhau i ddatblygu a chymhwyso'u medrau Cymraeg mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Nid yw'r ysgolion hyn yn cynllunio'n ddigon gofalus i ddatblygu medrau iaith disgyblion, gan gynnwys hyrwyddo manteision dilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae gan ysgolion cyfrwng Saesneg gyfraniad pwysig i'w wneud i gyflawni targedau 2050 ac i sicrhau bod dysgwyr o bob cefndir yn cael y cyfleoedd i ddatblygu medrau Cymraeg cadarn. Mae canllawiau 'Cwricwlwm Drafft i Gymru 2022' (Llywodraeth Cymru, 2019b) yn pwysleisio bod addysgu a dysgu Cymraeg yn rhan annatod o'r cwricwlwm newydd ac yn cynnig cyfle gwerthfawr i ysgolion cyfrwng Saesneg i ganolbwyntio mwy ar eu darpariaeth Gymraeg.

# Cefnogi system hunanwella



Mae goblygiadau pwysig i'r dysgu proffesiynol sydd ei angen ar gyfer staff er mwyn bodloni her y disgwyliadau uwch hyn.  Yn aml, mae athrawon nad ydynt yn arbenigwyr mewn dulliau addysgu iaith yn addysgu Cymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg.  Mae dealltwriaeth wan yn aml mewn llawer o'r ysgolion hyn o beth yw dulliau effeithiol o addysgu a dysgu Cymraeg.

## Hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant

Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, ceir diwylliant sefydledig o welliant parhaus lle mae'r holl staff yn cyfrannu at werthuso safonau a darpariaeth yn barhaus.  Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn sefydlu dealltwriaeth glir o gryfderau eu hysgol a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella drwy ystod eang o weithgareddau gwerthuso. Maent yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon i nodi blaenoriaethau gwella penodol, cynllunio camau perthnasol a monitro eu gweithredu.

Yn nghylch arolygu 2010-2017, yr agwedd wannaf ar arweinyddiaeth mewn ysgolion oedd hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant.  Er bod gan y rhan fwyaf o ysgolion gylch sefydledig o weithgareddau hunanwerthuso, mewn traean o ysgolion cynradd a hanner ysgolion uwchradd, nid yw arweinwyr yn gwerthuso deilliannau disgyblion nac effeithiolrwydd eu darpariaeth yn ddigon da.  Yn benodol, nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar effaith addysgu.  Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd iddynt nodi agweddau ar addysgu y mae angen eu gwella, neu i gynllunio a sicrhau'r gwelliannau hynny.  Yn nwy flynedd gyntaf y cylch arolygu presennol, mae'r sefyllfa wedi gwellaf fymryn yn y sector cynradd. Mewn ysgolion uwchradd, mae'r gyfran â gwendidau yn eu trefniadau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn parhau'n weddol debyg.  O'r ysgolion cynradd ac uwchradd a gafodd eu rhoi mewn categori statudol dros y cyfnod hwn, cafodd tri chwarter ohonynt argymhelliad penodol i gryfhau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant.

Yn 2018, gofynnwyd i Estyn gan Lywodraeth Cymru i weithio gydag ymarferwyr ysgol, consortia rhanbarthol, yr OECD a phartneriaid eraill i gynorthwyo â chyd-greu Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol i'w ddefnyddio mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig.  Ymgynghoriad eang oedd cam cyntaf y prosiect hwn, gan ganolbwyntio ar nodi'r ffactorau sy'n meithrin prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant effeithiol neu'n eu cyfyngu.  Mewn ysgolion llwyddiannus, mae prosesau hunanwerthuso a gwella:

- yn canolbwyntio'n gyson ar gyflawni'r safonau a'r lles gorau i bob disgybl
- yn broses barhaus sy'n rhan gynhenid o ddiwylliant ysgol, nid yn ddigwyddiad 'un tro'
- yn cysylltu'n agos â dysgu proffesiynol
- yn agwedd ar waith yr ysgol sy'n cynnwys yr holl staff, nid uwch arweinwyr yn unig
- yn gynaliadwy ac yn hylaw
- yn onest, yn ddidwyll ac yn dryloyw

# Cefnogi system hunanwella

Pan fo prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn aneffeithiol, mae hynny yn aml oherwydd eu bod:

- yn canolbwyntio gormod ar ddarparu tystiolaeth ar gyfer cynulleidfa allanol
- yn ddigwyddiad blynyddol yn hytrach na'n broses barhaus
- yn canolbwyntio ar ansawdd dogfennaeth yn hytrach nag effaith camau gweithredu
- yn gyfrifoldeb uwch arweinwyr yn unig, ac nid yn cynnwys yr holl staff
- yn cofnodi camau gweithredu ac yn gwirio cydymffurfiaeth â pholisïau ysgol (yn aml drwy ddull 'ticio blychau') yn hytrach na gwerthuso gwelliant
- yn fiwrocratig ac yn feichus
- yn seiliedig ar ystod rhy gul o dystiolaeth

Yn ystod cam cyntaf y prosiect, datblygodd y gweithgor ystod o offer, ymagweddau a sbardunau ar gyfer deialog broffesiynol, i ddarparu adnodd ymarferol y gellir ei ddefnyddio gan unrhyw ysgol, er mwyn cryfhau'r agwedd hon ar eu gwaith. Mae'r adnodd yn gyson ag agweddau eraill ar bolisi addysg, fel diwygio'r cwricwlwm a'r genhadaeth genedlaethol. Dechreuodd cam dau y prosiect yn nhymor yr hydref 2019 ac mae'n canolbwyntio ar beilota, profi a datblygu'r adnodd. Mae ysgolion, ochr yn ochr â'u consortiwm rhanbarthol, yn peilota agweddau ar yr Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol ac yn datblygu'r offer a'r ymagweddau a fydd cyd-fynd â'r adnodd.

Hefyd, ceir gwendidau yn aml yng ngwaith awdurdodau lleol i werthuso effeithiolrwydd eu gwasanaethau ar gynorthwyo ysgolion i wella. Nid ydynt yn defnyddio ystod y wybodaeth y maent yn ei chasglu i nodi pa strategaethau sy'n gweithio'n dda, a beth allai fod angen iddynt ei newid.

# Addysg a hyfforddiant ôl-16

## Diwygio ôl-16

Yn ogystal â'r diwygiadau mewn addysg orfodol, mae addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO) yn mynd trwy gyfnod o newid hefyd yn dilyn adroddiad Hazelkorn 'Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer Datblygu System Addysg Ôl-orfodol o'r Radd Flaenaf i Gymru' (2016) a'r ymgynghoriad technegol dilynol 'Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf' (Llywodraeth Cymru, 2018d).

Bydd y diwygio canlyniadol, yn amodol ar ddeddfwriaeth, yn sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil fel un awdurdod strategol yn gyfrifol am oruchwylio pob agwedd ar addysg a hyfforddiant ôl-orfodol erbyn 2023. Y sail resymegol dros sefydlu'r Comisiwn yw cryfhau a symleiddio'r sector ôl-16 yng Nghymru i wneud cyfleoedd dysgu yn fwy perthnasol ac ymatebol i anghenion dysgywr. Bydd yn bwysig bod y diwygiadau hyn yn galluogi'r cyfleoedd a chymwysterau ôl-16 i adeiladu ar y Cwricwlwm newydd i Gymru ar gyfer addysg orfodol.

Yn ogystal â bod yn rheoleiddiwr a chyllidwr ar gyfer sefydliadau addysg bellach (AB) ac addysg uwch (AU), bydd y Comisiwn yn gyfrifol am brentisiaethau, dysgu oedolion a darparu chweched dosbarth mewn ysgolion prif ffrwd drwy awdurdodau lleol. Yn ogystal, bydd y Comisiwn yn gyfrifol am ymchwil ac arloesi lefel uwch a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ac yn rheoleiddio ansawdd addysg a hyfforddiant yn y sectorau addysg drydyddol, hyfforddiant ac ymchwil yng Nghymru.

## Y cwricwlwm a phrofiadau dysgu mewn addysg a hyfforddiant ôl-orfodol


Mae bron yr holl ddysgwyr yn mynd o'r ysgol i astudio Safon Uwch, cyrsiau galwedigaethol neu brentisiaethau mewn ysgolion, colegau neu ddarparwyr dysgu yn y gwaith (Llywodraeth Cymru, 2017d). Fodd bynnag, gan ddibynnu ar ble mae unigolyn ifanc yn byw yng Nghymru, mae gwahaniaethau yn y cyfleoedd y gallant fanteisio arnynt o ran dewis, lefel astudio a'r cyfrwng iaith.

Mewn ychydig o achosion, ceir perthnasoedd gweithio cryf rhwng ysgolion, colegau a darparwyr dysgu yn y gwaith. Fodd bynnag, mae gwybodaeth a chyngor anghyflawn yn parhau'n rhwystr sylweddol i ddisgyblion rhag gwneud dewisiadau gwybodus o'r ystod lawn o opsiynau addysg a hyfforddiant ôl-16 sydd ar gael.


Mae cynllunio strategol a chyflwyno darpariaeth 14-19 yn amrywiol ar draws colegau ac awdurdodau lleol. Mae'r trefniadau cyllido ar gyfer darpariaeth 14-19 yn gymhleth, ac mae gan y colegau mwyaf effeithiol gysylltiadau a pherthnasoedd da gydag ysgolion ac awdurdodau lleol i wneud yn siŵr bod eu cynnig yn cyfateb i anghenion lleol. Mewn llawer o achosion, mae staff ymroddedig a pherthnasoedd unigol yn gyrru'r modd y caiff darpariaeth ei datblygu, yn hytrach nag ymrwymiad wedi'i ffurfioli ar lefel strategol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae darpariaeth 14-19 yn rhan o gynllunio strategol y coleg neu'r awdurdod lleol, a cheir cysylltiadau sefydledig rhwng y coleg, yr awdurdod lleol ac ysgolion. Er enghraifft, mewn un grŵp coleg mawr, mae gan bennaeth pob safle coleg sy'n rhan o'r grŵp gyfrifoldeb uniongyrchol am ddarpariaeth 14-19, ac mae ganddo gysylltiadau da gyda swyddog cyfatebol yn yr awdurdod lleol. Mewn partneriaethau gydag awdurdodau lleol yn ei ardal, ceir cydlynydd cyswllt dynodedig a ariennir ar y cyd, gyda gofod swyddfa yn y coleg, er mwyn cysylltu a rheoli gweithgarwch o ddydd i ddydd.

# Addysg a hyfforddiant ôl-16


**Ffigur 15: Niferoedd mewn Darpariaeth Ôl-16 yng Nghymru**





**Ffigur 16: Dysgwyr unigryw colegau addysg bellach – hyd at ac yn 19 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd**





**Ffigur 17: Dysgwyr unigryw colegau addysg bellach – 20 oed ac yn hŷn ar ddechrau'r flwyddyn academaidd**




# Addysg a hyfforddiant ôl-16




**Ffigur 18: Dysgwyr unigryw dysgu yn y gwaith – hyd at ac yn 19 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd**




**Ffigur 19: Dysgwyr unigryw dysgu yn y gwaith – 20 oed ac yn hŷn ar ddechrau'r flwyddyn academaidd**




**Ffigur 20: Dysgu cymunedol awdurdodau lleol – dysgwyr unigryw**

# Addysg a hyfforddiant ôl-16

**Astudiaeth achos: Partneriaethau LINC Conwy ac Arfon**

Sefydlwyd LINC Conwy yn 2011 ac mae'n cynnwys saith o ysgolion uwchradd ac un coleg addysg bellach yn ardal Conwy.  Mae partneriaeth Arfon yn cynnwys chwech o ysgolion uwchradd a dau goleg addysg bellach yn ardal Arfon a'r cyffiniau.  Sefydlwyd y ddwy bartneriaeth i gynyddu cyfleoedd ar gyfer darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg, ac i gynyddu ystod yr opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr ôl-16 yn yr ardaloedd lleol yng Ngogledd Cymru.  Maent yn galluogi dysgwyr i astudio o ystod o gyrsiau Uwch Gyfrannol, Safon Uwch a chyrsiau galwedigaethol yn unrhyw un o'r canolfannau cysylltiedig.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein hastudiaeth achos **Cyrsiau Safon Uwch mewn dosbarthiadau chweched a cholegau** (Estyn, 2018a).

Mewn partneriaethau eraill, mae'r awdurdod lleol yn negodi'n uniongyrchol gyda'r coleg ynghylch graddfa, cwmpas a thalu am y ddarpariaeth, fel nad oes angen i benaethiaid unigol negodi'n uniongyrchol gyda'r coleg.  Yn y partneriaethau hyn, mae'r coleg yn ceisio lleihau'r costau i ysgolion a hyrwyddo i'r eithaf effaith y cyllid y mae'n ei dderbyn, er enghraifft trwy beidio â chymryd rhan o incwm, trwy godi cyfraddau sydd ond yn llwyddo i dalu costau neu drwy gynyddu'r tâl ar gyfradd islaw chwyddiant.

Yn yr enghreifftiau llai effeithiol, mae'r ddarpariaeth yn gyfyngedig yn gyffredinol o ran maint ac wedi'i chydlynu'n wael.  Nid yw'r ddarpariaeth wedi'i chynllunio'n strategol i fodloni anghenion dysgwyr na'r ardal leol.   Gall trefniadau rhwng colegau, ysgolion ac awdurdodau lleol fod yn drefniadau ad hoc, a dibynnu ar ymrwymiad rheolwr a staff lleol, yn hytrach na chael eu cefnogi gan strwythur wedi'i gynllunio'n dda, neu drwy femoranda cyd-ddealltwriaeth clir.

Mae'r partneriaethau mwyaf effeithiol rhwng ysgolion a cholegau yn helpu cefnogi'r pontio o ysgolion i ddysgu ôl-16.  Er enghraifft, mae lleiafrif o golegau addysg bellach wedi datblygu a chyflwyno 'rhaglen brentisiaeth iau' sy'n darparu addysg a hyfforddiant galwedigaethol i ddisgyblion ysgol, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol neu sydd â chofnod ymddygiad neu bresenoldeb gwael.  Yn nodweddiadol, mae'r rhaglen amser llawn hon yn cynnwys adeiladu, trin gwallt neu raglenni cerbydau modur sy'n arwain at gymwysterau lefel 1 neu 2.  Mae dysgwyr yn ymgymryd â chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru hefyd mewn medrau cyfathrebu a medrau rhif, yn ogystal â chyfranogi mewn chwaraeon a gweithgareddau cyfoethogi.  Mae'r dysgwyr wedi'u cofrestru o hyd yn eu hysgolion uwchradd, ond maent yn derbyn eu haddysg yn y coleg yn unig.  Er bod y term 'prentisiaeth iau' yn cael ei ddefnyddio, nid yw'r rhaglen yn rhan o raglen prentisiaethau genedlaethol Llywodraeth Cymru a chaiff ei hariannu fel grant 'datrysiadau creadigol' ar wahân i golegau.

Bydd Estyn yn cyhoeddi adroddiad thematig yn 2020 ar effeithiolrwydd partneriaethau a chynllunio ar y cyd rhwng ysgolion uwchradd a cholegau ar gyfer eu darpariaeth 16-19.

# Addysg a hyfforddiant ôl-16

## Darpariaeth Safon Uwch

Cynigir cyrsiau Safon Uwch gan ddosbarthiadau chweched mewn ysgolion a chan golegau addysg bellach yng Nghymru. Mae ystod y pynciau Safon Uwch sy'n cael eu cynnig yn amrywio yn ôl lleoliad daearyddol, arbenigedd staff, cyfrwng iaith, maint y darparwr a ph'un a oes partneriaethau rhwng canolfannau neu beidio. Yn gyffredinol, mae colegau ac ysgolion mawr yn cynnig ystod ehangach o bynciau na darparwyr llai, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dibynnu ar drefniadau partneriaeth i gynnig ystod eang o bynciau. Yn ychwanegol at y pynciau sy'n boblogaidd yn gyffredinol[19], mae llawer o golegau ac ysgolion â dosbarthiadau chweched mawr yn darparu pynciau UG neu Safon Uwch nad oes llawer yn eu dilyn, fel athroniaeth, electroneg, daeareg a'r clasuron. Mae colegau ac ysgolion yn defnyddio dyfarniad Bagloriaeth Cymru yn gyffredinol i ehangu medrau a phrofiadau eu dysgwyr Safon Uwch. Maent yn cofrestru bron yr holl ddysgwyr Safon Uwch ar gymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru. Yn gynyddol, mae colegau ledled Cymru yn trefnu bod sesiynau bugeiliol a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru ar gael i ddysgwyr yn Gymraeg. Fodd bynnag, ychydig iawn o golegau sy'n cyflwyno pynciau Safon Uwch yn ddwyieithog neu yn Gymraeg.

Er bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn dewis astudio Safon Uwch yn cael cynnig nifer o bynciau Safon Uwch, gall y dewis ar gyfer dysgwyr unigol gael ei gyfyngu gan nifer o ffactorau. Mae hyn yn wir yn aml mewn ardaloedd neu ganolfannau lle mae opsiynau ôl-16 heblaw am Safon Uwch yn gyfyngedig. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys canolfannau sy'n gofyn bod dysgwyr yn astudio mwy o bynciau nag y maent yn dymuno, a chanolfannau nad ydynt yn cynnig pynciau penodol oherwydd diffyg arbenigedd pwnc neu ganlyniadau gwael mewn pwnc dros gyfnod. Mewn ychydig o achosion, mae dysgwyr yn amharod i deithio i ganolfannau eraill. Mae llawer o ganolfannau, yn briodol yn aml, yn pennu isafswm graddau ar gyfer astudio rhai pynciau. Mae hyn yn effeithio'n arbennig ar ddysgwyr â chyflawniad cymharol gymedrol mewn TGAU oherwydd bod eu dewisiadau wedi'u cyfyngu gan ofynion mynediad ac mae hyn yn eu gadael gydag ystod gyfyngedig o opsiynau nad ydynt efallai'n cyfateb i'w hanghenion neu ddiddordebau. Mae'r ffactorau hyn arwain at ychydig o ddysgwyr yn dewis cwrs nad ydynt wedi'i astudio o'r blaen, fel seicoleg, heb ddeall yn llawn beth yw gofynion y pwnc neu ddewis pynciau nad oes ganddynt fawr o ddiddordeb ynddynt.

Mae meintiau dosbarthiadau yn amrywio'n fawr ar draws canolfannau, o un i ryw 30 o ddysgwyr. Mewn dosbarthiadau bach iawn, mae'n anodd i ddysgwyr ddysgu oddi wrth ei gilydd, er y gallant elwa o'r amser y mae staff yn ei roi iddynt. I'r gwrthwyneb, mae dosbarthiadau mawr iawn yn achosi heriau o ran llwyth gwaith athrawon ac mae'n anodd i athrawon roi digon o sylw i ddysgwyr unigol.

Mae llawer o ganolfannau yn cynnig ystod eang o gyfleoedd cyfoethogi i'w dysgwyr Safon Uwch, gan gynnwys gweithgareddau diwylliannol ac academaidd, yn ogystal â chwaraeon a hobïau. Mae dysgwyr mwy abl yn elwa o ddigwyddiadau a gweithgareddau pwrpasol sy'n annog eu chwilfrydedd ac yn ymestyn eu dealltwriaeth. Yn y rhan fwyaf o ysgolion a

[19] Pynciau fel mathemateg, llenyddiaeth Saesneg, bioleg, hanes, cemeg, astudiaethau crefyddol

cholegau, mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys cyfranogi yn y rhaglen Seren a ariennir gan Lywodraeth Cymru a sefydlwyd yn 2015 i gynorthwyo pobl ifanc mwy abl yn academaidd yng Nghymru i gael mynediad i brifysgolion blaenllaw yng Nghymru, y DU a phrifysgolion Rhyngwladol. Sefydlwyd Rhwydwaith Seren yn wreiddiol er mwyn ymateb yn uniongyrchol i'r angen i atal y dirywiad yn nifer y ceisiadau llwyddiannus yn cael eu gwneud gan fyfyrwyr yng Nghymru i fynychu Prifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt. Yn yr achosion gorau, mae ysgolion a cholegau yn darparu cymorth ychwanegol pwrpasol i ddysgwyr sy'n gwneud cais am fynediad i gyrsiau prifysgol sydd â gofynion mynediad ehangach neu arholiadau mynediad. Mae'r cyfryw gymorth ar ffurf ymweliadau â phrifysgolion a darlithwyr gwadd, yn ogystal â mentora, arholiadau ffug a chyfweliadau. Mae dysgwyr yn mwynhau cyfarfod â phobl ifanc o'r un meddylfryd, a chael cyfle i gael sesiynau ychwanegol ar faes penodol sydd o ddiddordeb iddynt. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i fynychu ysgolion haf mewn prifysgolion arweiniol yn y DU, yr UD a Tsieina. Mae'r rheini sy'n ymgeisio i astudio pwnc gwyddoniaeth mewn prifysgol, fel meddygaeth neu ddeintyddiaeth, wedi gweld y rhaglen yn arbennig o fuddiol. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt i wneud cais i brifysgol. Caergrawnt wnaeth y nifer uchaf o gynigion i fyfyrwyr yng Nghymru sydd wedi cael addysg wladol yn 2019, sef cyfradd gynigion o 31%, ac mae ceisiadau i Rydychen wedi cynyddu 13% er 2016. Yn 2019, cafodd rhaglen Seren ei hymestyn i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 8 i 11.

## Darpariaeth alwedigaethol

Mae colegau addysg bellach yng Nghymru yn cyflwyno ystod gynhwysfawr o gyrsiau galwedigaethol ar lefelau gwahanol ar draws llawer o feysydd pwnc. Maent yn defnyddio ystod o wybodaeth i lywio cynllunio'r cwricwlwm, yn cynnwys ystyried argymhellion blynyddol a geir gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i adlewyrchu anghenion medrau yn rhanbarthol. Yn ychwanegol at yr argymhellion hyn, mae llawer o golegau yn cynllunio'u cynnig o gyrsiau ar sail recriwtio'r flwyddyn flaenorol neu'r galw cyfredol gan ddysgwyr presennol yn hytrach na dadansoddiad o fedrau presennol neu fedrau'r dyfodol, ac anghenion cyflogwyr. Mae llwybrau dilyniant i'r lefel nesaf ar gael ar lawer o gyrsiau. Ychydig iawn o gyrsiau a gyflwynir yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, ac nid oes digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu Cymraeg fel medr cyflogadwyedd a medr bywyd.

Ym mron pob coleg, caiff darpariaeth llawer o gyrsiau ei gwella trwy ddarparu amgylcheddau gwaith realistig fel salonau trin gwallt a harddwch, bwytai hyfforddi neu weithdai cerbydau modur a pheirianneg. Ar wahân i ychydig o gyrsiau sy'n gofyn am brofiad gwaith fel rhan o'u cymhwyster, nid yw llawer o golegau yn gweithio'n ddigon da gyda chyflogwyr i ddarparu profiad gwaith ystyrlon, wedi'i raglennu, neu brofiadau eraill defnyddiol yn gysylltiedig â gwaith ar gyfer dysgwyr.

Er bod colegau yn gyffredinol yn llwyddo i gynorthwyo dysgwyr i gyflawni'u cymwysterau, nid ydynt yn gwneud digon bob amser i ddatblygu'u medrau bywyd. Mae llawer o ddysgwyr yn cwblhau cyrsiau heb ddatblygu'r medrau cyflogadwyedd a'r medrau cymdeithasol allweddol a nodir gan gyflogwyr yn aml. Mae hyn yn golygu nad yw dysgwyr, mewn rhai achosion, wedi'u paratoi'n ddigonol ar gyfer gofynion y diwydiant y maent wedi'u hyfforddi ynddo. O ganlyniad, mae'r dysgwyr hyn yn tueddu gadael y diwydiant ar ôl sicrhau cyflogaeth, ac mae'n rhaid iddynt ailhyfforddi mewn maes galwedigaethol arall.

# Addysg a hyfforddiant ôl-16

## Darpariaeth prentisiaethau

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr dysgu yn y gwaith yng Nghymru yn cyflwyno ystod eang o raglenni prentisiaeth ar draws llawer o feysydd dysgu, gan gynnwys prentisiaethau uwch. Caiff y prentisiaethau hyn eu darparu er mwyn bodloni'r galw cynyddol gan gyflogwyr a dysgwyr. Eleni, lansiwyd y rhaglen prentisiaeth gradd. Ar hyn o bryd, cyflwynir y rhaglen hon yn y ddau faes blaenoriaeth peirianneg a gweithgynhyrchu uwch, a thechnoleg gwybodaeth.

Yn gyffredinol, mae galw am brentisiaethau ar lefel 2 a lefel 3, a chynigir llawer o brentisiaethau uwch ar lefel 4. Mae galw mawr o hyd am brentisiaethau ar lefel 2 a lefel 3 mewn iechyd a gofal cymdeithasol, gweinyddu busnes, peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu, ac adeiladu a'r amgylchedd adeiledig. Mae'r darparwyr hyfforddiant mwyaf llwyddiannus yn gweithio gyda chyflogwyr i gydweddu dysgwyr yn ofalus â'r rhaglenni hyfforddi sy'n fwyaf addas i'w rolau swydd. Maent hefyd yn defnyddio adborth gan gyflogwyr i wella a diweddaru darpariaeth. Yn yr achosion gorau, mae dysgwyr yn cael eu rhaglennu ar gyfer hyfforddiant yn y gwaith a hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw gweithgareddau yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith yn cael eu cydweddu'n ddigon gofalus â chyfleoedd a gofynion asesu.

Mae amrywiaeth sylweddol o hyd yn ansawdd yr hyfforddiant a'r mentora a gaiff dysgwyr gan eu cyflogwyr yn y gweithle. Mae'r agwedd hon ar ddatblygiad dysgwyr yn bwysig i sicrhau cymorth i ddysgwyr a chynnydd llwyddiannus drwy'r brentisiaeth, yn enwedig ar gyfer dysgwyr prentisiaeth uwch.

Mae darparwyr yn ceisio gweithio'n agosach gydag ysgolion yn eu hardaloedd daearyddol lleol i hyrwyddo prentisiaethau. Hefyd, mae cryn bosibiliadau o hyd i gynyddu ymwybyddiaeth o brentisiaethau gyda dysgwyr, athrawon a rhieni fel opsiwn ymarferol ac addas i astudio Safon Uwch neu fynychu addysg bellach neu brifysgol.

## Hawl i ddysgu gydol oes – darpariaeth medrau ar gyfer ail gyfleoedd

Yn 2019, ymrwymodd y Gweinidog Addysg i archwilio'r modd y gallai Llywodraeth Cymru sicrhau hawl i ddysgu gydol oes i Gymru. Mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn cynnig ystod eang o gyrsiau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol ynghyd â Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) y gall dysgwyr ddatblygu'u medrau sylfaenol drwyddynt. Fel arfer, mae'r cyrsiau hyn yn rhad ac am ddim i ddysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn rhoi ystyriaeth dda i anghenion dysgwyr ac yn gweithio'n effeithiol i rannu adnoddau, lleihau dyblygu dosbarthiadau a sicrhau cyfleoedd dilyniant.

Mae gan y rheiny sy'n gweithio mewn partneriaethau dysgu oedolion ymrwymiad cryf i ddarparu dysgu ar gyfer dysgwyr sy'n anodd eu cyrraedd, fel y rhai di-waith hirdymor, rhieni sengl, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, y rheiny â phroblemau corfforol a meddyliol, y rhai ynysig, y rhai sydd wedi'u cam-drin a'r henoed, yn ogystal â'r rheiny sydd wedi cael profiadau gwael o addysg statudol.

# Addysg a hyfforddiant ôl-16

Mae ystod o ymrwymiadau yn eu bywydau gan y rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n oedolion, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn gweithio'n galed i sicrhau bod lefel briodol o gyrsiau'n cael eu cynnal mewn lleoliadau ar amserau gwahanol o'r dydd i fodloni anghenion gwahanol dysgwyr sy'n oedolion.  Fel arfer, mae'r lleoliadau yn hawdd i'r rhan fwyaf o ddysgwyr eu cyrraedd.  Fodd bynnag, mae lleoliad ac amseriad dosbarthiadau yn heriol yn aml pan fydd y bartneriaeth yn cwmpasu ardal wledig fawr, ac anaml y mae trafnidiaeth gyhoeddus ar gael.

Mae llawer o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn gweithio'n dda gyda sefydliadau gwirfoddol, neu gyda sefydliadau eraill fel carchardai, i ddarparu cyrsiau wedi'u teilwra er mwyn bodloni anghenion amrywiol eu dysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn cynnig ystod eang o ddosbarthiadau yn gysylltiedig â datblygu diddordebau dysgwyr, er enghraifft, uwchgylchu celfi, dosbarthiadau coginio rhyngwladol, ieithoedd a dosbarthiadau celf.  Mae'r partneriaethau dysgu yn y gymuned yn ymatebol i ddiweddaru'u cynnig cwricwlwm bob blwyddyn.  Fel arfer, mae dysgwyr yn talu cost cyrsiau diddordeb cyffredinol a gweithgareddau heb dystysgrif yn llawn.  Mewn achosion eraill, mae uwch arweinwyr yn nodi cyrsiau sydd wedi bod yn rhedeg ers tro lle mae dysgwyr yn gwneud cynnydd cyfyngedig mewn dysgu newydd, ond yn mynychu'n rheolaidd am resymau cymdeithasol.  Mewn llawer o achosion, maent yn helpu'r cyrsiau hyn i ddatblygu'n glybiau, sy'n penodi ac yn talu eu tiwtoriaid eu hunain, a thrwy ddarparu lleoliadau ble gall y clwb gyfarfod am gost briodol.  Mae llawer o ddysgwyr hŷn yn parhau i fynychu'r cyrsiau diddordeb a'r clybiau hyn yn rheolaidd, ac mae hyn yn eu helpu i gynnal eu lles trwy gyfranogi'n weithgar mewn grŵp cymdeithasol.

Mewn dysgu oedolion yn y gymuned, mae dysgwyr sy'n oedolion yn aml yn cofrestru ar gyrsiau medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol er mwyn gwella'u medrau cyn mynd i mewn i waith neu i adfer eu medrau os ydynt wedi bod heb waith am gyfnod o amser.  Gallant hefyd fod yn ddysgwyr sydd eisoes yn gweithio, ond a fyddai'n gallu cael swyddi rheoli gyda medrau lefel uwch mewn llythrennedd a rhifedd.  Yn gyffredinol, mae dysgwyr sy'n oedolion yn datblygu'u medrau yn dda ac yn cwblhau'u cyrsiau a'u cymwysterau yn llwyddiannus ar gyfraddau da.  Mae llawer o ddysgwyr yn ennill achrediad drwy eu hastudiaethau.

Mae ystod y cyfleoedd i ddysgwyr yn y sector cyfiawnder wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn yn y rhan fwyaf o garchardai yng Nghymru.  Yn y carchardai a gafodd eu harolygu gan Estyn eleni, mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur yn effeithiol i ddatblygu ystod eang o gyfleoedd i helpu dysgwyr ennill medrau a fydd yn eu helpu i symud ymlaen at waith.  Er enghraifft, mae partneriaeth ddefnyddiol gyda chyflogwr, sydd wedi datblygu cyfleuster hyfforddiant warws yn y carchar yn galluogi dysgwyr i gael cyfweliadau cyflogaeth pan gânt eu rhyddhau.  Mae cyfleusterau canolfan alwadau mewn dau garchar yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr, ac mae rhaglen cynnal a chadw rheilffyrdd arbenigol mewn un carchar yn rhoi cyfleoedd cyflogaeth i

ddysgwyr gyda chyflogwyr rheilffordd. Mae un carchar wedi mireinio ei hyfforddiant amlsgiliau adeiladu mewn partneriaeth â chwmni adeiladu i ddarparu hyfforddiant wedi'i deilwra mewn medrau leinio sych, gyda'r cyflogwr partner yn cynnig cyfleoedd i symud ymlaen yn uniongyrchol i gyflogaeth pan gaiff carcharorion eu rhyddhau. Mae dysgwyr mewn hyfforddiant galwedigaethol mewn carchardai yn cael cyfleoedd da i ennill cymwysterau a gydnabyddir gan gyflogwyr. Hefyd, caiff y rhan fwyaf gyfleoedd i ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd ochr yn ochr â'u hyfforddiant galwedigaethol.

### Cymraeg 2050

Mae gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ran allweddol i'w chwarae i gynnal a datblygu medrau Cymraeg dysgwyr er mwyn bodloni'r angen cynyddol am weithlu dwyieithog fel yr amlinellir yn y Strategaeth 'Cymraeg 2050' (Llywodraeth Cymru, 2017a). Mae'r graddau y mae awdurdodau lleol, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn cynllunio'u haddysg a hyfforddiant ôl-16 cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn amrywio gormod. Mae angen annog mwy o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg i barhau â rhywfaint o'u dysgu, neu'u holl ddysgu, yn Gymraeg. Yn 2019, lansiodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei 'Gynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg' (2018), sy'n amlinellu'r camau y bydd yn eu cymryd i ddatblygu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, hyder neu rugldеr dysgwyr. Mae'r cynllun yn nodi'r angen i gynyddu medrau dwyieithog y gweithlu ôl-16 yn sylweddol. Ar hyn o bryd, dim ond 7.7% o ymarferwyr dysgu yn y gwaith, ac 15.2% o athrawon addysg bellach, sy'n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg (Cyngor y Gweithlu Addysg, 2019).

Mewn colegau addysg bellach, mae llawer o ddysgwyr sy'n dysgu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn meddu ar fedrau llafar Cymraeg neu ddwyieithog da (Estyn, 2017c). Maent yn siarad yn hyderus ac yn gywir, ac yn dangos dealltwriaeth dda o eirfa a therminoleg pwnc. Fodd bynnag, dywed rhyw draean o ddysgwyr mai dim ond gweddol hyderus yn llafar y maent ar y gorau, er iddynt ddilyn cyrsiau mewn Cymraeg neu fynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Yn yr enghreifftiau gwell, mae dysgwyr a'u hathrawon yn sgwrsio'n anffurfiol yn Gymraeg yn ystod dosbarthiadau ac o amgylch y coleg. Mewn ychydig o achosion, mewn darparwyr hyfforddiant dysgu yn y gwaith, cynhelir adolygiadau ac asesiadau yn Gymraeg, ond yn aml mae hyn yn dibynnu ar y lleoliad daearyddol a bod staff sy'n siarad Cymraeg gan y darparwr.

Yn adroddiadau arolygu Estyn ar ddarparwyr addysg bellach a dysgu yn y gwaith, un argymhelliad cyffredin yn y blynyddoedd diwethaf fu gwella'r ffocws ar ddatblygu medrau Cymraeg dysgwyr fel medr cyflogadwyedd, ac annog dysgwyr i ddefnyddio a datblygu'u medrau iaith yn y gweithle. Ar draws y sector ôl-16, nid yw arweinwyr a rheolwyr wedi cysylltu buddion defnyddio'r Gymraeg â chyfleoedd cyflogaeth yn glir, er bod galw am gymhwysedd yn y Gymraeg mewn nifer o ranbarthau daearyddol a meysydd dysgu. Mae hyn yn arbennig o wir yn y sectorau iechyd a gofal, ac yn enwedig yn y sector cartrefi gofal. Mae hefyd yn fedr cyflogaeth dymunol iawn ar gyfer dysgwyr ar raglenni galwedigaethol sy'n ymweld â chartrefi cwsmeriaid Cymraeg a dwyieithog i wneud gwaith.

# Addysg a hyfforddiant ôl-16

Yn dilyn newidiadau strwythurol diweddar ar lefel genedlaethol, mae'r sector Cymraeg i Oedolion yn dechrau gwneud cyfraniad pwysig at helpu cyflawni rhai o nodau Strategaeth 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru (2017a), sy'n amlinellu ymagwedd hirdymor at gyflawni'r targed o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Erbyn hyn, mae darparwyr yn datblygu darpariaeth ledled Cymru i gefnogi cyrsiau ar gyfer y gweithle, a'r teulu, ac i ehangu'r defnydd o dechnoleg i gefnogi dysgu.

Mae dysgwyr yn y ddau ddarparwr Cymraeg i Oedolion a arolygwyd rhwng 2017 a 2019 yn caffael y Gymraeg yn gyflymach ac yn fwy effeithiol na disgyblion ar y lefelau cyfatebol mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg. Mae tiwtoriaid yn y darparwyr hyn yn llwyddo i sicrhau bod gwersi'n canolbwyntio'n dda ar wella safonau llefaredd, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dod yn fwyfwy hyderus yn eu defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig deall a siarad yr iaith.

## Addysgu a hyfforddiant

Yn gyffredinol, mae ansawdd addysgu a hyfforddi yn dda neu'n well yn yr holl golegau addysg bellach a llawer o ddarparwyr dysgu yn y gwaith.

Mewn llawer o golegau, cyflwynwyd mentoriaid addysgu a dysgu i wella ansawdd addysgu, hyfforddi ac asesu. Fel arfer, mae'r staff hyn yn ymgymryd â'u rôl wedi iddynt gael eu rhyddhau o'u hymrwymiadau addysgu. Mae enghreifftiau o'r math o waith y maent yn ymgymryd ag ef yn cynnwys gweithio i gefnogi staff amhrofiadol neu staff sy'n tanberfformio, hwyluso sesiynau ymarfer myfyriol gyda grwpiau o staff, arwain digwyddiadau arddangos arfer dda, neu ddatblygu addysgeg gydag athrawon sy'n cyflwyno cyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Mae'r rhan fwyaf o golegau yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau addysgu ac asesu eu staff. Mae ychydig o staff addysgu yn cyfranogi mewn gweithgareddau traws-golegol i rannu arfer orau. Yn gyffredinol, mae colegau'n gwneud defnydd da o'u hadnoddau mewnol, fel mentoriaid addysgu a dysgu, i gynorthwyo staff ac adrannau sy'n tanberfformio. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr dysgu yn y gwaith yn rhoi ffocws cryf ar ddatblygu medrau addysgu ac asesu craidd staff, gan adlewyrchu mwy o gydnabyddiaeth o natur annatod addysgu i rôl yr aseswyr. Mewn colegau a darparwyr dysgu yn y gwaith, dim ond ychydig iawn o athrawon, hyfforddwyr neu aseswyr sy'n ymgymryd â lleoliadau diwydiant i ddiweddaru eu medrau a'u gwybodaeth.

Yn y mwyafrif o golegau a darparwyr dysgu yn y gwaith, mae rheolwyr llinell yn arsylwi addysgu a dysgu. Wedyn, mae'r arsylwadau hyn yn bwydo i adolygiadau perfformiad unigol. Nid yw'r mwyafrif o ddarparwyr yn defnyddio arsylwadau graddedig mwyach, ond yn nodweddiadol maent yn nodi'r athrawon hynny sydd islaw trothwy ansawdd ac y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Yn yr achosion gorau, caiff gweithgareddau datblygiad proffesiynol unigol eu nodi fel rhan o'r broses hon.Mae llawer o golegau yn defnyddio 'teithiau dysgu' er mwyn cael trosolwg o ansawdd. Mae'r teithiau hyn yn cynnwys ymweliadau â dosbarthiadau a siarad â dysgwyr, ac maent yn rhoi ciplun defnyddiol o ansawdd addysgu a dysgu.

# Addysg a hyfforddiant ôl-16

Mewn llawer o achosion, nid oes gan golegau a darparwyr dysgu yn y gwaith drosolwg manwl o effaith eu gweithgareddau datblygiad proffesiynol.  Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ffurflen gwerthuso defnyddiwr gan ddigwyddiadau unigol, ond ychydig o golegau a darparwyr sy'n annog staff i fyfyrio ar yr hyfforddiant y maent wedi ymgymryd ag ef. Yn gyffredinol, mae uwch arweinwyr yn mesur effaith dysgu proffesiynol drwy fyfyrio gan ymarferwyr, arsylwadau o wersi, arolygon dysgwyr ac adolygiad o ddarpariaeth.  Ychydig iawn o ddarparwyr sy'n cysylltu adborth dysgwyr drwy holiaduron ac arolygon yn glir gydag effeithiolrwydd addysgu, hyfforddi ac asesu.  Dim ond ychydig o athrawon sy'n cynnal teithiau dysgu neu'n gysylltiedig â gweithgareddau arsylwi cymheiriaid, ac nid ydynt yn elwa o'r cyfle dysgu gwerthfawr hwn.  Mewn ychydig o ddarparwyr, nid yw rheolwyr yn defnyddio'r wybodaeth a geir o'r prosesau hyn i ddatblygu darlun clir o'u cryfderau a meysydd i'w gwella.

## Safonau proffesiynol a dysgu proffesiynol

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2017c) set o safonau proffesiynol ar gyfer athrawon addysg bellach ac ymarferwyr dysgu yn y gwaith yng Nghymru yn 2017.  Datblygwyd y rhain mewn cydweithrediad â chynrychiolwyr o'r sectorau ôl-16, ac maent yn cydnabod nod 'proffesiynoliaeth ddeuol' yn rôl ymarferwyr yn y sectorau ôl-16, fel arbenigwyr pwnc ac arbenigwyr galwedigaethol yn ogystal ag arbenigwyr mewn addysgu, dysgu ac asesu.

Mae'r safonau proffesiynol yn ddefnyddiol i staff addysg bellach a dysgu yn y gwaith o ran adnabod y medrau sydd eu hangen i fod yn athro, hyfforddwr neu aseswr effeithiol.  Mae heriau sylweddol i'w cael o hyd, yn enwedig i staff dysgu yn y gwaith gan fod ganddynt ystod amrywiol ac eang o fedrau.  Mae'r staff hyn yn cyflawni llu o dasgau yn cynnwys hyfforddi, asesu, adolygiadau o gynnydd, a chyflwyno medrau hanfodol, diogelu a mentora.

Mae'r rhan fwyaf o golegau a darparwyr hyfforddiant wedi adolygu'r safonau proffesiynol ac yn dechrau eu hymgorffori i'w polisïau ac arferion dysgu proffesiynol, er enghraifft trwy gysylltu diwrnodau hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff â themâu yn y safonau.  Ar hyn o bryd, cymharol ychydig o ddeunydd ategol sydd ar gael i helpu darparwyr ddehongli'r safonau neu i'w defnyddio wrth ddatblygu arfer.  Er enghraifft, nid oes unrhyw gymwysterau addysgu wedi'u datblygu eto ar sail y safonau.  Mae ychydig o ddarparwyr wedi nodi nad yw'r dystysgrif ôl-raddedig yn y rhaglen addysg bellach wedi cadw'n gyson â'r newidiadau sylweddol mewn addysg a hyfforddiant.  O ganlyniad, maent wedi adolygu darpariaeth y rhaglen ac wrthi'n gweithio gyda'u partneriaid prifysgol ar gynnwys wedi'i ddiweddaru er mwyn bodloni gofynion newidiol addysgu a dysgu yn y sector ôl-16.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr angen i ddatblygu ymhellach yr ymagwedd genedlaethol at ddysgu proffesiynol mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 ac wedi comisiynu astudiaeth gwmpasu yn ddiweddar (Llywodraeth Cymru, 2019d).

Yn hanesyddol, mae dysgu proffesiynol yn y sector ôl-16 wedi bod yn swyddogaeth yr adran adnoddau dynol ac mae'r rhan fwyaf o bwyslais wedi'i roi ar gydymffurfiaeth yr unigolyn â gofynion datblygiad proffesiynol corfforaethol. Mewn llawer o golegau a darparwyr dysgu yn y gwaith, mae'r cyfrifoldeb am ddysgu proffesiynol wedi'i drosglwyddo i'r swyddogaeth ansawdd erbyn hyn.

# Addysg a hyfforddiant ôl-16

Mae hyn wedi galluogi newid o ymagwedd gydymffurfio gorfforaethol yn bennaf i fwy o ffocws gwella ansawdd gyda gweithgareddau datblygu wedi'u teilwra i ofynion unigol a gofynion tîm, ac yn cyfateb yn agosach i rolau swydd ac adrannau.

Ar draws colegau a darparwyr dysgu yn y gwaith, gan gynnwys isgontractwyr, mae staff wedi'u cofrestru'n briodol gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.  Dim ond ychydig iawn o ddarparwyr llai yn gyffredinol sy'n defnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol fel y brif system cadw cofnodion.  Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr a'u hisgontractwyr yn defnyddio'u systemau sefydledig eu hunain.  Fel arfer, mae'r systemau hyn yn cael eu cynnal a'u diweddaru gan adran adnoddau dynol y darparwr, ac maent wedi'u cysylltu â chofnodion hyfforddi a rheoli pherfformiad yr aelod staff.  Mae athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn dangos amrywiad eang o ran eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o'r safonau proffesiynol.

## Tegwch a lles

Mae llawer o ddarparwyr yn gweithio mewn ardaloedd daearyddol amrywiol yn ddiwylliannol.  Yn yr achosion gorau, mae darparwyr wedi ffurfio perthnasoedd buddiol gyda chynrychiolwyr y gymuned leol.  Mae'r berthynas hon wedi bod yn ddefnyddiol o ran darparu gwybodaeth ddiweddar am brentisiaethau i'r gymuned leol.  Er hynny, mae nifer y dysgwyr sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a dysgwyr benywaidd sy'n dewis mynd i mewn i hyfforddiant drwy'r llwybr prentisiaeth yn parhau'n isel (StatsCymru, 2019c).  Mewn ychydig iawn o achosion, mae darparwyr yn gweithio'n dda i nodi delfrydau ymddwyn i rannu gwybodaeth am raglenni prentisiaeth.

Er bod y mwyafrif o ddarparwyr yn dweud wrth gyflogwyr am fuddion cyflogi dysgwyr ag anabledd, mae'r gyfradd sy'n gwneud hynny'n parhau yn isel (StatsCymru, 2019b).  Yn yr achosion gorau, maent yn rhannu gwybodaeth am addasiadau a newidiadau y gellir eu gwneud i gynorthwyo dysgwyr yn y gweithle. Mewn llawer o ddarparwyr dysgu yn y gwaith, mae recriwtio dysgwyr sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn debyg i lefel y boblogaeth leol yn yr ardal.  Mae llawer o ddarparwyr wedi annog mwy o recriwtio trwy ddefnyddio ystod amrywiol o sianeli marchnata a sianeli'r cyfryngau, gan weithio gyda grwpiau cymunedol mewn ardaloedd â phoblogaeth pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig uwch.

Ar draws pob sector ôl-16, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n oedolion sy'n astudio Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu'r medrau mewn gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu.  Ar lefel mynediad, mae dysgwyr yn magu hyder yn gyflym wrth siarad ac maent yn ysgrifennu brawddegau syml yn gywir.  Ar lefelau mwy datblygedig, mae dysgwyr yn siarad Saesneg yn gymharol rugl, gydag ynganiad a goslef gywir.  Gallant fireinio'r iaith a ddefnyddiant yn effeithiol yn unol â'r sefyllfa a'r gynulleidfa.  Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i addasu'u hysgrifennu at ddibenion gwahanol.  Lle mae dysgwyr amser llawn yn cael cyfle i fynychu cyrsiau'n gysylltiedig â swydd, er enghraifft, cyrsiau lletygarwch, mae dysgwyr sy'n oedolion sy'n astudio Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill yn dysgu ac yn cymhwyso'u gwybodaeth ieithyddol yn dda.  Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r ddarpariaeth Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill yn cael ei defnyddio'n effeithiol iawn i ymgysylltu dysgwyr ag addysg bellach neu hyfforddiant.

# Addysg a hyfforddiant ôl-16

Yn unol â sectorau eraill, mae colegau a darparwyr hyfforddiant dysgu yn y gwaith yn gweld cynnydd sylweddol yn y galw gan ddysgwyr am gymorth gyda materion iechyd meddwl, ac yn aml maent yn cael anhawster bodloni'r galw mewn ffordd mor amserol ag y bo modd. Ar hyn o bryd, mae gormod o ddysgwyr yn gadael rhaglenni yn y cyfnodau cynnar iawn, yn aml cyn bod asesiad llawn o anghenion wedi'i wneud a chyn rhoi cymorth yn ei le. Ar raglenni prentisiaeth, mae oedi o ran gwneud diagnosis o anghenion cymorth a'u bodloni yn cyfrannu hefyd at nifer y dysgwyr nad ydynt yn cwblhau'u fframweithiau mewn modd amserol. Er bod presenoldeb yn gyffredinol dda yn y rhan fwyaf o golegau a darparwyr hyfforddiant, ar ychydig o raglenni mae gormod o ddysgwyr yn cyrraedd yn hwyr ar gyfer sesiynau, ac nid ydynt yn dangos yr agweddau a'r medrau angenrheidiol i arddangos cyflogadwyedd a pharodrwydd i weithio.

Canfu adroddiad thematig diweddar Estyn, 'Darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru' (2019d), bod darpariaeth ar gyfer y dysgwr yn amrywio'n eang ar draws darparwyr. Lle mae darpariaeth yn effeithiol, mae gan ddarparwyr aelod o staff arweiniol enwebedig ar gyfer gofalwyr ifanc i wneud yn siŵr bod lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr. Maent hefyd yn defnyddio system rheoli gwybodaeth yn dda i olrhain ac adrodd ar y cynnydd y mae'r dysgwyr hyn yn ei wneud o gymharu â'u cyfoedion er mwyn lleihau'r risg o dynnu nôl yn gynnar a pheidio â chwblhau astudiaethau.

## Arwain diwygio addysg a hyfforddiant

Mae llawer o golegau addysg bellach wedi tyfu'n sylweddol ers cyhoeddi adroddiad Webb, 'Addewid a Chyflawniad' (2007), a wnaeth gyfres o argymhellion ynglŷn â dyfodol y sector addysg bellach. Cyflawnwyd twf yn bennaf drwy uno colegau addysg bellach ac yn fwy diweddar mewn ychydig o golegau, trwy gaffael darparwyr hyfforddiant a oedd yn annibynnol yn flaenorol yng Nghymru a Lloegr. Mae ychydig o golegau addysg bellach wedi uno gyda sefydliadau addysg uwch hefyd, er eu bod yn dal i weithredu fel is-sefydliadau gyda'u hunaniaeth gorfforaethol eu hunain.

Mae trefniadau llywodraethu mewn sefydliadau addysg bellach wedi'u cryfhau hefyd yn dilyn cyhoeddi'r 'Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Llywodraethu Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru' (Humphreys, 2011). Fe wnaeth y newidiadau canlyniadol i'r ddeddfwriaeth wella ymreolaeth a galluoedd sefydliadau addysg bellach i wneud penderfyniadau drwy ddileu ac addasu rheolaethau deddfwriaethol presennol arnynt.

Gan fod graddfa gweithrediadau a throsiant ariannol mewn colegau addysg bellach wedi cynyddu, mae colegau wedi mynd ati'n gynyddol i fabwysiadu strwythurau sefydliadol newydd ac wedi ailddiffinio uwch rolau allweddol. Er enghraifft, mae lleiafrif o golegau bellach yn gweithredu o dan strwythur grŵp sy'n cynnwys nifer o golegau gwahanol neu isadrannau, gan wahanu rolau prif swyddog gweithredol a phenaethiaid coleg yn aml. Fel arfer mae'r gwahanu hwn yn adlewyrchu ymlyniad cynyddol uwch arweinwyr coleg mewn grwpiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol allanol ochr yn ochr ag uwch swyddogion o'r sectorau cyhoeddus a phreifat, fel fforymau economaidd a phartneriaethau medrau.

# Addysg a hyfforddiant ôl-16

Yn yr un modd, mae strwythur y sector dysgu yn y gwaith a nifer y darparwyr wedi mynd drwy newid sylweddol. Mae hyn yn bennaf gysylltiedig â newidiadau yn nhrefniadau contractio Llywodraeth Cymru sydd wedi lleihau nifer y deiliaid contract sylfaenol yn gynyddol. Serch hynny, mae llawer o'r deiliaid contract blaenorol yn parhau i weithredu o dan drefniadau partneriaeth ac is-gontractio o fewn trefniadau consortia a arweinir gan y prif ddeiliaid contract.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gynigion ar gyfer ailstrwythuro cyflwyno ac ariannu dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae gostyngiadau yng nghyllid y partneriaethau wedi golygu bod llawer o uwch arweinwyr ac arweinwyr gweithredol naill ai wedi symud i swyddi newydd neu wedi gadael y sector. Mae'r lleihad hwn mewn arbenigedd yn peri cryn her i arweinwyr strategol o ran sicrhau ansawdd y gwasanaeth yn gyffredinol ac ansawdd addysgu yn benodol, gan fod llai o arweinwyr gweithredol i gyflawni'r gwaith. Yng Ngorffennaf 2019, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg ymagwedd dau gam, trwy gyflwyno model ariannu diwygiedig yn gyntaf sy'n sicrhau dosbarthu cyllid yn deg ledled Cymru, gan ganolbwyntio'r cynllunio ar ddarpariaeth medrau hanfodol, ac ailstrwythuro'r partneriaethau presennol dysgu oedolion yn y gymuned i gysoni â'r partneriaethau medrau rhanbarthol. Bydd yr ail gam yn cynnwys datblygu corff strategol cenedlaethol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned (Llywodraeth Cymru, 2019o).


Mae prosesau hunanwerthuso sefydledig gan y rhan fwyaf o golegau addysg bellach a llawer o ddarparwyr dysgu yn y gwaith, yn cynnwys cylch priodol o weithgareddau sicrhau ansawdd. Mae bron pawb yn gweld bod cynhyrchu adroddiadau hunanwerthuso blynyddol a chynlluniau datblygu cysylltiedig yn ddefnyddiol. Maent yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol i nodi'u prif gryfderau. Mae lleiafrif o ddarparwyr yn llai effeithiol o ran nodi meysydd allweddol i'w gwella, ac o ganlyniad, maent yn rhy gadarnhaol yn eu gwerthusiad cyffredinol o rai agweddau ar eu perfformiad. Er enghraifft, mae lleiafrif yn rhoi gormod o bwyslais ar ddata deilliannau dysgwyr wrth werthuso safonau a nodi meysydd i'w gwella, ac nid ydynt yn rhoi ystyriaeth lawn i'r safonau o arsylwadau a chraffu ar waith dysgwyr.

Lle mae prosesau hunanwerthuso yn arbennig o gryf, mae darparwyr yn gwneud defnydd da o ystod gynhwysfawr o ddangosyddion perfformiad ac archwilwyr ansawdd defnyddiol i werthuso'r rhan fwyaf o agweddau ar eu perfformiad. Maent yn mabwysiadu ymagwedd hunanfeirniadol agored, yn rhoi ystyriaeth lawn i'r cyfraniad a wneir gan unrhyw isgontractwyr a phartneriaid cyflwyno, ac yn adlewyrchu hyn yn briodol yn eu gwerthusiadau. Mae trefniadau effeithiol ar waith gan leiafrif o ddarparwyr i gymedroli a dilysu canfyddiadau prosesau hunanwerthuso. Er enghraifft, mae ychydig o ddarparwyr yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid o ddarparwyr eraill neu randdeiliaid allanol eraill mewn prosesau fel adolygiadau ansawdd a phaneli cymedroli neu ddilysu.

Mae colegau addysg bellach yn dechrau integreiddio'r defnydd o fesurau 'perfformiad cyson' a gyflwynwyd yn ddiweddar a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'u prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Mewn cyrsiau 14-19 prif ffrwd, caiff ansawdd cwrs ei fesur yn aml gan ddeilliannau dysgwyr yn bennaf. Mae trefniadau i fesur y gwelliannau eraill a wneir gan ddysgwyr neu'r pellter y maent wedi'i deithio o'u mannau cychwyn heb eu datblygu'n ddigonol o hyd, yn enwedig ar raglenni galwedigaethol. Ychydig o ddarparwyr sy'n mesur ansawdd cyffredinol rhaglenni unigol, gan gynnwys safon addysgu a dysgu a datblygu medrau cyfathrebu a medrau rhifedd dysgwyr.

# Addysg a hyfforddiant ôl-16

Er bod prosesau hunanwerthuso yn gyffredinol gryf, mae effeithiolrwydd prosesau cynllunio gwelliant yn amrywio gormod rhwng darparwyr. Mae mwyafrif yn gwneud yn siŵr yr eir i'r afael â'r rhan fwyaf o ddiffygion pwysig drwy strategaethau wedi'u targedu'n ofalus a chamau gwella a gefnogir gan raddfeydd amser a cherrig milltir priodol. Maent y glir hefyd ynghylch dyrannu cyfrifoldebau penodol ar gyfer gweithredu a monitro. Mae lleiafrif o ddarparwyr yn canolbwyntio ar gamau gweithredu sy'n rhy generig, ac nid ydynt yn datblygu cynlluniau cadarn ar gyfer gweithredu a dilyniant. Yn aml, nid yw trefniadau ar gyfer rhannu arfer dda rhwng adrannau ac ar draws isgontractwyr neu bartneriaid cyflwyno wedi'u datblygu'n ddigonol ychwaith.



# Adran 2

# Crynodebau sector: Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed

2

## Cyd-destun

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn ariannu addysg ran-amser ar gyfer plant tair oed, a phlant pedair oed weithiau, mewn lleoliadau yn ogystal ag mewn ysgolion. Er nad yw awdurdodau lleol yn cynnal y lleoliadau hyn, maent yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn darparu addysg y cyfnod sylfaen o ansawdd da. Mae hyn yn cynnwys darparu cyngor a chymorth i arweinwyr ac ymarferwyr. Mae lleoliadau sy'n darparu addysg gynnar yn cynnwys darparwyr gofal dydd a gofal sesiynol. Mae'n ofynnol i Estyn arolygu addysg gynnar, ac mae dyletswydd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i arolygu ansawdd y gofal yn y lleoliadau hyn. Yn Ionawr 2019, dechreuodd Estyn ac AGC arolygu lleoliadau addysg nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed ar y cyd, gan ddefnyddio fframwaith arolygu newydd ar y cyd. Mae'r arolygiadau hyn ar y cyd yn ystyried ansawdd y gofal a ddarperir i'r holl blant hyd at 12 oed, ac addysg plant tair a phedair oed nad ydynt yn derbyn addysg mewn lleoliad a gynhelir. Mae'r fframwaith arolygu newydd yn cynnwys chwe thema mewn tri maes allweddol: mae themâu 1 a 2 yn ystyried deilliannau plant, mae themâu 3 a 4 yn ystyried pa mor dda mae ymarferwyr yn cyfrannu tuag at y rhain, ac mae themâu 5 a 6 yn ystyried ansawdd yr arweinyddiaeth o ran sicrhau deilliannau da i blant.

# Crynodebau sector: Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed

Mae nifer y lleoliadau sy'n cynnig addysg ran-amser wedi gostwng eto. Eleni, roedd 569 o ddarparwyr addysg mewn lleoliadau nad ydynt yn ysgolion ar gyfer plant tair neu bedair oed, sef gostyngiad o 593 o'r llynedd a 737 yn 2010.  Fe wnaethom arolygu 26 o leoliadau yn ystod tymor yr hydref o dan fframwaith arolygu 2010 Estyn.  Yn gyffredinol, roedd cyfran y lleoliadau hyn y barnwyd eu bod yn dda neu'n well yn nhymor yr hydref yn debyg i'r gyfran ar gyfer 2017-2018.  O'r 26 o leoliadau a arolygwyd, cafodd saith farn ragorol ar gyfer un cwestiwn allweddol neu ddangosydd ansawdd o leiaf, a barnwyd bod tri lleoliad yn rhagorol ar draws pob un o'r cwestiynau allweddol.



## Arolygiadau ar y cyd ers gwanwyn 2019

Yn ystod y gwanwyn a'r haf, fe wnaethom arolygu 66 o leoliadau o dan ein fframwaith arolygu newydd ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru.  Mae rhyw ddau o bob deg yn lleoliadau bach, lle ceir llai na chwech o blant tair oed.  Yn y lleoliadau hyn, o dan fframwaith 2010, er mwyn osgoi adnabod plant unigol, fe wnaeth arolygwyr adrodd ar y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn unig.  Mae'r un egwyddorion adrodd yn berthnasol yn ein trefniadau arolygu ar y cyd.  Mae arolygwyr yn adrodd ar yr holl themâu ac eithrio thema 2, sy'n canolbwyntio ar ddysgu plant tair neu bedair oed a ariennir.

## Dysgu


Mae safonau'n dda neu'n well mewn rhyw wyth o bob deg lleoliad.  Mae hyn fymryn yn is na'r ganran a nodwyd y llynedd.  Mewn lleoliadau lle ceir safonau da neu ragorol, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu o'u mannau cychwyn.  Maent yn datblygu'u medrau llythrennedd, rhifedd, eu medrau corfforol a phersonol a chymdeithasol yn effeithiol.

Lle ceir safonau rhagorol, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd arbennig o gryf o'u mannau cychwyn.  Maent yn cyfathrebu'n glir ac yn frwdfrydig, gan adeiladu geirfa eang a chyfoethog.  Er enghraifft, maent yn cofio digwyddiadau diweddar ac yn mewnosod gwybodaeth berthnasol yn dda.  Defnyddiant eirfa fathemategol yn gywir mewn ystod gynyddol o sefyllfaoedd.  Er enghraifft, maent yn cymharu'u taldra â thaldra blodyn haul, gan ddweud p'un a ydynt yn dalach neu'n fyrrach.  Maent yn hyderus i gymryd risgiau dan reolaeth ac yn datblygu'u medrau corfforol i lefel uchel.  Er enghraifft, wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol dyddiol, maent yn ymestyn fel jiráff ac yn clepian fel crocodeil.

Mewn lleoliadau lle ceir safonau da neu well, mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad yn hyderus ac yn gwneud eu hunain yn ddealladwy wrth drafod eu syniadau neu wrth ddweud wrth oedolion beth maent eisoes yn ei wybod.  Maent yn gwrando'n dda ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn effeithiol, er enghraifft, wrth greu golygfa jyngl gan ddefnyddio mwd, jeli a brocoli.  Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio patrymau iaith aeddfetach ac ystod ehangach o iaith soffistigedig yn bwrpasol.  Er enghraifft, wrth ddisgrifio sut i adeiladu lloches i'w dinosor, maent yn sôn am ei wddf tenau hir a'i gynffon pigfain trwchus.  Mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, lle nad y Gymraeg yw

# Crynodebau sector: Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed

iaith y cartref i'r rhan fwyaf o blant, mae llawer yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau llafar cryf. Mae'r disgyblion hyn yn barod i ddefnyddio cystrawennau sylfaenol, ymadroddion cyffredin ac ystod gynyddol o eirfa yn dda i sgwrsio ac ymuno mewn caneuon a hwiangerddi. Mewn ychydig iawn o leoliadau cyfrwng Cymraeg lle ceir safonau digonol, nid yw disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref yn gwneud digon o gynnydd yn aml wrth ddatblygu'u medrau llafar Cymraeg, ac yn aml maent yn troi'n ôl i siarad Saesneg yn ystod sesiynau. Nid yw'r plant hyn yn ddigon hyderus wrth drafod yn Gymraeg, ac o ganlyniad, mae eu hymatebion estynedig mewn brawddegau yn gyfyngedig yn aml.



Mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg, mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau darllen cynnar cadarn ac yn gwrando'n astud ar y storïau a ddarllenir iddynt gan oedolion. Maent yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn siarad yn eiddgar am eu cymeriadau, er enghraifft drwy awgrymu sut i helpu'r tedi bêr a aeth ar goll yn yr eira. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau gwneud marciau ac yn arbrofi'n hyderus gan ddefnyddio ystod o offer. Maent yn creu marciau'n bwrpasol ac yn deall bod ystyr i ysgrifennu, fel wrth 'ysgrifennu' rhestrau siopa yn siop y fferm neu yn y gegin. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio llythrennau y gellir eu hadnabod wrth geisio ysgrifennu'u henw, er enghraifft pan fyddant yn hunangofrestru neu wrth ysgrifennu'u henw ar ddarlun y maent wedi'i dynnu i ffrind.

Mae safonau Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg yn parhau i wella. Mewn llawer o'r lleoliadau hyn, mae plant yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau sylfaenol yn Gymraeg. Maent yn deall cwestiynau syml yn ystod y drefn arferol ddyddiol ac yn ailadrodd geiriau unigol neu ymadroddion syml, fel y tywydd, yn hyderus. Maent yn canu amrywiaeth eang o ganeuon actol yn dda yn ystod amser grŵp, ac yn enwi ychydig o liwiau a rhifau yn Gymraeg. Er hynny, mewn dau o bob deg o'r lleoliadau hyn, cyfyngedig yw defnydd plant o'r Gymraeg.

Mewn lleoliadau lle ceir safonau da, mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda. Gwnânt gynnydd da yn eu medrau cyfrif. Er enghraifft, maent yn adrodd rhifau yn ôl eu trefn hyd at ddeg, ac yn cyfrif gwrthrychau i bump yn gywir wrth gyfrif cwpanau adeg byrbryd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio geirfa fathemategol yn briodol ar draws ystod o brofiadau dysgu, er enghraifft defnyddio 'talach' a 'byrrach' wrth adeiladu tŵr o begiau ac yna'i fesur yn erbyn jiráff. Mae llawer yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn dda mewn meysydd dysgu eraill, er enghraifft, wrth ddidoli anifeiliaid tegan o liwiau gwahanol i grwpiau, ac yna cyfri'r nifer ym mhob grŵp yn gywir. Maent yn dechrau adnabod a defnyddio siapiau dau ddimensiwn, a siapiau tri dimensiwn syml yn eu dysgu, er enghraifft wrth adeiladu roced. Mewn ychydig o leoliadau, lle ceir safonau rhagorol, mae plant mwy abl yn adio rhifau syml gyda'i gilydd yn gywir, fel tri a chwech i wneud naw, trwy ddefnyddio offer priodol i'w helpu fel arfer. Nid yw plant mewn rhyw un o bob deg lleoliad yn defnyddio'u medrau datrys problemau yn ddigon effeithiol yn eu dysgu.

Mewn llawer o leoliadau, mae plant yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda i wella'u dysgu ac i ddatblygu'u medrau cyfathrebu yn effeithiol. Maent yn cael at, ac yn defnyddio, ystod o offer TGCh fel cyfrifiaduron llechi yn hyderus.

# Crynodebau sector: Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed

Er enghraifft, maent yn tynnu ffotograff o wlithen yn yr ardal awyr agored er mwyn cofnodi beth maen nhw wedi dod o hyd iddo, ac i ysgogi trafodaeth. Mae’r rhan fwyaf o blant yn defnyddio teganau batri yn effeithiol i wella’u chwarae, fel til tegan wrth esgus bod yn siopwr. Mewn tri o bob deg lleoliad, fodd bynnag, nid yw plant yn defnyddio’r offer TGCh yn annibynnol bob amser, na gyda chymorth oedolyn, i wella eu dysgu. Mae eu mynediad at offer TGCh yn gyfyngedig ac nid ydynt yn ei ddefnyddio i ddatblygu’u medrau cyfathrebu’n ddigonol.

Mewn llawer o leoliadau, mae plant yn datblygu’u medrau corfforol yn dda gan ddefnyddio’r mannau dysgu dan do ac awyr agored yn effeithiol. Maent yn dangos medrau echddygol bras da wrth gropian drwy fwâu neu daflu peli i mewn i gynwysyddion yn yr ardal awyr agored. Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau echddygol manwl cadarn, er enghraifft wrth afael mewn cregyn gyda gefeiliau, ac wrth ddefnyddio brws paent bach yn ofalus i wneud ‘siapiau defaid’ mewn ewyn eillio.

Mae safonau’n ddigonol mewn rhyw ddau o bob deg lleoliad. Yn y lleoliadau hyn, nid yw lleiafrif o blant, yn enwedig y rhai mwyaf abl, yn gwneud digon o gynnydd yn gyson â chyfnod eu datblygiad. Nid ydynt bob amser yn canolbwyntio’n ddigon da ar yr hyn y mae oedolion yn ei ddweud, ac mae pethau sy’n digwydd o’u cwmpas yn tynnu’u sylw yn hawdd. Er bod mwyafrif y plant yn y lleoliadau hyn yn gwneud cynnydd addas mewn llythrennedd, nid yw lleiafrif yn datblygu’u medrau gwneud marciau yn gyson â chyfnod eu datblygiad. Yn aml, mae medrau rhifedd plant yn llai datblygedig ac nid yw’r mwyafrif yn gwneud digon o gynnydd dros gyfnod. Yn ogystal, nid yw’r plant hyn yn cymhwyso’u medrau yn ddigon da mewn meysydd dysgu eraill, ac nid yw eu medrau datrys problemau wedi’u datblygu’n ddigonol yn aml.

Pan fydd lleoliadau yn cynllunio’n dda ar gyfer datblygu medrau creadigol plant, mae llawer o blant yn mwynhau cyfleoedd i fynegi’u hunain trwy gerddoriaeth, dawns a chelfyddyd arall. Mewn llawer o leoliadau, fodd bynnag, mae medrau creadigrwydd plant wedi’u cyfyngu’n aml oherwydd cyfyngiadau’r ddarpariaeth. Er enghraifft, mae pawb yn paentio’r un llun neu’n gwneud yr un model clai o dan gyfarwyddyd oedolyn. Mae hyn yn rhwystro’u gallu i feddwl drostyn nhw’u hunain a defnyddio’u dychymyg yn rhydd.

## Lles

Mae safonau lles yn gryfder yn y sector hwn. Yn y rhan fwyaf o leoliadau, mae safonau lles yn dda o leiaf, ac yn rhagorol mewn ychydig iawn o leoliadau. Yn y lleoliadau hyn, mae bron bob plentyn yn dangos cymhelliant, mwynhad a diddordeb eithriadol yn eu dysgu, ac mae’r rhan fwyaf yn canolbwyntio’n ddiwyd iawn yn ystod tasgau. Dangosant lefelau uchel o ymgysylltiad ac maent yn hynod hyderus pan fyddant yn gwneud dewisiadau wrth iddynt symud rhwng tasgau dysgu â ffocws ar oedolion a thasgau a arweinir gan blant. Er enghraifft, mae plant yn dewis o blith ystod eang o adnoddau yn yr ardal greadigol yn annibynnol i greu golygfa o arddangosfa tân gwyllt. Lle mae lles yn dda, mae bron bob plentyn yn ymdawelu’n dda cyn gynted ag y byddant yn cyrraedd y lleoliad ac maent yn ymddwyn yn dda. Mae’r rhan fwyaf o blant yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod o brofiadau dysgu ac yn cael hwyl wrth fynd i’r afael â thasgau yn annibynnol. Maent yn cynnal diddordeb mewn gweithgareddau ac yn symud yn hyderus i weithgaredd arall pan fyddant yn barod.

### Cylch Meithrin Hermon

Mae staff yng Nghylch Meithrin Hermon yn defnyddio pypedau i helpu plant i ddeall eu hemosiynau. Mae’r pypedau yn galluogi’r plant i ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol trwy feddwl am y modd y mae eu gweithredoedd yn effeithio ar deimladau’r plant eraill.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

### Cylch Meithrin Ynyshir & Wattstown

Caiff plant yng Nghylch Meithrin Ynyshir a Wattstown ddewis pryd i gael eu hamser byrbryd er mwyn helpu i wella’u llesiant a’u hymddygiad. Hefyd, maent yn annog y plant i weini’u hunain yn annibynnol, fel eu bod yn dysgu am bwysigrwydd hylendid ac yn meithrin cyfrifoldeb am dacluso ac ailgylchu.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Crynodebau sector: Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed

Yn y rhan fwyaf o leoliadau, mae plant yn deall pwysigrwydd hylendid da a sut i gadw'n heini ac iach. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu'u hannibyniaeth yn dda, fel dewis ffrwythau ac arllwys eu diod amser byrbryd. Hefyd, maent yn datblygu'u hannibyniaeth ymhellach drwy ysgwyddo cyfrifoldebau fel 'Helpwr y dydd' a thacluso ar ôl gweithgareddau.

Yn yr ychydig iawn o leoliadau lle mae safonau lles yn ddigonol, mae ychydig o blant yn cael anhawster dyfalbarhau ac yn colli diddordeb yn gyflym. Maent yn mynd yn aflonydd ac mae hyn yn tarfu ar blant eraill.

## Darpariaeth

Mae darpariaeth yn dda neu'n well mewn tri chwarter o leoliadau a arolygwyd eleni. Ceir arfer ragorol mewn ychydig iawn o leoliadau. Yn y lleoliadau da neu well hyn, mae ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth eang o brofiadau dysgu pwrpasol, sy'n ysgogi diddordebau plant ac yn adeiladu'n llwyddiannus ar eu dysgu blaenorol. Gwnânt ddefnydd da iawn o syniadau plant wrth gynllunio testunau a gweithgareddau, sy'n eu cymell i ddysgu. Mae llawer o'r lleoliadau hyn yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu'u medrau cyfathrebu drwy ystod o weithgareddau dysgu diddorol dan do ac yn yr awyr agored. Yn benodol, mae ymarferwyr yn annog plant i ymuno mewn sgyrsiau a holi cwestiynau treiddgar fel 'Sut mae mwydod yn gweld os nad oes ganddynt lygaid?' Maent hefyd yn darparu ystod o gyfleoedd cyffrous i blant ddatblygu'u dealltwriaeth o ysgrifennu at ddibenion gwahanol, fel cofnodi apwyntiadau mewn milfeddygfa. Mae llawer o leoliadau yn adeiladu'n dda ar fedrau rhifedd plant drwy ystod addas o brofiadau ymarferol ysgogol sy'n eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth gryf o gysyniadau mathemategol. Un enghraifft dda o hyn yw pan ofynnwyd i blant ailadeiladu doliau Babushka a'u gosod yn ôl trefn maint. Mewn lleoliadau lle nad yw'r cynllunio ar gyfer llythrennedd a rhifedd mor gadarn, nid yw ymarferwyr yn cynllunio i ddatblygu'r medrau hyn yn ddigon cynyddol. Yn ogystal, mewn rhyw un o bob saith lleoliad, nid yw ymarferwyr yn cynllunio i ddatblygu medrau datrys problemau plant yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid yw plant yn y lleoliadau hyn bob amser yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn effeithiol nac yn cael digon o gyfleoedd i atgyfnerthu'u medrau a'u gwybodaeth.

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau cyfrwng Cymraeg yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau Cymraeg plant ac yn cynorthwyo'r rheini sy'n newydd i'r iaith yn effeithiol. Mewn ychydig iawn o leoliadau, nid yw ymarferwyr bob amser yn annog plant sy'n siarad Cymraeg gartref i ymarfer eu Cymraeg trwy gydol y sesiwn na'n atgyfnerthu patrymau iaith a geirfa yn ddigon trwyadl. Mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, mae datblygiad medrau Cymraeg plant yn parhau i wella. Mae llawer o ymarferwyr yn cynorthwyo datblygiad Cymraeg plant trwy ganu caneuon a defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg trwy gydol y sesiwn. Mewn rhyw un o bob deg lleoliad, nid yw ymarferwyr yn cynllunio'n ddigon da i ddatblygu medrau Cymraeg plant na'n annog defnyddio'r Gymraeg y tu allan i sefyllfaoedd grŵp ffurfiol yn ddigon effeithiol.

Mae cynllunio ar gyfer defnydd pwrpasol o TGCh i ddatblygu medrau cyfathrebu plant yn parhau yn faes i'w ddatblygu mewn rhyw dri o bob deg lleoliad.

### Cylch Meithrin Crymych

Mae Cylch Meithrin Crymych wedi meithrin cysylltiadau agos gyda phartneriaid yn yr ardal leol. Maen nhw'n ymweld â siopau lleol, sy'n galluogi'r plant i ddatblygu'u llefaredd a'u medrau cymdeithasol. Mae ymweliadau hefyd yn gwella ymwybyddiaeth o ddefnyddio arian at ddibenion go iawn ac mae'n dangos i'r plant fod llawer o nwyddau ar gael yn lleol.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

### Cylch Chwarae Dwyieithog Aberporth

Mae ymarferwyr yng Nghylch Chwarae Dwyieithog Aberporth yn defnyddio gweithgareddau arferol i gyflwyno'r Gymraeg ac ymadroddion Cymraeg. Mae hyn yn helpu plant i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u hatebion yn gynyddol.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Crynodebau sector: Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed

Yn y lleoliadau hyn, mae ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddarparu cyfarpar i blant ei defnyddio yn hytrach nag ystyried sut gellir ei ddefnyddio i wella dysgu. Lle mae ymarferwyr yn datblygu medrau TGCh plant yn dda, maent yn canolbwyntio ar sut gellir ei ddefnyddio i ddatblygu medrau cyfathrebu plant. Maent yn sicrhau cyfleoedd pwrpasol i blant ddefnyddio cyfarpar TGCh ar draws meysydd dysgu er mwyn gwella'u profiadau a'u galluogi i siarad am eu dysgu. Er enghraifft, fe wnaeth ymarferwyr gynllunio cyfres o weithgareddau a alluogodd plant i dynnu ffotograffau o fywyd gwyllt mewn pwll lleol, ac i drafod nodweddion pryfed a sut y gwnaethant wneud iddynt deimlo. Darparodd hyn yr ysbrydoliaeth ar gyfer gwaith creadigol ar bryfed wedyn.

Yn gyffredinol, nid yw cynllunio ar gyfer datblygu medrau creadigol plant yn cael blaenoriaeth ddigon uchel mewn llawer o leoliadau. Mae ymarferwyr yn tueddu gorgyfarwyddo gweithgareddau, ac mae hyn yn arwain at blant yn cynhyrchu darnau tebyg o waith. Yn rhy aml, dim ond cyfleoedd cyfyngedig sydd i blant archwilio ac arbrofi gydag ystod o adnoddau wrth weithio'n greadigol.

Mae llawer o leoliadau'n darparu cyfleoedd addas i ddatblygu medrau corfforol plant, er enghraifft trwy ddarparu cyfarpar fel llwybrau balansio ac wynebau caled i reidio beiciau a theganau mawr. Ond nid yw ymarferwyr bob amser yn ystyried camau gwahanol datblygiad plant wrth gynllunio gweithgareddau corfforol, nac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd plant ifanc yn datblygu medrau echddygol bras da cyn y gallant feistroli medrau echddygol manwl.

Mewn lleoliadau lle mae addysgu yn eithriadol o effeithiol, mae disgwyliadau eithriadol o uchel o blant gan ymarferwyr, ac mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth fanwl o gwricwlwm y cyfnod sylfaen a sut mae plant ifanc yn dysgu orau. Cynigiant gyfleoedd gwych i blant arbrofi, ac maent yn hwyluso dysgu creadigol drwy chwarae pwrpasol. Lle ceir addysgu da, mae ymarferwyr yn deall pa bryd i ymyrryd yn nysgu'r plant a pha bryd i adael iddynt arbrofi gyda'u syniadau eu hunain. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ymarferwyr yn modelu chwarae yn y gornel chwarae rôl er mwyn helpu'r plant i ddysgu, er enghraifft, wrth esgus mynd ar awyren a'i hedfan. Maent yn gofyn cwestiynau sy'n annog plant i feddwl drostyn nhw'u hunain a symud eu dysgu yn ei flaen. Yn y lleoliadau hyn, mae ymarferwyr yn defnyddio dulliau asesu effeithiol i asesu datblygiad a chynnydd plant ac i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Fodd bynnag, mewn rhyw un o bob chwe lleoliad lle nad yw'r addysgu mor effeithiol, nid yw ymarferwyr yn nodi anghenion plant yn ddigon da i gynllunio'n addas ar gyfer eu dysgu. O ganlyniad, mae gormod o brofiadau dysgu nad ydynt yn eu herio na'u cefnogi'n ddigon effeithiol, ac nid ydynt ychwaith yn adeiladau'n ddigonol ar eu medrau a'u gwybodaeth. Mewn ychydig o leoliadau, mae ymarferwyr yn llethu ac yn rheoli profiadau dysgu a gweithgareddau gormod, ac mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i blant ymgysylltu'n llawn â'u chwarae, rhoi cynnig ar bethau newydd, a datblygu'u syniadau eu hunain.

### Cylch Chwarae Dwyieithog Aberporth

Mae ymarferwyr yng Nghylch Chwarae Dwyieithog Aberporth yn darparu gweithgareddau hwyliog ac ysgogol sy'n adeiladu ar ddiddordebau a chwestiynau plant. Cyflwynwyd ardal berfformio i ddatblygu iaith a hyder plant wrth siarad â phlant a phobl eraill neu wrth ganu a defnyddio offerynnau cerdd.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

### Canolfan Deulu Drws Agored

Roedd staff yng Nghanolfan Deulu Drws Agored eisiau annog plant i ddod yn ddysgwyr annibynnol a datblygu'u gwydnwch a'u hyder trwy wneud eu penderfyniadau eu hunain a chymryd risgiau. Maen nhw wedi creu amgylchedd diogel i'r plant roi cynnig ar bethau newydd yn annibynnol.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Crynodebau sector: Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn sicrhau safonau gofal, cymorth ac arweiniad da ar gyfer eu plant. Mae ymarferwyr yn cynorthwyo eu medrau annibynnol a'u medrau hunangymorth yn dda drwy ystod o arferion a gweithgareddau dyddiol defnyddiol. Er enghraifft, mae amser byrbryd yn addysgu plant sut i gymryd cyfrifoldeb am baratoi a gweini lluniaeth, yn ogystal â'u helpu i gymdeithasu a rhyngweithio ag eraill. Maent yn sicrhau bod plant yn datblygu ymwybyddiaeth dda o'u cymuned, eu diwylliant a'u credoau eu hunain yn ogystal â rhai pobl eraill ledled y byd. Erbyn hyn, mae llawer o leoliadau yn cydnabod pwysigrwydd darparu amgylchedd dysgu cyffrous ac ysgogol yn yr awyr agored ar gyfer eu plant. Mae hyn yn galluogi ymarferwyr i gynllunio profiadau dysgu pwrpasol a chyfleoedd chwarae er mwyn datblygu'u medrau ar draws yr holl feysydd dysgu. Hyd yn oed mewn lleoliadau lle ceir ardaloedd awyr agored cyfyngedig, mae ymarferwyr yn dod yn fwyfwy medrus yn eu hymagwedd at oresgyn hyn, er enghraifft trwy ddefnyddio'r traethau neu'r parciau lleol i alluogi plant i archwilio a datblygu'u medrau corfforol. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn cynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored erbyn hyn i ddatblygu medrau plant ac i wneud dysgu yn hwyl ac yn gyffrous.

Eleni eto, mae arolygwyr wedi nodi diffygion pwysig yn ymwneud â diogelu mewn ychydig o leoliadau. Yn y lleoliadau hyn, nid yw ymarferwyr ac arweinwyr yn dilyn polisïau a gweithdrefnau diogelu yn ddigon da. Nid yw arweinwyr mewn un o bob deg lleoliad yn sicrhau bod asesiadau risg priodol ar waith i ddiogelu plant a staff. Mewn ychydig iawn o leoliadau, nid yw arweinwyr bob amser yn cadw at arferion recriwtio diogel wrth gyflogi staff. Ysgrifennwn at leoliadau lle ceir diffygion pwysig mewn perthynas â diogelu er mwyn sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â nhw.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae safonau arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda neu'n well mewn mwyafrif o leoliadau, ac yn rhagorol mewn ychydig iawn a arolygwyd eleni. Mewn lleoliadau lle ceir arweinyddiaeth dda, mae arweinwyr yn pennu disgwyliadau uchel ac yn cyfleu dealltwriaeth glir o'r hyn y maent am ei gyflawni. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol gyda staff, yn sefydlu ysbryd tîm cadarn ac yn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Un nodwedd gyffredin ymhlith yr ychydig iawn o leoliadau rhagorol a arolygwyd eleni yw bod arweinwyr yn creu diwylliant o berchnogaeth a rennir, gan arwain at ymdrech gref i sicrhau gwelliant a disgwyliadau uchel iawn. O ganlyniad, mae'r holl staff yn cymryd cyfrifoldeb am wella safonau a lles plant.

Mewn lleoliadau effeithiol, mae arweinwyr yn gwrando ar gyngor a barnau pobl eraill fel rhieni ac athrawon ymgynghorol yn effeithiol i'w helpu i fyfyrio ar eu perfformiad a'u harfer. Mae hyn yn sicrhau bod dealltwriaeth well gan arweinwyr o berfformiad y lleoliad, ei gryfderau, a meysydd i'w datblygu. Yn yr ychydig iawn o leoliadau lle mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn rhagorol, mae arweinwyr yn canolbwyntio ar fonitro ansawdd addysgu a dysgu ac yn annog yr holl ymarferwyr i ymgymryd â chyfrifoldeb am wella eu perfformiad eu hunain. Fodd bynnag, roedd angen i weithdrefnau hunanwerthuso wella mewn rhyw tri o bob deg lleoliad a arolygwyd eleni. Yn y lleoliadau hyn, er bod arweinwyr yn deall rôl y prosesau hyn o ran sicrhau gwelliant, mae gweithdrefnau monitro yn wan ac nid yw arweinwyr bob amser yn adolygu cynnydd yn erbyn deilliannau cytûn yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid ydynt yn gallu nodi cryfderau allweddol a meysydd i'w gwella yn eu lleoliadau bob amser.



### Canolfan Deulu Drws Agored

Cydweithiodd arweinwyr yng Nghanolfan Deulu Drws Agored â'i gilydd i sefydlu rolau rheoli clir a strategaethau newydd. Helpodd hyn i staff ddeall eu rolau a chyfrifoldebau eu hunain a chydweithio â'i gilydd i gyflawni eu nodau.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# **Crynodebau sector:** Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed

Mae llawer o arweinwyr yn cynorthwyo ymarferwyr i wella perfformiad eu staff drwy bolisïau ac arferion gwerthuso a goruchwylio. Yn y lleoliadau mwy llwyddiannus lle tynnodd arolygwyr sylw at arfer ragorol, mae arweinwyr yn sicrhau bod mynediad gan yr holl ymarferwyr at ystod eang o gyfleoedd hyfforddi sy'n cysylltu'n agos â blaenoriaethau'r lleoliad ar gyfer gwella ac anghenion datblygu personol. Mae arweinwyr yn y lleoliadau hyn yn asesu effaith yr hyfforddiant yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn gwneud y defnydd gorau o'r hyn maent wedi'i ddysgu er mwyn gwella darpariaeth, ac i sicrhau'r deilliannau gorau posibl i blant. Yn ogystal, mae arweinwyr yn gwerthfawrogi pwysigrwydd arferion ymsefydlu cryf i sicrhau bod unrhyw hyfforddiant cychwynnol y gall fod ei angen yn cael ei weithredu cyn gynted â phosibl. Er enghraifft, maent yn cychwyn hyfforddiant i uwchsgilio ymarferwyr sy'n llai hyderus, gan ddefnyddio Cymraeg i'w helpu i addysgu geirfa sylfaenol a phatrymau lleferydd i blant mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Mewn lleoliadau llai llwyddiannus, nid yw arweinwyr yn gweithredu'u polisïau rheoli perfformiad yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid yw'r arweinwyr hyn yn nodi targedau ar gyfer gwella i'r holl staff, nac yn adolygu'u perfformiad yn amserol. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar ansawdd y cymorth a'r hyfforddiant a ddarperir i staff ac ansawdd y ddarpariaeth yn y lleoliadau hyn.

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn cyfathrebu'n glir gyda rhieni a gwarcheidwaid ac yn eu cefnogi'n dda i ymgysylltu fwy â dysgu eu plant ac i gael dealltwriaeth well o'u gofal a'u datblygiad. Mae arweinwyr yn y lleoliadau hyn yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid, gan gynnwys athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a chynrychiolwyr sefydliadau y maent yn gysylltiedig â nhw. Maent yn defnyddio'u cyngor a'u harbenigedd yn dda i helpu adolygu gwaith y lleoliad ac i gynorthwyo ymarferwyr yn eu gwaith. Ceir llawer o bartneriaethau defnyddiol o hyd rhwng lleoliadau a'r gymuned leol, yn bennaf drwy ddefnyddio ymwelwyr ac ymweliadau â mannau o ddiddordeb. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu'r plant ac mae'n eu galluogi i ddysgu am eu cymuned leol, er enghraifft, drwy ymweld â'r gwasanaethau brys i ddysgu am bobl sy'n ein helpu ni ac wrth blannu planhigion yn y pentref gyda help grŵp cymunedol. Yn y lleoliadau mwyaf effeithiol, mae arweinwyr yn sicrhau cysylltiadau cryf gydag ysgolion lleol er mwyn helpu plant pan fyddant yn symud ymlaen i'r cyfnod nesaf o'u haddysg. Mae plant yn ymweld â'r ysgolion nifer o weithiau i wylio cyngherddau a chymryd rhan mewn sesiynau canu, ac i gyfarfod â'u hathro newydd yn ystod eu tymor olaf yn y lleoliad. Mae athrawon o'r ysgolion yn ymweld â'r lleoliadau'n rheolaidd hefyd, er enghraifft i ddarllen storïau i'r plant ac i drafod eu hanghenion gydag ymarferwyr.

Yn y rhan fwyaf o leoliadau, mae arweinwyr yn darparu ystod eang o adnoddau diddorol ac ysgogol i blant er mwyn cynorthwyo'u dysgu. Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu awyr agored cyffrous a phwrpasol yn gynyddol dda i alluogi plant i archwilio a darganfod drostyn nhw'u hunain, yn ogystal â datblygu'u medrau corfforol. Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn rheoli'u cyllid yn dda ac yn dod yn fwy medrus o ran sut maent yn ariannu'u gwaith, er enghraifft drwy wneud cais am grantiau a thrwy drefnu digwyddiadau gyda rhieni a'r gymuned leol. Eto eleni, yn y mwyafrif o'r lleoliadau a arolygwyd, mae awdurdodau lleol yn parhau i gadw Grant Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar i ariannu hyfforddiant ac adnoddau. Fodd bynnag, nid yw'r cyllid yn cael ei dargedu'n ddigon da bob amser i ddatblygu anghenion lleoliadau unigol. O ganlyniad, nid yw ymarferwyr


### Meithrinfa Ddydd Little Stars

Mae arweinwyr ym Meithrinfa Ddydd Little Stars yn defnyddio matrics medrau i nodi anghenion hyfforddi unigol a grŵp. Mae hyn yn sicrhau dull cyson ar draws y feithrinfa.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Crynodebau sector: Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed



bob amser yn cael hyfforddiant sy’n diwallu eu hanghenion proffesiynol na blaenoriaethau’r lleoliad ar gyfer gwella.

## Gweithgarwch dilynol


Yn ystod yr hydref 2018 (sef tymor olaf fframwaith 2010 Estyn, cyn i arolygu ar y cyd ddechrau), nodom arfer ragorol mewn rhyw chwarter o leoliadau.  Mae hyn yn nifer sylweddol yn fwy na thros yr un cyfnod y llynedd.  Yn benodol, gwelsom arweinyddiaeth eithriadol gyda ffocws cryf ar ddatblygiad proffesiynol yn arwain at safonau dysgu a lles cyson uchel.

Mae angen ymweliad dilynol gan yr awdurdod lleol neu gan Estyn ar ryw dri o bob deg lleoliad a arolygwyd yn ystod y cyfnod olaf hwn, gan gynnwys ychydig iawn o leoliadau y mae angen gwelliant â ffocws arnynt.  Mae hyn yn ostyngiad bach ar y llynedd.  Byddwn yn monitro’u cynnydd yn erbyn argymhellion o’r arolygiadau craidd gan ddilyn gweithdrefnau cyn gweithio ar y cyd.  Yn y lleoliadau yr oedd angen eu monitro gan Estyn, nid oedd disgwyliadau digon uchel gan arweinwyr yn gyffredinol i sicrhau bod plant yn gwneud cynnydd da ac yn elwa o brofiadau dysgu ysgogol.  Yn yr ychydig iawn o leoliadau yr oedd angen gwelliant â ffocws arnynt, nid oedd arweinwyr yn gweithredu ar eu cynlluniau datblygu yn briodol nac yn defnyddio cyngor yn effeithiol i wella safonau a darpariaeth.

Eleni, gwnaeth bron bob lleoliad yr oedd angen eu monitro gan yr awdurdod lleol ar ddechrau’r flwyddyn gynnydd da yn erbyn eu hargymhellion ac fe wnaethom eu tynnu o’r categori gweithgarwch dilynol.  Gwnaethpwyd cynnydd da gan yr holl leoliadau a oedd yn cael eu monitro gan Estyn, a’r tri lleoliad yn y categori gwelliant â ffocws ar ddechrau’r flwyddyn, ac nid oes angen gweithgarwch dilynol arnynt mwyach.

Mewn arolygiadau ar y cyd ag AGC, nododd arolygwyr arfer ragorol mewn ychydig iawn o leoliadau.  Yn y lleoliadau hyn, roedd arweinyddiaeth effeithiol iawn yn nodwedd ragorol, gan arwain at safonau gofal a datblygiad arbennig o uchel ac addysgu a dysgu effeithiol.

Ers Ionawr 2019, rydym wedi newid ein trefniadau ar gyfer gweithgarwch dilynol fel rhan o’n gwaith ar y cyd ag AGC.  Bellach, ceir dau gategori gweithgarwch dilynol – sef ‘adolygu cynnydd’ a ‘gwelliant â ffocws’.  O dan y trefniadau newydd hun, canfu arolygwyr fod angen ymweliad arolygu dilynol ar ryw dri o bob deg lleoliad.  Mae angen monitro gan arolygwyr (adolygu cynnydd) ar y rhan fwyaf o’r lleoliadau hyn ac mae angen gwelliant â ffocws ar ychydig iawn ohonynt.  O’r lleoliadau y mae angen eu monitro gan arolygwyr, nid oes gweithdrefnau digon cadarn gan ryw chwech o bob deg i sicrhau gwelliannau mewn safonau a darpariaeth, neu ar gyfer sicrhau bod eu polisïau a’u gweithdrefnau yn cefnogi gwaith y lleoliad yn ddigon da.  Lle’r oedd barn ar safonau, nid yw plant mewn rhyw chwech o bob deg lleoliad yn gwneud cynnydd digon da wrth ddatblygu’u medrau.  Mae hyn yn aml oherwydd nad yw ymarferwyr yn llwyddo i fodloni anghenion yr holl blant yn ddigon da pan fyddant yn cynllunio, ac yn enwedig anghenion plant hŷn a phlant mwy abl.  Yn yr ychydig iawn o leoliadau y mae angen gwelliant â ffocws arnynt eleni, nid yw arweinwyr yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau pwysig i gadw plant yn ddiogel ar waith a bod yr holl ymarferwyr yn dilyn y rhain yn gyson.  Nid ydynt yn darparu digon o gymorth i ymarferwyr fel bod ganddynt ddealltwriaeth sicr o’u rolau a’u cyfrifoldebau ac yn datblygu’u harbenigedd proffesiynol yn effeithiol.



# Adran 2

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd

2

## Cyd-destun

Yn Ionawr 2019, roedd 1,247 o ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae hyn 25 yn llai nag yn Ionawr 2018, pan oedd 1,272 (Llywodraeth Cymru, 2019m). Mae nifer yr ysgolion sy'n gweithio fel ffederasiynau yn cynyddu, gyda 65 o ysgolion cynradd yn gweithio mewn 29 o ffederasiynau. Mae nifer y disgyblion ysgolion cynradd wedi gostwng o 277,910 yn Ionawr 2018 i 275,478 yn Ionawr 2019.

Rhwng Medi 2018 a Gorffennaf 2019, arolygwyd 188 o ysgolion. Mae canfyddiadau'r holl arolygiadau wedi llywio'r adroddiad hwn.

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd



## Safonau

Mae safonau'n dda neu'n well mewn rhyw wyth o bob deg ysgol gynradd. Mae'r gyfran hon yn debyg i'r llynedd. Mae cyfran yr ysgolion a chanddynt safonau rhagorol wedi parhau i gynyddu, gydag un o bob deg ysgol yn derbyn y farn uchaf.


Mewn ysgolion â pherfformiad uchel, mae bron bob disgybl, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd da o leiaf, a chynnydd da iawn yn aml, wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mewn ysgolion gwannach, nid yw disgyblion yn gyffredinol yn gwneud digon o gynnydd o'u mannau cychwyn unigol, yn enwedig mewn perthynas â chaffael a chymhwyso medrau. Yn aml, yn yr ysgolion hyn, nid yw disgyblion sy'n fwy abl a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud.

Mewn llawer o ysgolion, mae merched yn datblygu'u medrau llythrennedd yn gyflymach na bechgyn, er nad oes fawr o wahaniaeth yn yr ysgolion gorau oll ym mherfformiad bechgyn o gymharu â merched. Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd yn gyson â'u cyfoedion ac yn gwneud cynnydd da o leiaf erbyn diwedd Blwyddyn 6. Yn aml, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn unigol ac yn cyflawni'n dda. Mewn ysgolion llai llwyddiannus, nid yw disgyblion mwy abl a/neu ddisgyblion llai abl yn cyflawni'n ddigon da na'n gwneud y cynnydd y gallent ei wneud.

Mewn rhyw un o bob deg ysgol, mae disgyblion yn caffael a chymhwyso'u medrau iaith yn arbennig o dda. Mae hyn yn tanategu'u gallu i ddysgu'n ehangach ar lefel uchel, er enghraifft i hidlo gwybodaeth er mwyn canfod beth sy'n berthnasol i'r dasg a gwneud synnwyr o'r hyn y gofynnir iddynt ei wneud. Maent yn cymhwyso medrau iaith a medrau mathemategol yn eithriadol o dda mewn cyd-destunau go iawn, er enghraifft i gyflwyno'u syniadau i bobl fusnes leol neu amcangyfrif lefelau llygredd yn y moroedd gan ddefnyddio'u gwybodaeth am ganrannau.

Mewn ysgolion lle mae safonau iaith yn dda neu'n well, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus ac yn glir wrth gyflwyno'u syniadau neu wrth gydweithio â disgyblion eraill. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn trafod strategaethau wrth adeiladu cyrsiau rhwystrau mewn mannau awyr agored. Defnyddiant eirfa yn dda i ychwanegu manylion wrth siarad am bynciau penodol. Fodd bynnag, prin y bydd disgyblion yn cymhwyso medrau meddwl lefel uwch yn eu gwaith llafar, er enghraifft wrth drafod materion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda at ystod o ddibenion gan ddefnyddio amrywiaeth o genres mewn gwersi llythrennedd ac yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mewn dosbarthiadau meithrin, defnyddiant amrywiaeth o ddeunydd i wneud marciau ac maent yn dysgu bod marciau'n cyfleu ystyr. Wrth iddynt symud drwy'r cyfnod sylfaen, maent yn symud ymlaen o ysgrifennu geiriau ac ymadroddion syml i ysgrifennu at ddibenion gwahanol. Maent yn sillafu geiriau sy'n digwydd yn fynych yn gywir ac yn defnyddio atalnodi sylfaenol yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, maent yn datblygu dealltwriaeth gryf o ddiben eu gwaith ysgrifenedig a strategaethau sillafu effeithiol, ac maent yn atalnodi ac yn trefnu'u gwaith yn dda. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae disgyblion yn datblygu medrau golygyddol defnyddiol sy'n eu helpu i

# Crynodebau sector:
# Ysgolion cynradd



wella ansawdd eu gwaith, er enghraifft wrth ymateb i adborth athrawon. Ond nid yw hon yn arfer gyffredin, hyd yn oed mewn ysgolion da. Mae gwaith golygyddol disgyblion wedi'i gyfyngu'n aml i gywiro sillafiadau neu newid camgymeriadau gramadegol sylfaenol. Mae disgyblion sy'n ysgrifennu'n dda tuag at ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn cael anhawster gwybod sut i ymestyn eu medrau ymhellach yn aml, ac maent yn aros ar yr un lefel am gyfnod rhy hir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen da ac agweddau cadarnhaol at ddarllen o oedran cynnar. Maent yn datblygu dealltwriaeth sicr o'r berthynas rhwng llythrennau a seiniau mewn oedran cynnar, ac yn symud ymlaen i gymhwyso medrau darllen annibynnol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Yn yr ysgolion â'r cyflawniad uchaf, mae disgyblion yn elwa o gyfoeth o ddarllen, sy'n llywio ansawdd eu gwaith iaith, yn enwedig eu hysgrifennu. O ganlyniad, maent yn gwneud dewisiadau geirfa gwell ac yn strwythuro'u hysgrifennu ar gyfer effeithiau penodol yn dda. Mewn ysgolion lle ceir agweddau pwysig y mae angen eu gwella mewn safonau, ceir bylchau ym medrau disgyblion ac yn y ffordd y mae disgyblion yn defnyddio'u medrau. Yn yr ysgolion hyn, mae geirfa gyfyngedig gan ddisgyblion yn aml wrth siarad, nid oes ganddynt ddealltwriaeth a medrau darllen lefel uwch, dealltwriaeth gyfyngedig sydd ganddynt o nodweddion arddulliau ysgrifennu gwahanol, a gwnânt ddewisiadau geirfa nad ydynt yn uchelgeisiol.

Yn gyffredinol, mae agweddau cadarnhaol at ddysgu Cymraeg gan y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mewn ychydig iawn o ysgolion, lle mae'r Gymraeg wedi'i gwreiddio yng ngwaith yr ysgol o ddydd i ddydd ac yn ei hethos, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn dysgu a defnyddio'r iaith mewn gwersi Cymraeg ac yn eu gwaith mewn pynciau eraill. Yn aml, mae disgyblion yn cyfrannu at bennu disgwyliadau ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg ar draws yr ysgol. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau siarad ac yn defnyddio'r iaith yn hyderus, er enghraifft wrth ymateb i gwestiynau. Maent yn defnyddio'r amser gorffennol, presennol ac weithiau'r dyfodol yn briodol, ac mae ganddynt feistrolaeth dda ar eirfa sy'n berthnasol i ddysgu o ddydd i ddydd a'u gwaith testun. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu medrau darllen Cymraeg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mewn gormod o ysgolion, mae medrau darllen Cymraeg disgyblion yn wan, ac nid oes proffil ddigon uchel i'r Gymraeg. Yn aml, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth addas o gwestiynau a geirfa sylfaenol yn y cyfnod sylfaen, ond mae'r cynnydd cynnar da hwn yn peidio yng nghyfnod allweddol 2. Nid yw'r gallu gan ddisgyblion i siarad yn hyderus. Mae hyn yn aml yn adlewyrchu ansawdd gwan y ddarpariaeth a hyder cyfyngedig athrawon wrth siarad yr iaith mewn ystod o sefyllfaoedd. Mewn ysgolion lle mae safonau Cymraeg yn wan, nid yw athrawon yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygu medrau siarad a gwrando disgyblion. Nid yw safon ysgrifennu disgyblion yn Gymraeg bob amser yn adlewyrchiad gwir o'u cymhwysedd, eu dealltwriaeth ramadegol na'u gallu i ysgrifennu yn Gymraeg. Maent yn tueddu i ddibynnu'n ormodol ar fframweithiau ysgrifennu, sy'n lleihau llawer o'u hysgrifennu i ymarferiad copïo.

Mae safonau mewn mathemateg yn dda neu'n well mewn llawer o ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn y feithrinfa a'r dosbarth derbyn yn gwybod ystod eang o ganeuon rhif a rhigymau ac maent yn ymuno'n hyderus â nhw. Defnyddiant gyfarpar ymarferol yn hyderus i ddatblygu'u dealltwriaeth o gysyniadau, er enghraifft cymharu maint gwrthrychau

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd

gan ddefnyddio'r eirfa gysylltiedig gywir.  Lle mae disgyblion ifanc yn dod yn fathemategwyr llwyddiannus, maent yn mwynhau profiadau a gweithgareddau mathemategol o oedran cynnar, gan gynnwys datrys problemau go iawn, er enghraifft, wrth ddidoli sanau o beiriant golchi yn barau.  Mae disgyblion hŷn y cyfnod sylfaen yn nodi'r fathemateg sydd ei hangen ar gyfer tasgau, yn gwneud penderfyniadau yn fwyfwy annibynnol ac yn symleiddio tasgau, er enghraifft trwy dorri problemau i lawr yn gamau hwylus neu drwy ddefnyddio ffeithiau y maent eisoes yn eu gwybod, fel 3 + 3 = 6 i weithio allan bod 300 + 300 = 600. Gwnânt ragfynegiadau synhwyrol ac maent yn dechrau egluro'u meddwl gan ddefnyddio iaith fathemategol gywir.  Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall ac yn cymhwyso'u gwybodaeth am rif yn dda yng nghyd-destun gwersi mathemateg, a lle mae'r ddarpariaeth yn caniatáu hynny, yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.  Mae disgyblion yn defnyddio strategaethau meddwl ac ysgrifenedig yn dda i ddatrys problemau aml-gam. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn defnyddio strategaethau yn effeithiol i wirio'u hatebion.  Er enghraifft, maent yn cymhwyso'r gweithrediad gwrthdro i gadarnhau eu bod wedi cyfrifo ffracsiwn o gyfanswm yn gywir. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr mwy abl yn gwneud gymaint o gynnydd ag y gallent bob amser.  Yn gyffredinol, maent yn cwblhau tasgau yn gywir, ond nid ydynt yn aml yn derbyn lefel her sy'n eu harwain i ymestyn eu hunain yn llawn.  Ychydig iawn o ddisgyblion mwy abl sy'n rhoi cynnig ar waith sydd ar eithaf eu gallu lle maent yn dechrau gwneud camgymeriadau, ac ychydig sy'n cymhwyso'u medrau yn annibynnol mewn ystod o gyd-destunau sy'n ddigon eang.  Mewn ysgolion lle nad yw safonau mathemateg mor gryf, nid yw'r hyder gan ddisgyblion y cyfnod sylfaen wrth ddefnyddio rhifau ac nid ydynt yn chwilio am gyfarpar, fel blociau neu adnoddau mesur, yn annibynnol a allai eu cynorthwyo yn eu tasg a datblygu'u meddwl.  Maent yn tueddu i gwblhau tudalennau o symiau tebyg yn ddigyswllt ac nid ydynt yn perthnasu eu meddwl mathemategol i dasgau ymarferol neu ddatrys problemau go iawn yn ddigon da.  Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu'u medrau yn gyffredinol, er enghraifft, mewn rhif, siâp a mesur. Maent yn datblygu medrau gweithdrefnol sy'n eu galluogi i ateb cwestiynau, ond nid ydynt bob tro'n datblygu medrau sy'n eu galluogi i wirio p'un a yw eu hatebion yn rhesymol.  Nid oes medrau mathemateg pen caboledig gan ddisgyblion yn yr ysgolion hyn bob amser.  Mae hyn yn cyfyngu eu gallu i ddatrys problemau yn gyflym, ac mae cymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn parhau yn wendid.

Eleni, bu gwelliannau hefyd yn nefnydd disgyblion o fedrau TGCh ac yn ystod y medrau a ddefnyddiant.  Lle mae medrau TGCh yn dda neu'n well, mae disgyblion yn defnyddio ystod eang o gymwyseddau, fel datblygu a defnyddio cronfeydd data, i gefnogi'u gwaith ar draws y cwricwlwm.  Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn defnyddio TGCh yn eithriadol o dda i wella dysgu. Mewn ysgolion lle nad yw safonau TGCh mor gryf, mae disgyblion yn tueddu i fod ag ystod gul o fedrau TGCh ac nid ydynt yn defnyddio TGCh i gynorthwyo'u dysgu mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Mae ffactorau ychwanegol yn cyfrannu at y gwahaniaethau rhwng safonau a chynnydd disgyblion yn yr ysgolion mwyaf llwyddiannus a lleiaf llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys gallu disgyblion i weithio'n annibynnol, er enghraifft, i fireinio neu ymestyn darnau o waith ysgrifenedig, ac anghysondeb cynnydd o un grŵp blwyddyn i'r nesaf neu o un cyfnod allweddol i'r cyfnod allweddol nesaf.

### Ysgol Gynradd St Julian, Casnewydd

Mae disgyblion yn Ysgol Gynradd St Julian wedi dod yn fwy annibynnol yn eu defnydd o TG, diolch i fframwaith cymhwysedd digidol yr ysgol. Mae disgyblion yn defnyddio TG yn fwy pwrpasol ac yn cymhwyso'u medrau digidol yn well yn y dosbarth.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

### Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru'r Santes Fair

Mae disgyblion yn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru'r Santes Fair yn ymweld â chartref gofal lleol bob wythnos ar gyfer ymarfer côr ar y cyd â'r preswylwyr.  Nod yr ysgol yw rhoi'n ôl i'r gymuned, a gwella iechyd a lles yr oedolion hŷn.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae safonau lles disgyblion mewn ysgolion cynradd ledled Cymru yn dda neu'n well mewn rhyw naw o bob deg ysgol.  Maent yn rhagorol ym mron i ddwy o bob deg ysgol.  Lle mae safonau lles yn uchel, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gryf iawn o werthoedd, fel gonestrwydd, tegwch a chydraddoldeb, ac maent yn cymhwyso'r rhain yn eu gwaith o ddydd i ddydd ac wrth ryngweithio gydag eraill yn yr ysgol, er enghraifft wrth drafod pwysigrwydd cydraddoldeb mewn cymdeithas.  Mae llawer o ddisgyblion yn dysgu pwysigrwydd eu rôl wrth gyfrannu at gymdeithas, er enghraifft trwy waith elusennol neu trwy gyfranogi mewn mentrau ymgysylltu'r gymuned leol.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos lefelau uchel o ymgysylltiad â dysgu. Maent yn awyddus i ymgymryd â heriau newydd a siaradant yn gadarnhaol am eu profiadau dysgu a'u cynnydd.  Mae llawer ohonynt yn ymgymryd â heriau yn frwdfrydig, ac yn dangos balchder yn yr hyn maent yn ei wneud wrth weithio'n unigol neu mewn grwpiau.  Maent yn cynnal ymdrech ac yn canolbwyntio'n dda i gwblhau tasgau, yn ystyried ac yn cyflwyno datrysiadau amgen i broblemau ac yn egluro'u rhesymeg yn dda.  Maent yn deall bod gwneud camgymeriadau yn rhan bwysig o'r broses ddysgu, ac maent yn gweithio'n gadarnhaol i fynd i'r afael ag unrhyw gamgymeriadau a wnânt, ac yn dysgu o unrhyw gamsyniadau sydd ganddynt.  Mewn rhyw hanner o ysgolion, fodd bynnag, mae medrau dysgu annibynnol disgyblion yn parhau yn faes i'w ddatblygu.  Yn yr ysgolion hyn, nid yw disgyblion yn trosglwyddo dysgu blaenorol fel mater o drefn arferol o un maes pwnc i faes pwnc arall, nac yn gwella ansawdd eu gwaith yn annibynnol.

Mae ymddygiad disgyblion yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn dda iawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gofal am eu cyd ddisgyblion ac yn dangos parch at oedolion.  Yn gyffredinol, mae perthnasoedd gweithio rhwng disgyblion a rhwng staff a disgyblion yn gadarnhaol iawn mewn ysgolion cynradd.  Mae'r nodwedd bwysig hon yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol.  Mewn ychydig o ysgolion, mae disgyblion yn datblygu medrau i gynorthwyo'u lles eu hunain. Er enghraifft, maent yn deall pwysigrwydd siarad am eu teimladau a sut gall hyn eu helpu.

Mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta bwyd iach, yfed digon o ddŵr a gwneud ymarfer corff rheolaidd, er nad yw pawb yn gweithredu ar y wybodaeth hon.  Mae'r rhan fwyaf yn deall sut i gadw'n ddiogel, gan gynnwys pan fyddant yn defnyddio'r rhyngrwyd.  Lle mae lefelau lles yn uchel iawn, mae dealltwriaeth ddatblygedig iawn o hawliau plant gan ddisgyblion yn aml ac maent yn gweithredu'n gadarnhaol i gynnal y rhain.  Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn cymhwyso'u dealltwriaeth o'u hawliau yn arbennig o dda i nodi pethau yr hoffent ddysgu mwy amdanynt.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol drwy gyfranogi mewn amrywiaeth o grwpiau llais y disgybl, fel y cyngor ysgol.  Mewn ychydig o achosion, lle mae diwylliant yr ysgol yn caniatáu, mae disgyblion sy'n gweithio yn y grwpiau hyn yn ddylanwadol iawn o ran llywio agweddau pwysig ar waith yr ysgol.

### Ysgol y Foryd

Mae Ysgol Y Foryd yn cefnogi cynnydd a datblygiad disgyblion fel dysgwyr annibynnol trwy ddefnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu.  Mae staff yn addysgu'r disgyblion i wynebu heriau ac yn defnyddio camgymeriadau fel cyfleoedd dysgu.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth Recognising Excellence

### Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw wedi gwreiddio hawliau plant yn ei diwylliant, gan wella lles disgyblion.  Mae ymdeimlad o berchnogaeth o'u hysgol gan y disgyblion, ac maent yn cyfrannu at ei gwelliant.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**


### Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Sant Joseph, Casnewydd

Caiff disgyblion yn Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Sant Joseph eu hannog i ymgymryd ag ystod eang o gyfrifoldebau i wella eu medrau arwain.  Mae Senedd yr Ysgol yn cynnwys plant o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 6.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth Recognising Excellence

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd



Maent yn cynrychioli'u cyd-ddisgyblion yn dda iawn i sicrhau bod yr ysgol yn gwrando ar eu barnau ac yn gweithredu arnynt, lle bo'n briodol. Maent yn ysgogi newid ymarferol i'r ysgol a'r amgylchedd ehangach, yn ogystal â medrau a thueddiadau disgyblion a staff, ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd addysgu a dysgu.  At ei gilydd, mae disgyblion sy'n cyfrannu at grwpiau llais y disgybl yn gwerthfawrogi'r profiad a gynigir gan gyfleoedd o'r fath.  Mewn llawer o ysgolion, fodd bynnag, nid oes gan grwpiau llais y disgybl ddigon o ddylanwad gwirioneddol ar faterion pwysig sy'n effeithio arnynt.  Mewn gormod o ysgolion, hyd yn oed lle mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn gyffredinol, nid oes gan ddisgyblion ddigon o ddylanwad dros beth maent yn ei ddysgu a sut maent yn dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn deall pwysigrwydd gwneud hynny.  Serch hynny, mae tuedd barhaus o bresenoldeb is, gyda niferoedd cynyddol o ddisgyblion sy'n absennol yn gyson, mewn ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd dan anfantais gymdeithasol.  Mae'r absenoldebau hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig wneud cynnydd a chyflawni'r safonau y gallent eu cyflawni fel arall yn ystod eu blynyddoedd yn yr ysgol gynradd.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae addysgu a phrofiadau dysgu yn dda neu'n well mewn rhyw dri chwarter o ysgolion cynradd.  Maent yn rhagorol mewn rhyw un o bob deg ysgol.  Derbyniodd rhyw ddwy o bob deg ysgol farnau digonol.  Prin y ceir achosion o addysgu a phrofiadau dysgu anfoddhaol mewn ysgolion cynradd.

Eleni, mae arolygwyr wedi nodi bod mwy o ysgolion lle mae addysgu a phrofiadau dysgu yn dda neu'n well yn mabwysiadu ymagwedd greadigol at y cwricwlwm, ac maent yn darparu profiadau dysgu difyr sy'n ysbrydoli ac yn cymell disgyblion.  Mae'r defnydd o 'dasgau cyfoethog' a thasgau go iawn, a datblygu cysylltiad â phrosiectau creadigol celf, drama a dawns, yn duedd gynyddol wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.  Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r cynllunio yn rhoi ystyriaeth lawn i ddiddordebau disgyblion ac anghenion unigol, mae'n hyblyg, ac yn adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion yn effeithiol iawn.  O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn ymroi'n llawn i'w tasgau, yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn dangos lefelau uchel o gymhelliant.  Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys ac yn rhoi ystyriaeth dda i'r angen i feithrin medrau creadigol, corfforol ac entrepreneuraidd disgyblion.  Yn aml, mae'r ysgolion hyn yn defnyddio ystod eang o gyd-destunau dysgu i ddatblygu ac ymestyn medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion.

Mewn llawer o ysgolion, mae athrawon yn creu profiadau dysgu sy'n cynnig lefelau  addas o her i ddisgyblion.  Mae cynllunio gofalus a defnydd effeithiol o asesu parhaus yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn derbyn lefelau addas o her yn eu dysgu.  Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn defnyddio asesu yn arbennig o dda i ymateb i anghenion disgyblion ac i'w cefnogi i wneud cynnydd cryf, er enghraifft, drwy addasu anhawster cwestiynau neu dasgau er mwyn herio dysgwyr mwy abl.
Yn gyffredinol, mae athrawon yn dechrau darparu cyfleoedd cynyddol effeithiol i gysylltu dysgu â chyd-destunau go iawn.  Maent hefyd yn dechrau cynllunio profiadau sy'n gyson â'r pedwar diben a amlinellwyd yn y cwricwlwm newydd i Gymru.  Maent yn addasu dulliau addysgu trwy

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd

ddatblygu medrau disgyblion i asesu a gwella eu dysgu eu hunain, a thrwy ddefnyddio'r amgylchedd dysgu awyr agored i hyrwyddo chwilfrydedd a dysgu gweithredol disgyblion. Mae disgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion gan yr athrawon hyn, a defnyddiant strategaethau fel holi yn llwyddiannus i herio disgyblion ymhellach er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o gysyniadau allweddol.



Mae llawer o athrawon yn darparu adborth defnyddiol i ddisgyblion yn ystod gwersi i herio camsyniadau sydd ganddynt ac i'w cynorthwyo i wella eu gwaith. Maent hefyd yn darparu adborth ysgrifenedig defnyddiol, myfyriol. Mae'r arfer hon yn effeithiol pan fydd diben clir i'r marcio, gan nodi beth mae disgyblion wedi'i wneud yn dda a beth sydd angen iddyn nhw ei wneud i wella, a phan fydd athrawon y rhoi amser i ddisgyblion i fyfyrio a gweithredu ar yr adborth. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn ysgolion lle mae addysgu a phrofiadau dysgu yn gryf, nid yw athrawon bob amser yn defnyddio'r strategaethau adborth hyn yn ddigon da i hyrwyddo medrau disgyblion fel dysgwyr annibynnol. Er enghraifft, nid oes ganddynt ddisgwyliadau ddigon uchel o ddisgyblion bob amser pan fyddant yn golygu eu gwaith ysgrifenedig eu hunain yn dilyn adborth. Mewn rhyw chwarter o ysgolion, nid yw athrawon yn defnyddio asesu i lywio dysgu yn ddigon da, mae cyflymder dysgu yn rhy araf, ac mae disgyblion yn treulio gormod o amser yn cwblhau neu'n ailadrodd gweithgareddau lefel isel. Yn yr achosion hyn, ar y cyfan, mae athrawon yn darparu gormod o sgaffaldio ar gyfer dysgu, sy'n cyfyngu ar annibyniaeth disgyblion ac yn rhwystro'u dysgu.


Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae perthnasoedd gweithio cadarnhaol rhwng staff a disgyblion law yn llaw â phrofiadau dysgu difyr yn golygu mai prin y ceir achosion o ymddygiad gwael. Pan fydd angen, ar y cyfan, mae staff yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad yn dda i gynorthwyo disgyblion i fyfyrio ar eu hymddygiad ac i ystyried sut gallent newid eu gweithredoedd yn y dyfodol.

Mae darpariaeth i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion yn parhau i fod yn rhy amrywiol mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Mae gan lawer o ysgolion strategaethau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, fel 'helpwr heddiw'. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau'r cyfnod sylfaen, mae oedolion yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd wrth ryngweithio â disgyblion. Wrth i ddisgyblion symud trwy gyfnod allweddol 2, nid yw mwyafrif o ysgolion yn adeiladu'n ddigon da ar ddisgyblion yn caffael yr iaith yn gynnar. Nid oes digon o bwyslais ar ddatblygu medrau siarad a gwrando disgyblion. Ychydig iawn o ysgolion sy'n ymgorffori'r Gymraeg yn effeithiol i feysydd eraill o'r cwricwlwm neu i fywyd dyddiol yr ysgol. Mae ffactorau sy'n dylanwadu ar ansawdd y ddarpariaeth Gymraeg yn cynnwys gallu a hyder athrawon i ddefnyddio'r iaith. Yn aml, y ffactor mwyaf arwyddocaol yn ansawdd darpariaeth Gymraeg mewn ysgol yw'r pwys mawr a roddir ar addysgu'r Gymraeg gan arweinwyr. Mewn ysgolion lle mae hyn yn wir, mae safonau Cymraeg ac ethos Cymreig yr ysgol yn ffynnu.

Mewn rhyw saith o bob deg ysgol, mae athrawon yn deall ac yn cyflwyno addysgeg y cyfnod sylfaen yn effeithiol. Mae hyn yn welliant ar y llynedd pan oedd tua hanner yr ysgolion yn unig yn darparu dysgu gweithredol a dysgu trwy brofiad, yn enwedig ym Mlynyddoedd 1 a 2. Maent yn sicrhau cydbwysedd da o weithgareddau a arweinir gan oedolion a gweithgareddau

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd

a ysgogir gan y plentyn, a gwnânt ddefnydd effeithiol o'r amgylcheddau dan do ac yn yr awyr agored i ddarparu profiadau dysgu o ansawdd uchel. Yn yr ysgolion sy'n weddill, mae'r addysgu yn rhy ffurfiol yn aml, ac mae gormod o bwyslais ar baratoi disgyblion ar gyfer profion neu 'eu gwneud yn barod' ar gyfer cyfnod allweddol 2. Mae hyn yn arwain at bwyslais anghymesur ar addysgu medrau llythrennedd a rhifedd sy'n rhy gyfarwyddol a diffyg cyfle i ddisgyblion ddatblygu neu gymhwyso'r medrau hyn. Mewn ysgolion lle mae darpariaeth yn wan, mae defnydd athrawon o'r amgylchedd awyr agored yn aneffeithiol ac maent yn cynllunio tasgau y gellid eu cwblhau yr un mor hawdd dan do.



Mae llawer o athrawon ledled Cymru yn ymgysylltu â, neu'n cymryd rhan mewn, ymchwil addysgol er mwyn gwella eu harfer broffesiynol. Mewn ysgolion lle mae hyn yn gweithio'n dda, mae athrawon yn cael amser penodol i gymryd rhan mewn arsylwadau o gymheiriaid ac ymchwil weithredu, a defnyddiant ganfyddiadau ymchwil i lywio'r penderfyniadau a'r strategaeth ar gyfer eu hysgol. Mae cyfres o astudiaethau yn Gwella addysgu (Estyn, 2018c) yn dangos effaith y gwaith hwn. Mae effaith yr ymchwil yn amrywiol. Pan fydd y diben a'r paramedrau ar gyfer cyfranogi mewn ymchwil neu ddefnyddio ymchwil yn aneglur, nid yw ymarferwyr yn canolbwyntio'n ddigonol ar yr effaith a gaiff newidiadau a ysgogir gan ymchwil mewn addysg ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae safon gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion o leiaf yn dda mewn naw o bob deg ysgol gynradd. Mae'n rhagorol mewn bron i ddwy o bob deg ysgol. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr a staff yn deall bod cael yr agwedd hon ar y gwaith yn gywir yn bwysig iawn ar gyfer cynnydd a lles cyffredinol disgyblion. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn derbyn y gofal, cymorth ac arweiniad amserol i'w helpu i ffynnu yn yr ysgol.

Mae naw o bob deg ysgol gynradd yn sefydlu ethos a diwylliant lle caiff holl aelodau cymuned yr ysgol eu gwerthfawrogi'n gyfartal a lle maent yn teimlo'n ddiogel rhag niwed. Mae'r ysgolion hyn yn meithrin agweddau cadarnhaol mewn disgyblion tuag at ddysgu a byw bywydau iach. Maent yn addysgu disgyblion i ddeall eu hawliau ac i werthfawrogi amrywiaeth yn yr ysgol ac yn y gymdeithas yn ehangach.

Ym mron yr holl ysgolion cynradd, mae perthnasoedd rhwng staff a disgyblion yn gadarnhaol. Yn gyffredinol, mae arweinwyr, athrawon a staff eraill yn adnabod y disgyblion, eu hanghenion a'u diddordebau yn dda. Defnyddiant y wybodaeth hon yn llwyddiannus, er enghraifft, i addasu naws eu rhyngweithio gyda disgyblion unigol neu i gynllunio gweithgareddau penodol. Mae dulliau cadarnhaol gan bron pob ysgol gynradd i reoli ymddygiad a datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr awyrgylch cyfeillgar a gofalgar sydd i'w weld yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd.

Mae bron bob ysgol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol trwy gyfranogi mewn grwpiau llais y disgybl. Mae'r graddau y mae ysgolion yn grymuso'r cyfryw grwpiau yn amrywio'n fawr. Mewn rhyw ddwy o bob deg ysgol, mae gwaith grwpiau llais y disgybl

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd

yn ddylanwadol iawn.  Mewn ysgolion eraill, nid oes gan y grwpiau hyn ymreolaeth ddigonol ac nid yw ysgolion yn rhoi digon o bwysigrwydd iddynt i alluogi dysgwyr i ddylanwadu ar fywyd yr ysgol.  Mae llawer o ysgolion yn hyrwyddo ysbryd cymunedol yn llwyddiannus drwy annog disgyblion i roi o'u hamser, ymdrech a'u doniau, er enghraifft trwy greu côr cymunedol ar gyfer plant a'r henoed.

Mewn rhyw naw o bob deg ysgol gynradd, mae staff yn cynorthwyo dysgwyr i ddeall pwysigrwydd dyfalbarhau i gwblhau tasgau.  Mewn rhyw hanner o ysgolion, mae staff yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu'n dda fel dysgwyr annibynnol a hyderus.  Maent yn addysgu strategaethau a medrau i ddisgyblion sy'n eu galluogi i fyfyrio ar y modd y gallent oresgyn her neu wella eu gwaith.  Yn yr hanner arall o ysgolion, nid yw staff yn buddsoddi digon o amser i feithrin y medrau hyn.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn casglu a monitro ystod briodol o wybodaeth am gynnydd a lles disgyblion.  Mewn rhyw wyth o bob deg ysgol, mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, ac i lywio'u dulliau o ddarparu help ychwanegol, er enghraifft i'w cynorthwyo i ddewis y strategaeth ymyrryd fwyaf addas neu'r asiantaeth allanol fwyaf addas i ymgysylltu â hi.

Mae naw o bob deg ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i wella gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion.  Mewn ysgolion cynradd, mae perthnasoedd a chyfathrebu gyda rhieni yn gryfder yn aml.  Mae'r bartneriaeth hon yn arbennig o effeithiol o ran helpu rhieni i gynorthwyo'u plentyn i ddysgu gartref, neu mewn achosion lle mae anghenion disgyblion yn fwy, i alluogi rhieni i ddefnyddio asiantaethau sy'n cynnig help mwy arbenigol.  Mewn rhyw ddwy o bob deg ysgol, ceir perthnasoedd rhagorol rhwng y cartref a'r ysgol.  Mae hyn yn aml yn gryfder arbennig mewn ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau difreintiedig.  Mae dros dair o bob deg ysgol sy'n gwasanaethu disgyblion o'r cefndiroedd sydd dan yr anfantais gymdeithasol fwyaf yng Nghymru yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad rhagorol i ddisgyblion.  Yn yr achosion hyn, mae mentrau fel datblygu swyddogion ymgysylltu teuluol yn effeithiol iawn.  Maent yn galluogi ysgolion i ddod yn ganolfan gadarnhaol o weithgarwch cymunedol ac yn borth i wasanaethau sydd eu hangen ar ddisgyblion a'u teuluoedd.  Mae'r ysgolion hyn yn gweithio'n galed i feithrin dysgwyr uchelgeisiol a theuluoedd, er enghraifft trwy ddarparu mynediad i ddigwyddiadau diwylliannol, fel ymweliadau â'r theatr.

Mae gan bron bob ysgol drefniadau da ar waith i gynorthwyo disgyblion i ddeall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach.  Mae'r rhan fwyaf yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion wneud ymarfer corff trwy wersi addysg gorfforol ffurfiol, gweithgareddau fel y 'filltir ddyddiol' ac ystod o glybiau gweithgareddau allgyrsiol.

Mae bron bob ysgol gynradd yn cydymffurfio â'r gofyniad i ddarparu gweithred ddyddiol o gyd-addoli.  Mae trefniadau diogelu ym mron pob ysgol yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.



### Ysgol Gynradd Glenboi

Penododd Ysgol Gynradd Gymunedol Glenboi Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd i hyrwyddo ymglymiad teuluol, sydd wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar agweddau disgyblion at ddysgu a lles. I gael mwy o wybodaeth,

darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth yn dda neu'n well mewn wyth o bob deg ysgol gynradd.  Mae'n rhagorol mewn bron i ddwy ysgol o bob deg.  Mae llawer o nodweddion arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol mewn ysgolion sy'n derbyn barnau da neu well wedi aros yr un fath dros y blynyddoedd diwethaf.  Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu gweledigaeth a rennir ar gyfer lles plant, y cynnydd a wnânt, a'r safonau a gyflawnir ganddynt.  Yn yr ysgolion hyn, ceir ymrwymiad cynaledig fel arfer i wireddu'r weledigaeth hon trwy ddiwylliant o ddisgwyliadau uchel, cydweithio agos rhwng staff, a pharodrwydd i arloesi.  Er enghraifft, mewn ysgolion cyfrwng Saesneg lle mae safonau Cymraeg yn dda neu'n well, mae arweinwyr yn sicrhau bod statws amlwg i'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig ym mhob agwedd ar waith yr ysgol.  Yn yr un modd, mae arweinyddiaeth effeithiol yn ddylanwadol iawn mewn ysgolion sy'n gwneud cynnydd da wrth osod y sylfeini i baratoi ar gyfer cwricwlwm newydd Cymru.  Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn rhoi hyder a chyfleoedd i athrawon i roi cynnig ar syniadau ac ymagweddau newydd i gael disgyblion i ymgysylltu'n llwyddiannus â'u dysgu.  Yn yr ysgolion gorau oll, mae arweinwyr yn canolbwyntio'n bennaf ar godi'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion trwy feithrin addysgu effeithiol iawn a phrofiadau dysgu difyr.  Yn gynyddol, mae'r arweinwyr gorau yn hyrwyddo dysgu proffesiynol sy'n ymateb i anghenion staff fel unigolion a grwpiau. Maent yn annog ac yn cynorthwyo athrawon i ystyried canfyddiadau ymchwil berthnasol i wella eu harfer yn yr ystafell ddosbarth a dysgu disgyblion.  Mae diwylliant dysgu o'r fath yn helpu staff i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod wedi'u grymuso.  Mae nodweddion pwysig y diwylliant hwn yn cynnwys cael disgyblion i gyfrannu at nodi beth yr hoffent ei ddysgu a sut.  Mae'r penaethiaid a'r uwch arweinwyr gorau yn dosbarthu cyfleoedd ar gyfer arwain mentrau ymhlith eu staff ar bob lefel.  Mae hyn yn galluogi ysgolion i gyflymu cynnydd mewn mwy o'u meysydd gwaith ac i feithrin medrau arwain grŵp ehangach o staff.

Mae arweinwyr effeithiol yn ystyried ystod o dystiolaeth wrth werthuso'r gwahaniaeth y mae ymagweddau newydd yn eu gwneud i'w disgyblion. Mewn ysgolion lle ceir diffygion yn yr arweinyddiaeth, mae'r gwrthwyneb yn wir yn aml, ac mae gwerthusiad arweinwyr o waith yr ysgol yn gyfyngedig ac yn arwain at ddarlun diffygiol o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu. Mae gwendidau cyffredin yn cynnwys rhoi gormod o bwyslais ar ysgrifennu adroddiadau rhy fanwl ar gyfer cynulleidfaoedd allanol at ddibenion atebolrwydd.  Nid yw'r adroddiadau hyn bob amser yn adlewyrchu ansawdd gwaith yr ysgol yn ddigon gonest ac nid ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar wella darpariaeth yr ysgol nac ar godi safonau disgyblion.

Lle mae'r arweinyddiaeth yn aneffeithiol, ceir diffyg ffocws strategol yn aml ar wella addysgu.  Nid yw'r arweinwyr hyn yn deall y cysylltiad rhwng addysgu effeithiol a dysgu effeithiol yn ddigon da.  Mewn ychydig o achosion, mae arweinwyr yn cael anhawster nodi cryfderau a diffygion yn yr addysgu.  Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i wella ansawdd addysgu ar lefel unigol neu lefel ysgol gyfan.  Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn dibynnu ar daflenni ticio generig a di-fudd wrth lunio barnau am addysgu.  Mae trefniadau i sicrhau ansawdd gwaith arweinwyr sy'n

### Ysgol Bryn Tabor

Caiff disgyblion Ysgol Bryn Tabor eu hannog i rannu'u barn am fywyd yr ysgol. Gofynnir iddynt ddod â thri pheth i'r ysgol i gynrychioli'r hyn yr hoffent ddysgu mwy amdano.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd

gysylltiedig â gwerthuso addysgu yn wan.  Mae hyn yn ysgogi diwylliant lle mae arweinwyr yn canolbwyntio ar gydymffurfio â phrotocolau cytûn yn hytrach nag ystyried yr effaith ar gynnydd disgyblion.  Yn yr ysgolion hyn, nid yw arfer yn yr ystafell ddosbarth yn elwa o fod yn ffocws dysgu proffesiynol wedi'i gynllunio'n dda neu gyfarfodydd staff.  Lle mae dysgu proffesiynol o'r fath i'w gael, nid yw arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant o fyfyrio i gynorthwyo staff i ystyried ansawdd eu gwaith.  Er enghraifft, mae arweinwyr yn dyrannu amser ac adnoddau yn rheolaidd ar gyfer gweithgareddau llawn bwriadau da, fel arsylwadau cymheiriaid neu 'driawdau dysgu', ac mae athrawon yn croesawu'r profiadau hyn yn gyffredinol, ond pan fydd diffyg pwrpas yn y gweithgareddau hyn nid ydynt yn arwain at ansawdd addysgu a dysgu gwell.



## Gweithgarwch dilynol

Mae angen monitro ychwanegol gan arolygwyr trwy weithgarwch dilynol ar ryw ddwy o bob deg ysgol gynradd a arolygwyd eleni.  Mae'r gyfran hon yn debyg i'r llynedd.  Eleni, mae angen rhoi mesurau arbennig ar waith mewn pedair ysgol, mae angen gwelliant sylweddol ar un ac mae angen eu hadolygu gan Estyn ar 31 o ysgolion yn dilyn eu harolygiad craidd.


Ym mhob un o'r ysgolion cynradd y mae angen gweithgarwch dilynol statudol arnynt eleni, mae ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn anfoddhaol ac mae angen ei wella ar frys.  Yn yr ychydig ysgolion hyn, nid yw uwch arweinwyr yn darparu cyfeiriad strategol effeithiol i'r ysgol.  Er enghraifft, yn rhy aml, nid yw eu monitro'n canolbwyntio'n ddigon miniog ar ansawdd dysgu ac effaith arfer yn yr ystafell ddosbarth.  O ganlyniad, mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol dros gyfnod yn rhy amrywiol.  Lle mae monitro gan arweinwyr yn nodi tanberfformiad yn ansawdd arfer yn yr ystafell ddosbarth, nid yw arweinwyr bob amser yn herio ac yn cefnogi'u staff yn ddigon da i sicrhau'r gwelliannau sy'n ofynnol.

Mewn rhai o'r ysgolion y nodwyd bod angen gweithredu mesurau arbennig ynddynt eleni, mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu a phrofiadau dysgu, neu gofal, cymorth ac arweiniad, yn anfoddhaol hefyd ac mae angen eu gwella ar frys.  Yn aml, nid yw disgwyliadau athrawon ac arweinwyr o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn ddigon uchel, ac mae morâl staff yn isel.  O ganlyniad, yn yr ysgolion hyn, digonol ar y gorau yw cyflawniad disgyblion a safonau lles, ac mae angen eu gwella.  Nid yw'r cwricwlwm yn ennyn diddordeb dysgwyr yn ddigon da ac mae athrawon yn darparu gormod o weithgareddau lefel isel nad ydynt wedi'u hystyried yn ddigon da i alluogi disgyblion i ddatblygu ac ymarfer medrau pwysig.

Ym Medi 2018, roedd wyth o ysgolion cynradd yn parhau yn y categori mesurau arbennig yn dilyn arolygiadau craidd yn 2016-2017 a 2017-2018. Yn dilyn ymweliadau monitro, roedd pump o'r rhain wedi gwneud digon o gynnydd yn erbyn yr argymhellion ac fe'u tynnwyd o'r categori mesurau arbennig.  Yn gyffredinol, mae'n cymryd rhyw ddwy flynedd i ysgolion yn y categori mesurau arbennig wneud y gwelliannau gofynnol.

Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol ymhen rhyw flwyddyn i 18 mis. Eleni, fe wnaethom fonitro'r pedair ysgol y nodwyd bod angen gwelliant sylweddol arnynt yn ystod tymor yr haf 2017, ac fe'u tynnom o'r categori

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd




gweithgarwch dilynol pellach. Hefyd, tynnom bedair o'r saith ysgol a roddwyd yn y categori gwelliant sylweddol y llynedd o gategori monitro pellach. Mewn un ysgol, nodom fod cynnydd yn rhy araf, a nodom fod angen gweithredu mesurau arbennig yn yr ysgol. Yn ogystal, mae angen cyfnod pellach ar un ysgol er mwyn gwreiddio gwelliannau a newidiadau diweddar i arweinyddiaeth yr ysgol.

Mae angen eu hadolygu gan Estyn ar ryw un o bob chwe ysgol gynradd a arolygwyd eleni. Mae'r gyfran hon ychydig yn uwch na'r llynedd, pan nodwyd bod angen eu hadolygu gan Estyn ar ryw un o bob saith ysgol. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn cyflawni safonau digonol yn gyffredinol, ac mae safonau yn dda mewn rhyw un o bob pump o'r ysgolion hyn. Mewn rhyw dri chwarter, mae lles ac agweddau at ddysgu a gofal, cymorth ac arweiniad yn dda. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, digonol ac angen eu gwella yw addysgu a phrofiadau dysgu mewn ysgolion y mae angen eu hadolygu gan Estyn. Mae ansawdd addysgu yn anghyson yn aml ac nid yw athrawon bob amser yn diwallu anghenion yr holl ddisgyblion yn llwyddiannus. Yn aml, nid yw'r cwricwlwm wedi'i gynllunio'n ddigon da i sicrhau bod disgyblion yn caffael y medrau y mae eu hangen arnynt yn gynyddol. Ym mhob un o'r ysgolion hyn, digonol ac angen ei wella yw ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth Nid yw gweithredoedd arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon da bob amser i nodi p'un a yw darpariaeth yr ysgol yn gyson dda, a ph'un a yw'r holl ddisgyblion yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud, o ystyried eu mannau cychwyn. Er enghraifft, nid yw monitro gan arweinwyr yn gwerthuso'n ddigon miniog bob tro lle mae disgyblion yn gwneud y cynnydd gorau, a pham.

Rydym wedi parhau i fireinio ein gweithdrefnau i fonitro'r holl ysgolion sy'n cael eu rhoi yn y categori adolygu gan Estyn drwy adolygiad desg. Mae arolygwyr yn ymweld â sampl o'r ysgolion hyn, gan gynnwys ysgolion lle mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion yn ddigon taer. Eleni, mae dros hanner yr ysgolion a roddwyd yn y categori adolygu gan Estyn yn ystod 2017-2018 wedi gwneud digon o gynnydd ac nid oes angen gweithgarwch dilynol pellach arnynt. Fodd bynnag, canfuom nad oedd dwy ysgol a arolygwyd yn 2016-2017 wedi gwneud digon o gynnydd yn erbyn eu hargymhellion, a nodom fod angen gwelliant sylweddol ar y rhain.

Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2018-2019, mae wyth o ysgolion cynradd yn y categori mesurau arbennig, mae angen gwelliant sylweddol ar bump ysgol, ac mae angen eu hadolygu gan Estyn ar 43 o ysgolion.



# Adran 2

# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd

2

Ym mis Ionawr 2019, roedd 187 o ysgolion uwchradd yng Nghymru.  Mae hyn wyth yn llai nag ym mis Ionawr 2018 ac yn bennaf o ganlyniad i ysgolion yn uno’n un ysgol uwchradd newydd neu ysgol pob oed newydd (Llywodraeth Cymru, 2019m).

Yn 2018-2019, arolygwyd 29 o ysgolion.  Mae’r canfyddiadau o’r holl arolygiadau wedi llywio’r adroddiad hwn.

# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd

## Safonau



Mae safonau'n dda neu'n well mewn bron i hanner o ysgolion uwchradd. Yn yr ysgolion hyn, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu eu dealltwriaeth, eu gwybodaeth a'u medrau. Yn yr ychydig achosion gorau, mae disgyblion yn meddwl yn ddwys ac yn feirniadol am gysyniadau sy'n benodol i bwnc. Defnyddiant eu gwybodaeth bynciol yn fedrus i ddatblygu eu syniadau mewn cyd-destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd. Gall y disgyblion hyn wneud rhagfynegiadau rhesymedig, llunio casgliadau a ffurfio cyfatebiaethau. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion yn yr ysgolion hyn yn perfformio'n dda yn eu harholiadau, gan adlewyrchu eu cynnydd yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol uwchradd.

Mewn dosbarthiadau chweched, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Maent yn ennill dealltwriaeth gadarn o gysyniadau cymhleth ac yn datblygu eu gallu i gymhwyso eu dysgu i sefyllfaoedd newydd. Mae ychydig o ddysgwyr yn cael trafferth â'u hastudiaethau, yn enwedig y rhai y mae lefelau eu cyrhaeddiad blaenorol yn gymedrol. Nid yw tua un o bob pum disgybl Blwyddyn 12 yn symud ymlaen o Safon UG i Safon Uwch. Yn aml, mae'r dysgwyr hyn yn trosglwyddo i lwybr mwy priodol fel cwrs galwedigaethol, cyflogaeth neu hyfforddiant.


**Cyrsiau safon uwch mewn dosbarthiadau chweched a cholegau addysg bellach (Estyn, 2018a)**

Mae'n adrodd ar safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth mewn cyrsiau Lefelau Uwch TAG (Safon Uwch) mewn dosbarthiadau chweched ysgolion a cholegau addysg bellach. Mae'n ystyried amrywiaeth o ffactorau, fel safonau mewn Safon Uwch a sut caiff y rhain eu mesur, ansawdd yr addysgu a'r asesu, natur y cwricwlwm Safon Uwch a gynigir ac arweinyddiaeth strategol, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth.

Mewn chwech o bob deg ysgol, mae disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, mae'r grŵp hwn o ddisgyblion yn parhau i berfformio islaw disgyblion eraill.

Mae merched yn parhau i berfformio'n well na bechgyn a chynyddodd y bwlch fymryn rhwng y naill a'r llall yn y rhan fwyaf o ddangosyddion yn 2019 (StatsCymru, 2019g). Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau ryw yn arbennig o amlwg o ran datblygu medrau llythrennedd, yn enwedig ysgrifennu. Mae llai o fechgyn na merched yn datblygu diddordeb mewn darllen er pleser. Mewn llawer o achosion, mae bechgyn yn cyflwyno eu syniadau'n dda ar lafar ac mae merched yn dangos llai o hyder yn eu hatebion ar lafar na bechgyn.

# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd



Mewn gwersi, nid oes gwahaniaeth sylweddol o ran y modd y mae bechgyn a merched yn datblygu eu medrau rhifedd. Yn gyffredinol, mae bechgyn yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at gwblhau tasgau mathemategol. Fodd bynnag, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn mewn mathemateg TGAU. Mae perfformiad bechgyn mewn gwyddoniaeth, sy'n gofyn am lefelau uchel o lythrennedd a rhifedd yn ogystal â gwybodaeth bynciol, yn is na pherfformiad merched.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwrando ar, ac yn ymateb i, bobl eraill yn ofalus. Maent yn defnyddio ystod eang o eirfa gyffredinol a geirfa sy'n benodol i bwnc ac yn cyfleu eu syniadau'n glir. Maent yn ymateb yn dda i gwestiynau eu hathrawon neu'u cyfoedion ac yn cynnig atebion rhesymedig. Yn yr ychydig achosion gorau, mae disgyblion yn ymgysylltu'n dda â'i gilydd mewn trafodaethau bywiog a dymunol. Dangosant chwilfrydedd gan ofyn cwestiynau, yn ogystal â'u hateb.

Mewn saith o bob deg ysgol, mae disgyblion yn darllen amrywiaeth o destunau i wella eu dysgu'n briodol. Mae mwyafrif ohonynt yn darllen ar goedd yn gymwys gyda mynegiant priodol. Maent yn cip ddarllen (sgimio) ac yn llithr ddarllen (sganio) testunau i gael trosolwg neu chwilio am wybodaeth benodol yn gymwys. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu eu gallu i resymu a dod i gasgliad yn dda. Maent yn cyfosod ac yn dadansoddi deunydd yn fedrus, er enghraifft wrth werthuso pa mor ddiduedd yw ystod o ffynonellau am Nelson Mandela ac apartheid mewn gwersi hanes. Yn yr enghreifftiau gorau, mae disgyblion yn darllen testunau sy'n herio eu syniadau, er enghraifft wrth ddadansoddi cysyniad cyfrifoldeb yn 'A Christmas Carol' gan Charles Dickens. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw disgyblion yn darllen yn ddigon aml i sicrhau dealltwriaeth mewn pynciau heblaw Cymraeg neu Saesneg.

Mewn mwyafrif o ysgolion, mae disgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig addas ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd a dibenion ar draws pynciau. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn trefnu eu hysgrifennu yn baragraffau yn systematig ac yn cyfleu eu syniadau'n glir. Mae ychydig ohonynt yn ysgrifennu â soffistigeiddrwydd cynyddol ac yn cynhyrchu darnau o ysgrifennu creadigol a difyr. Ni all lleiafrif o ddisgyblion, yn enwedig bechgyn, gyfleu eu syniadau'n gydlynus. Nid yw'r disgyblion hyn yn deall sut i strwythuro eu hysgrifennu. Gwnânt gamgymeriadau cyson mewn sillafu, gramadeg ac atalnodi ac nid ydynt yn gwirio'u hysgrifennu i sicrhau ei fod yn gwneud synnwyr.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn briodol. Yn gyffredinol, caiff gwaith graff ei gwblhau i safon uchel, yn enwedig mewn gwersi gwyddoniaeth. Mae gan fwyafrif o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o gyfran a phryd i ddefnyddio technegau penodol i ateb cwestiynau neu ddatrys problemau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw disgyblion yn defnyddio eu medrau datrys problemau yn ddigon aml, gan gynnwys mewn gwersi mathemateg. Yn yr ysgolion hyn, maent yn tueddu i ddefnyddio medrau rhifedd sylfaenol iawn yn unig, ac nid ydynt yn datblygu'r rhain ymhellach ar draws pynciau. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn ymgymryd ag ymarferion rhifedd annaturiol nad ydynt yn datblygu eu dealltwriaeth bynciol na'u medrau rhifedd.

# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd

Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn datblygu eu meistrolaeth o'r Gymraeg yn dda wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol gynradd.  Maent yn ennill geirfa eang ac yn cyfathrebu ag ynganiad cynyddol gywir wrth iddynt symud trwy'r ysgol.  Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, mae cynnydd disgyblion yn y Gymraeg yn araf yn yr ysgol uwchradd.  Er eu bod yn aml yn gallu ateb cwestiynau arholiadau ysgrifenedig yn briodol, mae medrau llafar llawer o ddisgyblion wedi'u datblygu'n wael.  Yn aml, ni allant ddeall nac ymateb i gwestiynau neu ddatganiadau syml ar lafar.

Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siaradwyr Cymraeg rhugl.  Mae llawer ohonynt yn datblygu eu gallu i ysgrifennu Cymraeg yn dda hefyd, ac maent yn ennill gafael gadarn ar gystrawen a gramadeg.  Fodd bynnag, mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg wrth drafod eu gwaith neu mewn sefyllfaoedd anffurfiol.  Mewn ysgolion dwyieithog, mae mwyafrif y disgyblion yn tueddu i ddefnyddio Saesneg mewn sgyrsiau cymdeithasol ac mewn trafodaethau dosbarth, yn aml o ganlyniad i'r angen i osgoi eithrio'r rhai nad ydynt yn rhugl yn yr iaith.  Mae hyn yn cyfyngu ar eu rhugldery a'u hawydd i ddefnyddio'r iaith.

Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn dda ar draws y cwricwlwm.  Defnyddiant nodweddion meddalwedd fel y gallu i greu fformiwlâu mewn taenlenni, rhaglennu robotiaid i fynd trwy ddrysfa yn eu gwersi dylunio a thechnoleg, a chasglu gwybodaeth o gronfeydd data i lywio eu dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â mudo byd-eang.  Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn dechrau datblygu dealltwriaeth o'r medrau sy'n tanategu technolegau digidol hefyd.  Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn defnyddio TGCh mewn modd mwy cyfyngedig.  Er enghraifft, defnyddiant brosesu geiriau syml neu gwnânt gyflwyniadau sylfaenol ar sleidiau.  Nid yw'r mathau hyn o weithgarwch yn datblygu nac yn ymestyn ystod eu medrau TGCh.  Yn benodol, nid yw disgyblion yn defnyddio cymwysiadau mwy heriol fel taenlenni i drin data neu greu modelau mathemategol.

Mewn mwyafrif o achosion, yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu dawn greadigol yn dda iawn.  Y disgyblion sy'n datblygu'r medrau hyn bellaf yw'r rhai sy'n manteisio ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol fel Eisteddfod ysgol, cystadlaethau celf neu gerddoriaeth, a chynyrchiadau drama.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mewn tua un o bob deg ysgol, mae lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn rhagorol.  Yn yr ysgolion hyn, mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol, ac mae cyfraddau presenoldeb yn uchel iawn.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddysgwyr brwdfrydig, dyfeisgar ac annibynnol.  Maent yn parchu ei gilydd ac yn datblygu synnwyr cryf o gyfrifoldeb a dinasyddiaeth. Yn yr ysgolion hyn, mae'r cyngor ysgol yn rhagweithiol ac fe gaiff effaith eang ar brofiadau disgyblion, fel dylanwadu ar y cwricwlwm a'r addysgu.

Mewn saith o bob deg ysgol, mae disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu gwaith.  Yn yr ysgolion hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llawn cymhelliant ac yn dangos lefelau uchel o wydnwch wrth fynd i'r

### Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

Roedd Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe o'r farn nad oedd digon o ddisgyblion yn cael eu cynrychioli ar ei chyngor ysgol.  Penderfynwyd creu chwe chyngor gwahanol, bob un ohonynt yn gweithio ar flaenoriaethau penodol.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Crynodebau sector:
# Ysgolion uwchradd

afael â thasgau anodd. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn mynychu sesiynau adolygu ar ôl yr ysgol, yn aml yn ystod penwythnosau a gwyliau. Er bod hyn yn gyffredinol yn cael effaith gadarnhaol ar eu canlyniadau mewn arholiadau, mae disgyblion yn aml yn teimlo bod pwysau gan ysgolion i fynychu'r rhain yn cael effaith negyddol ar eu lles. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid oes gan ddisgyblion annibyniaeth na gwydnwch, ac maent yn rhoi'r gorau i ganolbwyntio yn rhy hawdd.

Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn deall yn dda bwysigrwydd presenoldeb da. Fodd bynnag, mewn ychydig o ysgolion, mae presenoldeb gwael yn cyfrannu at ddeilliannau gwael mewn dysgu a lles. Yn y mwyafrif o ysgolion, mae disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn dda ac yn dangos parch a chwrteisi at bobl eraill. Mae ymddygiad yn dda mewn tua chwech o bob deg ysgol. Yn yr ysgolion hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus yn y modd y mae arweinwyr ysgol yn ymateb i achosion o fwlio. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, mae ymddygiad gwael gan o leiaf ychydig o ddisgyblion yn tarfu ar eu dysgu nhw, a dysgu disgyblion eraill. Nid yw ychydig dros un o bob deg disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol o ganlyniad i ymddygiad gwael cyson gan ddisgyblion eraill, neu fwlio.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o sut i fyw yn iach. Fodd bynnag, mae llawer o'r disgyblion hyn yn ei chael yn anodd cymhwyso'r dysgu hwn i'w bywydau eu hunain. Maent yn dewis bwyd afiach ac nid ydynt yn gwneud digon o ymarfer corff.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y chweched dosbarth yn mwynhau eu hastudiaethau, er bod llawer ohonynt yn gweld bod gofynion eu cyrsiau'n achosi straen iddynt. Yn gyffredinol, maent yn fodelau rôl da ar gyfer disgyblion iau, ac mewn llawer o achosion, yn helpu cefnogi eu dysgu a'u lles.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Yn yr ychydig enghreifftiau gorau, mae athrawon yn dangos angerdd dros eu pwnc, a defnyddiant wybodaeth fanwl i gynllunio profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn ysgogi eu chwilfrydedd. Maent yn annog a chefnogi disgyblion yn gyson ac yn cynnig lefelau uchel o her iddynt. Defnyddiant holi yn fedrus i archwilio ffordd disgyblion o feddwl, a dyfnhau eu dealltwriaeth. Yn yr achosion hyn, nid yw athrawon fel arfer yn glynu at arddull addysgu benodol. Wrth gynllunio eu gwersi, maent yn ystyried eu dulliau'n ofalus i weddu i'r testun a sicrhau eu bod yn amlygu'r gorau yn eu disgyblion.

Mewn ysgolion lle mae'r addysgu'n dda o leiaf, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn sicrhau perthnasoedd gwaith cadarnhaol ac mae ganddynt wybodaeth bynciol dda. Mae llawer ohonynt yn cynnig esboniadau clir ac yn darparu anogaeth addas. Maent yn cynllunio eu gwersi'n ofalus i ennyn diddordeb disgyblion, ac yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau dros gyfnod. Ceir lefel briodol o her ar gyfer yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwy abl a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o holi i wirio dealltwriaeth disgyblion. Mewn lleiafrif o achosion, mae athrawon yn gofyn cwestiynau treiddgar i herio dealltwriaeth disgyblion a datblygu eu gallu i ymateb ar lafar.

### Ysgol Gymunedol Cwmtawe

Yn Ysgol Gymunedol Cwmtawe, mae disgyblion yn cymryd perchnogaeth, ac yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn creu'r cwricwlwm. Cânt eu hannog i ymchwilio i gyrsiau priodol ac ystyried llwybrau gyrfa posibl.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

### Ysgol Uwchradd Caerdydd

Mae buddsoddi mewn dysgu ac addysgu wedi helpu Ysgol Uwchradd Caerdydd i greu gweledigaeth newydd ar gyfer gwella, gyda phwyslais ar arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol. I gyflawni'r weledigaeth hon, caiff athrawon eu grymuso i gynnig cydbwysedd o gymorth a her yn eu hystafelloedd dosbarth.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd

Mewn ysgolion lle mae meysydd sylweddol i'w gwella mewn addysgu, mae llawer o'r diffygion o ganlyniad i gynllunio gwael.  Mae'r diffygion hyn yn cynnwys:

- diffyg her, yn enwedig i'r rhai mwy abl
- athrawon yn cynnig gormod o gymorth neu 'sgaffaldio' i ddisgyblion, sy'n cyfyngu ar eu hannibyniaeth
- cyflymdra amhriodol i weithgareddau dysgu
- gweithgareddau llythrennedd neu rifedd annaturiol neu wedi'u strwythuro wael
- cymorth gwael i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol
- athrawon yn parhau â strategaethau nad ydynt yn gweithio oherwydd eu bod o'r farn fod angen iddynt eu defnyddio i gydymffurfio â pholisi'r ysgol



Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn monitro cynnydd disgyblion yn fanwl ac yn eu helpu i wella eu gwaith trwy holi medrus a sensitif sy'n hyrwyddo meddwl, myfyrio a datrys problemau.  Fodd bynnag, mae ansawdd y sylwadau ysgrifenedig ar waith disgyblion yn rhy amrywiol.  Yn yr enghreifftiau mwyaf defnyddiol, mae arweinwyr yn annog dull strategol o farcio gwaith disgyblion.  Yn yr achosion hyn, nid yw athrawon yn marcio pob darn o waith yn fanwl.  Yn hytrach, maent yn rhoi eu sylw i dasgau sy'n mynnu ateb estynedig gan ddisgyblion ac yn cynnig adborth iddynt sy'n canolbwyntio ar fedrau, gwybodaeth neu ddealltwriaeth benodol.  Maent yn dilyn hyn â chyfleoedd i ddisgyblion wella agweddau penodol ar eu gwaith, ac yn sicrhau eu bod yn cwblhau'r rhain.  Mewn gormod o achosion, mae athrawon yn marcio gwaith yn hollgynhwysfawr, ond nid ydynt yn cynnig cyngor ystyrlon nac yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion wella agweddau ar eu gwaith.  Mae'r arfer hon yn llafurus ac nid yw'n ysgogi gwelliant ym medrau na dealltwriaeth bynciol disgyblion.

Yn y mwyafrif o ysgolion, mae prosiectau neu fentrau addas i helpu disgyblion i ymgynefino pan fyddant yn trosglwyddo o'u hysgol gynradd. Mae tua dwy o bob deg ysgol yn cynllunio eu cwricwlwm i adeiladu'n effeithiol ar brofiadau disgyblion yng nghyfnod allweddol 2.  Yn yr achosion hyn, mae arweinwyr o ysgolion uwchradd yn cyfarfod yn rheolaidd â'u cymheiriaid yn yr ysgolion cynradd sy'n eu bwydo i addasu eu cynlluniau gwaith i sicrhau eu bod yn adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion.  Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw arweinwyr pwnc yn gwneud hyn ac maent o'r farn fod safoni gwaith gyda'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo yn ddigonol i sicrhau dilyniant esmwyth.  Yn aml, mae'r dull hwn yn golygu bod disgyblion yn gweithio ar lefel rhy isel ar ddechrau Blwyddyn 7 neu maent ond yn ailadrodd gwaith a wnaethant eisoes yng nghyfnod allweddol 2.

Mae llawer o ysgolion yn trafod agweddau ar y Cwricwlwm i Gymru gyda'u staff a/neu'u disgyblion.  Ar yr adeg hon, mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys casglu adborth am y cwricwlwm drafft yn ogystal â thrafodaethau a gwerthusiadau am y cwricwlwm presennol.  Mae mwyafrif o ysgolion yn ymgymryd â phrosiectau diddorol ar raddfa fach sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru, er enghraifft cynllunio profiadau dysgu diwygiedig ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8, cryfhau trefniadau pontio gydag ysgolion cynradd partner neu feithrin cysylltiadau cryfach â grwpiau a sefydliadau cymunedol i gryfhau'r profiadau y maent yn eu cynnig i'w disgyblion.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion uwchradd

Mae ychydig o ysgolion yn rhoi bach iawn o bwyslais ar gyfnod allweddol 3, ac maent wedi lleihau'r amser cwricwlwm a neilltuir i ddwy flynedd, gan ddechrau â chwricwlwm cyfnod allweddol 4 ym Mlwyddyn 9. Mae hyn yn galluogi iddynt ganolbwyntio mwy ar gaffael cymwysterau ond yn lleihau cyfleoedd i ysgolion gynllunio'n greadigol a chynnig cwricwlwm eang ar gyfer disgyblion. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae'n ofynnol i ddisgyblion weithio tuag at gymwysterau a fydd yn gwella dangosyddion perfformiad yr ysgol. Mae'r arfer hon yn mynd ag amser a ffocws oddi wrth gymwysterau y mae disgyblion a chyflogwyr yn eu gwerthfawrogi, ac sy'n darparu profiadau dysgu gwerthfawr ar gyfer disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn trefnu disgyblion llai abl yn ôl setiau mewn dosbarthiadau llai o faint, gan alluogi athrawon i dreulio mwy o amser yn darparu ar gyfer anghenion penodol disgyblion unigol, er y gall hyn arwain at grwpiau mawr yn y setiau uchaf, sy'n gallu cyfyngu ar y rhyngweithio a gaiff y disgyblion mwy abl â'u hathro. Mae llawer o ysgolion yn cynllunio llwybrau cwricwlwm ychwanegol neu hyblyg addas ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion, er enghraifft ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio neu ar gyfer disgyblion mwy abl. Fodd bynnag, mae nifer y llwybrau galwedigaethol sydd ar gael i ddisgyblion wedi'i chyfyngu ar y cyfan, gan gwmpasu ystod gyfyngedig o feysydd y cwricwlwm.

Mewn llawer o ysgolion, mae'r dewisiadau a gynigir yng nghyfnod allweddol 4 a chyfnod allweddol 5 yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i ddisgyblion ddewis cymwysterau priodol. Fodd bynnag, mewn ychydig o ysgolion, caiff y cwricwlwm ei gynllunio gyda golwg ar yr effaith ar y dangosyddion perfformiad, er enghraifft dechrau cyrsiau TGAU ym Mlwyddyn 9 a gohirio'r amserlen er mwyn i ddisgyblion astudio cymwysterau ychwanegol. At ei gilydd, mae amrywiaeth y dewis yng nghyfnod allweddol 4 wedi lleihau yn y blynyddoedd diwethaf, a rhoddwyd mwy o amser i bynciau craidd. Ychydig o ysgolion yn unig sydd wedi llwyddo i hyrwyddo nifer y disgyblion sy'n astudio cyrsiau ieithoedd tramor modern neu gyrsiau cerddoriaeth.

Mewn llawer o ysgolion, mae darpariaeth addas ar gyfer datblygu llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Yn yr ysgolion hyn, mae adrannau'n cynllunio cyfleoedd defnyddiol ar gyfer datblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae mwyafrif o adrannau'n sicrhau bod cyfleoedd perthnasol i ddisgyblion fireinio eu hysgrifennu estynedig a gwella cywirdeb eu gwaith ysgrifenedig. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygiad cydlynus medrau llythrennedd disgyblion, yn enwedig ysgrifennu, yn ddigon effeithiol.

Mae mwyafrif yr ysgolion yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Ar y cyfan, caiff y gweithgareddau mwyaf buddiol eu cynllunio gan adrannau gwyddoniaeth, technoleg a daearyddiaeth. Mae'r adrannau hyn yn rhoi cyfleoedd dilys a heriol i ddisgyblion ddatrys problemau. Yn gyffredinol, mae llawer o'r adrannau hyn yn cynllunio'n dda i sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau graff. Mewn ychydig o achosion, mae adrannau'n cynnig gweithgareddau i ddisgyblion sy'n cynnwys lefel gymharol isel o her, er enghraifft cwblhau siartiau bar sylfaenol, wedyn eu lliwio. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae cyfleoedd i ddatrys problemau trwy ddefnyddio rhifedd yn rhy gyfyngedig. Ceir ymyrraeth effeithiol o ran llythrennedd a rhifedd ar gyfer grwpiau o ddisgyblion yn y rhan fwyaf o ysgolion.

### Ysgol Basaleg

Gweledigaeth Ysgol Basaleg yw datblygu diwylliant sy'n dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'n gwneud hyn gydag amrywiaeth o raglenni sy'n cael eu creu gan y disgyblion.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd

Ychydig o ysgolion yn unig sy'n cynllunio'n briodol i ddatblygu medrau TGCh disgyblion ar draws pynciau. Mewn llawer o ysgolion, mae rhwystrau rhag datblygu'r ddarpariaeth hon yn cynnwys:

- offer TGCh cyfoes annigonol
- diffyg hyder ymhlith staff i ddatblygu medrau TGCh disgyblion
- cynllunio gwael ar draws y cwricwlwm i ddatblygu medrau TGCh

Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dilyn llwybr cymhwyster priodol ar gyfer y Gymraeg, er bod cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu Cymraeg mewn cyd-destunau heblaw eu gwersi Cymraeg yn parhau i fod yn gyfyngedig. Yn aml, mae gormod o ffocws ar ddealltwriaeth dechnegol disgyblion o ramadeg ar draul sicrhau bod disgyblion yn gallu deall Cymraeg llafar a chynnig atebion addas ar lafar i gwestiynau. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, caiff bron pob un o'r disgyblion eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster TGAU mamiaith. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygu eu gallu i gyfathrebu'n ysgrifenedig ac ar lafar.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Yn yr enghreifftiau gorau, mae ysgolion yn cynnig gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel ar gyfer eu disgyblion. Yn yr ysgolion hyn, mae ethos eithriadol o ofalgar a chefnogol sy'n hyrwyddo lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn effeithiol. Mae staff yn cefnogi datblygiad personol disgyblion yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt i'w helpu i gyflawni eu llawn botensial.

Yn y mwyafrif o ysgolion, mae systemau defnyddiol ar gyfer olrhain cynnydd academaidd ac ymddygiad disgyblion, ynghyd â threfniadau addas ar gyfer delio ag unrhyw broblemau posibl neu danberfformio. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn defnyddio ystod eang o strategaethau, gan gynnwys ymgysylltu â rhieni ac asiantaethau allanol, i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw systemau ar gyfer olrhain perfformiad disgyblion yn arwain at ymyriadau effeithiol. Mae hyn naill ai oherwydd bod gwybodaeth o asesiadau athrawon yn anghywir, nid yw targedau disgyblion yn ddigon heriol, neu mae staff yn canolbwyntio gormod ar ddisgyblion ym Mlwyddyn 11. Mae'r diffygion hyn yn golygu nad yw staff yn mynd i'r afael â bylchau yn nealltwriaeth disgyblion mewn modd amserol. O'u cyfuno ag addysgu gwael, caiff y diffygion hyn effaith sylweddol ar berfformiad disgyblion.

### Cymorth i ddisgyblion yn Ysgol Bae Baglan

Roedd dwyn pedair ysgol amrywiol iawn ynghyd mewn lleoliad pob oed newydd sbon yn mynnu cymorth a llesiant di-dor, o ansawdd uchel, i'r holl ddisgyblion ac yn enwedig i'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymyriadau teilwredig yn mynd i'r afael ag anghenion disgyblion unigol yn llwyddiannus iawn, gyda chryn sensitifrwydd. Mae'r athroniaeth a'r arferion gweithio yn tarddu o'r gred sylfaenol y gall pob disgybl wneud cyfraniad gwerthfawr, ym mhob agwedd ar eu bywyd, a hynny yn eu datblygiad cymdeithasol, dinesig ac addysgol.


### Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley

Mae'r Rhaglen Gyfoethogi arloesol yn mynd i'r afael â datblygu medrau bywyd pwysig, ac yn cefnogi cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru trwy brofiad ysgol gyfan ar gyfer disgyblion. Mae wedi'i chynllunio i ddarparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ystyried ac ennill arbenigedd yn y medrau a'r priodoleddau y bydd eu hangen arnynt ac y byddant eisiau eu meddu wrth iddynt symud ymlaen mewn y byd

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Crynodebau sector:
# Ysgolion uwchradd




Mewn llawer o ysgolion, mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol ddefnyddiol sy'n cwmpasu themâu fel dinasyddiaeth, medrau cymdeithasol, gwrth-radicaleiddio, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, rhyw a pherthnasoedd iach. Mewn ychydig o achosion, nid yw ysgolion yn cwmpasu'r ystod lawn o faterion sy'n bwysig i fywydau pobl ifanc, fel delio â phroblemau iechyd meddwl, yn ddigon da, ac nid yw ansawdd y profiadau dysgu'n ddigon da. Ym mron pob ysgol, mae trefniadau i hyrwyddo pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach yn addas. Mae llawer o ysgolion yn cynnig cyngor addas ar yrfaoedd i ddisgyblion ac arweiniad pan fyddant yn dewis cyrsiau ar gyfer cyfnod allweddol 4 neu gyfnod allweddol 5. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw ysgolion yn cynnig cyngor diduedd i ddisgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn dilyn cyrsiau anaddas.

Mae llawer o ysgolion yn defnyddio ystod eang o strategaethau defnyddiol i gyfathrebu â rhieni. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, nosweithiau rhieni a nosweithiau â ffocws penodol, ar destunau fel bod yn ddiogel ar-lein neu newidiadau i'r cwricwlwm. Mewn llawer o achosion, mae adroddiadau i rieni ar gynnydd eu plentyn yn ddefnyddiol ac addysgiadol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae strwythur a chynnwys adroddiadau yn ddryslyd a di-fudd i rieni.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae cydweithio ag asiantaethau a gwasanaethau cymorth allanol yn fuddiol ac yn ategu cymorth yr ysgol ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar wella gwydnwch a lles disgyblion.

Mewn llawer o ysgolion, mae polisi ymddygiad cynhwysfawr sy'n cael ei roi ar waith yn briodol gan y rhan fwyaf o staff. Yn yr enghreifftiau gorau, mae arweinwyr yn canolbwyntio ar werthoedd y maent yn ceisio'u hyrwyddo yn hytrach na'r rheolau eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn gweithredu trefniadau cyfleusterau mewnol ar gyfer cefnogi disgyblion sy'n dangos ymddygiad heriol iawn mewn gwersi. Mewn llawer o achosion, mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn parhau i wneud cynnydd yn eu gwaith. Yn yr enghreifftiau gorau, mae staff yn cynorthwyo disgyblion yn dda ac maent yn dychwelyd yn gyflym i'w gwersi. Maent yn cynnwys disgyblion mewn trafodaethau cynhyrchiol am unrhyw broblemau a allai fod ganddynt, ac yn eu helpu i gynllunio i osgoi ailadrodd unrhyw ymddygiad gwael. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn aros yn yr ystafelloedd hyn, wedi'u hynysu oddi wrth eu cyfoedion, am gyfnodau estynedig, gan gynnwys amser cinio ac amser egwyl. Gall hyn gael effaith negyddol ar eu lles ac nid yw'n arwain at ymddygiad gwell.

Mae gan lawer o ysgolion ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac maent yn cefnogi eu dysgu'n dda. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn deall anghenion y disgyblion yn dda. Maent yn trafod y ffordd orau o gefnogi disgyblion penodol yn drylwyr gyda'r disgyblion, eu rhieni ac asiantaethau cymorth i lunio cynlluniau dysgu defnyddiol. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn defnyddio'r rhain yn dda i addasu eu haddysgu a sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd addas yn unol â thargedau heriol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn gweithio'n agos â chynorthwywyr cymorth dysgu i gynllunio'r strategaethau dysgu mwyaf priodol ar gyfer y disgyblion hyn. Fodd bynnag,

# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd

mewn ychydig o achosion, mae cynlluniau dysgu'n rhy generig, nid ydynt yn cynnig digon o her i ddisgyblion ac nid ydynt yn rhoi arweiniad defnyddiol i athrawon. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion hyn yn gwneud digon o gynnydd yn eu gwybodaeth na'u medrau pwnc.

Mewn llawer o ysgolion, mae trefniadau i hyrwyddo presenoldeb da yn effeithiol. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn pwysleisio'n gyson y cysylltiad rhwng presenoldeb uchel a chyflawniad academaidd da. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ynglŷn â phresenoldeb, ac yn cyfleu'r rhain yn rheolaidd i ddisgyblion a rhieni. Fodd bynnag, cynyddodd cyfraddau absenoldeb anawdurdodedig ychydig yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf, ac mae disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn parhau i fod yn fwy tebygol o fod yn absennol (Llywodraeth Cymru, 2019a). Mewn ychydig iawn o ysgolion, nid yw arweinwyr yn ddigon llwyddiannus yn ymgysylltu â rhieni na disgyblion i sicrhau presenoldeb da.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth yn dda neu'n rhagorol mewn bron i bedair o bob deg ysgol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r uwch dîm arwain yn cydweithio'n llwyddiannus i gyfleu gweledigaeth glir yn seiliedig ar ddiwylliant o ddisgwyliadau uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae staff, disgyblion a'r corff llywodraethol yn arddel nodau a disgwyliadau'r ysgol yn llawn. Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais cryf ar addysgu, ond nid ydynt yn mynnu cydymffurfio anystyriol â pholisi ysgol. Yn hytrach, maent yn disgwyl i athrawon ddefnyddio ystod eang o strategaethau a dewis y dull priodol ar gyfer eu dosbarth a'r testun dan sylw. Mae arweinwyr ar bob lefel yn meddu ar ddealltwriaeth ddofn o'r cryfderau a'r gwendidau ar draws yr ysgol, ac yn gwerthuso gwahanol strategaethau yn wrthrychol yn sgil eu heffaith ar ddysgu, ac ar les disgyblion. Mae arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn gwerthuso ansawdd yr addysgu trwy ystod o wahanol weithgareddau ac maent yn tueddu i beidio â chynnig barnau ar wersi unigol. Yn hytrach, maent yn cymryd rhan mewn deialog broffesiynol gyda staff am agweddau sy'n haeddu cael eu rhannu â staff eraill a meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer disgyblion ac yn cynllunio'n ddiwyd i gyflawni'r rhain. Yn yr ysgolion hyn, mae synnwyr cyffredin o ddiben a chydweithio helaeth sy'n canolbwyntio ar welliant parhaus. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod pobl yn ymddiried ynddynt.

Pan fydd arweinyddiaeth yn dda neu'n well, mae arweinwyr yn gefnogol, yn ofalgar ac yn anogol ond hefyd yn heriol, pan fydd angen. Mae arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn deall agweddau cadarnhaol yn dda a'r rhai y mae angen eu gwella. Maent yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda rhieni a'r gymuned. Sicrheir bod cyn lleied o waith papur ag y bo modd, ond caiff agweddau pwysig i sicrhau atebolrwydd eu gwneud yn dda. Caiff systemau i reoli perfformiad staff eu cymhwyso'n gyson ac maent yn llywio rhaglen dysgu proffesiynol ystyrlon. Ceir diwylliant cryf o werthuso gwrthrychol a chynllunio ar gyfer gwella. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn arfarnu gwaith yr ysgol yn barhaus ac yn ymateb yn brydlon i unrhyw agweddau

### Ysgol Gymunedol Cwmtawe

Mae gan Ysgol Gymunedol Cwmtawe raglen datblygiad proffesiynol gref ar gyfer staff ar bob cam o'u gyrfaoedd. Defnyddir rhaglenni hyfforddi, cysgodi mewn swydd, hyfforddi a rhannu arfer effeithiol. Mae'r rhaglen yn rhoi'r profiad i staff gymryd perchnogaeth o'u haddysgu.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

……………………………………..

### Ysgol Gyfun Y Bont-faen

Mae rhaglen dysgu proffesiynol gan Ysgol Gyfun y Bont-faen. Mae wedi'i llunio i sicrhau bod yr holl staff yn gallu mynd i'r afael â gwelliant yn llwyddiannus. Mae'r ymagwedd hon wedi creu diwylliant o gydweithio a dealltwriaeth o bwysigrwydd dysgu parhaus.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd

y mae angen eu gwella.  Maent yn deall pa mor dda y mae disgyblion yn perfformio mewn perthynas ag ysgolion tebyg eraill, ac yn gosod nodau uchelgeisiol.  Mae llywodraethwyr yn wybodus ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a gwendidau'r ysgol.  Mae ganddynt rôl ddylanwadol mewn gosod cyfeiriad strategol yr ysgol.

Pan geir diffygion, mae'r rhain yn bennaf oherwydd na all arweinwyr nodi meysydd i'w gwella mewn addysgu ar draws yr ysgol.  Mewn ychydig o achosion, mae arweinwyr yn canolbwyntio cymaint ar wella deilliannau arholiadau fel nad ydynt yn rhoi digon o bwysigrwydd i sicrhau addysg eang disgyblion neu'u datblygiad cymdeithasol a phersonol.  Mewn ychydig o ysgolion a arolygwyd eleni, nid yw arweinwyr wedi mynd i'r afael ag ymddygiad gwael a bwlio.

Mewn lleiafrif o ysgolion, mae gweithdrefnau ar gyfer hunanwerthuso yn tueddu i ganolbwyntio ar gydymffurfio â pholisi'r ysgol yn hytrach na gwerthuso effaith eu darpariaeth ar gynnydd disgyblion.  Mewn gormod o achosion, mae ysgolion yn barnu ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol trwy gyfrif nifer y gwersi y barnwyd eu bod yn 'dda' neu'n well.  Nid ydynt yn cysylltu addysgu â'i effaith ar ddysgu yn ddigon agos.  Mewn lleiafrif o ysgolion, mae gan arweinwyr a llywodraethwyr ddealltwriaeth wael o berfformiad eu hysgol o gymharu ag ysgolion eraill tebyg.  Mewn lleiafrif o achosion, nid yw arweinwyr yn casglu gwybodaeth am les disgyblion mewn modd strategol.  O ganlyniad, nid oes ganddynt ddealltwriaeth gadarn o faterion cyfredol, ac ni allant gynllunio ar gyfer gwella.  Yn aml, mae gormod o flaenoriaethau ar gyfer gwella mewn cynlluniau datblygu ysgol gyfan.

Mewn mwyafrif o ysgolion, mae arweinwyr yn defnyddio canfyddiadau o hunanwerthuso yn dda i gynllunio a gwerthuso gweithgareddau dysgu proffesiynol.  Maent yn cynllunio eu rhaglen dysgu proffesiynol yn ofalus i sicrhau bod unrhyw hyfforddiant yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau unigol, adrannol, ysgol a chenedlaethol.  Maent yn rhoi amser i adrannau unigol fyfyrio ar unrhyw hyfforddiant a roddwyd ac addasu eu harfer mewn ffordd sy'n gweddu orau i'w pwnc.  Yn yr ysgolion hyn, mae ffocws cyson ar wella addysgu ac ar gynllunio'r gweithgareddau mwyaf gwerth chweil ar gyfer disgyblion.  Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw arweinwyr yn cynllunio'n ddigon da ar gyfer dysgu proffesiynol.  Yn aml, dim ond cyfleoedd i sicrhau bod eu gwybodaeth am ofynion arholiadau yn gyfoes a gynigir i staff.  Mewn ychydig o achosion, nid yw staff yn cael yr hyfforddiant hanfodol hwn.  Yn yr ysgolion hyn, mae diffyg ffocws ar wella addysgu.  Yn hytrach, mae staff yn dibynnu ar ddarparu sesiynau adolygu ar ôl yr ysgol ar gyfer disgyblion, weithiau ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau, i sicrhau deilliannau da.  Mae'r strategaeth hon yn effeithio'n negyddol ar forâl staff a'u lles.

Mewn ysgolion ag arweinyddiaeth wan, yn aml, mae cyfarfodydd yn cynnwys uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn canolbwyntio'n drwm ar faterion gweithredol ac nid ydynt yn ystyried materion strategol fel effaith strategaethau ysgol gyfan neu adrannol ar ddeilliannau.  Yn ychwanegol, nid yw arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn canolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu medrau TGCh, llythrennedd neu rifedd disgyblion, gafael disgyblion ar y Gymraeg neu gyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd

Mae'r holl ysgolion a arolygwyd eleni yn adrodd am yr angen i wneud penderfyniadau ariannol anodd o ganlyniad i gyllidebau llai. Yn aml, mae'r rhain yn arwain at gynyddu meintiau dosbarthiadau neu golli cynorthwywyr cymorth dysgu. Trwy benderfyniadau darbodus am wariant, llwyddodd tua saith o bob deg ysgol i reoli eu cyllideb yn dda. Nid yw ychydig dros dair o bob deg ysgol uwchradd a arolygwyd eleni wedi llwyddo i wneud hyn ac maent yn gweithredu â diffyg yn y gyllideb. Mewn ychydig o achosion, mae'r rhain yn fawr iawn, ac er eu bod yn gweithredu o dan drwydded gan yr awdurdod lleol, nid yw'n glir sut bydd yr ysgolion hyn yn llwyddo i gael gwared ar eu diffygion.

## Gweithgarwch dilynol

O'r 29 ysgol uwchradd a arolygwyd eleni, mae angen rhyw lefel o weithgarwch dilynol ar ryw chwech o bob deg ohonynt. Gosodwyd un deg tri o ysgolion yn y categori adolygu gan Estyn, mae angen gwelliant sylweddol ar dair ysgol, ac mae angen mesurau arbennig ar ddwy ysgol.

Ar ddechrau tymor yr hydref, roedd saith ysgol yn y categori mesurau arbennig. Gwnaeth un o'r ysgolion hyn gynnydd da yn unol â'i hargymhellion, ac fe'i tynnwyd o'r categori yn dilyn ymweliad monitro. Cafodd dwy ysgol arall eu hymweliad cyntaf yn dilyn arolygiad craidd. Canolbwyntiodd yr ymweliad hwn ar sicrhau bod gan yr ysgol gynllun gweithredu ôl-arolygiad addas ar waith. Roedd y pedair ysgol arall wedi gwneud cynnydd annigonol yn unol â'u hargymhellion, ac maent yn parhau i fod yn y categori mesurau arbennig. Yn yr ysgolion hyn, ni chaiff arweinwyr ar bob lefel ddigon o effaith ar ddeilliannau disgyblion. Yn benodol, nid ydynt yn canolbwyntio ddigon ar y graddau y caiff addysgu effaith gadarnhaol ar safonau, cynnydd ac ymgysylltiad disgyblion â'u dysgu.


Roedd angen gwelliant sylweddol ar ddeg ysgol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd hon. Cynhaliodd Estyn ymweliadau i fonitro cynnydd wyth o'r ysgolion hyn. Roedd pum ysgol wedi gwneud digon o gynnydd i gael eu tynnu o'r categori hwn. Roedd un ysgol wedi gwneud cynnydd cyfyngedig yn unol â'i hargymhellion, a barnwyd bod angen mesurau arbennig arni. Roedd dwy ysgol wedi gwneud cynnydd yn unol ag argymhellion eu harolygiad craidd, ond dim digon i'w tynnu o'r categori hwn.

Ym mis Tachwedd, fe wnaethom adolygu cynnydd wyth ysgol yn y categori adolygu gan Estyn. Fe wnaethom werthuso'r adroddiadau cynnydd a gyflwynwyd gan yr ysgolion a'u hawdurdodau lleol i ystyried cynnydd yn unol â'r argymhellion, yn ogystal â dadansoddi deilliannau cyfnod allweddol 4. Yn dilyn yr adolygiad, barnwyd bod pedair o'r ysgolion hyn wedi gwneud digon o gynnydd ac nid oedd angen monitro pellach gan Estyn arnynt. O'r ysgolion sy'n weddill, mae un ysgol yn parhau i gael ei hadolygu gan Estyn. Cafodd y tair ysgol arall ymweliad monitro. Barnwyd bod un ysgol wedi gwneud digon o welliant, ac fe'i tynnwyd oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen iddynt gael eu hadolygu gan Estyn. Nid oedd dwy ysgol wedi gwneud digon o gynnydd yn unol â'r argymhellion o'u harolygiadau craidd, a barnwyd bod angen gwelliant sylweddol arnynt.

Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2018-2019, mae naw ysgol yn y categori mesurau arbennig, naw ysgol yn y categori gwelliant sylweddol a 23 yn y categori adolygu gan Estyn.

Adran 2

# Crynodebau sector: Ysgolion pob oed a gynhelir



2

## Cyd-destun

Mae ysgolion pob oed yn darparu addysg i ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen hyd at gyfnod allweddol 4, ac weithiau maent yn cynnwys chweched dosbarth. Yn Ionawr 2019, roedd 19 o ysgolion pob oed a gynhelir yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2019m). Mae'r sector yn parhau i dyfu gyda thair ysgol arall wedi agor ym Medi 2019, ac ymgynghoriadau yn mynd rhagddynt mewn gwahanol ranbarthau a allai weld pum ysgol pob oed arall yn cael eu sefydlu. Mae'r sector yn amrywiol iawn o ran nifer y safleoedd ar gyfer pob ysgol, ac ystod niferoedd disgyblion yn y cyfnodau gwahanol.

Eleni, arolygodd Estyn dair ysgol pob oed a gynhelir. Mae'r ysgolion yn amrywio o dros 1,500 o ddisgyblion i 900 o ddisgyblion, bob un ar un safle. Mae pob un o'r ysgolion yn derbyn disgyblion i Flwyddyn 7 o ysgolion cynradd partner eraill. Mae dwy ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion o 3 i 19 oed, ac mae un ysgol yn addysgu disgyblion o 3 i 16 oed.

# Crynodebau sector: Ysgolion pob oed a gynhelir



## Safonau

Ar draws y tair ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyflym yn eu medrau personol a chymdeithasol, a gwnânt gynnydd sicr yn eu medrau llythrennedd, gwybodaeth a dealltwriaeth yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mewn un o'r ysgolion a arolygwyd eleni, mae disgyblion yn gwneud llai o gynnydd yn y cyfnod cynradd ac mae meysydd pwysig i'w gwella. Ym mhob un o'r ysgolion a arolygwyd, mae disgyblion yn y cyfnod uwchradd yn elwa o'r ystod eang o brofiadau dysgu a gwnânt gynnydd da.

Mae perfformiad merched o ran llawer o'r dangosyddion yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad merched mewn ysgolion tebyg. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae perfformiad bechgyn yn 2018 yn is yn gyffredinol na'r cyfartaledd ar gyfer bechgyn mewn ysgolion tebyg.

Mewn dwy o'r ysgolion, lle ceir safonau da, mae bron pob disgybl yn gwrando'n astud ac yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'u medrau llefaredd yn Gymraeg a Saesneg. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus yn y ddwy iaith. Gall llawer o ddisgyblion lithr ddarllen a chip ddarllen testunau amrywiol yn llwyddiannus i ddod o hyd i wybodaeth a dadansoddi tystiolaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus, ac yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig at ystod o ddibenion.

Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod cynradd gynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Mae llawer o ddisgyblion oed uwchradd yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn dda ar draws ystod o bynciau. Yn gyffredinol, mae medrau TGCh y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgolion hyn. Mae hyn yn fwy cadarnhaol nag yn yr ysgolion uwchradd a arolygwyd eleni a gallai fod yn sgil cynllunio mwy cydlynus ar gyfer cynnydd a sicrhau parhad ar draws cyfnodau allweddol mewn ysgol pob oed.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau creadigol cryf mewn gwersi, er enghraifft wrth ddylunio a gwneud cynhyrchion mewn technoleg, creu darnau o waith celf o ansawdd uchel neu berfformio fel rhan o grŵp offerynnol.

Lle mae safonau'n ddigonol, nid yw mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio geirfa ddigon cyfoethog i fynegi'u hunain. Nid yw eu medrau darllen wedi'u datblygu'n ddigonol, a dim ond ychydig o ddisgyblion mwy abl sy'n defnyddio eu huwch-fedrau fel rhesymu gyda hyder. Er bod safon ysgrifennu disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn briodol, ar draws y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn ddigon da ar draws y cwricwlwm. Yn ogystal, nid yw medrau TGCh mwyafrif y disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n ddigonol ar y sylfaen gadarn a osodwyd yng nghyfnod allweddol 2.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi amrywio, ond yn gyffredinol, mae ychydig yn is na pherfformiad eu cyfoedion mewn ysgolion tebyg. Mae disgyblion

# Crynodebau sector: Ysgolion pob oed a gynhelir



ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd cryf o leiaf yn erbyn eu targedau erbyn diwedd cyfnod allweddol 4. Mewn un ysgol a arolygwyd, mae llawer o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd eithriadol.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Ym mhob un o'r tair ysgol a arolygwyd eleni, mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac maent yn gwybod at bwy i droi gyda'u pryderon. Mae bron bob disgybl yn deall pwysigrwydd ymarfer corff a bwyta'n iach yn glir. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ymarfer corff rheolaidd ac mae cyfranogiad mewn gweithgareddau corfforol allgyrsiol yn uchel.

Mae agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Gweithiant gyda'i gilydd yn frwdfrydig mewn parau a grwpiau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn dosbarthiadau ac o amgylch yr ysgol. Mewn un ysgol, mae bron bob disgybl yn dangos medrau dysgu annibynnol cryf iawn ac yn cymryd perchnogaeth o'u dysgu eu hunain. Maent yn deall sut maen nhw'n dysgu ac yn llawn cymhelliant i ddysgu. Mae llawer yn dangos lefelau gwydnwch uchel wrth wynebu heriau â'u gwaith, a gallant ddatrys problemau. Un nodwedd gref yw parodrwydd disgyblion i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain, fel bod yn arweinwyr digidol a mentoriaid iaith. Mae eu gwaith yn cyfrannu'n helaeth at fywyd a gwaith yr ysgol ac yn hyrwyddo treftadaeth a diwylliant Cymru yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu at ystod eang o waith elusennol a chymunedol sy'n eu datblygu fel dinasyddion moesegol a goddefgar yn eithriadol o dda.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mewn dwy ysgol a arolygwyd, mae'r perthnasoedd gweithio da rhwng athrawon a disgyblion yn gryfder allweddol. Mae hyn yn aml oherwydd bod gwybodaeth a dealltwriaeth dda gan athrawon o ddisgyblion a'u cefndiroedd, a defnyddiant y wybodaeth hon yn dda, yn enwedig wrth gynllunio. Mae llawer o athrawon yn cynllunio gwersi yn effeithiol, yn darparu lefel addas o her ac yn pennu disgwyliadau uchel. Maent yn rhoi ffocws clir ar ddatblygu medrau disgyblion, yn defnyddio adnoddau perthnasol a diddorol ac yn ennyn diddordeb gwirioneddol y disgyblion. Mae llawer o athrawon yn darparu adborth llafar ac adborth ysgrifenedig defnyddiol sy'n galluogi disgyblion i wella eu gwaith. Mewn un ysgol, nid yw'r addysgu'n ddigon effeithiol. Mae athrawon yn cyfarwyddo dysgu disgyblion yn ormodol, ac nid oes ganddynt ddigwyliadau digon uchel. Yn ogystal, nid yw ychydig o athrawon yn holi'n ddigon effeithiol nac yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb i'w cyngor yn ddigon da i wella eu dealltwriaeth neu ansawdd eu gwaith.

Yn gyffredinol, mae'r tair ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys o 3-18 oed. Maent yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu i ddisgyblion. Mae un ysgol yn benodol wedi mabwysiadu ymagwedd arloesol ac arbrofol at baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Er mai megis dechrau cael ei datblygu y mae'r ymagwedd hon, mae disgyblion yn elwa o brofiadau ysgogol i ddatblygu'u medrau creadigol a'u medrau meddwl.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion pob oed a gynhelir

Mae pob un o'r tair ysgol a arolygwyd yn cynllunio'n bwrpasol i ddatblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm. Un nodwedd benodol o'r ymagwedd hon yw athrawon yn cydgynllunio o fewn meysydd dysgu. Nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion ar draws yr ysgol yn ddigon cynhwysfawr, ac o ganlyniad, nid yw disgyblion yn y cyfnod uwchradd yn adeiladu'n ddigon da ar y sylfeini cadarn a osodwyd yn y cyfnod cynradd.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn nodwedd gref yn yr holl ysgolion a arolygwyd. Gofynnwyd i'r tair ysgol gyflwyno astudiaeth achos ynglŷn â'r modd y mae eu darpariaeth wedi effeithio'n gadarnhaol ar les disgyblion a'u hagweddau at ddysgu. Mae pob un o'r tair ysgol yn gynhwysol gydag ethos gofalgar, gan roi blaenoriaeth uchel i les pob disgybl.

Mae systemau cadarn a chynhwysfawr gan bob un o'r ysgolion i olrhain cynnydd academaidd, presenoldeb a lles. Mae arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth olrhain yn dda i wneud penderfyniadau gwybodus am sut i gynorthwyo disgyblion sy'n cael anawsterau neu'r rhai sy'n tangyflawni. Ceir trefniadau cadarn ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ysgolion yn teilwra ymyriadau'n ofalus ac yn sensitif i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion unigol. Maent yn monitro effaith yr ymyriadau'n ofalus ac yn addasu'r ddarpariaeth yn ôl y gofyn. Drwy hyfforddi staff, gwaith gydag asiantaethau allanol a rhieni, mae'r ysgolion yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae cymorth i ddisgyblion ag anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol yn gryfder arbennig ym mhob ysgol. Mewn dwy o'r ysgolion, mae'r cymorth yn eithriadol. Un nodwedd gref yn yr ysgolion hyn yw'r cymorth cofleidiol i ddisgyblion a'u teuluoedd sy'n wynebu heriau. Mae timau bugeiliol yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i sicrhau bod cymorth yn benodol ac yn diwallu anghenion yr unigolyn yn dda. Mae adnabod disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni yn gynnar yn helpu ysgolion i ddarparu darpariaeth gynnar ac effeithiol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn hapus i fod yn yr ysgol a'u bod yn cael pob cyfle i lwyddo. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymfalchïo'n fawr yn eu hysgol. Mae'r ysgolion yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gyfranogi mewn digwyddiadau diwylliannol, prosiectau'r celfyddydau creadigol a gweithgareddau yn eu cymuned leol. Mae rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol yn datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ysgolion yn darparu llawer o gyfleoedd i'r ysgolion fynegi'u barn, ac mae arweinwyr yn ystyried eu barnau'n effeithiol er mwyn llywio newidiadau i'r cwricwlwm a bywyd ysgol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda ym mhob un o'r tair ysgol a arolygwyd eleni. Mae arweinwyr wedi sicrhau sylfeini cadarn ar gyfer ysgol pob oed yn eu camau datblygu cynnar. Mae lles a gofal, cymorth ac arweiniad wedi bod yn flaenoriaethau iddynt wrth gyfuno ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau gwahanol.

### Ysgol Bae Baglan

Mae sicrhau lefel y gofal, y cymorth a'r arweiniad yn nodwedd gref yn Ysgol Bae Baglan. Mae'r ysgol yn sylweddoli nad yw pob disgybl yn gweithio yn yr un ffordd ac mae wedi creu rhwydwaith cymorth disgyblion.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

### Ysgol Bro Teifi

Creodd Ysgol Bro Teifi system i nodi anghenion eu disgyblion fel y gallent gynnig darpariaeth barhaus ar eu cyfer. Mae'r system yn helpu olrhain cynnydd, ymddygiad, presenoldeb a lles.


I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

### Ysgol Bro Morgannwg

Mae gan ddisgyblion a staff yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ymdeimlad cryf o falchder yn eu cymuned Gymraeg. Mae staff yn annog defnydd o'r Gymraeg ar draws yr ysgol. Mae 'Pwyllgor Cymreictod' yn hyrwyddo defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Crynodebau sector: Ysgolion pob oed a gynhelir



Yn y tair ysgol, mae arweinwyr wedi bod yn llwyddiannus o ran sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer eu hysgol a chyfleu hyn yn effeithiol gyda staff, rhieni a rhanddeiliaid.  Mae llinellau atebolrwydd yn glir ac mae arweinwyr yn gweithio'n dda â'i gilydd ar draws pob un o'r cyfnodau.  Mae arweinyddiaeth gadarn wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar agweddau pwysig ar waith yr ysgol, ac yn arbennig presenoldeb, lles, ansawdd addysgu a chynllunio'r cwricwlwm.  Mae llywodraethwyr yn frwdfrydig ac yn ymroddedig.  Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o'u cyfrifoldebau ac maent yn darparu cymorth a her effeithiol.

Yn gyffredinol, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn eu hysgol.  Mae arweinwyr ar bob lefel yn dadansoddi data'n dda ac yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol arall, fel arsylwadau o wersi a chraffu ar waith disgyblion, i gynllunio ar gyfer gwelliant.  Ar adegau, mae ffocws hunanwerthuso a chynllunio gwelliant wedi troi'n ormodol tuag at gyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn hytrach nag ar draws yr ysgol gyfan.  O ganlyniad, nid oes dealltwriaeth ddigon cadarn gan arweinwyr bob amser o'r diffygion yn y cyfnod cynradd, ac nid ydynt ychwaith yn nodi'n ddigon clir lle mae arfer dda yn bodoli y gellid ei rhannu ar draws yr ysgol.

Mae pob un o'r tair ysgol wedi creu ethos a diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol parhaus.  Darparant gyfleoedd cyfoethog i staff i ehangu a mireinio eu gwybodaeth broffesiynol, a gweithiant yn dda gydag ysgolion a darparwyr eraill i ehangu darpariaeth ar gyfer dysgu proffesiynol staff.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau eu hysgol yn dda.  Mae diffyg yn eu cyllideb gan ddwy o'r tair ysgol, ac mae cynllun wedi'i gytuno gan yr awdurdod lleol i ddileu'r diffyg o fewn y ddwy flynedd nesaf.  Gwneir defnydd da o gyllid grant gan y tair ysgol, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i gynorthwyo disgyblion.  Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gynnydd, presenoldeb a lles disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a grwpiau eraill sy'n agored i niwed.  Mae pob un o'r ysgolion yn elwa o adeiladau pwrpasol newydd sy'n darparu lle ysgogol i ddisgyblion ddysgu.

## Gweithgarwch dilynol

Ni chafodd yr un o'r ysgolion pob oed a arolygwyd eleni eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol.  Ym mhob ysgol a arolygwyd, nodwyd meysydd o arfer dda a gofynnwyd i'r ysgolion ddarparu astudiaeth achos. Roedd pob astudiaeth achos yn ymwneud â lles disgyblion a'r gofal, cymorth ac arweiniad a ddarparwyd.  Mae un ysgol pob oed yn parhau i gael ei hadolygu gan Estyn ac mae angen gwelliant sylweddol o hyd ar un ysgol pob oed a gafodd ei monitro eleni.



# Adran 2

# Crynodebau sector: Ysgolion arbennig a gynhelir

2

## Cyd-destun

Ym mis Ionawr 2019, roedd 41 o ysgolion arbennig a gynhelir yng Nghymru, yr un fath ag yn 2018 (Llywodraeth Cymru, 2019m). Mae'r ysgolion yn darparu ar gyfer disgyblion ag ystod o anghenion, gan gynnwys anawsterau dysgu dwys a lluosog, ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig a gynhelir yn parhau i gynyddu. Ym mis Ionawr 2019, roedd 4,982 o ddisgyblion mewn ysgolion arbennig ledled Cymru, o gymharu â 4,831 y llynedd (Llywodraeth Cymru, 2019m).

Eleni, fe wnaethom arolygu tair ysgol arbennig a gynhelir. Mae un o'r rhain yn ysgol pob oed sy'n darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 19 oed, un arall sy'n darparu ar gyfer disgyblion rhwng 7 ac 19 oed a'r llall yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 19 oed yn unig. Mae'r canfyddiadau o'r holl arolygiadau wedi llywio'r adroddiad hwn. Mae'r canfyddiadau'n cyd-fynd yn fras â chanfyddiadau blynyddoedd blaenorol.

# Crynodebau sector: Ysgolion arbennig a gynhelir

## Safonau

Mae safonau yn y tair ysgol a arolygwyd eleni yn dda neu'n well. Mewn un ysgol, mae safonau'n rhagorol. Mae disgyblion yn yr ysgol hon yn ymateb yn eithriadol o gadarnhaol i'w hethos hynod gynhwysol a chefnogol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyson dda mewn llawer o feysydd pwysig yn eu dysgu a'u datblygiad personol, sy'n cefnogi eu bywydau yn y dyfodol yn effeithiol iawn. Mae ychydig o ddisgyblion yn yr ysgol sydd ag anghenion hynod gymhleth yn atgyfnerthu eu medrau ac yn cynnal eu lefel cyflawniad yn eithriadol o dda mewn perthynas â'u targedau. Mae'r canlyniad hwn yn gyflawniad eithriadol o dda ar gyfer y disgyblion hyn.

Ym mhob un o'r tair ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn unol â'u nodau dysgu yn eu cynlluniau addysg unigol. Yn gyffredinol, maent yn bwrw ymlaen â thasgau yn gyflym, ac yn galw dysgu blaenorol i gof yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cyfathrebu'n dda ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r rhain mewn cyd-destunau perthnasol. Mae disgyblion â'r anawsterau cyfathrebu mwyaf yn defnyddio ystod eang o fedrau a dyfeisiau cyfathrebu fel ystum, symbolau a thechnoleg gynorthwyol i gyfleu eu hanghenion yn addas a gwneud dewisiadau. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd, er enghraifft disgyblion mwy abl yn cyfrifo maint elw yn hyderus ar gyfer gweithgareddau menter.

Mae bron pob un o'r disgyblion hŷn yn gadael eu hysgol gydag o leiaf un cymhwyster cydnabyddedig, ac yn symud ymlaen i addysg bellach neu hyfforddiant. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dysgu medrau bywyd pwysig sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod pontio hwn, ac ar gyfer byw yn annibynnol.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Yn y tair ysgol a arolygwyd eleni, mae lles ac agweddau at ddysgu yn dda neu'n well.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Ar y cyfan, maent yn bwrw ymlaen yn gyflym â'u gwaith, yn ymgymryd yn dda â gweithgareddau ac yn dangos llawer o wydnwch yn eu dysgu, er eu bod yn wynebu llawer o anawsterau. Er enghraifft, yn yr achosion prin lle mae disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn ymddieithrio, maent yn trafod eu hanawsterau, ac yn cydweithredu'n llawn â staff addysgu a staff cymorth i ddychwelyd at eu dysgu mewn modd amserol. At ei gilydd, mae agweddau cadarnhaol disgyblion at ddysgu yn eu helpu i wella'u gwaith a sicrhau deilliannau cryfach.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, maent yn oddefgar ac yn dangos parch. Maent yn ymateb yn dda i awyrgylch gofalgar eu hysgol ac yn ffurfio perthnasoedd gwaith ymddiriedus gyda staff. Mae hyn yn helpu rhoi hwb i'w hyder, yn enwedig wrth roi cynnig ar dasgau newydd neu wahanol ffyrdd o weithio. Mae cyfranogiad brwdfrydig disgyblion mewn gweithgareddau fel codi arian ar gyfer elusennau lleol neu hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn eu helpu i fod yn ddinasyddion sy'n wybodus yn foesegol, a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel aelodau o gymuned eu hysgol.

# Crynodebau sector: Ysgolion arbennig a gynhelir

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae ansawdd addysgu a phrofiadau dysgu ym mhob un o'r tair ysgol yn dda neu'n well. Mae pob ysgol yn darparu cwricwlwm eang, hyblyg a hynod berthnasol i ysgogi a herio'r amrywiaeth lawn o ddisgyblion yn llwyddiannus. Un o gryfderau'r ddarpariaeth hon yw'r ffordd hyblyg y mae'r ysgolion yn cynllunio a grwpio disgyblion i sicrhau eu bod yn diwallu eu hanghenion yn hynod dda, er enghraifft grwpio yn ôl cam datblygu, yn hytrach nag oedran. Mae'r dull ymatebol hwn o gynllunio'r cwricwlwm yn cyfrannu'n gadarnhaol at gynnydd disgyblion dros gyfnod.

Lle mae'r addysgu yn gryfder, mae staff yn defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth fanwl o alluoedd a diddordebau disgyblion unigol yn fedrus i gynllunio tasgau difyr sy'n eu herio a'u hysgogi. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn hyderus i addasu cynlluniau gwersi neu addasu tasgau'n sensitif i ddarparu ar gyfer newid yn anghenion ac ymddygiadau disgyblion. Gwnânt ddefnydd effeithiol o ystod o strategaethau ac adnoddau i ennyn diddordeb disgyblion, fel ystafelloedd synhwyraidd, therapi adlamu, a gweithio mewn ardaloedd allanol i ddiwallu eu hanghenion yn dda. Mae staff cymorth yn fodelau rôl gwerthfawr ac maent yn gweithio'n effeithiol fel tîm i wella dysgu disgyblion a sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd gwerth chweil. Er enghraifft, mewn un ysgol, mae staff addysgu a staff cymorth yn defnyddio 'waliau waw' i ddarparu adborth manwl, dathlu llwyddiant ac annog disgyblion i ymestyn eu dysgu.

Lle nad yw ansawdd yr addysgu'n gryf, mae hyn fel arfer oherwydd nad yw athrawon yn cynllunio'n ddigon gofalus i sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau annibyniaeth neu ddiwallu anghenion disgyblion mwy abl.

Mae'r tair ysgol yn cynllunio ystod o gyfleoedd ysgogol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mewn un ysgol, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg a gweithgareddau i ddathlu diwylliant Cymru yn ddigon uchelgeisiol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r gofal, y cymorth a'r arweiniad ar gyfer disgyblion yn dda neu'n well yn y tair ysgol, ac mae darpariaeth un ysgol yn rhagorol. Lle mae'r ddarpariaeth yn eithriadol o dda, mae'r ysgol yn darparu lefelau eithriadol o dda o ofal mewn amgylchedd hynod gynhwysol. Mae ethos ac arfer o'r fath yn galluogi disgyblion, beth bynnag fo lefel eu hanabledd neu'r anawsterau y maent yn eu hwynebu, i gymryd rhan mewn dysgu a gwneud cynnydd yn llwyddiannus. Mae trefniadau trylwyr yr ysgol ar gyfer asesu, monitro ac olrhain yn sicrhau bod staff yn deall anghenion disgyblion yn eithriadol o dda o'r diwrnod y maent yn ymuno â'r ysgol. Mae partneriaethau hynod effeithiol gyda rhieni ac ystod eang o asiantaethau allanol fel iechyd a gofal cymdeithasol yn galluogi'r ysgol i ddarparu cymorth gwerthfawr i ddiwallu anghenion iechyd a dysgu parhaus disgyblion yn eithriadol o dda.

### Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod

Mae staff a llywodraethwyr yn Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod yn gweithio gyda'i gilydd i wreiddio cyfranogiad disgyblion ar draws yr ysgol. Mae gan y cyngor ysgol rôl bwysig, ac mae'n galluogi disgyblion i fod yn arweinwyr a defnyddio eu llais.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Crynodebau sector:
# Ysgolion arbennig a gynhelir

Yn y tair ysgol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwella datblygiad personol disgyblion yn gryf. Er enghraifft, maent yn cynllunio a chyflwyno rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol yn effeithiol i ddarparu amrywiaeth o wybodaeth sy'n briodol i oedran ar gyfer disgyblion. Mae'r wybodaeth hon yn cwmpasu meysydd pwysig fel byw yn iach, perthnasoedd, diogelwch ar-lein, a radicaleiddio. Caiff y rhaglenni hyn eu cydlynu'n dda â meysydd eraill o'r ddarpariaeth, fel disgyblion yn hyrwyddo cynnydd mewn dewisiadau prydau bwyd iach trwy'r cyngor ysgol.

Mewn un ysgol, mae staff yn casglu ystod addas o wybodaeth asesu yn rheolaidd i lywio targedau mewn cynlluniau addysg unigol disgyblion, ond nid ydynt yn nodi'n ddigon clir y camau bach nesaf ar gyfer gwella.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn rhagorol mewn un ysgol a arolygwyd, ac yn dda yn y ddwy arall. Yn yr ysgol lle mae perfformiad ac arfer gref a chynaledig, caiff rolau arwain eu rhannu'n llwyddiannus ymhlith staff, er enghraifft trwy grwpiau gorchwyl a gorffen. Mae'r dull hwn yn helpu meithrin medrau arwain staff a'u hymrwymiad i weledigaeth a gwerthoedd cynhwysol yr ysgol. Mae arweinwyr yr ysgol wedi ffurfio partneriaethau hynod lwyddiannus gydag ysgolion lleol sydd wedi cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion ac wedi gwella eu deilliannau, yn ogystal â helpu i wella darpariaeth yr awdurdod lleol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Mae gan y tair ysgol drefniadau cynhwysfawr i gefnogi dysgu proffesiynol staff. Mae gweithgareddau'n amrywio o staff yn trafod syniadau am arfer effeithiol fel rhan o raglen fewnol i arsylwi cymheiriaid i rannu eu harbenigedd gydag ysgolion ar draws y rhanbarth. Mae cyfleoedd eraill yn cynnwys mentora ar gyfer darpar arweinwyr a hyfforddiant ar gyfer cynorthwywyr addysgu i ddatblygu medrau arbenigol. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu staff i wella eu harfer eu hunain ac ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth.

Mae pob ysgol wedi datblygu prosesau hunanwerthuso cydlynus a thrylwyr. Mae arweinwyr yn casglu ystod addas o dystiolaeth uniongyrchol ar safonau a darpariaeth, gan gynnwys addysgu, sy'n darparu sylfaen dystiolaeth ddefnyddiol iddynt werthuso gwaith eu hysgol. Mewn un ysgol, nid yw arweinwyr bob amser yn dadansoddi gwybodaeth o hunanwerthuso yn ddigon medrus i nodi cryfderau a blaenoriaethu meysydd i'w datblygu gyda thargedau realistig ar gyfer gwella.

## Gweithgarwch dilynol

Eleni, nid oes angen gweithgarwch dilynol ar unrhyw ysgolion o ganlyniad i'w harolygiad craidd.

Yn ystod y flwyddyn, mae un ysgol a arolygwyd yn y cylch arolygu blaenorol wedi cael ei thynnu o'r categori adolygu gan Estyn, a barnwyd bod ysgol arall wedi gwneud gwelliant digonol ac nad oes angen mesurau arbennig arni mwyach. Mae ysgol arall yn parhau i gael ei hadolygu gan Estyn.



### Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod

Mae'r athro allymestyn a gweithiwr cymorth cartref-ysgol yn Ysgol Cae'r Drindod yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni a gofalwyr. Gyda'i gilydd, maent yn creu strategaethau y gellir eu cefnogi gartref, fel arferion amser gwely.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

Adran 2

# Crynodebau sector: Ysgolion arbennig annibynnol

2

## Cyd-destun

Ym mis Ionawr 2019, roedd 36 o ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru, sef pedair yn fwy nag ym mis Ionawr 2018. Mae ysgolion arbennig annibynnol yn addysgu disgyblion rhwng 3 ac 19 oed sydd ag ystod eang o anghenion, gan gynnwys anhwylder y sbectrwm awtistig ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae llawer o'r ysgolion yn fach ac mae disgyblion fel arfer yn byw mewn cartrefi plant sydd ynghlwm wrth yr ysgolion. Mae lleiafrif o'r ysgolion hyn hefyd yn addysgu disgyblion dydd neu ddisgyblion sy'n preswylio mewn cartrefi plant nad ydynt ynghlwm wrth yr ysgol, ac ariennir y lleoliadau hyn gan awdurdodau lleol.

Yn ogystal ag arolygiadau llawn, mae Estyn yn cynnal arolygiadau monitro rheolaidd o ysgolion arbennig annibynnol, bob 12 i 18 mis fel arfer. Eleni, fe wnaethom arolygu saith ysgol arbennig annibynnol a chynnal ymweliadau monitro â 21 ysgol. Mae'r canfyddiadau o'r holl arolygiadau ac ymweliadau wedi llywio'r adroddiad hwn.

# **Crynodebau sector:** Ysgolion arbennig annibynnol

## Cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003

Mewn arolygiadau ysgolion arbennig annibynnol, rydym yn barnu'r graddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003).

Roedd chwech o'r saith ysgol arbennig annibynnol a arolygwyd ac ychydig dros dri chwarter o ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro yn cydymffurfio â holl Reoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Pan oedd gan ysgolion ddiffygion o ran cydymffurfio â rheoliadau, roedd y rhain yn gysylltiedig ag ansawdd yr addysg a ddarperir, lles, iechyd a diogelwch disgyblion, addasrwydd perchnogion a staff, a darparu gwybodaeth. Mae'n ofynnol i'r holl ysgolion nad ydynt yn bodloni rheoliadau gyflwyno cynllun i Lywodraeth Cymru i ddangos sut byddant yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol. Mae Estyn yn monitro cydymffurfio â'r rheoliadau yn yr ymweliad monitro nesaf.


## Safonau

Mae safonau gryn dipyn yn fwy cadarnhaol eleni nag oeddent yn y blynyddoedd diwethaf. Mewn chwech o'r saith ysgol arbennig annibynnol a arolygwyd eleni, ac mewn tri chwarter o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r monitro, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o leiaf yn eu dysgu mewn perthynas â'u mannau cychwyn a'u galluoedd. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd yn dda. Er enghraifft, maent yn gwella eu medrau darllen yn effeithiol o'u sgorau gwaelodlin ac yn datblygu medrau ysgrifennu mwy cadarn. Mae llawer o ddisgyblion yn atgyfnerthu ac yn gwella eu medrau rhifedd ac yn dod yn fwy hyderus wrth gymhwyso'r rhain ar draws y cwricwlwm, ac o ran cyd-destunau go iawn sy'n cefnogi eu hannibyniaeth yn y dyfodol yn dda, fel cyllidebu a theithio.

Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd hynod gryf o ran datblygu medrau cyfathrebu a medrau cymdeithasol perthnasol. Maent yn gwrando'n ofalus ar ei gilydd ac ar staff addysgu, ac yn ateb cwestiynau'n hyderus gan ddefnyddio iaith yn benodol i bwnc yn gywir. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau meddwl a datrys problemau yn dda. Er enghraifft, maent yn cynllunio a pharatoi eu prydau bwyd eu hunain neu'n cymhwyso'r medrau y maent yn eu dysgu yn yr ysgol i leoliadau profiad gwaith yn y gymuned. Mae hyn yn eu helpu i fod yn fwy annibynnol yn eu bywydau bob dydd.

Mewn un o'r ysgolion a arolygwyd ac mewn tua chwarter o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw eleni fel rhan o fonitro, mae disgyblion yn gwneud cynnydd anghyson o ran datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Yn gyffredinol, mae hyn oherwydd nad ydynt yn defnyddio'r medrau hyn yn ddigon rheolaidd mewn sefyllfaoedd go iawn nac yn eu cymhwyso'n bwrpasol mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Yn yr ysgolion hyn, mae gwaith ysgrifenedig disgyblion wedi'i gyflwyno'n wael, ac nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ennill cymwysterau sy'n cefnogi dilyniant galwedigaethol neu lwybrau dysgu yn y dyfodol.

# Crynodebau sector: Ysgolion arbennig annibynnol



## Lles ac agweddau at ddysgu

Ym mhob un o'r ysgolion a arolygwyd eleni, ac mewn naw o bob deg o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o leiaf o ran gwella eu safonau lles a'u hagweddau at ddysgu. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn datblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gyda staff sy'n eu cynorthwyo'n effeithiol iawn i ddatblygu eu hunan-barch a'u gwydnwch pan fyddant yn wynebu heriau mewn dysgu. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn dysgu rheoli eu gorbryderon yn llwyddiannus ac yn gwella eu hymddygiad mewn perthynas â'u hanghenion unigol.

Mae llawer o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn cyrraedd gwersi'n brydlon. Mewn gwersi, maent yn gweithio'n effeithiol yn annibynnol a gyda'u cyfoedion. Maent yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn awyddus i rannu eu cyflawniadau a'r cynnydd y maent wedi'i wneud yn eu dysgu gydag ymwelwyr. Yn yr ysgolion hyn, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau arwain yn briodol ac yn cyfrannu'n adeiladol at fywyd yr ysgol a'r gymuned leol.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o ffyrdd iach o fyw, ac yn dysgu sut bydd eu dewisiadau'n effeithio ar eu bywydau yn y dyfodol. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn ymarfer corff ac yn esbonio buddion diet iach. Yn bwysig, mae llawer ohonynt yn datblygu eu dealltwriaeth o berthnasoedd iach trwy ymyriadau therapiwtig a gynllunir yn dda a'u haddysg bersonol a chymdeithasol.

Mewn pedair o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro yn ystod y cyfnod hwn, roedd diffygion ym mhresenoldeb ac ymddygiad ychydig o ddisgyblion. Mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cyfyngedig o ran rheoli eu hymddygiad ac nid ydynt yn ymgysylltu'n dda â dysgu. Nid ydynt yn ymateb yn dda i gymorth staff, ac maent yn gadael gwersi a gweithgareddau'n gynnar heb gwblhau tasgau.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mewn pump o'r saith ysgol a arolygwyd ac mewn tua hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, mae addysgu a phrofiadau dysgu yn dda, o leiaf. Yn yr ysgolion hyn, mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a pherthnasol sy'n diwallu anghenion disgyblion yn dda. Mae gan gynllunio'r cwricwlwm, mae ffocws cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion, yn ogystal â'r ystod eang o fedrau y bydd eu hangen ar ddisgyblion yn eu bywydau yn y dyfodol. Er enghraifft, mae ysgolion yn cynllunio addysg awyr agored, gweithgareddau i ddatblygu medrau byw yn annibynnol a chyfleoedd ar gyfer profiad gwaith.

Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn defnyddio gwybodaeth bynciol gadarn i gynllunio gwersi heriol sy'n adeiladu'n briodol ar ddysgu blaenorol disgyblion. Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn gweithio gyda'i gilydd yn adeiladol ac yn gwybod beth yw cryfderau eu disgyblion a'u meysydd i'w datblygu yn eithriadol o dda. Maent yn rhannu disgwyliadau uchel o ymddygiad a chynnydd disgyblion, ac yn darparu cymorth a her

# Crynodebau sector:
# Ysgolion arbennig annibynnol

hynod effeithiol ar gyfer disgyblion.  Maent yn teilwra'r cwricwlwm yn fedrus yn unol ag anghenion disgyblion unigol ac yn darparu amrywiaeth ysgogol o weithgareddau wedi'u cynllunio'n dda sy'n ymestyn medrau datrys problemau disgyblion.

Mewn dwy o'r ysgolion a arolygwyd ac mewn tua hanner yr ysgolion a gafodd eu monitro, mae angen gwella agweddau ar addysgu a phrofiadau dysgu. Yn gyffredinol, mae hyn oherwydd bod athrawon yn gosod gweithgareddau dysgu nad ydynt yn heriol ac nid ydynt wedi'u teilwra'n ddigon da yn unol â galluoedd ac anghenion disgyblion.  Mae athrawon yn dibynnu gormod ar ystod gyfyngedig o ddulliau addysgu fel defnyddio taflenni gwaith, ac nid ydynt yn cynnwys digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dysgu annibynnol.  Yn yr ysgolion hyn, mae diffyg parhad a chydlyniad o ran cynllunio'r cwricwlwm, ac nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn gynyddol ar draws y cwricwlwm.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae darpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion yn dda neu'n rhagorol mewn chwech o'r ysgolion a arolygwyd, ac mae'n nodwedd gref mewn tua saith o bob deg o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro.  Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon ac arweinwyr yn casglu ystod eang o dystiolaeth i fonitro ac olrhain cynnydd disgyblion mewn dysgu. Maent yn ystyried y wybodaeth hon yn ofalus ynghyd â data ar bresenoldeb, ymddygiad ac agweddau eraill ar les disgyblion i ddarparu cofnod trylwyr o'r cynnydd a wna disgyblion dros gyfnod.  Defnyddiant y wybodaeth hon yn fedrus i roi ystod o ymyriadau ar waith sy'n cefnogi anghenion disgyblion yn dda iawn.

Nodwedd hynod effeithiol o'r gwaith hwn yw'r bartneriaeth rhwng staff addysgu, staff preswyl a staff therapiwtig.  Mae'r cydweithio cydlynus hwn yn hyrwyddo dull hynod gyson o helpu disgyblion i reoli eu hanghenion cymhleth a gwella'u hagweddau at ddysgu.  Dros gyfnod, mae'r dull hwn yn help sylweddol i arfogi disgyblion â'r medrau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau iach am ffordd o fyw yn ystod eu bywyd fel oedolyn.

Lle mae angen gwella agweddau ar y ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad, mae hyn oherwydd nad yw asesiadau gwaelodlin o fedrau disgyblion yn ddigon trylwyr, ac nid yw trefniadau i staff olrhain a monitro cynnydd disgyblion ar draws y cwricwlwm wedi'u datblygu'n ddigonol.  Yn ychwanegol, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol disgyblion.  O ganlyniad, ni chaiff disgyblion eu paratoi'n ddigon da ar gyfer cyfrifoldebau a heriau bywyd yn y gymuned pan fyddant yn gadael yr ysgol.

## Arweinyddiaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth o leiaf yn dda mewn pump o'r saith ysgol a arolygwyd, ac maent yn nodwedd gref mewn tua hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r monitro eleni.  Yn yr ysgolion hyn, mae

### Ysgol Headlands

Fe wnaeth Ysgol Headlands greu ymagwedd newydd at y modd y maent yn cefnogi disgyblion sydd wedi cael profiad o drawma cynnar a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Roeddent eisiau darparu perthnasoedd ymddiriedus a gwasanaeth oedd yn sensitif i drawma ar gyfer eu disgyblion a'u teuluoedd.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Crynodebau sector: Ysgolion arbennig annibynnol

arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth gref a phwrpasol, sy'n canolbwyntio'n dda ar wella darpariaeth ac ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion. Maent yn cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n hyrwyddo gwaith tîm effeithiol rhwng timau staff addysg, staff preswyl a staff arbenigol. O ganlyniad, maent yn creu ethos cadarnhaol ac anogol sy'n cefnogi anghenion disgyblion yn effeithiol. Yn yr ysgolion hyn, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau cyffredinol yr ysgol a'r meysydd i'w datblygu, ac mae ganddynt brosesau addas i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion unigol.

Lle mae angen gwella agweddau ar arweinyddiaeth a rheolaeth, mae hyn yn gyffredinol oherwydd nad yw gweithgareddau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn ddigon trylwyr. Yn benodol, nid yw'r wybodaeth y mae arweinwyr yn ei chasglu am gynnydd disgyblion yn canolbwyntio'n glir ar safonau medrau disgyblion, ac ni chaiff ei defnyddio'n ddigon da i nodi meysydd ysgol gyfan i'w datblygu. Nid yw blaenoriaethau ar gyfer gwella yn nodi'n ddigon manwl pa gamau fydd yn cael eu cymryd, nac yn nodi'n glir yr adnoddau neu'r amser sydd eu hangen i wneud newidiadau llwyddiannus.


Mewn tair o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, mae ansefydlogrwydd yn uwch arweinyddiaeth yr ysgol yn creu ansicrwydd am gyfeiriad yr ysgol yn y dyfodol, ac nid yw'n helpu'r ysgol i gynllunio'n hyderus ar gyfer gwella.

## Ysgol Woodlands

Roedd Ysgol Woodlands eisiau gwella'i dysgu ac addysgu, a sefydlu diwylliant lle y gallai disgyblion gyflawni'u potensial academaidd. Defnyddiwyd gwasanaethau dyddiol a chyngor ysgol newydd i rannu gwybodaeth gyda disgyblion a'u cynnwys mewn penderfyniadau.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence



Adran 2


# Crynodebau sector: Ysgolion prif ffrwd annibynnol

2

## Cyd-destun

Yn Ionawr 2019, roedd 38 o ysgolion prif ffrwd annibynnol yng Nghymru, tair yn fwy nag yn Ionawr 2018. Mae'r ysgolion hyn yn addysgu rhyw 8,500 o ddisgyblion. Mae hyn yn cyfrif am ryw 2% o ddisgyblion yng Nghymru. Eleni, fe wnaethom arolygu chwech o ysgolion prif ffrwd annibynnol. Mae un o'r ysgolion hyn yn ysgol pob oed, mae dwy yn addysgu disgyblion rhwng 3 ac 16 oed, mae un ysgol yn addysgu disgyblion rhwng 3 ac 14 oed, mae un yn addysgu disgyblion rhwng 9 a 18 oed, ac mae un yn darparu addysg i ddisgyblion 10 i 20 oed. Mae'r sampl hon yn adlewyrchu amrywiaeth yr ysgolion yn y sector, gyda rhai yn darparu ar gyfer plant cyn oed ysgol statudol a rhai eraill yn ehangu i ddarpariaeth ôl-16. Mae canfyddiadau'r holl arolygiadau wedi llywio'r adroddiad hwn.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion prif ffrwd annibynnol



## Cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

Mewn ysgolion annibynnol, rydym yn arolygu'r graddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003).  Eleni, llwyddodd pump o'r chwe ysgol a arolygwyd i fodloni pob un o'r rheoliadau.  Mewn un ysgol, nodom ddiffygion o ran cydymffurfio ag ychydig o reoliadau'n ymwneud ag ansawdd addysg a ddarperir a lles, iechyd a diogelwch disgyblion.  Byddwn yn monitro'r ysgol hon i wneud yn siŵr ei bod yn gwneud y gwelliannau sy'n ofynnol i gynnal ei chofrestriad.  Cynhaliom weithgareddau monitro dilynol gyda'r ddwy ysgol nad oedd wedi bodloni pob un o'r rheoliadau hyn yn 2017-2018.  Mae'r ddwy ysgol hon wedi cymryd camau priodol ac maent yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau erbyn hyn.

## Safonau

Yn hanner y chwech o ysgolion annibynnol a arolygwyd eleni, mae safonau'n dda neu'n well.  Er bod hyn yn ymddangos yn wannach na sefyllfa'r llynedd, mae maint sampl yr ysgolion a arolygwyd yn rhy fach i lunio casgliadau o hyn ynglŷn â'r sector yn gyffredinol.

Mae nodweddion rhagorol yn safonau disgyblion mewn dwy o'r ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth arbennig o sicr o wybodaeth bynciol a gwnânt gynnydd cryf wrth wella eu medrau a chymhwyso'u dealltwriaeth o egwyddorion a chysyniadau allweddol i gyd-destunau newydd.  Mae disgyblion yn gofyn cwestiynau ystyriol a pherthnasol i ehangu'u dealltwriaeth neu i herio barnau disgyblion eraill. Mae disgyblion hŷn yn darllen ac yn ymateb yn hyderus i ystod o destunau mwyfwy cymhleth.  Gall llawer ohonynt ddadansoddi'r defnydd o iaith ac effaith iaith yn arbennig o dda, er enghraifft wrth lunio casgliadau o 'Pride and Prejudice' i archwilio stereoteipiau'r rhywiau.  Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, daw disgyblion yn eithriadol o sicr o ran eu medrau mathemategol. Cymhwysant y medrau hyn yn effeithiol i gefnogi'r dysgu mewn pynciau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ddefnyddio'u medrau mesur mewn gwyddoniaeth neu wneud cyfrifiadau mewn seryddiaeth.

Lle mae safonau'n anfoddhaol, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth ddatblygu'u gwybodaeth a'u medrau.  Nid yw disgyblion yn darllen gyda mynegiant nac yn deall bob amser beth maent wedi'i ddarllen, ac yn eu hysgrifennu mae disgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu ac atalnodi mynych.  Mae hyn yn cynnwys camgymeriadau dro ar ôl tro wrth sillafu geiriau a ddefnyddir yn gyffredin a therminoleg penodol i bwnc.  Yn ogystal, nid yw disgyblion yn cymhwyso'u medrau mathemategol yn gywir mewn tasgau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mewn pump o'r chwe ysgol a arolygwyd eleni, mae lles ac agweddau at ddysgu yn dda neu'n well.  Ceir nodweddion rhagorol mewn dwy o'r ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn hynod eiddgar i lwyddo a datblygant agweddau ac ymddygiadau allweddol a fydd yn eu helpu i ddysgu trwy gydol eu bywydau.  Mae disgyblion yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn ystod eang o gyfleoedd dysgu ac yn datblygu mwy a mwy o hyder fel dysgwyr uchelgeisiol,

# Crynodebau sector:
# Ysgolion prif ffrwd annibynnol

annibynnol. Maent yn dangos chwilfrydedd yn eu dysgu a dycnwch i oresgyn heriau, ac maent yn deall yn iawn bod camgymeriadau yn gyfleoedd dysgu defnyddiol.

Mae disgyblion yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi'n fawr gallu cyfranogi mewn gweithgareddau a chlybiau allgyrsiol, gan gynnwys cyfleoedd dysgu arloesol drwy'r rhaglen awyr agored mewn un ysgol. Mae disgyblion yn datblygu gwydnwch cadarn a medrau personol a chymdeithasol buddiol trwy gyfranogi yn y rhaglen hon.

Yn yr arfer orau, mae disgyblion yn datblygu medrau arwain gwerthfawr drwy fod ynghlwm ag ystod fuddiol o rolau a chyfrifoldebau. Er enghraifft, daw disgyblion yn genhadon chwaraeon, maent yn sefydlu cymdeithas wyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) neu'n trefnu digwyddiadau cymunedol.

Lle nad yw lles ac agweddau at ddysgu yn gryfder, mae disgyblion yn dibynnu gormod ar gymorth oedolion pan fyddant yn gweld tasgau yn heriol, yn hytrach na meddwl pethau drwodd drostyn nhw'u hunain. Yn ogystal, nid oes ganddynt swyddi cyfrifol na rolau arwain, ac nid ydynt felly'n dylanwadu ar waith yr ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mewn dwy o'r ysgolion a arolygwyd, mae addysgu a phrofiadau dysgu'n dda neu'n well. Yn yr ysgolion hyn, mae'r cwricwlwm wedi'i deilwra at anghenion disgyblion yn dda ac yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a medrau disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol, fel eu bod yn dod yn ddysgwyr hyderus, uchelgeisiol, dyheadol a gwybodus. Caiff disgyblion gyfleoedd helaeth i ehangu'u dysgu drwy weithgareddau ychwanegol, fel teithiau maes, digwyddiadau chwaraeon, heriau dylunio ac ymweliadau cyfnewid tramor. Mae'r cyfleoedd hyn yn datblygu medrau personol a chymdeithasol disgyblion yn ogystal â darparu cyfleoedd i ddangos eu dychymyg a'u creadigrwydd.

Mewn pump o'r chwe ysgol a arolygwyd, mae un o'r argymhellion yn ymwneud â gwella addysgu. Lle ceir addysgu cryf, mae athrawon yn cyfleu eu hangerdd a'u brwdfrydedd dros y testunau a addysgir, ac mae hynny yn ei dro yn ysbrydoli'u disgyblion. Mae athrawon yn darparu esboniadau clir ac yn targedu cwestiynau'n fanwl er mwyn asesu dysgu disgyblion. Mae adborth llafar ac ysgrifenedig hynod fuddiol yn sicrhau bod disgyblion yn deall sut i wella eu gwaith.

Yn yr ysgolion lle mae'r addysgu yn llai llwyddiannus, mae hyn yn aml oherwydd nad yw gweithgareddau dysgu yn diwallu anghenion yr holl ddisgyblion a cheir diffyg rhediad a her yn yr addysgu. Yn yr ysgolion hyn, mae ansawdd ac effaith adborth athrawon yn amrywio gormod ac nid yw'n cyfrannu'n ddigon da at wella ansawdd gwaith disgyblion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mewn pump o'r chwe ysgol, mae gofal, cymorth ac arweiniad yn dda neu'n well, a cheir nodweddion rhagorol mewn un ysgol. Lle ceir arfer eithriadol, mae staff ymroddedig yn darparu lefelau uchel eithriadol o gymorth yn yr

### Myddelton College

TI ennyn diddordeb disgyblion yn yr awyr agored a gweithgarwch corfforol, creodd Myddelton College raglen Dysgu drwy'r Awyr Agored' (Learning Through the Outdoors'). Mae gweithgareddau'n cynnwys cerdded dros y mynyddoedd, mordwyo, dringo a chwaraeon dŵr, gan fanteisio ar ei agosrwydd at Eryri.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Crynodebau sector: Ysgolion prif ffrwd annibynnol

ystafell ddosbarth a thu hwnt i helpu disgyblion i ddatblygu'u hunanhyder a medrau bywyd pwysig, fel hunanddibyniaeth.  Mae'r trefniadau helaeth i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn meithrin gwerthoedd fel parch, goddefgarwch, caredigrwydd a thosturi.  Mae'r gwerthoedd hyn i'w gweld ar waith ar draws y gymuned ysgol gyfan.

Er bod pump o'r ysgolion yn casglu gwybodaeth yn rheolaidd i fonitro cynnydd disgyblion, nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i lywio cynllunio ac i olrhain cynnydd disgyblion yn drwyadl.  O ganlyniad, nid yw'r ysgolion hyn yn sicrhau y caiff anghenion yr holl ddysgwyr eu diwallu.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Yn hanner yr ysgolion, mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda neu'n well. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn llwyddo i sefydlu cymunedau dysgu bywiog a difyr.  Mae arweinwyr yn fyfyriol ac yn addasu i ymateb i anghenion yr ysgol.  Mae staff yn gweithio'n dda â'i gilydd fel tîm cydlynus, ac yn elwa o gyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol sy'n canolbwyntio ar wella medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion.

Lle ceir diffygion yn yr arweinyddiaeth, nid yw prosesau sicrhau ansawdd yn ddigon cadarn i sicrhau y gall arweinwyr nodi cryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu yn gywir.  Felly, nid yw arweinwyr yn nodi blaenoriaethau allweddol yn ddigon da na'n cynllunio'n effeithiol i gryfhau'r ddarpariaeth a gwella deilliannau ar gyfer disgyblion.  Yn ogystal, nid yw rheoli perfformiad staff a chyfleoedd dysgu proffesiynol wedi'u datblygu'n ddigonol.  Nid yw'r prosesau i helpu arweinwyr i bennu amcanion penodol ar gyfer aelodau staff ac i nodi hyfforddiant perthnasol i gefnogi'u dysgu proffesiynol wedi'u datblygu'n ddigonol ychwaith.  O ganlyniad, nid oes diwylliant cryf o hyrwyddo arfer orau o fewn yr ysgol neu drwy weithio gyda sefydliadau eraill.

# Adran 2

# Crynodebau sector: Colegau arbenigol annibynnol



2

## Cyd-destun

Eleni, mae saith o golegau arbenigol annibynnol cofrestredig yng Nghymru. Mae hyn yr un peth ag yn Ionawr 2018. Mae'r colegau hyn yn addysgu rhyw 205 o ddysgwyr 16 oed a hŷn. Mae'r colegau'n darparu ar gyfer ystod amrywiol o anghenion disgyblion, gan gynnwys anhwylder ar y sbectrwm awtistig, anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac anawsterau dysgu dwys a lluosog. Mewn pedwar o'r colegau, mae llawer o ddysgwyr yn byw mewn cartrefi preswyl sydd ynghlwm wrth y coleg.

Yn ychwanegol at arolygiadau llawn, cynhaliwn ymweliadau monitro rheolaidd o golegau arbenigol annibynnol. Mae'r ymweliadau hyn yn ystyried y cynnydd a wneir gan y colegau yn erbyn argymhellion penodol o arolygiadau craidd ac ymweliadau monitro blaenorol. Eleni, cynhaliom ymweliadau monitro â chwech o golegau arbenigol ac ni chynhaliom unrhyw arolygiadau llawn.

# Crynodebau sector:
# Colegau arbenigol annibynnol



## Safonau

Yn y chwe choleg a gafodd eu monitro eleni, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd addas o leiaf yn erbyn y nodau yn eu cynlluniau dysgu unigol.  Dros gyfnod, maent yn gwella eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn perthynas â'u mannau cychwyn.  Lle bo'n berthnasol, mae bron bob dysgwr yn cyflawni unedau achredu perthnasol neu gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol ar lefel sy'n briodol i'w gallu.

Mewn pedwar o'r colegau, maent yn cymhwyso ac yn cyfnerthu'u medrau llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus iawn drwy weithgareddau sy'n meithrin eu hyder ac yn hyrwyddo'u hannibyniaeth.  Er enghraifft, maent yn gwella eu medrau byw'n annibynnol ac yn caffael medrau gwerthfawr yn gysylltiedig â gwaith a medrau galwedigaethol trwy leoliadau profiad gwaith pwrpasol ar y safle neu yn y gymuned leol.

Yn y colegau hyn, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd arbennig o gryf wrth ddatblygu'u medrau cymdeithasol a chyfathrebu oherwydd y profiadau dysgu sydd wedi'u cynllunio'n dda a chymorth arbenigol a ddarperir gan y colegau.  Mewn un coleg, er enghraifft, mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio arwyddion a symbolau yn effeithiol iawn i gynorthwyo'u dealltwriaeth a chyfathrebu.  Mae'r medrau hyn yn cynorthwyo dysgwyr yn dda wrth symud i fywyd mwy annibynnol ar ôl coleg.

Mewn dau goleg, nid yw dysgwyr yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud wrth ddatblygu'u hannibyniaeth a'u medrau ymarferol oherwydd diffygion yng nghynllunio'r tiwtoriaid ac ystod y profiadau dysgu a ddarperir.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Ym mhob un o'r colegau yr ymwelwyd â nhw eleni, mae dysgwyr yn mwynhau mynychu'r coleg ac yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu.  Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyfranogi'n frwdfrydig ac yn canolbwyntio'n dda ar weithgareddau.  Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd ac yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda staff, gan ymateb yn adeiladol i adborth a chynnal eu hymgysylltiad yn llwyddiannus.  Mae llawer yn datblygu'u gwydnwch a'u medrau datrys problemau yn effeithiol trwy weithgareddau menter neu raglenni fel Gwobr Dug Caeredin.

Mewn pedwar o'r colegau, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â thargedau'n ymwneud â'u lles corfforol ac emosiynol.  Er enghraifft, mewn tri choleg, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn nodau ffisiotherapi a lleferydd ac iaith a osodwyd gan dîm amlddisgyblaethol y coleg.  Dros gyfnod, mae dysgwyr ag ymddygiadau anodd yn dysgu rheoli'u hemosiynau oherwydd y cymorth cyson a sensitif a ddarperir gan staff addysgu.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Ym mhob un o'r colegau yr ymwelwyd â nhw, mae dealltwriaeth gryf gan y staff addysgu o anghenion eu dysgwyr, ac maent yn meithrin perthnasoedd gweithio cynhyrchiol gyda nhw.  Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i osod nodau dysgu sy'n rhoi ystyriaeth addas i wahanol ddiddordebau a dyheadau dysgwyr.

# Crynodebau sector:
# Colegau arbenigol annibynnol



Mewn pedwar o'r colegau yr ymwelwyd â nhw eleni, mae'r addysgu yn canolbwyntio'n arbennig o effeithiol ar ddatblygu annibyniaeth dysgwyr. Yn y colegau hyn, mae profiadau dysgu yn darparu ystod eang o weithgareddau ysgogol i ddysgwyr sy'n ennyn eu diddordebau ac yn cynorthwyo cynnydd dysgwyr i'w cyrchfannau tebygol yn dda. Mae cynlluniau tiwtoriaid yn adeiladu'n addas ar gyflawniadau blaenorol dysgwyr. Mae tiwtoriaid yn gosod targedau ar gyfer dysgwyr sy'n nodi'n glir gamau dysgu byr sy'n fesuradwy ac yn ystyrlon.

Lle ceir diffygion, nid yw cynlluniau tiwtoriaid yn hyrwyddo dysgu annibynnol yn gyson, ac mae ystod y profiadau dysgu a ddarperir gan y coleg yn rhy gul. Yn benodol, mae defnyddio staff cymorth dysgu yn rhwystro datblygu annibyniaeth dysgwyr. Mewn un coleg, mae targedau dysgwyr yn rhy eang. O ganlyniad, nid yw dysgwyr a staff bob amser yn glir ynghylch y camau nesaf sydd eu hangen er mwyn gwneud cynnydd.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae ansawdd gofal, cymorth ac arweiniad yn nodwedd arbennig o gryf mewn pedwar o'r chwech o golegau yr ymwelwyd â nhw eleni. Yn y colegau hyn, mae prosesau cadarn i nodi mannau cychwyn dysgwyr pan fyddant yn cychwyn yn y coleg yn darparu gwybodaeth fanwl i diwtoriaid a staff cymorth am anghenion a galluoedd dysgwyr. Maent yn monitro ac yn adolygu cynnydd dysgwyr yn rheolaidd yn erbyn ystod eang o ddeilliannau, gan gynnwys targedau gwerthfawr i gynorthwyo'u lles a'u hannibyniaeth.

Mewn tri choleg, mae'r tîm addysg yn gweithio'n effeithiol iawn gyda staff o dîm amlddisgyblaethol y coleg. Mae'r ymagwedd hon yn sicrhau bod dull cydlynus iawn o roi cymorth i anghenion ehangach dysgwyr. Mae staff o'r ddau dîm yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu cynnydd dysgwyr a chynllunio ymyriadau addas er mwyn eu galluogi i gael addysg ac i helpu staff addysgu i gynorthwyo dysgwyr yn llwyddiannus mewn sesiynau. Mewn dau goleg, mae staff yn defnyddio ystod eang o strategaethau cyfathrebu yn arbennig o effeithiol er mwyn galluogi dysgwyr o bob gallu i gyfranogi'n llawn wrth wneud penderfyniadau.

Mewn dau goleg, nid yw partneriaethau gydag ysgolion blaenorol dysgwyr wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae hyn yn golygu nad oes gan y coleg wybodaeth bwysig am anghenion dysgwyr a'u dysgu blaenorol cyn iddynt ddod i'r coleg, ac mae'n ei gwneud hi'n anodd i'r colegau hyn i gynllunio llwybrau dysgwyr addas pan fyddant yn ymuno â'r coleg.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mewn pedwar o golegau yr ymwelwyd â nhw eleni, mae arweinwyr a rheolwyr yn creu ymdeimlad cryf o weledigaeth a diben sy'n canolbwyntio'n glir ar sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion yr holl ddysgwyr. Mae'r colegau hyn yn darparu amgylcheddau dysgu tawel a chynhwysol sy'n cynorthwyo dysgwyr yn effeithiol i wneud cynnydd yn erbyn eu nodau dysgu a'u nodau personol.

Yn y colegau hyn, mae dealltwriaeth gref gan arweinwyr o gryfderau'r coleg a meysydd i'w datblygu. Maent yn canolbwyntio'n addas ar welliant ac yn gwneud cynnydd addas yn erbyn yr argymhellion o ymweliadau monitro

blaenorol.  Mae trefniadau staffio a rhaglenni dysgu proffesiynol yn cefnogi'r blaenoriaethau hyn yn dda.  Mewn dau goleg, ceir trefniadau arbennig o effeithiol i gynnwys staff mewn prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant.  Mae'r ymagwedd hon yn llwyddiannus iawn o ran meithrin gallu staff i sicrhau gwelliannau pwysig i'r ddarpariaeth yn y colegau hyn.  At ei gilydd, fodd bynnag, mae gwendidau mewn hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn parhau'n ddiffyg pwysig yn yr arweinyddiaeth mewn pedwar o'r colegau yr ymwelwyd â nhw eleni.

Mewn un coleg, mae'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion o'r ymweliad monitro blaenorol wedi bod yn rhy araf.

Adran 2

# Crynodebau sector: Unedau cyfeirio disgyblion

2

## Cyd-destun

Yn Ionawr 2019, roedd 23 o unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) cofrestredig yng Nghymru. Mae hyn yr un peth â'r nifer yn Ionawr 2018. Roedd rhyw 820 o ddisgyblion yn cael eu prif addysg mewn UCDau yn Ionawr 2019 (Llywodraeth Cymru, 2019k, t.10).

Eleni, fe wnaethom arolygu pedair UCD. Mae dwy o'r rhain yn UCDau pob oed sy'n darparu ar gyfer disgyblion ar draws y cyfnodau cynradd ac uwchradd, mae un yn darparu ar gyfer disgyblion oedran cynradd yn unig a'r llall ar gyfer disgyblion y cyfnod uwchradd yn unig hyd at 16 oed. Mae tair o'r UCDau hyn yn rhai aml-safle ac mae'r llall ar un campws. Mae pob un o'r UCDau a arolygwyd gennym eleni ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, ac mae un UCD yn darparu cymorth i ddisgyblion â materion iechyd meddwl hefyd. Mae canfyddiadau'r holl arolygiadau wedi llywio'r adroddiad hwn.

# Crynodebau sector: Unedau cyfeirio disgyblion

## Safonau

Mae safonau mewn dwy o'r UCDau a arolygwyd eleni yn rhagorol.  Mae safonau'n dda mewn un ac yn ddigonol yn y llall.

Lle mae safonau'n rhagorol, dros gyfnod a gyda chymorth medrus, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol wrth wella eu dysgu a'u hymddygiad.  Maent yn ymateb yn dda iawn i ymagwedd sensitif a chefnogol y staff.  Gyda'r cymorth hwn, dônt i ddeall y rhesymau am eu hymddygiad heriol a sut i'w reoli'n effeithiol fel y gallant ganolbwyntio ar eu dysgu.  Mae ymateb cadarnhaol bron bob disgybl hyn yn eu galluogi i wella eu hunan-barch, canolbwyntio ar ddysgu a gwneud cynnydd trawiadol wrth gyflawni'r targedau yn eu cynlluniau addysg unigol.

Yn y tair UCD lle mae safonau yn dda neu'n well, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd yn dda a gwnânt ddefnydd sicr ohonynt yn eu dysgu ar draws y cwricwlwm.  Er enghraifft, wrth weithio mewn parau yn ystod addysg bersonol a chymdeithasol, mae disgyblion yn cyfuno geirfa well gyda medrau gwrando'n astud i ddarparu cyfarwyddiadau i bartner ar sut i glymu lasen esgid tra'n gwisgo mwgwd. Ym mhob un o'r pedair UCDau, mae disgyblion hŷn yn caffael ystod eang o gymwysterau medrau a galwedigaethol cydnabyddedig, gyda llawer yn ennill cymwysterau TGAU, yn y pynciau craidd yn bennaf.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau â'u dysgu mewn addysg bellach neu ddysgu yn y gwaith pan fyddant yn gadael yr UCD.

Mewn un UCD, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth ddatblygu'u medrau rhifedd, ac yn gyffredinol nid yw'r safonau a gyflawnir gan ychydig o ddisgyblion yn ddigon uchel.  Ar draws pob un o'r UCDau a arolygwyd, nid yw disgyblion yn datblygu'u medrau Cymraeg yn ddigon da.

## Lles

Yn y pedair UCD a arolygwyd eleni, mae lles ac agweddau at ddysgu yn dda neu'n well, ac yn rhagorol mewn dwy UCD.  Mae'r deilliant hwn yn llawer cryfach nag ar gyfer UCDau a arolygwyd yn ystod y cylch arolygu hyd yma.

Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi dioddef cryn darfu yn eu haddysg, dros gyfnod maent yn meithrin perthnasoedd gweithio cryf ac ymddiriedus gyda staff ac yn datblygu medrau pwysig mewn goddefgarwch, gwydnwch a pharch.  Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn elwa o gyfleoedd i fod yn nhw'u hunain a datblygu'n llwyddiannus.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwella eu presenoldeb yn sylweddol ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu.  Maent yn ymdawelu'n gyflym i wneud gweithgareddau strwythuredig, yn cynnal lefelau uchel o ganolbwyntio ac yn cwblhau tasgau'n llwyddiannus.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n frwdfrydig ag ystod o weithgareddau cymunedol, creadigol a chwaraeon.  Er enghraifft, mae disgyblion yn cynnal a chadw gwelyau blodau yn yr ardal leol, yn gwneud potiau pinsiad i godi arian at elusennau, ac yn cyfranogi yn yr her filltir ddyddiol.  Caiff y gweithgareddau hyn effaith hynod gadarnhaol ar les corfforol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion, ac maent yn ymestyn eu medrau bywyd gryn dipyn.

# Crynodebau sector: Unedau cyfeirio disgyblion

Mewn dwy UCD, mae gormod o amrywiad mewn presenoldeb, yn enwedig presenoldeb disgyblion hŷn.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mewn tair o'r pedair UCD, mae addysgu a phrofiadau dysgu, yn gyffredinol, yn dda neu'n well, ac yn rhagorol mewn dwy uned. Mae'r UCDau hyn yn darparu profiadau dysgu o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion disgyblion yn arbennig o dda ac yn datblygu'u diddordebau a'u medrau ar draws ystod bwysig o feysydd dysgu.

Mae pob un o'r UCDau yn darparu cwricwlwm eang, cytbwys ac ysgogol sy'n berthnasol i anghenion a galluoedd disgyblion. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n cynnal lleoliadau prif ffrwd rhan-amser yn dilyn eu cwricwlwm prif ffrwd yn fanwl er mwyn sicrhau parhad yn eu dysgu. Mae'r UCDau wedi cymryd camau cynnar i baratoi ar gyfer Cwricwlwm newydd Cymru.

Mae'r pedair UCD yn darparu ystod werthfawr o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau a'u cymhwyso'n sicr mewn cyd-destunau gwahanol ar draws y cwricwlwm, yn enwedig eu medrau llythrennedd. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion, yn enwedig i'r rheini sy'n trosglwyddo o ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Ym mhob un o'r UCDau a arolygwyd, lle ceir addysgu cyson dda neu'n well, mae staff yn defnyddio'u gwybodaeth am eu disgyblion yn fedrus i gynllunio a darparu gweithgareddau difyr sy'n herio disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion ac maent yn defnyddio'u targedau unigol i helpu llywio amcanion gwersi a darparu her briodol. Mae rhediad gwersi yn cynnwys cydbwysedd da, a gwneir defnydd medrus o amseru ac adnoddau fel sbardunau gweledol i ddal sylw disgyblion. Mae staff cymorth yn atgyfnerthu ac yn ymestyn dysgu disgyblion yn arbennig o dda.

Lle ceir diffygion yn yr addysgu, mae hyn yn bennaf oherwydd nad yw cynllunio a gweithgareddau yn diwallu anghenion yr holl ddisgyblion yn ddigon da. O ganlyniad, mewn un UCD, nid yw ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas bob amser.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Ym mhob un o'r pedair UCD a arolygwyd, mae gofal, cymorth ac arweiniad yn dda neu'n well, ac yn rhagorol mewn dwy uned.

Ar draws yr UCDau a safleoedd, mae systemau olrhain ar gyfer cofnodi presenoldeb, cynnydd academaidd ac ymddygiad disgyblion yn gadarn ac effeithiol gan fwyaf. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i nodi disgyblion y mae angen cymorth arnynt, ac i gynllunio ymyriadau fel cymorth un i un. Mae pob UCD wedi datblygu partneriaethau hefyd gydag ystod o weithwyr proffesiynol amlasiantaeth er mwyn diwallu anghenion disgyblion mewn ffordd gydgysylltiedig. Mae cysylltiadau effeithiol gyda seicolegwyr addysg ac asiantaethau fel y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC), Barnardo's, Gweithredu dros Blant a sefydliadau eraill yn cefnogi darpariaeth ar gyfer disgyblion yn arbennig o dda.

### Canolfan Addysg Tai

Mae cwricwlwm wedi'i arwain gan ddisgyblion wedi ei ymgorffori yng Nghanolfan Addysg Tai i helpu disgyblion i ymgysylltu o'r newydd ag addysg yn llwyddiannus. Mae llais y disgybl yn ysgogiad ar gyfer llunio cwricwlwm sy'n gyffrous a pherthnasol, tra bod rhieni'n cael eu gwahodd i gyrsiau a digwyddiadau.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Crynodebau sector: Unedau cyfeirio disgyblion

Lle ceir darpariaeth ragorol, mae hyn yn cynnwys trefniadau rhagorol o ran gweithio hyblyg a chyfathrebu â rhieni. Er enghraifft, yn ychwanegol at ddyddiaduron dyddiol a galwadau ffôn rheolaidd, mae staff yn gweithio gydag asiantaethau eraill i ddarparu rhaglenni rhianta effeithiol iawn i'w helpu i ddeall a rheoli anghenion eu plant. Mewn un UCD, mae'r partneriaethau hyn, ynghyd â strategaethau llwyddiannus ar gyfer gweithio gydag ysgolion prif ffrwd, wedi bod yn allweddol i gefnogi ailintegreiddio disgyblion yn ôl i addysg y brif ffrwd.

Mae gan bob un o'r UCDau a arolygwyd raglenni cynhwysfawr o addysg bersonol a chymdeithasol i annog disgyblion yn effeithiol i ddatblygu ffyrdd o fyw ac ymddygiadau iach. Mae staff yn cynorthwyo disgyblion yn aml i ddysgu sut i gadw'n ddiogel a chymryd cyfrifoldeb amdanyn nhw'u hunain a'u gweithredoedd. Mae'r ymagwedd hon yn meithrin hyder disgyblion ac yn eu helpu i ddatblygu gwerthoedd sicr.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn rhagorol mewn dwy o'r pedair UCD a arolygwyd, yn dda mewn un uned ac yn ddigonol yn y llall.

Lle ceir arweinyddiaeth ragorol, mae uwch arweinydd yr UCD yn gweithio'n llwyddiannus gyda staff i sefydlu gweledigaeth rymus ar gyfer eu gwaith. Mae'r weledigaeth hon yn rhoi anghenion disgyblion wrth wraidd holl waith yr UCD ac mae'n meithrin amgylchedd anogol a chefnogol nodedig lle mae disgyblion yn ffynnu. Mewn un UCD, mae hyrwyddo'r weledigaeth hon a gweithio mewn partneriaeth hynod o gryf gyda phartneriaid ac ysgolion prif ffrwd yn cynorthwyo bron bob disgybl i ddychwelyd i'w hysgolion prif ffrwd ac i gynnal eu lleoliad yno dros gyfnod.

Yn y ddwy UCD lle ceir arweinyddiaeth a rheolaeth ragorol, mae uwch arweinwyr yn pennu disgwyliadau uchel ac yn modelu a hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol ac ymddygiadau fel parch rhwng y naill a'r llall, bod yn agored a pharodrwydd i ddysgu. Mae'r ymagwedd hon yn cyfrannu'n sylweddol at weithio cadarn mewn tîm, ymddiriedaeth a chydweithio ymhlith staff. Mae ymrwymiad angerddol yr arweinwyr hyn ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd dysgu proffesiynol i'r holl staff wedi cyfrannu'n sylweddol at gynnydd a lles disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn llawn cymhelliant i roi cynnig ar ymagweddau newydd i wella deilliannau ar gyfer disgyblion. Hefyd, mae staff yn rhannu agweddau ar eu harfer yn yr UCD gydag ysgolion eraill, gan gynnwys ysgolion prif ffrwd, ysgolion arbennig ac UCDau, mewn digwyddiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae tair UCD wedi datblygu trefniadau cynhwysfawr i werthuso ansawdd eu gwaith ac i gynllunio ar gyfer gwelliannau. Mae gwybodaeth o brosesau fel arsylwadau gwersi, craffu ar waith, a chasglu barnau disgyblion a rhieni yn effeithiol o ran darparu darlun clir o ansawdd y ddarpariaeth ym mhob UCD a blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Lle mae angen gwella arweinyddiaeth a rheolaeth, nid yw prosesau hunanwerthuso yn ddigon miniog, neu nid yw gwybodaeth yn cael ei gwerthuso'n ddigon trwyadl i nodi targedau addas fel rhan o gynllunio gwelliant.

### UCD Sir Ddinbych

Mae tîm allgymorth UCD Sir Ddinbych yn hollbwysig ar gyfer llunio cysylltiadau cadarn ac effeithiol ag ysgolion prif ffrwd. Hefyd, mae gan yr UCD bolisi drws agored sy'n annog staff ysgolion i ymweld â hi a gweld arfer orau.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Crynodebau sector: Unedau cyfeirio disgyblion

## Gweithgarwch dilynol

Eleni, nodom fod angen ei hadolygu gan Estyn ar un UCD.  Yn ystod y flwyddyn, tynnom ddwy UCD a arolygwyd yn y blynyddoedd academaidd blaenorol o'r categori adolygu gan Estyn.  Roedd un UCD arall wedi gwneud digon o welliant ac nid oes angen gwelliant sylweddol arni mwyach.  Mae'r UCDau hyn wedi elwa o gydweithio ag UCDau eraill ac ysgolion, a gyda swyddogion yr awdurdod lleol a'u consortiwm rhanbarthol.  Er enghraifft, fe wnaeth y cymorth buddiol a gafodd un UCD gan ysgol arbennig ei galluogi i wella'r ffordd y mae'n monitro cynnydd disgyblion dros gyfnod.  Ar ddiwedd y flwyddyn hon, mae un UCD yn parhau yn y categori mesurau arbennig ac mae dwy yn parhau yn y categori adolygu gan Estyn.



# Adran 2

# Crynodebau sector: Gwasanaethau addysg llywodraeth leol

2

## Cyd-destun

Mae gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn cynnwys y gwasanaethau hynny a ddarperir neu a gomisiynir gan un awdurdod lleol, yn ogystal â'r rheini a ddarperir mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill.  Darperir gwasanaethau gwella ysgolion yn bennaf trwy bedwar consortiwm rhanbarthol ar ran awdurdodau lleol.

Yn dilyn dau arolygiad peilot yn 2017-2018, fe wnaethom adolygu ein prosesau ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol.  O ganlyniad i'r adolygiad, fe newidiom ein prosesau arolygu.  Fe wnaethom ddileu'r barnau ar gyfer meysydd arolygu unigol a disodli'r rhain gydag un farn gyffredinol ar b'un a yw'r gwasanaeth addysg llywodraeth leol yn achosi pryder sylweddol neu beidio.  Hefyd, newidiom ein hymagwedd at y meysydd arolygu.  Mae arolygwyr yn parhau i werthuso ac adrodd ar bob agwedd ar feysydd arolygu 1 (deilliannau) a 3 (arweinyddiaeth a rheolaeth), ond o dan faes arolygu 2 (gwasanaethau addysg) mae gennym set o gwestiynau arolygu lleol sydd wedi'u teilwra i bob awdurdod lleol.  Mae cwestiynau arolygu lleol yn canolbwyntio ar wasanaethau addysg sy'n ymwneud â blaenoriaethau strategol yr awdurdod lleol neu'n deillio o wybodaeth sydd gennym am wasanaethau addysg yn yr awdurdod lleol.  Rydym yn cytuno ar y cwestiynau arolygu lleol gyda'r awdurdod lleol cyn yr arolygiad.

# Crynodebau sector: Gwasanaethau addysg llywodraeth leol

Pan fyddwn yn barnu bod gwasanaeth addysg awdurdod lleol yn peri pryder sylweddol, cynhaliwn gynhadledd welliant ôl-arolygiad rhyw dri mis ar ôl yr arolygiad craidd. Mae uwch arweinwyr o'r awdurdod lleol a rhanddeiliaid eraill yn mynychu'r gynhadledd, sy'n canolbwyntio ar gynlluniau'r awdurdod i fynd i'r afael â diffygion. Yn dilyn y gynhadledd, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r awdurdod lleol i gefnogi gwelliant hyd nes ein bod yn fodlon â chynnydd yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad arolygu.

Rhwng Medi 2018 a Gorffennaf 2019, cynhaliom bedwar arolygiad, yng Nghasnewydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir y Fflint a Phowys. Barnom nad oes angen gweithgarwch dilynol ar dri o'r awdurdodau lleol, a bod un awdurdod yn achosi pryder sylweddol.

Rydym hefyd yn ymweld â'r holl awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol fel rhan o'n trefniadau arolygydd cyswllt. Mae'r ymweliadau hyn yn adolygu cynnydd yn erbyn argymhellion arolygiadau blaenorol ac adolygiadau thematig, yn ogystal â mynd ar drywydd blaenoriaethau allweddol yn y sector. Cynhaliom ymweliad arolygydd cyswllt mwy sylweddol â rhanbarth ERW (de orllewin a chanolbarth Cymru) yn ystod y flwyddyn hon yn sgil pryderon ynghylch y diffyg cynnydd ers yr ymweliad monitro blaenorol. Cynlluniodd ERW newidiadau sylweddol i'w weithlu a'i ymagwedd o Fedi 2019, a pharhawn i fonitro cynnydd ERW. Mae canfyddiadau'r holl arolygiadau ac ymweliadau hyn wedi llywio'r adroddiad hwn.

## Deilliannau

Ar draws yr awdurdodau lleol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn rhwng yr oedrannau ysgol statudol 5 i 16. Yn gyffredinol, mae perfformiad yn gryfach mewn ysgolion cynradd nag mewn ysgolion uwchradd. Mae gan dri o'r pedwar awdurdod lleol a arolygwyd eleni argymhelliad ynglŷn â gwella perfformiad disgyblion mewn ysgolion uwchradd. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae safonau disgyblion yn dda ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, mae cyfran yr ysgolion cynradd â safonau da o leiaf pan gânt eu harolygu islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac mae arolygwyr wedi nodi gwendidau yn aml ym medrau llythrennedd disgyblion yn yr ysgolion hyn. Mewn dau o'r awdurdodau lleol a arolygwyd, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio gystal o leiaf â'r un grŵp o ddisgyblion ledled Cymru. Yng Nghasnewydd, fodd bynnag, mae perfformiad y disgyblion hyn yn wannach. Mae disgyblion yng Nghasnewydd sy'n derbyn cymorth parhaus gan Wasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Awdurdod Addysg Gwent (GEMS) dros gyfnod o flynyddoedd yn perfformio'n dda ar ddiwedd eu haddysg statudol. Gofynnom i swyddogion o Gasnewydd gyflwyno astudiaeth achos ynglŷn â'r gwaith hwn.

Mae presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd yn dda mewn tri o'r pedwar awdurdod lleol. Mae presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn dda ym Mhen-y-bont ar Ogwr ond mae'n wannach yn y tri awdurdod arall. Yn Sir y Fflint, nid yw presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn cymharu'n dda â lefelau mewn awdurdodau lleol tebyg. Mewn dau o'r awdurdodau lleol a arolygwyd, mae canran y disgyblion sy'n absennol yn barhaus o'r ysgol wedi bod uwchlaw cyfartaledd Cymru am y tair blynedd diwethaf (Llywodraeth Cymru, 2019a).

### GEMS Casnewydd

Mae disgyblion sy'n derbyn cymorth gan GEMS yn perfformio'n dda yng nghyfnod allweddol 4 yn y dangosyddion allweddol sy'n cynnwys Cymraeg / Saesneg a mathemateg. Maent yn cyflawni i safon sy'n debyg i safon disgyblion eraill. Mae'r gwasanaeth yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau iaith yn gyflym, trwy gymorth gan gynorthwywyr addysgu dwyieithog, er enghraifft.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hadroddiad**

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Ar draws yr awdurdod lleol, mae plant a phobl ifanc yn gwneud cyfraniad cadarnhaol iawn at ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt a wnaed gan eu hysgolion a'r awdurdodau lleol. Mae pobl ifanc yn gwybod bod eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi a'i fod yn gwneud gwahaniaeth.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Crynodebau sector: Gwasanaethau addysg llywodraeth leol



Mae cyfradd y gwaharddiadau parhaol a gwaharddiadau cyfnod penodol yn rhy uchel ym mhob un o'r awdurdodau lleol a arolygwyd eleni.

Mewn dau o'r pedwar awdurdod lleol a arolygwyd, mae plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd da i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Yn Sir y Fflint, er enghraifft, bu pobl ifanc yn gweithio gyda swyddogion ymchwil o Brifysgol Caerdydd i ddadansoddi gwybodaeth o'r arolwg Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion. Fe wnaethant nodi materion cyffredin ynglŷn ag iechyd a lles disgyblion mewn ysgolion uwchradd. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at ddatblygu cynllun gweithredu awdurdod lleol cynhwysfawr i wella iechyd a lles pobl ifanc yn Sir y Fflint. Ceir mwy o wybodaeth am yr arolwg hwn a lles disgyblion yng Nghymru yn ein harolwg thematig Iach a Hapus, a gyhoeddwyd ym Mehefin 2019 (Estyn, 2019b). Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'r cyngor ieuenctid wedi arwain o ran mynd i'r afael â 'thlodi mislif' mewn ysgolion. O ganlyniad i'r gwaith hwn, trefnwyd bod cynhyrchion mislif rhad ac am ddim ar gael i bob ysgol.

Yng Nghasnewydd a Phowys, nid yw cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at gyfeiriad strategol yr awdurdod lleol neu i helpu gwerthuso'r mentrau a gynigir iddynt wedi'u datblygu'n ddigonol.

## Gwasanaethau addysg

Mae swyddogion gwella ysgolion ac ymgynghorwyr her yn adnabod eu hysgolion yn dda, ar y cyfan. Mae'r bartneriaeth rhwng swyddogion gwella ysgolion awdurdodau lleol a swyddogion o'r consortia rhanbarthol yn effeithiol, ac mae swyddogion yn gweithio'n dda â'i gilydd i ddarparu cymorth i ysgolion. Mae swyddogion yn datblygu perthnasoedd gweithio da gydag ysgolion. Er enghraifft, mae'r ymagwedd 'Tîm Pen-y-bont ar Ogwr' a gyflwynwyd yn 2017 yn cefnogi cydweithio rhwng ysgolion a'r awdurdod lleol yn dda. Mae'r ymagwedd hon wedi helpu sefydlu cyfrifoldeb cyfunol ar gyfer gwella deilliannau i'r holl ddysgwyr. Mae swyddogion awdurdod lleol yn yr awdurdodau lleol a arolygwyd eleni wedi gwella'r defnydd a wnânt o'u pwerau statudol, er enghraifft trwy gyflwyno hysbysiadau rhybudd i ysgolion y mae angen iddynt wella.

Ym mhob un o'r pedwar awdurdod lleol, mae ymgynghorwyr her wedi cryfhau'r cymorth a ddarparant i ysgolion. Maent yn cyflawni ystod dda o weithgareddau i gasglu tystiolaeth uniongyrchol ynglŷn â pha mor dda y mae disgyblion yn perfformio, gan gynnwys arsylwadau gwersi, teithiau dysgu ac edrych ar lyfrau disgyblion. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiadau a wna swyddogion ac ymgynghorwyr er mwyn barnu cynnydd yn canolbwyntio'n ormodol yn aml ar ddata perfformiad a darpariaeth yn hytrach na'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni neu'r cynnydd a wnânt.

Nid yw'r gwaith y mae swyddogion awdurdod lleol ac ymgynghorwyr her yn ei wneud yn sicrhau bob amser bod ysgolion sy'n peri pryder yn gwella'n ddigon cyflym. Mae ychydig o ysgolion yn yr holl awdurdodau lleol a arolygwyd eleni naill ai'n parhau mewn categorïau statudol yn dilyn arolygiad am gyfnod rhy hir, neu nid ydynt yn cynnal gwelliannau yn dilyn cyfnod o gymorth dwys. O ganlyniad, mae deilliannau a darpariaeth ar gyfer disgyblion yn yr ysgolion hyn yn parhau'n wan dros gyfnod.

# Crynodebau sector: Gwasanaethau addysg llywodraeth leol

Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt yn dda i gynyddu'r lefelau cymorth a ddarparant i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig a disgyblion eraill y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Er enghraifft, maent yn defnyddio medrau ac arbenigedd athrawon o'r UCDau ac ysgolion arbennig i weithio gydag athrawon a disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd.

Mae awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr yn canolbwyntio'n dda ar gynorthwyo gofalwyr ifanc yn ei ysgolion. Mae'r tim grwpiau agored i niwed wedi sefydlu perthnasoedd gweithio da gyda'r gwasanaeth gofal cymdeithasol plant i ddarparu hyfforddiant a chymorth i'r ysgolion y mae gofalwyr ifanc yn eu mynychu. Ym Mai 2019, cyhoeddom arolwg ar y ddarpariaeth i ofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach ac UCDau ledled Cymru (Estyn, 2019d). I gael mwy o wybodaeth, darllenwch yr adroddiad.

Yn Sir y Fflint, mae'r awdurdod lleol yn darparu darpariaeth o ansawdd da i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Mae adnoddau da gan y gwasanaeth ac mae cryn arbenigedd a phrofiad gan ei staff. Darparant arweiniad clir a buddiol i ysgolion er mwyn eu helpu i nodi anghenion disgyblion a sicrhau cymorth perthnasol. Un nodwedd nodedig o waith Sir y Fflint yw ei allu cadarn i nodi ac ymyrryd yn gynnar i gynorthwyo medrau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant. Gofynnom i'r awdurdod lleol ddarparu astudiaeth achos yn amlinellu ei waith yn y maes hwn.

Ym Mhowys, ceir cydlynu, gwerthuso a chynllunio annigonol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig neu'r rheiny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer grwpiau o ddysgwyr agored i niwed yn rhy amrywiol, ac nid yw gweledigaeth yr awdurdod lleol o ran disgyblion y mae angen cymorth arnynt yn cael ei chyfleu yn effeithiol i ysgolion. Nid oes trosolwg cynhwysfawr gan swyddogion o anghenion disgyblion, ac mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i fodloni anghenion dysgwyr agored i niwed yn effeithiol.

Yng Nghasnewydd, mae'r ddarpariaeth i gefnogi lles plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth uchel. Mae'r awdurdod lleol yn monitro'n dda y ddarpariaeth a wneir gan ysgolion i wella lles disgyblion drwy ei olrheiniwr lles ysgolion. Mae hyn yn galluogi swyddogion i nodi a rhannu arfer gryf mewn ysgolion. Mae swyddogion yn adnabod eu cymunedau ysgol yn dda, a thrwy ystod o fentrau, maent yn darparu cymorth pwrpasol i ddisgyblion agored i niwed. Er enghraifft, mae'r prosiect 'gweld y byd drwy ein llygaid ni' wedi helpu hyrwyddo cynhwysiant trwy gyflwyno disgyblion i nodweddion diwylliannau gwahanol, gan gynnwys disgyblion sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Yn Ebrill 2019, cynhyrchom arolwg am y ddarpariaeth a wna ysgolion ac awdurdodau lleol ar gyfer disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr oed ysgol uwchradd (Estyn, 2019c). I gael mwy o wybodaeth, darllenwch yr adroddiad.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Ym mhob un o'r pedwar awdurdod lleol, mae gweledigaeth glir ar gyfer addysg gan uwch arweinwyr. Mewn tri o'r pedwar awdurdod, mae'r weledigaeth hon yn llywio cynllunio corfforaethol yn dda. Yn awdurdod lleol Powys, fodd bynnag, mae newid sylweddol o ran uwch swyddogion, gan gynnwys ar lefelau prif weithredwr, cyfarwyddwr a phennaeth gwasanaethau, wedi effeithio ar effaith arweinyddiaeth ar feysydd allweddol o waith yr awdurdod lleol.

### Cyngor Sir y Fflint

Mae'r Prosiect Datblygu Iaith yn galluogi cymorth cyffredinol, targedig ac arbenigol effeithiol gyda digon o adnoddau ar gyfer disgyblion iau. Mae cynorthwywyr datblygu iaith yr awdurdod yn mynychu ysgolion ac yn cydweithio gydag athrawon i gefnogi unigolion a grwpiau bach o ddisgyblion. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) a'r gwasanaeth Iaith a Chyfathrebu yn cyflwyno hyfforddiant gwerthfawr i athrawon ynglŷn â chaffael iaith yn gynnar.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Crynodebau sector: Gwasanaethau addysg llywodraeth leol


Mae perthnasoedd gweithio da gan awdurdodau lleol â'u consortiwm rhanbarthol. Ar y cyfan, mae swyddogion yn cyfrannu'n dda at reoli, llywodraethu a chraffu eu consortiwm. Mae swyddogion awdurdod lleol a chonsortia yn rhannu gwybodaeth am ysgolion yn gyson i sicrhau bod cyd-ddealltwriaeth o berfformiad ysgolion a bod cymorth perthnasol yn cael ei ddarparu.

Yn gyffredinol, mae prosesau cynllunio gwelliant yn nodi'n briodol yr agweddau pwysicaf ar addysg y mae angen iddynt wella. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r blaenoriaethau hyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer gwella addysg ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaeth. Gan mwyaf, mae awdurdodau lleol wedi gwneud cynnydd priodol o ran mynd i'r afael â'u blaenoriaethau a sicrhau gwelliant. Yng Nghasnewydd, fodd bynnag, er bod swyddogion wedi gallu cynnal deilliannau da mewn ysgolion cynradd ac arweinyddiaeth gryf ar GEMS, nid ydynt wedi cael digon o effaith ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu ar gyfer disgyblion yn yr UCD. Ym Mhowys, nid yw arweinwyr wedi gwneud gwelliannau cadarn, cynaliadwy i fynd i'r afael â'r llawer o ddiffygion a nodwyd yn ystod arolygiadau blaenorol Estyn neu yn adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae prosesau hunanwerthuso ar lefel gorfforaethol wedi'u sefydlu'n dda mewn tri awdurdod lleol. Yn yr achosion gorau, mae swyddogion yn rhoi ystyriaeth dda i gyfraniadau gan randdeiliaid, gan gynnwys arweinwyr ysgol a disgyblion, er mwyn eu helpu i werthuso'u gwasanaethau. Mae hyn yn helpu sicrhau bod gan swyddogion ac aelodau etholedig ddealltwriaeth gywir o berfformiad y gwasanaeth addysg. Fodd bynnag, ceir amrywioldeb yn ansawdd gwerthuso gwaith gwasanaethau addysg penodol ym mhob un o'r awdurdodau lleol a arolygwyd eleni. Nid yw'r rhain yn ddigon trwyadl, nid ydynt bob amser yn darparu effaith lawn y gwasanaethau a ddarperir i uwch reolwyr, neu maent yn canolbwyntio gormod ar y prif ddata. Ym Mhowys, nid oes proses hunanwerthuso gadarn a pharhaus gan yr awdurdod lleol ar gyfer ei wasanaeth addysg. Yn ddiweddar, mae uwch arweinwyr wedi datblygu dealltwriaeth well o'r prif faterion sy'n wynebu'r awdurdod lleol, ac mae aelodau etholedig yn dechrau herio perfformiad yn fwy effeithiol.

Mewn tri o'r awdurdodau lleol, caiff trefniadau craffu eu cynnal yn dda ac mae aelodau etholedig yn fwyfwy cadarn wrth fonitro a herio cynnydd a chefnogi penderfyniadau mewn meysydd allweddol. Mae awdurdod lleol Powys wedi bod yn araf i ddatblygu ei drefniadau craffu, a hyd at yn ddiweddar iawn, mae'r her wedi bod yn wan.

Yn gyffredinol, mae polisïau a gweithdrefnau addas gan yr awdurdodau lleol mewn perthynas ag ad-drefnu ysgolion. Ychydig iawn o gynnydd o ran mynd i'r afael â heriau addysg ôl-16 y mae arweinwyr Powys wedi'i wneud, er iddynt wneud cynnydd bach mewn ad-drefnu ysgolion cynradd trwy brosesau ffedereddio. Yng Ngorffennaf 2019, cyhoeddom adroddiad ar nodweddion cyffredin ffedereiddio effeithiol (Estyn, 2019a). I gael mwy o wybodaeth, darllenwch yr adroddiad.




# **Crynodebau sector:** Gwasanaethau addysg llywodraeth leol

Mae'r holl awdurdodau lleol yn dangos ymrwymiad i gynyddu darpariaeth Gymraeg drwy eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae cynnydd o ran cyflawni'r cynlluniau mewn tri o'r pedwar awdurdod lleol wedi bod yn araf ac nid yn ddigon strategol. Mae swyddogion yn Sir y Fflint wedi ymateb yn dda i angen dynodedig i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, ac mae timau cynghorol a thimau'r blynyddoedd cynnar yn darparu cymorth pwrpasol effeithiol i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion o oedran cynnar iawn.

Mae staff yng ngwasanaethau addysg yr holl awdurdodau lleol yn cymryd rhan mewn ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol defnyddiol i gefnogi a datblygu'u gwaith. Mewn tri o'r pedwar awdurdod lleol, caiff y cyfleoedd hyn eu cynllunio fel rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol a phrosesau gwerthuso blynyddol. Mae rheolwyr yn nodi cryfderau unigol ac anghenion dysgu staff ac yn cysylltu cyfleoedd dysgu yn dda â blaenoriaethau corfforaethol. Yn awdurdod lleol Powys, ychydig iawn o staff y gwasanaeth addysg sydd wedi bod ar gyrsiau sy'n gysylltiedig â llwybr arweinyddiaeth. O ganlyniad, cyfleoedd cyfyngedig sydd i gynllunio olyniaeth arweinyddiaeth o fewn y gwasanaeth.

Mewn tri o'r pedwar awdurdod lleol, mae swyddogion ac aelodau etholedig yn cynllunio cyllidebau blynyddol yn ofalus ac yn unol â blaenoriaethau. Maent yn ymateb yn briodol i bwysau allweddol o fewn y gyllideb addysg ac yn dyrannu adnoddau i adlewyrchu'r flaenoriaeth uchel a roddir i wella deilliannau addysg. Yng Nghasnewydd, mae swyddogion yn mabwysiadu ymagwedd ragweithiol wrth geisio cael cyllid mewnol ac allanol i gyflawni blaenoriaethau, er enghraifft i wella adeiladau ysgol a chefnogi disgyblion o leiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, yn awdurdodau Powys a Sir y Fflint, nid yw rheolaeth ariannol wedi bod yn ddigon cadarn i sicrhau bod ysgolion â diffyg yn eu cyllidebau yn lleihau'r rhain o fewn graddfeydd amser priodol.



# Adran 2

# Crynodebau sector: Colegau addysg bellach

2

## Cyd-destun

Yn Ionawr 2019, roedd 12 o golegau yn darparu cyrsiau addysg bellach yng Nghymru.

Mae llawer o’r colegau addysg bellach yn sefydliadau mawr aml-safle sy’n cwmpasu ardal ddaearyddol eang.  Mae lleiafrif o golegau, fel Grŵp Llandrillo Menai a Grŵp Colegau NPTC a Choleg Cambria, yn gweithredu o dan strwythur grŵp gyda nifer o safleoedd yn gweithredu o dan enwau colegau ar wahân o dan reolaeth gyffredinol un sefydliad addysg bellach.

Eleni, fe wnaethom arolygu dau goleg addysg bellach. Parhawn i ymweld â phob un o’r colegau na chafodd eu harolygu eleni fel rhan o drefniadau ymweliadau arolygydd cyswllt addysg bellach arferol.  Mae’r ymweliadau hyn yn adolygu cynnydd yn erbyn argymhellion arolygiadau blaenorol.

# Crynodebau sector:
# Colegau addysg bellach



## Safonau

Mae safonau'n rhagorol mewn un o'r colegau a arolygwyd, ac yn dda yn y llall. Lle ceir safonau rhagorol, mae dysgwyr yn dangos gallu eithriadol i weithio'n annibynnol ac mewn grwpiau, ac i ddatblygu medrau a gwybodaeth werthfawr. Mae llawer yn arddangos medrau dadansoddi a medrau datrys problemau arbennig o gryf, yn cynhyrchu gwaith o safon uchel yn gyson, ac yn dangos medrau ymarferol cadarn.

Lle bernir bod safonau'n dda, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn o leiaf mewn gwersi ac yn cynhyrchu gwaith o safon addas. Mae llawer yn caffael gwybodaeth a medrau newydd. Dangosir medrau dadansoddi cryf a dealltwriaeth fanwl o gysyniadau pwysig gan ychydig o ddysgwyr. Er enghraifft, mae dysgwyr Safon Uwch Gyfrannol mewn cemeg yn defnyddio'u gwybodaeth am sbectrometreg màs i benderfynu ar strwythur atomig. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddysgwyr yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu dysgu a safon eu gwaith.

**Safon uwch mewn dosbarthiadau chweched a cholegau addysg bellach (Estyn, 2018a)**

Mae'n adrodd ar safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth mewn cyrsiau Lefelau Uwch TAG (Safon Uwch) mewn dosbarthiadau chweched ysgolion a cholegau addysg bellach. Mae'n ystyried amrywiaeth o ffactorau, fel safonau mewn Safon Uwch a sut caiff rhain eu mesur, ansawdd yr addysgu a'r asesu, natur y cwricwlwm Safon Uwch a gynigir ac arweinyddiaeth strategol, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth.

Ar draws y ddau goleg, mae llawer o ddysgwyr galwedigaethol yn datblygu medrau ymarferol gwerthfawr. Er enghraifft, mae dysgwyr mewn trin gwallt a cholur theatraidd yn dangos creadigrwydd cryf ac yn cynhyrchu gwaith ymarferol o safon gyson uchel.

Mae llawer o ddysgwyr ar gyrsiau Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) yn gwneud cynnydd sylweddol yn eu medrau llythrennedd Saesneg. Mae ychydig o siaradwyr Cymraeg yn datblygu'u defnydd o'r iaith yn weithredol, ac yn cael cefnogaeth dda gan eu hathrawon. Er enghraifft, mae dysgwyr harddwch yn rhoi cyflwyniadau dwyieithog, ac mae dysgwyr gofal iechyd yn ymgymryd â phrofiad gwaith ar ward cyfrwng Cymraeg mewn ysbyty. At ei gilydd, fodd bynnag, dim ond ychydig iawn o ddysgwyr sy'n defnyddio'u medrau Cymraeg yn rheolaidd mewn gwersi.

# Crynodebau sector: Colegau addysg bellach



Lle ceir safonau rhagorol, mae dysgwyr yn cyflawni graddau rhagorol ar ddiwedd eu cyrsiau o gymharu â'u cyrhaeddiad TGAU blaenorol.  Mewn un coleg, mae cyfran y dysgwyr Safon Uwch sy'n cyflawni graddau A*-A, A*-B ac A*-C yn uchel, felly hefyd y nifer sy'n cyflawni graddau uchel ar gyfer cymwysterau galwedigaethol.

Yn y ddau goleg, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, dysgwyr lleiafrifoedd ethnig a dysgwyr ag anawsterau dysgu neu anableddau yn gwneud cynnydd cryf o gymharu â'u mannau cychwyn ac maent yn cyflawni cyfraddau llwyddo uchel yn gyson.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae lles ac agweddau at ddysgu yn rhagorol yn un o'r colegau ac yn dda yn y llall.  Mae bron bob dysgwr yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag aflonyddu a bwlio yn y coleg.  Mae gan lawer ddealltwriaeth glir o wneud dewisiadau byw'n iach a phwysigrwydd hylendid da, deiet a ffitrwydd.

Lle mae lles ac agweddau at ddysgu yn rhagorol, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau gwaith ac ymddygiadau effeithiol iawn.  Er enghraifft, mae dysgwyr sy'n cyfranogi mewn lleoliadau allanol a chystadlaethau medrau yn datblygu medrau datrys problemau cryf iawn, penderfyniad a gwydnwch sy'n cefnogi'u dyheadau o ran gyrfa ac yn helpu dilyniant i gyflogaeth neu astudiaeth bellach.

Yn ystod eu cyfnod yn y coleg, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o faterion moesegol, byd-eang a moesol.  Yn arbennig, maent yn gwerthfawrogi ethos amlddiwylliannol a chynhwysol y colegau.  Mae dysgwyr yn parchu amrywiaeth yn dda iawn ac maent yn gefnogol iawn o'i gilydd.  Maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu, ni waeth beth yw eu ffydd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau bywyd coleg.  Maent yn uchelgeisiol ac yn dangos agwedd gadarnhaol a brwdfrydig at eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn hyderus ac ystyriol wrth ryngweithio â'u cyfoedion a staff mewn sesiynau ac o amgylch y coleg.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau arwain gwerthfawr trwy gyfranogi mewn gweithgareddau fel tiwtora cyfoedion, mentora, codi arian at elusen, rhaglenni cyfoethogi, digwyddiadau menter a phrosiectau cymunedol. Er enghraifft, mae dysgwyr SSIE yn trefnu casgliadau bwyd ar gyfer banciau bwyd lleol, ac mae dysgwyr trin gwallt a harddwch yn darparu triniaethau ar gyfer cleifion mewn ysbyty lleol.  Mae ychydig o ddysgwyr yn dangos medrau arwain rhagorol wrth ymgymryd â rolau llysgennad myfyrwyr a chynrychiolydd cwrs.  Drwy'r gweithgareddau hyn, mae dysgwyr yn datblygu hyder, medrau gwneud penderfyniadau a medrau cyflogadwyedd ehangach.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae addysgu a phrofiadau dysgu yn dda yn y ddau goleg a arolygwyd. Yn y ddau goleg, mae ymagwedd glir iawn a strategol gan arweinwyr at gynllunio'u darpariaeth, a'r graddau y mae'n helpu dysgwyr i symud ymlaen yn llwyddiannus i gyflogaeth neu addysg uwch.  Yn benodol, maent yn defnyddio

# Crynodebau sector:
# Colegau addysg bellach

cysylltiadau cryf gyda chyflogwyr, sefydliadau addysg uwch a'u cymunedau lleol i gynllunio a datblygu'r cwricwlwm yn dda.

Canlyniad yr ymagwedd hon yw ystod eang o gyrsiau sy'n darparu llwybrau dilyniant clir i ddysgwyr i addysg bellach ac addysg uwch, yn ogystal â chynorthwyo mynediad i ystod helaeth o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Mae ystod yr opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr yn cynnwys pynciau arbenigol a llwybrau galwedigaethol nad ydynt ar gael yn gyffredinol mewn mannau eraill. Hefyd, mae un o'r colegau yn gweithio'n dda gyda phartneriaid lleol i gadw amseroedd aros ar gyfer cofrestru ar raglenni SSIE mor fyr ag y bo modd.

Mae'r colegau yn darparu profiad gwaith defnyddiol ac addysg yn gysylltiedig â gwaith ar gyfer dysgwyr ar gyrsiau galwedigaethol, naill ai gyda chyflogwyr neu drwy gyfleusterau coleg, fel salonau masnachol, siopau a chyfleusterau bwytai. Yn ogystal, mae dysgwyr sy'n awyddus i symud ymlaen i brifysgol i astudio pynciau fel meddygaeth a'r gyfraith yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol ac academyddion yn y meysydd hyn. Yn gyffredinol, fodd bynnag, cyfyngedig yw cyfleoedd i ddysgwyr Safon Uwch gymryd rhan mewn lleoliadau profiad gwaith.

Mae gwybodaeth bynciol a phrofiad diweddar gan bron yr holl athrawon. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau yn dda, gan gynnwys deunyddiau digidol, i ennyn diddordeb dysgwyr a datblygu'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mewn sesiynau galwedigaethol ymarferol, mae llawer o athrawon yn herio dysgwyr i ddatblygu medrau penodol i ddiwydiant a medrau cyflogadwyedd ehangach. Er enghraifft, mae athrawon gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio senarios hyfforddiant ffitrwydd realistig i ddatblygu medrau arwain dysgwyr ac, mewn cyfryngau a thechnoleg gwybodaeth, mae athrawon yn rhoi briffiau byw buddiol i ddysgwyr, fel recordio cerddoriaeth fyw ar gyfer y radio.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio'u gwersi yn dda ac yn trefnu gweithgareddau difyr i helpu dysgwyr i ddatblygu'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau yn gynyddol. Nid yw ychydig o athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddysgwyr drafod materion nac ystyried safbwyntiau gwahanol. Nid yw lleiafrif o athrawon yn defnyddio techneg holi yn ddigon da i ymestyn a herio dysgwyr, er enghraifft i herio canfyddiadau neu annog gwrthddadleuon.

Mae llawer o athrawon yn darparu adborth llafar gwerthfawr i ddysgwyr mewn gwersi, ac mae mwyafrif yn gosod targedau defnyddiol ar eu cyfer. Hefyd, mae llawer yn darparu adborth ysgrifenedig defnyddiol ac adeiladol, gan gynnwys ffocws priodol ar fedrau llythrennedd dysgwyr. Nid yw ychydig o athrawon yn rhoi arweiniad effeithiol i ddysgwyr i'w helpu i wella eu gwaith, ac ychydig o ddysgwyr sy'n ymwybodol o'u targedau tymor byr, yn enwedig mewn perthynas â gwella medrau llythrennedd neu rifedd. O ganlyniad, nid yw'r dysgwyr hyn yn glir ynghylch beth sydd angen iddynt wneud i wella eu gwaith.

Ceir llwybrau priodol yn y ddau goleg ar gyfer dysgwyr y mae angen iddynt ailsefyll arholiadau TGAU mewn mathemateg a Saesneg. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth hon yn ddigon da yn gyson, yn enwedig mewn mathemateg. Yn gyffredinol, mae angen gwella sut y cynllunir a gwerthusir y modd y mae dysgwyr yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol trwy eu rhaglenni galwedigaethol.

### Coleg Caerdydd a'r Fro

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn gwreiddio addysg yn gysylltiedig â gwaith a chyswllt â chyflogwyr i'w gyrsiau galwedigaethol. Caiff yr holl ddysgwyr galwedigaethol gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau'n gysylltiedig â gwaith sy'n 'real, nid realistig yn unig', ac sydd wedi'u cysylltu'n ffurfiol â'u rhaglenni astudio. Mae hyn yn helpu dysgwyr i ddatblygu medrau personol, cyflogadwyedd ac arweinyddiaeth gwerthfawr.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Crynodebau sector:
# Colegau addysg bellach

Mae'r ddau goleg yn cynnig cyrsiau defnyddiol 'Iaith ar Waith' ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni galwedigaethol. Maent hefyd yn gweithio'n dda i roi mentrau buddiol ar waith, fel darparu cymorth bugeiliol neu sesiynau Bagloriaeth Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg, a chynnal cynadleddau pwnc dwyieithog i gynorthwyo'r ychydig iawn o ddysgwyr a oedd yn mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn flaenorol. Yn gyffredinol, dim ond ychydig o athrawon sy'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu'u medrau Cymraeg.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn dda yn y ddau goleg a arolygwyd. Mae trefniadau effeithiol gan y colegau i helpu darpar ddysgwyr i ddeall y cyfleoedd y maent yn eu cynnig, a sut bydd anghenion cymorth unigol yn cael eu diwallu. Maent yn darparu gwybodaeth a chyngor defnyddiol am ddarpariaeth i helpu darpar ddysgwyr wneud dewisiadau gwybodus. Mae dysgwyr yn elwa o allu mynychu digwyddiadau agored, sesiynau blasu a chyfweliadau arweiniad ar adegau amrywiol trwy gydol y flwyddyn.

Mae staff y colegau wedi datblygu cysylltiadau cryf gydag ysgolion, a chaiff dysgwyr â datganiadau blaenorol o anghenion addysgol arbennig gymorth da. Mae staff yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth a dderbyniant am ddysgwyr er mwyn helpu rhoi trefniadau arbenigol ar waith a darparu technoleg gynorthwyol, lle bo angen. Mae enghreifftiau o'r cymorth hwn yn cynnwys darparu cadair wedi'i haddasu'n arbennig, gweithwyr cymorth arbenigol a dehonglydd iaith arwyddion.

Mae staff yn olrhain cynnydd dysgwyr ag anghenion cymorth eraill yn rheolaidd, a cheir cysylltiadau effeithiol rhwng timau cymorth arbenigol, staff bugeiliol ac athrawon. Mae hyn yn galluogi i gymorth fod yn ymatebol i newidiadau mewn anghenion dysgwyr. Ceir systemau effeithiol yn y colegau i fonitro presenoldeb, cynnydd ac ymddygiad yr holl ddysgwyr. Nid yw lleiafrif o staff yn monitro ac yn herio prydlondeb yn ddigon da, ac mae effeithiolrwydd gosod targedau yn amrywiol hefyd, yn enwedig mewn perthynas â datblygiad personol dysgwyr.

Mae staff llesiant mewn canolfannau cymorth dysgu arbenigol ac ar draws y colegau yn darparu ystod eang o wasanaethau buddiol a hygyrch i gynorthwyo dysgwyr. Er enghraifft, mae gwasanaethau cwnsela yn helpu cynorthwyo dysgwyr ag anghenion iechyd meddwl a lles emosiynol, er bod rhestrau aros ar gyfer apwyntiadau yn rhy hir weithiau.

Mewn un coleg, mae gwaith gyda grwpiau cymunedol lleol yn arbennig o lwyddiannus o ran ymgysylltu â dysgwyr sy'n anodd eu cyrraedd. Er enghraifft, ceir darpariaeth helaeth o fewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig. Mae mentrau eraill i wella medrau rhifedd rhieni, galluogi nodi a chynorthwyo gofalwyr ifanc yn well ac ehangu cyfranogiad yn narpariaeth y coleg a rhwydweithiau rhanbarthol ar gyfer dysgwyr mwy abl yn effeithiol hefyd. Yn y coleg arall, mae cymorth i ddysgwyr sy'n anelu at symud ymlaen i addysg uwch yn arbennig o gryf, ac mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn

# Crynodebau sector:
# Colegau addysg bellach

gweithgareddau gwirfoddoli buddiol yn y gymuned, fel hyfforddi chwaraeon mewn ysgolion lleol a grwpiau ieuenctid.

Mae'r ddau goleg wedi sefydlu ethos amlddiwylliannol cryf, ac mae staff yn helpu dysgwyr i ddeall materion fel democratiaeth, rheolaeth cyfraith, rhyddid yr unigolyn, parch rhwng y naill a'r llall, a goddefgarwch o grefyddau a chredoau gwahanol. Mae hyn yn annog dysgwyr i weithio gyda'i gilydd mewn modd parchus a chefnogol i'w gilydd.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn rhagorol yn un o'r colegau ac yn dda yn y llall. Lle mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn rhagorol, mae'r pennaeth ac uwch arweinwyr yn cymhwyso egwyddorion 'arweinyddiaeth gweision' nodedig y coleg yn arbennig o dda. Mae'r ymagwedd hon yn hyrwyddo amgylchedd aml-ffydd ac amlddiwylliannol cytûn, ac yn sicrhau safonau uchel cynaledig.

Lle mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda, mae gweledigaeth glir gan uwch arweinwyr sy'n rhoi ffocws cryf ar fodloni anghenion addysg, hyfforddiant a busnes y gymuned leol a'r ddinas-ranbarth. Mae trefniadau partneriaeth y coleg gyda chyflogwyr, awdurdodau lleol, ysgolion a grwpiau cymunedol yn eithriadol o gryf ac yn effeithio ar dwf economaidd a datblygiad medrau yn y rhanbarth.

Yn y ddau goleg, caiff y prif weithredwr neu'r pennaeth gefnogaeth dda gan y corff llywodraethol. Mae llywodraethwyr yn chwarae rhan weithgar wrth lunio cyfeiriad strategol y coleg a darparu cymorth, craffu a her briodol. Maent yn monitro perfformiad y coleg yn effeithiol.

Mae gan arweinwyr y colegau uchelgais ar gyfer y colegau a'u dysgwyr. Mae ganddynt rolau a chyfrifoldebau a ddiffinnir yn glir a darparant arweinyddiaeth strategol effeithiol. Mae rheolwyr canol yn elwa o hyfforddiant targedig a chyfleoedd datblygiad proffesiynol i ddatblygu'u profiad arwain a'u helpu i ymgymryd â'u rolau yn effeithiol. Mae hyn yn eu galluogi i chwarae rhan weithgar i fonitro a gwella ansawdd darpariaeth yn eu hadrannau.

Mae gan y colegau ystod eang o arferion i gefnogi datblygiad proffesiynol eu staff. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau datblygu gwerthfawr ar draws y coleg, a rhaglenni wedi'u teilwra ar gyfer staff unigol. Mae un coleg yn canolbwyntio ei ddysgu proffesiynol ar chwe egwyddor addysgeg glir, sef her, egluro, modelu, arfer, adborth a chwestiynu. Mae hefyd wedi datblygu 'arsyllfa ddysgu' ddefnyddiol ar-lein o adnoddau addysgu a datblygu, gan gynnwys fideo o arfer effeithiol ar draws y coleg. Mae'r coleg arall wedi nodi blaenoriaethau allweddol clir a ddeellir yn eang ar gyfer dysgu proffesiynol, fel arweinyddiaeth, ysbrydoli athrawon a chymorth busnes masnachol. Yn y ddau goleg, mae prosesau arsylwi addysgu a systemau gwerthuso yn cysylltu'n effeithiol â blaenoriaethau'r coleg a nodi anghenion datblygiad proffesiynol.

### Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant

Mae arweinwyr coleg yng Ngholeg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn defnyddio'r fethodoleg arweinwyr gweision i ddatblygu timau staff hynod effeithiol ac ymgysylltiedig sy'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau deilliannau rhagorol gan ddysgwyr. Mae'r ymagwedd arweinyddiaeth gefnogol hon yn modelu a hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol sy'n sicrhau gwelliannau ar draws y coleg, gan gynnwys cydweithio cryf rhwng aelodau staff.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

### Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant

Mae gwaith datblygiad proffesiynol Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn gwella addysgu trwy bwyslais ar arsylwi, hunanfyfyrio dwys, hyfforddi a chydweithio. Mae'r ymagwedd hon yn meithrin diwylliant lle mae staff yn ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â gweithgareddau i wella ansawdd eu haddysgu a helpu dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Crynodebau sector: Colegau addysg bellach


Lle mae trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd yn rhagorol, mae prosesau hunanwerthuso'r coleg ar bob lefel yn gynhwysfawr a chadarn. Defnyddiant feini prawf wedi'u dylunio'n dda i lunio barnau sicr mewn modd tryloyw a hunanfeirniadol. Mae'r trefniadau hyn yn helpu llywio cynlluniau gwella manwl ac effeithiol. Yn gyffredinol, mae dull arweinyddiaeth cydlynus y coleg ar draws pob lefel wedi ei helpu i gynnal deilliannau cryf dros amser.

Mae arweinwyr coleg yn dangos dealltwriaeth gryf o gynllunio adnoddau ac yn rheoli adnoddau yn dda. Maent yn gwneud buddsoddiadau cyfalaf sylweddol i sicrhau bod eu hystâd yn addas i'r diben ac yn ffurfio amgylchedd dysgu ysgogol.



## Gweithgarwch dilynol

Nid oes angen gweithgarwch dilynol yn yr un o'r colegau a arolygwyd eleni. Ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau dilynol penodol i ystyried darpariaeth addysg bellach mewn colegau eleni.



# Adran 2 Crynodebau sector: Dysgu yn y gwaith

2

## Cyd-destun

Ym mis Ionawr 2019, roedd 19 o ddeiliaid contract wedi eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno dysgu yn y gwaith yng Nghymru. Erbyn mis Awst 2019, mae hyn wedi gostwng i 18 o ddeiliaid contract. Mae mwyafrif y darparwyr hyn yn gweithio mewn consortia neu'n defnyddio darparwyr hyfforddiant wedi'u hisgontractio. Mae tua 100 o ddarparwyr wedi'u hisgontractio yn cyflwyno dysgu yn y gwaith. Mae hyn yn debyg i fis Ionawr 2018. Mae'r wybodaeth gyhoeddedig ddiweddaraf yn dangos, yn 2017-2018, bod 63,120 o ddysgwyr wedi ymgymryd â rhaglenni dysgu yn y gwaith (Llywodraeth Cymru, 2019i, t.15). O'r rhain, cofrestrodd tua 20,515 ar brentisiaethau sylfaen lefel 2 a bron i 35,305 ar brentisiaethau lefel 3 neu brentisiaethau uwch lefel 4. Ymgymerodd tua 7,300 o ddysgwyr â hyfforddiant arall, gan gynnwys rhaglenni hyfforddeiaeth a chyflogadwyedd lefel 1 (Llywodraeth Cymru, 2019i).

Rhwng mis Medi 2018 a mis Gorffennaf 2019, fe wnaethom arolygu dau ddarparwr dysgu yn y gwaith. Mae'r canfyddiadau o'r arolygiadau hyn wedi llywio'r adroddiad hwn.

# Crynodebau sector: Dysgu yn y gwaith

## Safonau

Mae safonau'n dda yn y ddau ddarparwr a arolygwyd eleni. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar raglenni prentisiaeth yn datblygu ystod eang o fedrau galwedigaethol a gwybodaeth am theori sy'n gweddu'n agos i'w rolau gwaith. Gwnânt gysylltiadau defnyddiol a pherthnasol rhwng y theori y maent yn ei dysgu a'u rolau swydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn ac maent yn cymhwyso eu medrau galwedigaethol yn hyderus yn eu gweithleoedd.

Mewn rhaglenni ymgysylltu hyfforddeiaeth, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu ystod dda o fedrau perthnasol ar gyfer cyflogadwyedd. Mae llawer o ddysgwyr hyfforddeiaeth yn gwella eu hyder a'u hunan-barch ac yn goresgyn rhwystrau sylweddol rhag dysgu a chyflogaeth.

Mae llawer o ddysgwyr prentisiaethau yn glir ynglŷn â'u cynnydd eu hunain ac yn defnyddio targedau perthnasol i ganolbwyntio eu hymdrechion a gwella'u gwaith. Fodd bynnag, mae ychydig o ddysgwyr yn dibynnu gormod ar gymorth gan eu haseswyr wrth osod targedau asesu neu'n cwblhau eu fframweithiau'n hwyrach na'r disgwyl.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarnhaol wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau digidol trwy ddefnyddio Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru yn effeithiol. Mae ychydig o ddysgwyr yn ennill cymwysterau medrau hanfodol ar lefel uwch na'u gofynion fframwaith. Mae ychydig o siaradwyr Cymraeg yn dewis gwneud rhai asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg, er nad yw llawer o ddysgwyr yn cydnabod buddion y Gymraeg fel medr yn y gweithle.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae lles ac agweddau at ddysgu yn dda yn y ddau ddarparwr a arolygwyd eleni. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau eu dysgu, yn dangos etheg gwaith gadarnhaol, ac yn meithrin perthynas dda â'u hathrawon, eu haseswyr a'u cyflogwyr.

Mae llawer o ddysgwyr, yn cynnwys y rhai sy'n dechrau o sylfaen isel, yn gwella eu hyder, eu hunanymwybyddiaeth, eu gwydnwch a'u medrau cymdeithasol. Maent yn datblygu medrau dysgu a meddwl annibynnol ac yn defnyddio'r rhain yn dda, er enghraifft wrth ymgymryd â thasgau bob dydd yn y gweithle. Mae llawer ohonynt yn cydweithio â'i gilydd, yn rheoli eu hamser yn effeithiol ac yn gweithio'n dda dan bwysau. Maent yn barod i ateb cwestiynau ac ymateb i drafodaeth grŵp, er nad yw ychydig o ddysgwyr yn cyfrannu digon mewn un darparwr.

Mae llawer o ddysgwyr hyfforddeiaeth sy'n wynebu rhwystrau sylweddol rhag dysgu, fel problemau iechyd meddwl, anghenion addysgol arbennig neu fywydau cartref ansefydlog, yn sylwgar mewn dosbarthiadau ac yn cymryd rhan yn dda. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mynychu'n rheolaidd, ond mewn un darparwr, nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn mynychu'n rheolaidd neu nid ydynt yn cynnal presenoldeb trwy gydol y diwrnod.

# Crynodebau sector: Dysgu yn y gwaith



Mewn dosbarthiadau hyfforddeiaeth ac mewn adolygiadau cynnydd, mae dysgwyr yn trafod buddion bwyta'n iach a dewisiadau cadarnhaol ynglŷn â ffordd o fyw.  Er enghraifft, maent yn trafod buddion gweithgarwch corfforol, peryglon cyffuriau ac yfed gormod o alcohol.  Mewn un darparwr, nid yw ychydig o ddysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o radicaleiddio ac eithafiaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o iechyd a diogelwch yn y gweithle ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu os bydd problemau, fel bwlio neu aflonyddwch, yn codi yn y gwaith, yn y ganolfan hyfforddi neu yn y coleg.  Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwella'u dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth.  Maent yn deall sut i aros yn ddiogel ar-lein, ac mewn un darparwr, yn defnyddio ystod o adnoddau ar-lein arloesol i helpu gwella'u lles.  Datblygodd y darparwr hwn amrywiaeth o 'apiau' defnyddiol i gael gwybodaeth ac arweiniad ar amrywiaeth o faterion diogelwch a diogelu.

Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn prosiectau gwerth chweil a gweithgareddau elusennol, sy'n aml wedi eu cysylltu â'u llwybrau dysgu.  Er enghraifft, mae dysgwyr gwallt a harddwch yn darparu triniaethau mewn cartrefi gofal, a dysgwyr adeiladu yn adeiladu cyfleusterau awyr agored mewn ysgol leol.  Mae gweithgareddau eraill, fel gwirfoddoli mewn banciau bwyd, gweithio gyda'r digartref a thacluso mannau yn yr awyr agored, yn helpu dysgwyr i werthfawrogi cynaliadwyedd amgylcheddol a datblygu ymwybyddiaeth gymdeithasol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae addysgu a phrofiadau dysgu yn dda yn y ddau ddarparwr a arolygwyd eleni. Mae'r rhan fwyaf o athrawon ac aseswyr yn cyflwyno sesiynau cynlluniedig a strwythuredig sy'n datblygu gwybodaeth dysgwyr am theori, eu cymhwysedd technegol a'u medrau bywyd.  Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn meddu ar arbenigedd pwnc a phrofiad galwedigaethol perthnasol a chyfoes, y maent yn eu defnyddio'n dda i helpu dysgwyr i wneud cynnydd da mewn gwaith ymarferol a theori fel ei gilydd.  Er enghraifft, mewn lletygarwch, mae asesydd yn helpu cogydd dan hyfforddiant i baratoi prydau bwyd cymhleth, ac mewn peirianneg electrodechnegol, mae asesydd arall yn defnyddio gwybodaeth gyfoes am reoliadau gosod gwifrau wrth drafod cynllun cynnal a chadw offer trydanol dysgwr.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon sy'n cyflwyno rhaglenni ymgysylltu hyfforddeiaeth yn addasu eu haddysgu i ddiwallu anghenion dysgwyr. Er enghraifft, maent yn cynllunio cydbwysedd da rhwng theori a gweithgareddau awyr agored ymarferol ar gyfer dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn cwrs paratoi milwrol.  Mewn sesiynau i ffwrdd o'r gwaith, mae llawer o athrawon yn defnyddio adnoddau o ansawdd uchel i ennyn diddordeb dysgwyr a chreu sesiynau ysgogol.  Er enghraifft, mewn un darparwr, maent yn defnyddio cyfrifiaduron llechen ac offer ar y we i greu cwisiau a thasgau rhyngweithiol, yn ogystal â defnyddio offer safon diwydiant, fel breichiau robotaidd a thechnolegau dylunio â chymorth cyfrifiadur, i ddatblygu medrau galwedigaethol.

Mae llawer o athrawon ac aseswyr yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer dysgwyr ac yn defnyddio holi i ymestyn dealltwriaeth dysgwyr a'u herio i

# Crynodebau sector: Dysgu yn y gwaith

fyfyrio ar eu dysgu. Mewn ychydig iawn o achosion, mae aseswyr yn gofyn cwestiynau sy'n rhy arweiniol neu mae athrawon yn caniatàu i un neu ddau o ddysgwyr gymryd yr awenau mewn trafodaethau, gan atal dysgwyr eraill rhag cyfrannu.



Mewn hyfforddiant yn y gwaith, mae bron pob un o'r aseswyr yn cynnal cysylltiad rheolaidd gyda dysgwyr. Defnyddiant gynlluniau dysgu unigol a chofnodion cyswllt mewn adolygiadau cynnydd i helpu dysgwyr i gynllunio'u cynnydd tuag at gyflawni eu nodau dysgu. Mewn ychydig o achosion, mae un darparwr yn gosod targedau sydd naill ai'n rhy generig neu'n canolbwyntio'n ormodol ar ddeilliannau asesu. O ganlyniad, mae dysgwyr yn aneglur ynglŷn â'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u dysgu. Mewn ychydig iawn o achosion, mewn un darparwr, nid yw aseswyr yn gwneud yn siŵr bod cyflogwyr yn cael gwybod am gynnydd eu cyflogeion yn llawn.

Mae gan ddarparwyr berthnasoedd sefydledig a chryf gydag ystod eang o gyflogwyr ac maent yn hynod ymatebol i ddyheadau dysgwyr, anghenion cyflogwyr a'r economi ranbarthol. Maent yn cyflwyno ystod eang o lwybrau galwedigaethol, fel gweithgynhyrchu uwch, iechyd a gofal cymdeithasol, marchnata digidol a choginio proffesiynol. Ar y rhan fwyaf o raglenni hyfforddi, mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau realistig neu efelychol yn gysylltiedig â gwaith. Mae darparwyr yn cynnig llwybrau dilyniant clir ar gyfer dysgwyr hyfforddeiaeth a rhwng rhaglenni prentisiaeth.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon ac aseswyr yn annog dysgwyr i ddefnyddio Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau digidol. Mewn ychydig o achosion, nid yw aseswyr yn manteisio ar gyfleoedd sy'n digwydd yn naturiol i ddatblygu'r medrau hyn trwy rolau swydd dysgwyr neu nid ydynt yn rhoi digon o adborth i ddysgwyr ar yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u medrau llythrennedd neu rifedd.

Mae un darparwr yn cynnig dosbarthiadau Cymraeg defnyddiol sydd wedi'u teilwra yn unol ag anghenion galwedigaethol y dysgwyr, er enghraifft ar gyfer prentisiaid gweinyddu busnes mewn cyngor lleol. Fodd bynnag, ychydig o aseswyr yn unig sy'n annog dysgwyr i ddatblygu neu wella'u defnydd o'r Gymraeg fel medr yn y gweithle. At ei gilydd, er bod darparwyr yn cynnig dewis i ddysgwyr gael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg, nid yw digon o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn cwblhau asesiadau nac yn ymgymryd ag agweddau ar eu rhaglen trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn dda yn y ddau ddarparwr a arolygwyd eleni. Mae trefniadau'r darparwyr ar gyfer nodi dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer dysgu yn addas. Mae timau cymorth dysgu yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau gwerthfawr i ddysgwyr, gan gynnwys cymorth dysgu, cwnsela, cyngor ac arweiniad. Mae darparwyr yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol priodol i gynorthwyo dysgwyr sy'n wynebu heriau personol, ariannol neu heriau o ran iechyd. Mewn ychydig o achosion, caiff anghenion cymorth dysgu eu nodi'n rhy hwyr yn y rhaglen i alluogi dysgwyr i wneud cynnydd ar y cyflymdra y gallent.

# Crynodebau sector:
# Dysgu yn y gwaith

Mae trefniadau cymorth darparwyr ar gyfer dysgwyr ar raglenni hyfforddeiaeth yn hynod effeithiol.  Er enghraifft, mae darparwyr yn defnyddio swyddogion presenoldeb a lles a hyfforddwyr gwydnwch i ddarparu cymorth amserol a defnyddiol i ddysgwyr sydd mewn perygl o ymddieithrio o ddysgu.  Mae darparwyr hefyd yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac yn cefnogi datblygiad personol yn dda.  Mae trefniadau cymorth mewn ychydig o bartneriaid cyflenwi yn llai effeithiol oherwydd nad ydynt yn ymgysylltu'n dda â'r nifer cymharol fach o ddysgwyr prentisiaeth y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

Mae darparwyr yn llwyddiannus o ran darparu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau cymunedol a chodi arian.  Er enghraifft, adeiladodd un grŵp o ddysgwyr amgylchedd dysgu awyr agored ar gyfer ysgol leol gan ddefnyddio deunyddiau wedi'u cyfrannu gan eu cyflogwyr, a bu dysgwyr hyfforddeiaeth yn cyfweld â pherchnogion busnesau lleol ynglŷn â sut maent yn rhyngweithio â'u cymunedau.

Mae llawer o staff yn cefnogi dysgwyr yn dda i ddatblygu eu gwerthfawrogiad o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth allweddol. Er enghraifft, maent yn trafod cydraddoldeb, amrywiaeth, gwerthoedd goddefgarwch a pharch yn rheolaidd, yn ogystal ag annog dysgwyr i ddatblygu empathi a herio stereoteipiau.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn rhagorol mewn un darparwr a arolygwyd eleni, ac yn dda yn y llall.  Mae uwch arweinwyr yn darparu cyfeiriad clir i staff a phartneriaid.  Mewn un darparwr, caiff arweinyddiaeth ei harwain gan set sefydledig o ymddygiadau, ac yn y darparwr arall, mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cefnogol a chadarnhaol sy'n hyrwyddo lles dysgwyr a staff yn dda.

Mae arweinwyr yn y ddau ddarparwr yn ymateb yn dda i flaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol, er enghraifft trwy sicrhau twf mewn prentisiaethau uwch a phrentisiaethau gradd ac ym meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru.  Mae'r ddau ddarparwr yn datblygu darpariaeth deilwredig ac ymatebol sy'n diwallu anghenion cyflogwyr ac o fudd i ddysgwyr.  Mewn un darparwr, ceir cysylltiadau rhagorol a hynod effeithiol ag ystod eang o gyflogwyr.

Mae gan lywodraethwyr rôl bwysig mewn gosod blaenoriaethau strategol, ac maent yn wybodus am gryfderau darparwyr a'u meysydd i'w gwella. Mae darparwyr yn gwneud defnydd da iawn o ddata a thystiolaeth uniongyrchol fel rhan o brosesau monitro a gwella ansawdd.  Caiff uwch arweinwyr, partneriaid a llywodraethwyr eu cynnwys yn llawn mewn hunanwerthuso.  Mae darparwyr yn gwneud defnydd effeithiol o arolygon dysgwyr a chyflogwyr, gwiriadau diwydrwydd dyladwy, arsylwadau addysgu a dysgu, sesiynau rhannu arfer orau, a chyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda phartneriaid cyflenwi i helpu llywio strategaethau gwella ansawdd.  Mewn un darparwr, mae hunanwerthuso a chynllunio gwelliant wedi'i seilio'n ormodol ar berfformiad ychydig o bartneriaid cyflenwi mawr.

### Coleg Cambria

Un o amcanion strategol Coleg Cambria yw darparu dysgu wedi'i arwain gan gyflogwyr.  Mae'r darparwr yn datblygu llawer o gyfleoedd amrywiol i ymgysylltu â phob math o gyflogwyr, o ficrofusnesau i sefydliadau mawr rhyngwladol.  Trwy feithrin partneriaethau hirhoedlog sydd o fudd i'r ddwy ochr, mae'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ac yn cyfrannu at dwf economaidd ar gyfer y rhanbarth.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**


# Crynodebau sector:
# Dysgu yn y gwaith

Mae'r ddau ddarparwr yn defnyddio arfarniadau o berfformiad staff yn dda i gynllunio gweithgareddau datblygiad proffesiynol defnyddiol ar gyfer staff.  Caiff sefydliadau partner fynediad priodol i raglenni hyfforddiant. Mewn un darparwr, mae bron pob un o'r aseswyr yn ymgymryd â lleoliadau galwedigaethol blynyddol hynod fuddiol, gan sicrhau bod eu harbenigedd yn gyfredol.

Mae darparwyr yn monitro perfformiad ariannol a chydymffurfio yn dda.  Mae arweinwyr yn sicrhau buddsoddiad mewn ystod ddefnyddiol o ddatblygiadau cyfalaf sy'n caniatáu mynediad i ddysgwyr i adnoddau dysgu modern, o ansawdd da.

## Gweithgarwch dilynol

Nid oes angen gweithgarwch dilynol ar y naill na'r llall o'r darparwyr a arolygwyd eleni.  Eleni, cynhaliwyd gweithgareddau dilynol gyda thri darparwr.  Bernir bod un darparwr wedi gwneud cynnydd digonol o leiaf o ran y materion allweddol ar gyfer gweithredu yn dilyn ymweliadau blaenorol gan Estyn, ac fe'i tynnwyd oddi ar y rhestr o ddarparwyr y mae angen iddynt gael eu monitro gan Estyn.  Bernir bod dau ddarparwr arall wedi gwneud cynnydd digonol o ran yr argymhellion yn dilyn eu harolygiad diweddaraf gan Estyn, a thynnwyd eu henwau oddi ar y rhestr o ddarparwyr y mae angen iddynt gael eu hailarolygu.



# Adran 2

# Crynodebau sector:
# Dysgu oedolion yn y gymuned

2


## Cyd-destun

Mae pymtheg partneriaeth ar hyd a lled Cymru ynghyd ag Addysg Oedolion Cymru yn cyflwyno rhaglenni dysgu oedolion.  Mae'r partneriaethau'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy'r awdurdod lleol, ac eithrio Addysg Oedolion Cymru, sy'n derbyn cyllid ar gyfer dysgu oedolion trwy Lywodraeth Cymru fel coleg addysg bellach.  Mae aelodaeth y partneriaethau yn amrywio o ardal i ardal, ond bydd y rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys darpariaeth a gynigir gan yr awdurdod lleol, coleg addysg bellach a sefydliadau gwirfoddol.

Yng Ngorffennaf 2019, gwnaeth y Gweinidog Addysg ddatganiad yn amlinellu ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer ailstrwythuro darparu ac ariannu dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru, ac ar y camau nesaf ar gyfer y sector.

Eleni, cynhaliodd Estyn arolygiad peilot o Addysg Oedolion Cymru.

# Crynodebau sector:
# Dysgu oedolion yn y gymuned



## Safonau

Yn gyffredinol, mae dysgwyr sy'n oedolion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu hastudiaethau yn y tymor byr a'r tymor hwy, ac maent yn cwblhau'u cyrsiau a'u cymwysterau yn llwyddiannus ar gyfraddau da.  Mae llawer o ddysgwyr sy'n oedolion yn ennill achrediad drwy eu hastudiaethau.

Ar gyrsiau llythrennedd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n oedolion yn gwneud cynnydd cryf tuag at eu nodau personol.  Mae dysgwyr ar gyrsiau llythrennedd uwch yn ymchwilio i feysydd diddordeb ac yn siarad yn fanwl am destunau sy'n bwysig iddynt yn eu bywydau bob dydd a'u gwaith.
Ar gyrsiau rhifedd, mae llawer o ddysgwyr yn dangos bod ganddynt ddealltwriaeth dda o rifedd sylfaenol, fel adio syml a chyllidebu yn y cartref. Mewn dosbarthiadau lefel mynediad ar gyfer Saesneg fel Ail Iaith neu Iaith Ychwanegol (SSIE), mae dysgwyr yn siarad Saesneg syml yn hyderus ac yn deall brawddegau wedi'u hysgrifennu mewn Saesneg syml.  Mae dysgwyr mwy datblygedig yn siarad Saesneg yn gymharol rugl ac yn gywir o ran ynganiad a goslef.  Gallant ysgrifennu brawddegau cymhleth yn gywir, ac maent yn ysgrifennu'n dda mewn gwahanol genres ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol.  Mae dysgwyr llai datblygedig mewn medrau digidol yn gwneud cynnydd cadarn mewn rheoli ffeiliau sylfaenol a datblygu'u dealltwriaeth o ystod o systemau gweithredu.  Mae dysgwyr mwy datblygedig yn datblygu medrau mewn prosesu geiriau, mewn defnyddio taenlenni a chreu cronfeydd data syml.  Nid yw ychydig o ddysgwyr yn gwneud cynnydd digon cyflym mewn medrau digidol am nad yw'r dulliau addysgu yn ymestyn dysgwyr o allu uwch yn briodol.  Mae ychydig o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth gyda'u cyfoedion ac yn cyfnewid cyfarchion  a sgyrsiau syml gyda'u tiwtoriaid a'u cyfoedion.  Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw dysgwyr sy'n oedolion yn datblygu nac yn ymestyn eu medrau Cymraeg presennol yn ddigonol drwy eu rhaglenni dysgu.

Daw llawer o ddysgwyr sy'n oedolion i'w cyrsiau o ardaloedd difreintiedig ac maent yn wynebu amgylchiadau personol heriol.  Mae bron bob dysgwr yn rhagweithiol ac yn frwdfrydig ynglŷn â'u dysgu.  Maent yn mynychu'n rheolaidd ac yn aml yn teithio pellteroedd hir i gymryd rhan mewn dosbarth. Mae llawer o ddysgwyr yn caffael medrau bywyd a medrau cyflogaeth gwerthfawr.  Maent yn cynyddu'u hyder a'u mwynhad o fywyd trwy ddysgu, gyda llawer o ddysgwyr yn symud ymlaen i astudiaeth bellach, cael dyrchafiad yn y gwaith neu fynd i mewn i gyflogaeth.  O ganlyniad i'w hymgysylltiad â dysgu, mae llawer o rai eraill yn ymgymryd â rolau gweithredol yn eu cymunedau, er enghraifft ymuno â grwpiau lleol a gwasanaethu ar bwyllgorau.

## Addysgu a dysgu

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynllunio gwersi'n effeithiol gan roi ystyriaeth dda i'r lefelau dysgu a phrofiad amrywiol a welir mewn dosbarthiadau dysgu oedolion.  Maent yn cydbwyso cyflwyniad priodol i agweddau newydd ar y pwnc gydag ystod o gyfleoedd y gall dysgwyr o alluoedd a diddordebau gwahanol ymgysylltu â nhw.  Mae'r rhan fwyaf o gynorthwywyr addysgu yn gweithio'n effeithiol gyda thiwtoriaid ac yn cefnogi dysgu yn dda.  Yn y rhan fwyaf o achosion, mae tiwtoriaid yn defnyddio technegau holi yn ofalus i gynnwys dysgwyr mewn trafodaeth

# Crynodebau sector:
# Dysgu oedolion yn y gymuned

a datrys problemau. Mae hyn yn helpu dysgwyr i ddatblygu medrau cyflogaeth a medrau cymdeithasol da, fel gwrando gweithredol, ac yn aml mae'n helpu dysgwyr llai hyderus i leisio'u barnau a ddadleuir yn briodol mewn awyrgylch cefnogol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae tiwtoriaid yn defnyddio dulliau addysgu sy'n helpu dysgwyr i ddatblygu medrau dysgu annibynnol fel medrau ymchwil ac adolygu, sy'n arwain at aseiniadau sy'n cynnwys dadleuon da. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio ystod ddiddorol o ddeunyddiau i gefnogi dysgu, er mai ychydig iawn o ddeunyddiau sydd ar gael yn ddwyieithog.

Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw cynlluniau tiwtoriaid yn rhoi ystyriaeth ddigon da i anghenion dysgu unigol dysgwyr. Maent yn treulio gormod o amser yn cyflwyno deunydd. Mae hyn yn arafu rhediad y wers ac mae meddwl dysgwyr mwy abl yn crwydro.

Mae llawer o diwtoriaid yn ymgorffori gweithgareddau medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol yn dda mewn gwersi. Mae'r gweithgareddau hyn yn fwyaf buddiol pan fyddant yn adlewyrchu problemau bob dydd y gallai dysgwyr eu hwynebu yn y gwaith neu yn eu bywydau teuluol a chymdeithasol. Er enghraifft, mae tiwtoriaid yn annog dysgwyr SSIE sy'n ymarfer pasio'r prawf gyrru theori i weithio gyda phartner i ddarllen y llawlyfr yn uchel a phenderfynu ar ateb.


## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r rhan fwyaf o uwch arweinwyr wedi gweithio'n effeithiol gyda rhanddeiliaid i lunio gweledigaeth glir ar gyfer y bartneriaeth, gyda strategaethau wedi'u cyfleu'n dda a disgwyliadau priodol o uchel. Mae dealltwriaeth dda gan y rhan fwyaf o lywodraethwyr o waith y bartneriaeth. Cynigiant her a chymorth cadarn. Rhoddant ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae dealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau gan y rhan fwyaf o'r staff sy'n arweinwyr canol. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn monitro ac yn olrhain cynnydd dysgwyr yn effeithiol ac maent yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd, sy'n helpu sicrhau cysondeb ar draws y bartneriaeth. Mae'r bartneriaeth yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i staff hyrwyddo'u dysgu proffesiynol. Fodd bynnag, nid yw'n cynnig digon o gyfleoedd i diwtoriaid i rannu arfer ac adnoddau ar draws y bartneriaeth i wella addysgu a dysgu. Mae diffyg manylder ym mhrosesau hunanwerthuso'r bartneriaeth ac nid yw'n defnyddio ystod ddigon eang o dystiolaeth; nid yw'r prosesau hunanwerthuso ychwaith yn canolbwyntio digon ar effaith gweithredoedd. Mae cynlluniau datblygu ansawdd yn pennu'r meysydd i'w gwella yn glir, ond mae targedau'n rhy generig mewn llawer o achosion. Mae dealltwriaeth glir o'r gyllideb gan uwch arweinwyr a llywodraethwyr. Cymerant fesurau priodol i sicrhau bod y gyllideb yn cyfateb yn dda i anghenion y bartneriaeth ac i gynnal gwarged bach.

### Addysg Oedolion Cymru

Cafodd dysgwyr Addysg Oedolion Cymru eu hannog i ehangu eu hymwybyddiaeth o wahaniaethau diwylliannol ac amrywiaeth gwahanol rannau o Gymru. Manteisiodd dysgwyr ar y cyfle i ymestyn eu geirfa a deall diwylliannau eraill trwy deithiau a drefnwyd iddynt. Mae'r gweithgareddau ychwanegol hyn wedi helpu i gynyddu hunan-barch dysgwyr a'u hyder i integreiddio i gymunedau heblaw am eu cymuned eu hunain.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**



Adran 2

# Crynodebau sector: Addysg gychwynnol athrawon

2

## Cyd-destun

Yn ystod 2018-2019, fe wnaeth tair canolfan addysg gychwynnol athrawon (AGA) ranbarthol, y Rhaglen Athrawon Graddedig a'r Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion (a elwir yn 'Teach First'), ddarparu llwybrau at gymhwyso fel athro yng Nghymru. Mae'r ystadegau diweddar a gyhoeddwyd yn dangos, yn 2017-2018, bod y tair canolfan ranbarthol rhyngddynt wedi hyfforddi 605 o athrawon cynradd dan hyfforddiant a 450 o athrawon uwchradd dan hyfforddiant (Llywodraeth Cymru, 2019f, t.5).

Yn 2019, fe wnaeth ein hymweliadau monitro blynyddol â'r tair canolfan ganolbwyntio ar safonau myfyrwyr wrth gynllunio a gwerthuso'u haddysgu, ac asesiad y ganolfan o'u cynnydd o ran bodloni Safonau'r Statws Athro Cymwys (SAC).

# Crynodebau sector:
# Addysg gychwynnol athrawon

## Cynnydd a safonau

Yn gyffredinol, mae myfyrwyr yn gwneud cynnydd addas tuag at gyflawni'r targedau ar gyfer SAC, ond mae gormod o amrywio yn ansawdd mentora, cymorth a phrofiadau ysgol. Mewn llawer o achosion, caiff hyn effaith niweidiol ar gynnydd myfyrwyr.

Mae'r asesiad o gynnydd athrawon dan hyfforddiant gan diwtoriaid a mentoriaid yn eu profiadau ysgol yn rhy amrywiol, ar draws darparwyr ac o fewn darparwyr. Yn gyffredinol, mae'r defnydd o ddisgrifwyr gradd a chymhwyso meini prawf asesu yn rhy anghyson i alluogi myfyrwyr i wneud y cynnydd gorau.

Ar draws y sector, mae darparwyr yn datblygu prosesau defnyddiol ar gyfer cipio gwybodaeth a data am safonau myfyrwyr. Er bod hyn yn rhoi dealltwriaeth eang o'r cryfderau a'r gwendidau yn safonau myfyrwyr, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dadansoddi'n ddigon da i nodi meysydd penodol i'w gwella. Mae hyn yn golygu nad oes gan staff AGA ddealltwriaeth ddigon manwl o flaenoriaethau gwella allweddol mewn perthynas â safonau a chynnydd myfyrwyr.

## Cynllunio gwersi

Mewn mwyafrif o achosion, mae myfyrwyr yn gydwybodol yn eu cynllunio. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i arweiniad eu tiwtoriaid a'u mentoriaid.

Yn gyffredinol, mae myfyrwyr ar raglenni cynradd yn datblygu'u medrau cynllunio gwersi yn fwy effeithiol na'r rheiny ar raglenni uwchradd.

Mae cynllunio gwersi myfyrwyr yn llawer cryfach yng Nghanolfan y De-ddwyrain. Mae cynlluniau'r myfyrwyr hyn yn adlewyrchu arfer effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth myfyrwyr o addysgu ar eu rhaglenni. Hefyd, mae myfyrwyr yn elwa o arweiniad clir a ddarperir gan y ganolfan i wella eu medrau.

Yn yr enghreifftiau gorau o gynlluniau gwersi myfyrwyr, ceir perthynas glir rhwng deilliannau dysgu bwriadedig, cynnwys gwersi, dulliau addysgu ac asesu cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, mae gormod o fyfyrwyr yn cynllunio amcanion dysgu i ddisgyblion sy'n rhy eang ac yn canolbwyntio gormod ar ddisgrifio beth fydd disgyblion yn ei wneud yn hytrach na beth allent ei ddysgu. Nid oes ganddynt ddealltwriaeth glir o sut i ysgrifennu meini prawf llwyddiant manwl gywir. O ganlyniad, nid ydynt yn gallu gwerthuso ansawdd dysgu yn ddigon da.

Mae mwyafrif o fyfyrwyr yn dangos dealltwriaeth o'r angen i gynllunio ar gyfer gwahanol anghenion disgyblion yn eu dosbarthiadau. Mae myfyrwyr ar raglenni cynradd yn datblygu'r medr hwn yn fwy llwyddiannus na myfyrwyr ar raglenni uwchradd.

Mewn mwyafrif o achosion, nid yw ffurflenni cynllunio gwersi yn helpu myfyrwyr i gynllunio'n effeithiol. Yn benodol, nid ydynt yn annog myfyrwyr i weithredu yn unol â'u hasesiad o gynnydd disgyblion, na chynorthwyo disgyblion i integreiddio strategaethau asesu ffurfiol i'w cynlluniau gwersi. Mae hyn yn golygu hefyd fod diffyg sylw digonol i gynnydd disgyblion yng nghynlluniau myfyrwyr dros gyfres o wersi.

# Crynodebau sector:
# Addysg gychwynnol athrawon

**Prifysgol Metropolitan Caerdydd**

Ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd (rhan o ganolfan De-ddwyrain Cymru), mae myfyrwyr Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg (TAR) sy'n hyfforddi i addysgu Cymraeg ac ieithoedd tramor modern yn y cyfnod uwchradd yn ymweld â chanolfan addysgol amlieithog yng Ngwlad y Basg i arsylwi gwersi a addysgir yn y Fasgeg, Sbaeneg, Saesneg a Ffrangeg, ac i astudio addysgu a hyrwyddo'r Fasgeg fel iaith leiafrifol. Yn ystod yr ymweliad, mae disgyblion yn datblygu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddulliau effeithiol o addysgu iaith, ac yn ystyried cynllunio cwricwlwm traws-ieithog sy'n helpu i'w paratoi ar gyfer addysgu Cwricwlwm Cymru. Drwy arsylwi a myfyrio ar arferion addysgu amlieithog arloesol, mae'r myfyrwyr yn datblygu'u medrau mewn addysgu a dysgu ar gyfer caffael iaith yn effeithiol. Mae eu cynlluniau gwersi dilynol yn dangos effaith ymagweddau creadigol at ddysgu iaith, a dealltwriaeth dda sut i wneud cysylltiadau dychmygus rhwng dysgu Cymraeg ac ieithoedd eraill.

## Gwybodaeth a dealltwriaeth myfyrwyr

At ei gilydd, mae gwybodaeth bynciol y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn sicr ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ofynion y cwricwlwm presennol ac egwyddorion y cyfnod sylfaen.

Mae dealltwriaeth addas gan y rhan fwyaf o fyfyrwyr o'r effaith y mae'r rhaglen bresennol o ddiwygio addysg yng Nghymru yn debygol o'i chael ar y cwricwlwm. Mae'r ddealltwriaeth hon yn gryfach ar raglenni cynradd lle caiff myfyrwyr fwy o gyfleoedd yn eu profiadau ysgol i archwilio ymagweddau thematig at addysgu.

Lle mae darpariaeth y ganolfan yn pwysleisio addysgegau pwnc a chyfnod creadigol, mae myfyrwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio gwersi dychmygus a diddorol ar gyfer eu disgyblion. Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, mae cynlluniau myfyrwyr yn dangos ymagweddau dychmygus at addysgu pwnc, sy'n cynnwys ystyriaeth briodol i ddatblygiadau fel y cwricwlwm newydd a'r fframwaith cymhwysedd digidol. Mewn gormod o achosion, fodd bynnag, nid yw myfyrwyr yn datblygu'u haddysgegau pwnc yn ddigon da.

# Crynodebau sector:
# Addysg gychwynnol athrawon

## Medrau llythrennedd rhifedd a TGCh myfyrwyr, a'u cynllunio i ddatblygu medrau disgyblion


Mae medrau sicr mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh gan lawer o fyfyrwyr. Yn gyffredinol, mae myfyrwyr ar raglenni cynradd yn cynllunio cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau.  Mae cynllunio myfyrwyr uwchradd ar gyfer datblygiad disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd, TGCh a Chymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn llai sicr.  At ei gilydd, mae myfyrwyr sy'n hyfforddi i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn gwella'u medrau yn llwyddiannus trwy gydol eu rhaglen.

## Gwerthusiad myfyrwyr o'u haddysgu a dysgu disgyblion

Mae ansawdd myfyrdodau myfyrwyr o'u profiadau yn yr ystafell ddosbarth yn rhy   amrywiol.  Mae gwerthusiadau gormod o fyfyrwyr yn ddisgrifiadol ac nid ydynt yn dadansoddi effaith eu haddysgu ar ddysgu disgyblion yn ddigon da.  Yn gyffredinol, nid yw myfyrwyr yn datblygu'u medrau beirniadol yn ddigon da dros gyfnod eu rhaglenni.

## Gosod targedau ar gyfer cynnydd myfyrwyr

Yn yr enghreifftiau gorau, mae adborth mentoriaid a thiwtoriaid i fyfyrwyr yn canolbwyntio'n glir ar yr union feysydd y mae angen iddynt eu gwella.  Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae ansawdd yr adborth ysgrifenedig i fyfyrwyr yn amrywio gormod.  O ganlyniad, mewn gormod o achosion, nid yw'r targedau a osodir gan diwtoriaid a mentoriaid yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu'u dealltwriaeth, na mireinio'u medrau er mwyn gwella eu haddysgu.  Yn gyffredinol, mae prosesau gosod targedau yn rhy gymhleth ac nid ydynt wedi'u cysoni'n ddigon da i helpu myfyrwyr i wneud y gwelliannau angenrheidiol yn eu haddysgu.



# Adran 2

# Crynodebau sector: Cymraeg i Oedolion

2

## Cyd-destun

Yn 2016, trosglwyddodd Llywodraeth Cymru gyfrifoldeb am y sector Cymraeg i Oedolion i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (Y Ganolfan Genedlaethol). Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn neilltuo cyllid ac yn cynnig cyfeiriad strategol a sicrwydd ansawdd yn y sector. Mae'n ariannu 11 o ddarparwyr i gyflwyno cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn eu hardaloedd daearyddol dynodedig. Mae'r darparwyr hyn wedi'u dynodi'n ddarparwyr Dysgu Cymraeg. Yn 2017-2018, fe wnaeth 12,680 o ddysgwyr unigol sy'n oedolion gofrestru ar gyrsiau prif ffrwd Cymraeg i Oedolion gyda'r darparwyr hyn (Llywodraeth Cymru, 2019c).

Ar ôl gweithredu Cynllun Rheoli Data'r Ganolfan Genedlaethol, hon yw'r flwyddyn lawn gyntaf y mae data ar gael i'w rhannu, ac mae'n waelodlin genedlaethol ar gyfer y sector. Bydd modd gwneud cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn o'r gwaelodlin a sefydlir o dan y strwythur newydd hwn. Cynigir cyfleoedd dysgu ar bum lefel. Yn 2017-2018, roedd 51% o ddysgwyr ar lefel Mynediad (dechreuwyr), roedd 18% ar lefel Sylfaen gyda 31% ar lefelau Canolradd neu Uwch, (gan gynnwys cyrsiau lefel Hyfedredd). Yn 2017-2018, cyflwynwyd 42% o'r holl gyfleoedd dysgu ar gyrsiau rhwng 50 a 79 o hyd (Llywodraeth Cymru, 2019c). Mae amcan strategol gan y Ganolfan Genedlaethol i gynnig cyrsiau dwysach, er mwyn cyflymu cynnydd dysgwyr tuag at fod yn rhugl. Yn 2017-2018, fe wnaeth 12% o'r cyfleoedd dysgu gyflwyno dros 110 o oriau o ddysgu.

# Crynodebau sector: Cymraeg i Oedolion

Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen 'Cymraeg Gwaith' sy'n ceisio cryfhau medrau dwyieithog yn y gweithle. Mae bron i 13,000 o ddysgwyr wedi cymryd rhan yn y rhaglen ers iddi ddechrau yn Ebrill 2017. Yn ogystal â bod yn ychwanegiad gwerthfawr at y sector Cymraeg i Oedolion, mae'r cynllun wedi ehangu i feysydd eraill fel addysg bellach ac addysg uwch. O dan y cynllun, mae staff a darlithwyr yn cael gwersi Cymraeg i ddatblygu'u medrau Cymraeg a'u defnyddio yn eu gwaith a'u haddysgu. Hefyd, mae'r cynllun wedi ehangu ei waith i gyrsiau ar gyfer gweithlu addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant, y sectorau iechyd a gofal, darparwyr prentisiaethau a'r sector preifat. Yn ystod y cylch arolygu presennol (2018-2024), ein nod yw arolygu'r Ganolfan Genedlaethol ddwywaith.

Rhwng Medi 2018 a Gorffennaf 2019, fe wnaethom arolygu un darparwr Cymraeg i Oedolion.

## Canfyddiadau arolygu

Ym Mai 2019, cynhaliom arolygiad o Ddysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe, Prifysgol Abertawe. Barnwyd bod pob un o'r meysydd arolygu yn dda.

Mae Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe yn gymuned glòs a chynhwysol sy'n cynnig gofal a chefnogaeth briodol i ddysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu ystod o fedrau ieithyddol gyda'r prif bwyslais ar siarad Cymraeg mewn cyd-destunau defnyddiol ac ystyrlon. Dros gyfnod, daw'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn siaradwyr Cymraeg cynyddol hyderus. Mae bron pob dysgwr yn glir iawn ynglŷn â'u rhesymau dros ddysgu'r Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf yn ddysgwyr brwdfrydig ac uchelgeisiol sy'n mwynhau eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynllunio gwersi yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion y dysgwyr. Maent yn amrywio'r gweithgareddau yn ystod gwersi yn fedrus ac yn codi hwyl wrth gyflwyno ac ymarfer iaith. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn rhoi adborth llafar defnyddiol ac ysgogol sydd yn gymorth i ddysgwyr wella agweddau pwysig ar eu gwaith. Mae ansawdd adborth ysgrifenedig i ddysgwyr ar sut i wella eu gwaith ysgrifenedig yn amrywio gormod.

Mae darpariaeth Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe yn cynnwys ystod eang o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ymarfer yr iaith. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol a chymryd rhan mewn ymweliadau sy'n ehangu gwybodaeth dysgwyr am y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, er enghraifft ymweliadau ag Eisteddfod yr Urdd a Gŵyl y Nadolig yn Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan.

Mae arweinwyr a rheolwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir a nodau strategol pwrpasol sy'n gyson â chynlluniau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae uwch arweinwyr wedi llwyddo i gynnal safon uchel o ddarpariaeth drwy gyfnod o ad-drefnu.



# Adran 2

# Crynodebau sector: Gyrfaoedd

2

## Cyd-destun

Yn ystod y flwyddyn, ni chynhaliwyd unrhyw arolygiadau o Career Choices Dewis Gyrfa Ltd (CCDG), sy’n masnachu fel Gyrfa Cymru Careers Wales. Ffurfiwyd y cwmni yn 2013. Mae’n is-gwmni a berchnogir yn gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru. Mae Career Choices Dewis Gyrfa yn cyflenwi gwasanaeth cyfunol sy’n integreiddio’r defnydd o dechnolegau digidol ochr yn ochr â sianelau cyflenwi mwy traddodiadol, wyneb yn wyneb. Mae’n darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad pob oedran, annibynnol a diduedd ar gyfer Cymru.

Amlinellir y gofynion ar gyfer gwasanaethau Gyrfa Cymru mewn llythyr cylch gwaith blynyddol gan Lywodraeth Cymru. Ategir hyn gan yr erthyglau cymdeithasu ar gyfer Career Choices Dewis Gyrfa a dogfen fframwaith, a ddefnyddir yn sylfaen ar gyfer cynllun busnes blynyddol Gyrfa Cymru. Nod Gyrfa Cymru yw helpu pobl i wneud penderfyniadau effeithiol o ran rheoli eu gyrfaoedd, a datblygu o fewn hyfforddiant, dysgu pellach neu gyflogaeth. Trwy wneud hyn, ei nod yw cyfrannu at les economaidd a chymdeithasol Cymru. Yn y cyfnod er 2010, mae newidiadau yn ei gylch gwaith a gostyngiadau yn ei gyllideb weithredu wedi arwain at lawer o newidiadau i strwythur, staffio a rôl y cwmni, gan gynnwys y ffaith ei fod wedi tynnu’n ôl o gefnogi pobl ifanc i gael profiad gwaith.

# Crynodebau sector: Gyrfaoedd

Ym mis Ebrill 2017, lansiodd Gyrfa Cymru eu gweledigaeth am dair blynedd, sef 'Newid Bywydau' (2017). Yn sgil y weledigaeth, canolbwyntiwyd o'r newydd ar adnoddau i bobl ifanc, gyda phwyslais penodol ar gyfnod allweddol 4 a chymorth mewn cyfnodau pontio eraill, hyd at 19 oed.

Mae'r gostyngiad yn yr adnoddau sydd ar gael i'r cwmni wedi cynyddu pwysigrwydd y rôl y dylai fod gan ysgolion yn helpu pobl ifanc i gynllunio eu dilyniant gyrfa.

Eleni, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad thematig ynghylch Cyrsiau Safon Uwch mewn dosbarthiadau chweched a cholegau addysg bellach (Estyn, 2018a). Nododd yr adroddiad hwn, er bod llawer o ddysgwyr a'u rhieni yn hapus ag ansawdd y cyngor a'r arweiniad y maent wedi'i gael gan staff mewn ysgolion a cholegau, mewn gwirionedd, nid oes gwybodaeth glir ar gael iddynt ynglŷn â pha rai yw'r darparwyr gorau o ran cyrsiau Safon Uwch yn eu hardal. Mae cyngor ac arweiniad i ychydig o ddysgwyr, yn bennaf y rhai â chyrhaeddiad isel mewn TGAU, yn anaddas. Mae'r dysgwyr hyn yn fwy tebygol o beidio â chwblhau Blwyddyn 12 neu fynd ymlaen i Flwyddyn 13 na dysgwyr eraill. Yn gyffredinol, mae cyngor ac arweiniad gan athrawon yn canolbwyntio gormod ar lwybrau academaidd fel cyrsiau Safon Uwch a phrifysgol, ar draul llwybrau gyrfa eraill. Mewn ysgolion â dosbarthiadau chweched, mae cyngor ac arweiniad gan staff yn aml yn canolbwyntio ar gadw dysgwyr yn eu chweched dosbarth.

Adran 2

# Crynodebau sector: Dysgu yn y sector cyfiawnder

2

## Cyd-destun

Yng Nghymru, mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn arwain arolygiadau o dimau troseddau ieuenctid.  Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn arwain arolygiadau o garchardai, gan gynnwys y sefydliad troseddwyr ifanc, ac mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn arwain arolygiadau o gartrefi diogel i blant.  Mae Estyn yn ymuno â’r timau hyn i arolygu ansawdd addysg a hyfforddiant.

# Crynodebau sector: Dysgu yn y sector cyfiawnder

## Carchardai

Eleni, gweithiodd Estyn gyda phartneriaid i arolygu Carchar Ei Mawrhydi y Berwyn, Carchar ei Mawrhydi Caerdydd a'r sefydliad troseddwyr ifanc yng Ngharchar Ei Mawrhydi y Parc.  Gellir gweld yr adroddiadau hyn yma:

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

## Darpariaeth i oedolion

Yn y carchardai i oedolion a arolygwyd gan Estyn, mae'r rhan fwyaf o garcharorion yn gwneud cynnydd effeithiol tuag at eu nodau dysgu, ac mae'r rhan fwyaf yn gwella eu medrau llythrennedd a rhifedd.  Mae llawer ohonynt yn gwella'u hymwybyddiaeth o'r modd y gallant dorri cylchoedd o ymddygiad troseddol.

Yn y ddau garchar, mae llawer o diwtoriaid yn cynllunio sesiynau yn dda, gan gynnal ffocws carcharorion am gyfnodau amser estynedig.  Mae'r rhan fwyaf yn ennyn diddordeb ac yn ysbrydoli carcharorion i gyfranogi mewn gweithgareddau.  Mae mentoriaid cymheiriaid hyfforddedig yn darparu cymorth unigol, gwerthfawr i ddysgwyr.  Mae'r ddau garchar yn asesu anghenion carcharorion yn dda, gan eu helpu i ddewis y cyfleoedd sy'n fwyaf addas i'w nodau hirdymor.  Yng Nghaerdydd, mae cymorth allymestyn da i garcharorion yn annog carcharorion i gyfranogi mewn addysgu, hyfforddiant a chyflogaeth.

Ceir partneriaethau effeithiol yn y ddau garchar sy'n helpu carcharorion i gaffael medrau a gwella eu profiad a'u cyflogadwyedd.  Mae digon o leoedd yn y ddau i gynnwys bron bob carcharor mewn gweithgarwch pwrpasol.  Fodd bynnag, ers i Garchar Ei Mawrhydi y Berwyn agor yn 2017, nid yw ystod yr addysg, hyfforddiant a gwaith wedi diwallu anghenion y boblogaeth.

Mae arweinwyr yn y ddau garchar yn gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth am y farchnad lafur a phartneriaethau â chyflogwyr i lywio cynllunio darpariaeth sydd yn gwella cyfleoedd carcharorion ar gyfer cyflogaeth.  Er enghraifft, mae hyfforddiant barista yng Nghaerdydd a warws dosbarthu ar y safle yn Berwyn wedi galluogi ychydig o garcharorion i gael profiad gwaith go iawn.

## Darpariaeth ar gyfer pobl ifanc

Gweithiodd Estyn gyda'i bartneriaid i arolygu'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc yng Ngharchar Ei Mawrhydi y Parc.

Mae bron bob dysgwr yn cyflawni'n briodol.  Mae llawer ohonynt yn ymateb yn dda i weithgareddau heriol a osodir ar eu cyfer sy'n ymestyn eu dysgu a'u medrau.  Gwna'r rhan fwyaf o ddysgwyr gynnydd cryf iawn yn eu dysgu o'u mannau cychwyn.

Mae'r ystod eang o weithgareddau yn galluogi'r holl ddysgwyr i ddewis opsiynau sy'n cyfateb i'w diddordebau a'u hanghenion.  Mae'r gweithdai sy'n cynnwys cyfarpar da iawn yn galluogi'r holl ddysgwyr ar gyrsiau galwedigaethol i ddatblygu dealltwriaeth realistig o'r byd gwaith.

# Crynodebau sector: Dysgu yn y sector cyfiawnder

Fodd bynnag, mynediad gwael sydd gan ddysgwyr i adnoddau dysgu ar-lein. Mae'r addysgu wedi'i deilwra'n effeithiol yn ôl anghenion unigol dysgwyr. Mae'r carchar yn rhoi cymorth buddiol i ddysgwyr sy'n gwrthod mynychu sesiynau addysg neu sydd wedi'u tynnu allan o ddosbarthiadau, gan eu hannog i ail-ymgysylltu.

Mae uwch dîm rheoli'r carchar yn dangos ymrwymiad cryf i addysg.  Mae strwythur rheoli wedi'i gryfhau wedi gwella goruchwyliaeth strategol a rheolaeth weithredol ar addysg dysgwyr ymhellach.

## Gwasanaethau prawf

Cynhaliodd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi un arolygiad yng Nghymru y llynedd.  Arolygodd Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Bae'r Gorllewin, a oedd yn gweithio ar draws ardaloedd awdurdodau lleol Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr.  Roedd y tîm arolygu yn cynnwys cynrychiolwyr o Estyn, Arolygiaeth Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub. Canolbwyntiodd Estyn ar yr addysg a'r hyfforddiant yr oedd pobl ifanc a oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaeth hwn yn eu derbyn.  Gellir gweld yr adroddiad hwn yn Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (2019).  Yn gyffredinol, barnwyd bod Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Bae'r Gorllewin yn annigonol.

Nid yw protocolau rhannu gwybodaeth yn effeithiol i sicrhau bod yr holl ysgolion yn rhoi i staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid y wybodaeth y mae ei hangen arnynt i ddarparu cefnogaeth wedi'i theilwra i fodloni anghenion plant a phobl ifainc.  Ychydig o ysgolion sy'n darparu gwybodaeth fuddiol am lefelau llythrennedd a rhifedd pobl ifanc.  Mae gormod o bobl ifanc o oedran ysgol nad ydynt yn derbyn eu hawl lawn i addysg.

Nid oes strategaeth effeithiol gan y gwasanaeth i sicrhau bod y bobl ifanc sydd ei angen fwyaf yn derbyn cymorth priodol ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd i'w galluogi i wneud cynnydd i mewn i, neu o fewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac i leihau aildroseddu.

Nid oes strategaeth effeithiol gan y gwasanaeth i sicrhau bod y bobl ifanc hynny sy'n gallu siarad Cymraeg yn derbyn gwasanaeth yn Gymraeg, eu bod yn gallu datblygu eu hiaith, neu eu bod yn cael eu hannog i ddatblygu ymwybyddiaeth o werth yr iaith fel medr cyflogaeth.  Nid oes digon o adnoddau dwyieithog i weithwyr eu defnyddio i annog pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r canfyddiadau yn adleisio nifer o'r prif ganfyddiadau o adroddiad Estyn ar Ansawdd addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc sy'n gysylltiedig â thimau troseddau ieuenctid (2018h).

# Atodiad 1 Trosolwg



# Atodiad 1
# Trosolwg

Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Rydym yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond yn cael ein hariannu ganddo. Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau addysg yng Nghymru.

## Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a lleoliadau meithrin y mae awdurdodau lleol yn eu cynnal neu'n eu hariannu
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Nod ein gwaith arolygu yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant ar hyd a lled Cymru.

Mewn nifer o sectorau, rydyn ni'n gweithio gyda rheoleiddwyr ac arolygiaethau eraill i arolygu'r ddarpariaeth. Rydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid yn Ofsted i arolygu'r ddarpariaeth dysgu yn y gwaith sydd ar waith yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd. Mae ein harolygwyr yn cydweithio ag AGC i arolygu ysgolion preswyl a chartrefi plant diogel awdurdodau lleol. Rydyn ni hefyd yn cymryd rhan mewn arolygiadau o dimau troseddau ieuenctid (TTI) sy'n cael eu harwain gan Arolygiaeth Prawf EM, ac arolygiadau o garchardai sy'n cael eu harwain gan Arolygiaeth Carchardai EM. Weithiau, rydyn ni'n ymuno ag Ofsted i arolygu colegau arbenigol annibynnol yn Lloegr sydd â 10 neu fwy o ddysgwyr o Gymru. Efallai y byddwn hefyd yn ymuno ag arolygiadau o garchardai yn Lloegr sydd â nifer sylweddol o garcharorion o Gymru. Yn ogystal, rydyn ni'n cynnwys arolygwyr o Swyddfa Archwilio Cymru pan fyddwn ni'n arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol, ac yn cydweithio ag arolygwyr ACG wrth arolygu lleoliadau meithrin nas cynhelir.

Rydyn ni hefyd yn cynnig cyngor ar faterion penodol i Lywodraeth Cymru i ymateb i gylch gwaith blynyddol y mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn ei roi i ni. Mae ein cyngor ni'n cynnig tystiolaeth o effaith strategaethau, polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru ar addysg a hyfforddiant dysgwyr.

Rydyn ni'n cyhoeddi enghreifftiau o arfer dda ar sail tystiolaeth arolygu. Mae gennym safbwynt unigryw ac annibynnol ar safonau ac ansawdd ar draws pob agwedd ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae gwneud hyn yn cyfrannu at y polisïau ar addysg a hyfforddiant a gyflwynwyd ar hyd a lled Cymru.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith a'n dulliau gweithio, dilynwch y ddolen yma:

**www.estyn.llyw.cymru**

# Y Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r disgrifwyr barn ar gyfer y cylch arolygu o Fedi 2017

Bydd y fframwaith yn berthnasol ar gyfer arolygu sefydliadau addysg bellach o 2018.

Mae'r fframwaith hwn yn cwmpasu pum maes arolygu a 15 o ofynion adrodd.

**1 – Safonau**
1.1 Safonau a chynnydd cyffredinol
1.2 Safonau a chynnydd grwpiau penodol
1.3 Safonau a chynnydd mewn medrau

**2 – Lles ac agweddau at ddysgu**
2.1 Lles
2.2 Agweddau at ddysgu

**3 – Addysgu a phrofiadau dysgu**
3.1 Ansawdd yr addysgu
3.2 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm
3.3 Darpariaeth ar gyfer medrau

**4 – Gofal, cymorth ac arweiniad**
4.1 Olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu
4.2 Datblygiad personol
4.3 Diogelu

**5 – Arweinyddiaeth a rheolaeth**
5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr
5.2 Prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant
5.3 Dysgu proffesiynol
5.4 Defnyddio adnoddau

Y Fframwaith Arolygu Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol

**1 – Deilliannau**
1.1 Safonau a chynnydd cyffredinol
1.2 Safonau a chynnydd grwpiau penodol
1.3 Lles ac agweddau at ddysgu

**2 – Ansawdd Gwasanaethau Addysg**
2.1 Cymorth ar gyfer gwella ysgolion
2.2 Cymorth i ddysgwyr sy'n agored i niwed
2.3 Gwasanaethau cymorth addysg eraill

**3 – Arweinyddiaeth a rheolaeth**
3.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr
3.2 Hunanarfarnu a chynllunio gwelliant
3.3 Dysgu proffesiynol
3.4 Trefniadau diogelu
3.5 Defnyddio adnoddau

Rydyn ni'n defnyddio'r raddfa bedwar pwynt sy'n dilyn i ddangos ein barnau arolygu:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol, ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol, ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

# Llawlyfr arweiniad ar gyfer arolygu addysg a gofal mewn lleoliadau a reoleiddir, heblaw ysgolion, sy'n gymwys am gyllid ar gyfer addysg ran-amser

**1 – Maes allweddol**
1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?
1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?
1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?
1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?
1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

**2 – Dysgu**
2.1 Pa mor dda mae plant yn caffael medrau ac yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu?

**3 – Gofal a datblygiad**
3.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?
3.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli rhyngweithiadau?
3.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad plant ac yn bodloni'u hanghenion unigol?

**4 – Addysgu ac asesu**
4.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu sy'n bodloni anghenion plant?
4.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn addysgu ac yn asesu plant?

**5 – Yr amgylchedd**
5.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch y safle?
5.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd y safle?
5.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar?

**6 – Arweinyddiaeth a rheolaeth**
6.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?
6.2 Pa mor effeithiol yw'r hunanarfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwella?
6.3 Pa mor effeithiol yw'r rheolaeth ar staff ac adnoddau?
6.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Ar gyfer yr arolygiadau hyn, rydym yn defnyddio'r raddfa bedwar pwynt ganlynol:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

# Gweithgarwch dilynol

Yn ystod arolygiad, rydym yn ystyried p’un a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y darparwr.

Gall hyn amrywio o nodi arfer ragorol i argymell mesurau arbennig.  Mae’r tabl isod yn dangos y gwahanol fathau o weithgarwch dilynol ac i ba sectorau maent yn berthnasol.

| | Ysgolion a gynhelir | Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) | Awdurdodau lleol | Lleoliadau nas cynhelir | Ôl-16 | Hyfforddiant cychwynnol i athrawon |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arfer ragorol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Adolygu gan Estyn | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ |
| Monitro gan Estyn | | | | ✓ | | |
| Gwelliant â ffocws | | | | ✓ | | |
| Gwelliant sylweddol | ✓ | ✓ | | | | |
| Mesurau arbennig | ✓ | ✓ | | | | |
| Ailarolygiad | | | | | ✓ | ✓ |
| Yn peri pryder sylweddol | | | ✓ | | | |
| Monitro gan yr awdurdod lleol | | | | ✓ | | |

| Categori | Esboniad |
|---|---|
| **Arfer ragorol** | Os yw darparwr yn cael unrhyw farnau rhagorol, bydd yn cael ei wahodd i ysgrifennu astudiaeth achos i'w rhannu gyda darparwyr eraill. Gellir cyhoeddi'r astudiaeth achos ar wefan Estyn. |
| **Monitro gan Estyn** | Fel arfer, bydd angen y lefel hon o weithgarwch pan fydd o leiaf un o'r barnau cyffredinol ar gyfer darparwr yn ddigonol, ond nid yw'n achosi pryder i'r graddau bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig arno. Os oes angen ymweliad monitro, bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn i 18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad. O fis Medi 2017, defnyddiwyd y categori hwn ar gyfer arolygiadau o leoliadau nas cynhelir i blant dan 5 oed yn unig. |
| **Adolygu gan Estyn** | Fel arfer, bydd angen y lefel hon o weithgarwch pan fydd o leiaf un o'r barnau cyffredinol ar gyfer darparwr yn ddigonol, ond nid yw'n achosi pryder i'r graddau bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig arno. Bydd pob ysgol yn y categori hwn yn cael adolygiad desg. Cynhelir yr adolygiad yn Hydref/Tachwedd, ar ôl i ddata CA4 dros dro gael ei gyhoeddi. O ganlyniad i'r adolygiad desg, bydd ysgolion sy'n dangos tystiolaeth glir o gynnydd yn cael eu tynnu o'r categori hwn. Bydd ysgolion nad ydynt wedi dangos tystiolaeth glir o gynnydd naill ai'n aros yn y categori Adolygu gan Estyn am 12 mis arall, neu byddant yn cael ymweliad monitro ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd honno. |
| **Gwelliant â ffocws** | Os nodir bod angen gwelliant â ffocws ar leoliad nas cynhelir, bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ei bryderon. Rhaid i bwyllgor rheoli / perchennog y lleoliad anfon eu cynlluniau gweithredu i Estyn i'w cymeradwyo. Bydd arolygydd Estyn yn ymweld â'r lleoliad bob tymor am hyd at dri thymor yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Os nad yw'r lleoliad yn gwneud digon o gynnydd, bydd Estyn yn cysylltu â'r awdurdod lleol i awgrymu bod cyllid yn cael ei dynnu'n ôl o'r lleoliad gan nad yw'n darparu addysg o safon dderbyniol. |
| **Angen gwelliant sylweddol** | Bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru bod y darparwr wedi cael ei roi mewn categori statudol. Rhaid i'r darparwr anfon ei gynllun gweithredu i Estyn i'w gymeradwyo. Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn fel arfer yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn i 18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Os yw cynnydd yn annigonol, bydd y tîm yn ystyried p'un a oes angen mesurau arbennig ar y darparwr. |
| **Mesurau arbennig** | Os nodir bod angen mesurau arbennig ar ddarparwr, bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru ei fod wedi cael ei roi mewn categori statudol. Rhaid i'r darparwr anfon ei gynllun gweithredu i Estyn i'w gymeradwyo. Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn fel arfer yn ymweld â'r darparwr bob tymor yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Bydd arolygwyr yn canolbwyntio ar y cynnydd y mae'r darparwr wedi'i wneud tuag at fynd i'r afael â'r argymhellion a amlygwyd yn yr adroddiad. Bydd Estyn yn parhau i gynnal ymweliadau monitro nes bod y Prif Arolygydd yn penderfynu bod y darparwr wedi gwella ddigon i'w dynnu o'r categori mesurau arbennig. |

| Categori | Esboniad |
|---|---|
| **Adolygu gan Estyn: ôl-16** | Os nodir bod angen adolygu neu fonitro gan Estyn ar ddarparwr ôl-16 neu hyfforddiant cychwynnol i athrawon, bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn yn ddiweddarach. Os bydd arolygwyr yn barnu y bu cynnydd annigonol, gallai hyn arwain at ail-arolygiad llawn. Ar ôl monitro gan Estyn, os bydd arolygwyr o'r farn y gwnaed cynnydd digonol, caiff llythyr ei gyhoeddi ar wefan Estyn. |
| **Ailarolygiad** | Os nodir bod angen ailarolygiad llawn ar ddarparwr hyfforddiant ôl-16 neu ddarparwr hyfforddiant cychwynnol i athrawon, bydd yr arolygiaeth yn ysgrifennu llythyr at y darparwr, gyda chopi i'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS), ac, yn achos hyfforddiant cychwynnol i athrawon, i'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch (CCAUC), yn nodi'r meysydd y mae angen eu gwella, a bydd yn cynnal ailarolygiad llawn o'r darparwr ymhen blwyddyn i 18 mis. Ar ôl yr ailarolygiad, bydd Estyn yn cyhoeddi adroddiad llawn yn arfarnu'r cynnydd a wnaed gan y darparwr. Os yw'r tîm yn barnu bod cynnydd annigonol wedi'i wneud ar ddiwedd ailarolygiad, adroddir am hyn wrth yr AdAS, ac wrth CCAUC yn achos hyfforddiant cychwynnol i athrawon, fel rhan o'u gweithdrefnau rheoli contract. |
| **Yn peri pryder sylweddol** | Bydd y lefel hon o weithgarwch yn ofynnol pan fydd arolygwyr yn barnu bod angen gweithgarwch dilynol ar wasanaethau addysg llywodraeth leol. Tua thri mis ar ôl yr arolygiad, byddwn yn cadeirio cynhadledd wella gydag uwch arweinwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill. Tua blwyddyn ar ôl y gynhadledd wella ôl-arolygiad, bydd Estyn yn hwyluso cynhadledd cynnydd. Byddwn yn ystyried pa mor debygol ydyw y gellid tynnu'r awdurdod o'r categori gweithgarwch dilynol ymhen blwyddyn. Os ydym o'r farn bod yr awdurdod yn debygol o allu dangos digon o gynnydd i'w dynnu o'r categori gweithgarwch dilynol, byddwn yn cynllunio ymweliad monitro. Fodd bynnag, os yw Estyn o'r farn y bydd angen mwy o amser ar yr awdurdod, byddwn yn hwyluso ail gynhadledd cynnydd ymhen blwyddyn. |

**Esboniad o'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddiir i ddisgrifio'n harfarniadau**

Y geiriau a'r ymadroddion yng ngholofn chwith y tabl canlynol yw'r rheini rydyn ni'n eu defnyddio i ddisgrifio'n harfarniadau. Yr ymadroddion yn y golofn dde yw'r esboniadau mwy manwl gywir.


| | |
|---|---|
| bron pob un | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| llawer | 70% neu fwy |
| mwyafrif | dros 60% |
| hanner neu tua hanner | agos at 50% |
| lleiafrif | islaw 40% |
| ychydig | islaw 20% |
| ychydig iawn | llai na 10% |

# Nodiadau am y data a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn

Mae'r data rydyn ni'n eu dangos mewn siartiau neu'n eu trafod yn nhestun yr adroddiad hwn yn dod o gronfa ddata deilliannau arolygu Estyn yn bennaf. Lle bo'n briodol, rydyn ni'n nodi yn yr adroddiad o ba ffynonellau eraill mae data wedi dod, ac mae'n deillio'n bennaf o ddata a gyhoeddwyd gan Llywodraeth Cymru. Mae'r ffigurau yn y siartiau wedi'u talgrynnu i'r ganran gyfan agosaf.  Oherwydd hynny, mae'n bosibl na fydd canrannau'n gwneud cyfanswm o 100%.

Wrth ddadansoddi deilliannau arolygu, mae'n bwysig nodi y gall fod anawsterau wrth gymharu tueddiadau mewn deilliannau rhwng blynyddoedd. Bob blwyddyn, byddwn yn arolygu cyfran o ddarparwyr ym mhob sector.  Er enghraifft, yn ystod 2018-2019, arolygom188 (15%) o ysgolion cynradd a 29 (16%) o ysgolion uwchradd.

Mae'n bwysig nodi hefyd fod angen cymryd cryn ofal wrth gymharu deilliannau arolygu, a data arall, rhwng sectorau ac o fewn sectorau pan fydd nifer y darparwyr yn fach.



# Atodiad 2 Canfyddiadau PISA 2018

4

Y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yw astudiaeth addysg ryngwladol fwyaf y byd. Bob tair blynedd, mae sampl gynrychioliadol o ddisgyblion 15 oed o ysgolion mewn gwledydd cyfranogol yn cael profion mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth (mae prif ffocws i un o'r rhain bob tro). Gofynnir cwestiynau i ddisgyblion hefyd am eu profiad yn yr ysgol a bywyd yn ehangach. Mae Cymru wedi bod yn rhan o'r astudiaeth ers 2006.

Yn 2018, am y tro cyntaf, nid oes gwahaniaeth arwyddocaol yn ystadegol rhwng Cymru a'r cyfartaledd ar gyfer gwledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth.

# Canfyddiadau PISA 2018[1]


## Darllen

Darllen oedd prif ffocws PISA yn 2018.

Fe wnaeth sgôr darllen gyffredinol disgyblion wella yn 2018 ac, am y tro cyntaf, roedd yn agos at gyfartaledd yr OECD, a ostyngodd am yr ail gylch yn olynol. Mae Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn parhau i berfformio'n sylweddol well na Chymru. Dros y cyfnod 2006-2018, nid oes newid arwyddocaol wedi bod yn y sgôr darllen ar gyfer Cymru.

O'r 75 o wledydd eraill yr adroddwyd amdanynt, fe wnaeth 22 berfformio'n arwyddocaol well na Chymru yn 2018, o gymharu â 30 yn 2015.

**Tueddiadau mewn sgorau darllen ar draws y DU**




[1]Mae'r ffigurau a'r siartiau yn y rhan hon wedi'u cymryd o Sizmur et al. (2019) neu wefan yr OECD.

# Canfyddiadau PISA 2018

Yn 2018, mae merched yn perfformio'n arwyddocaol well na bechgyn yng Nghymru, fel yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae'r bwlch hwn rhwng y rhywiau wedi cau ac nid yw'n wahanol iawn i gyfartaledd yr OECD, ond mae'n parhau yn fwy nag yn Lloegr a'r Alban.

Fe wnaeth perfformiad y 10% uchaf o ddisgyblion yng Nghymru wella yn 2018 ac, erbyn hyn, mae uwchlaw cyfartaledd yr OECD, ond mae'n parhau'n is nag yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fe wnaeth perfformiad y 10% gwannaf ostwng yn 2018. Eto, mae uwchlaw cyfartaledd yr OECD ond yn is hefyd nag yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Yn 2018, roedd effaith statws economaidd-gymdeithasol yn llai yng Nghymru nag ar draws gwledydd yr OECD. Fe wnaeth y disgyblion sydd fwyaf dan anfantais yng Nghymru sgorio'n uwch na'u cyfoedion ar draws gwledydd yr OECD, er bod y disgyblion sydd lleiaf dan anfantais, ar gyfartaledd, wedi sgorio'n is.

Er mwyn i ddisgyblion ddarllen yn llwyddiannus, mae'n angenrheidiol iddynt gwblhau ystod o brosesau gwybyddol y mae PISA yn eu nodi trwy bedair proses: 'lleoli gwybodaeth'; 'deall'; 'gwerthuso a myfyrio' a 'rhuglder darllen'. Mae rhuglder darllen yn sail i'r tair proses arall, ac fe'i cynhwyswyd am y tro cyntaf yn PISA yn 2018. Cyfrannodd rhuglder darllen at sgorau cyffredinol disgyblion.

## Lleoli gwybodaeth

Roedd y categori hwn yn gofyn i ddisgyblion sganio un testun am wybodaeth neu i chwilio nifer o destunau i ganfod gwybodaeth a oedd yn berthnasol i'r dasg. Perfformiodd disgyblion yng Nghymru gryfaf yn y maes hwn lle'r oedd gofyn iddynt ddefnyddio medrau cyfarwydd a medrau a ddefnyddir yn eang. Er bod y medrau hyn yn hanfodol, mewn lleiafrif o adroddiadau arolygu, nodwn fod disgyblion yn dibynnu gormod ar y medrau hyn ac nad ydynt yn defnyddio ystod ddigon eang o strategaethau darllen i gefnogi'u dysgu yn effeithiol.


## Deall

Roedd y categori hwn yn nodi pa mor dda yr oedd disgyblion yn gallu deall ystyr llythrennol testun a symud y tu hwnt, gan gynnwys defnyddio rhesymu a dod i gasgliad, ac integreiddio gwybodaeth i greu prif syniad, neu i gynhyrchu crynodeb, neu deitl ar gyfer darn. Hefyd, roedd disgyblion yn cael eu hasesu ar ba mor dda y gallant integreiddio darnau o wybodaeth sydd wedi'u lleoli o fewn dau neu fwy o destunau. Hwn oedd y maes lle perfformiodd disgyblion waethaf. Fel arfer, mae adroddiadau arolygu yn nodi pa mor dda mae disgyblion yn defnyddio'r medrau lefel uwch hyn, er bod hyn wedi'i seilio'n aml ar eu dealltwriaeth o destunau y mae disgyblion eisoes yn eu gwybod yn dda, fel testunau gosod llenyddiaeth Saesneg neu Gymraeg. Mae'r profion PISA yn gofyn i ddisgyblion edrych ar ystod eang o destunau. Mae hyn yn codi pryderon ynglŷn â pha mor dda y mae disgyblion yn gallu defnyddio'r medrau hyn wrth ddarllen testunau anghyfarwydd. Un ffactor allweddol yn nealltwriaeth disgyblion o destun yw geirfa. Mae datblygu geirfa a gwybodaeth o eirfa yn hollbwysig i gefnogi llwyddiant academaidd. Ni all disgyblion â geirfa gyfyngedig ddarllen a deall testunau ar lefel uwch, ac mae hyn yn creu terfyn uchaf i'w cyrhaeddiad.

## Gwerthuso a myfyrio

Roedd y categori hwn yn pennu pa mor dda yr oedd disgyblion yn gallu asesu hygrededd testun drwy ystyried ffynhonnell y wybodaeth a sut oedd yr awdur wedi'i chyflwyno. Roedd angen iddynt ystyried bwriad yr awdur, a lle bo angen, myfyrio ar eu profiad a'u gwybodaeth eu hunain er mwyn cymharu, cyferbynnu neu ddamcaniaethu persbectifau neu safbwyntiau gwahanol. Yn ogystal, roedd rhaid i ddisgyblion gymharu a chyferbynnu barnau awduron ac egluro pam y gallent dderbyn barnau'r ffynhonnell fwy dibynadwy.

**Sgorau is-raddfa prosesau darllen ar draws y DU**




Dau o'r prif fedrau darllen sy'n annatod i'r maes hwn yw cyfosod a chymharu, yn cynnwys nifer o destunau ffynhonnell. Yn 2018, fe wnaeth disgyblion berfformio'n dda yn y maes hwn, fel yn 2009. O 2017 ymlaen, roedd ffocws newydd mewn ysgolion ar grynhoi, cymharu a chyfosod ar gyfer arholiadau TGAU Iaith Saesneg. Yn ogystal, mae'r gallu i gyfosod gwybodaeth o ffynonellau amrywiol yn elfen allweddol o gyrsiau arholiadau eraill fel TGAU Hanes.


Yn 2018, fe wnaeth disgyblion berfformio'n well mewn tasgau a oedd yn gofyn iddynt ystyried mwy nag un testun. Maent yn fwy hyderus yn eu gallu i ddarllen na'r disgybl cyfartalog ar draws yr OECD, ond yn llai tebygol o ddarllen llyfr. Dangosodd disgyblion yng Nghymru agweddau mwy negyddol at ddysgu nag ar draws gwledydd eraill yr OECD, gyda'r mwyafrif yn honni eu bod yn darllen i gael gwybodaeth yn unig, fel yn 2019.

# Canfyddiadau PISA 2018

## Mathemateg

Yn 2018, mae'r sgôr gymedrig gyffredinol a gyflawnwyd mewn mathemateg, sef 487, yn debyg i gyfartaledd cymedrig yr OECD, sef 489. Hwn yw perfformiad uchaf Cymru ym mhrofion PISA, ac am y tro cyntaf, nid yw'r sgôr gymedrig ar gyfer mathemateg yn arwyddocaol is na chyfartaledd yr OECD. Ers PISA 2012, bu gwelliant cynaledig yn y perfformiad mewn mathemateg.

**Tueddiadau mewn sgorau mathemateg ledled y DU**




Mae perfformiad mewn mathemateg yng Nghymru yn parhau i fod is na pherfformiad yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, ac yn sylweddol is nag yn Lloegr.

Yn 2018, cyflawnodd bechgyn yng Nghymru gyfartaledd cymedrig a oedd fymryn yn well na'r sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer merched. Fe wnaeth merched berfformio'n sylweddol well yn 2018 nag yn 2015 ac, o ganlyniad, dyma'r tro cyntaf i berfformiad bechgyn beidio â bod yn sylweddol uwch na pherfformiad merched.

# Canfyddiadau PISA 2018

Fe wnaeth y 10% uchaf o ddisgyblion gyflawni sgôr sylweddol uwch yn 2018 o gymharu â 2015 yng Nghymru. Fodd bynnag, mae perfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion yn parhau i fod yn is na chyfartaledd yr OECD a'r grwpiau disgyblion cyfatebol yng ngweddill y DU. Fe wnaeth cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uchaf mewn mathemateg (lefelau hyfedredd 5 a 6) gynyddu o 5% yn 2015 i 7% yn 2019. Fodd bynnag, mae'r gyfran hon yn parhau'n is na chyfartaledd yr OECD, sef 11%.

Fe wnaeth perfformiad cyffredinol mewn mathemateg wella rhwng 2012 a 2015 ac roedd hyn yn sgil perfformiad gwell disgyblion o allu gwannach a gallu canolig. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd gostyngiad yng nghanran y disgyblion a oedd yn cyflawni'r lefelau hyfedredd uwch mewn mathemateg. Rhwng 2015 a 2018, fe wnaeth perfformiad cyffredinol wella eto. Roedd hyn yn sgil gwelliant pellach ym mherfformiad disgyblion o allu canolig, gwelliant ym mherfformiad disgyblion mwy abl a disgyblion gwannach yn cynnal y perfformiad a welwyd yn 2015.

Fe wnaeth perfformiad y 10% o ddisgyblion gwannaf wella yn 2018 ac, erbyn hyn, mae uwchlaw cyfartaledd yr OECD. Mae hefyd yn uwch na sgôr y grŵp o ddisgyblion cyfatebol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, er ei fod yn parhau ychydig yn is na sgôr Lloegr.

Mae'r gwelliant mewn sgorau mathemateg dros y ddau gylch diwethaf yn cyd-daro â Llywodraeth Cymru yn cyflwyno tair strategaeth wedi'u hanelu'n benodol at godi safonau disgyblion mewn mathemateg:

- cyflwyno'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn 2013
- cyflwyno'r profion rhesymu rhifiadol ym Mai 2014
- cyflwyno'r TGAUau newydd mewn mathemateg a mathemateg-rhifedd ar gyfer eu haddysgu gyntaf ym Medi 2015

Mae'r cymhwyster TGAU rhifedd a mathemateg newydd yn gofyn bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth ddofn o gysyniadau mathemategol, eu bod yn gallu rhesymu'n fathemategol, a datrys problemau sydd wedi'u gosod mewn cyd-destun. Hefyd, mae'r medrau hyn yn ganolog i faes mathemateg fframwaith PISA. Canfu ein hadroddiad thematig yn 2018 bod y strategaethau hyn yn dechrau codi safonau disgyblion yn y meysydd hyn. Dywed yr adroddiad:

> *Mewn adrannau mathemateg, y prif newidiadau [yn y cwricwlwm] yw darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau datrys problemau ar gyfer y TGAU rhifedd newydd, ac i ddisgyblion gael dealltwriaeth ddyfnach o gysyniadau mathemateg……*
> *…..Mae llawer o adrannau mathemateg yn rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu medrau datrys problemau disgyblion. Er enghraifft, mae athrawon yn addasu strwythur cynlluniau gwersi i addysgu'r medrau gyntaf ac yna rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymarfer y medrau hyn yn eu cyd-destun yn ystod pob gwers. Mae athrawon yn yr adrannau hyn yn defnyddio strategaethau fel gridiau datrys problemau i helpu disgyblion gofio'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i ddatrys problemau. Yn gyffredinol, mae'r strategaethau hyn yn llwyddiannus, yn enwedig o ran gwella gallu disgyblion i ddethol gwybodaeth allweddol o broblemau (Estyn, 2018d, tud.21, 26).*

# Canfyddiadau PISA 2018

Mae'r ffocws mwy ar ddatrys problemau a datblygu rhesymu rhifiadol wrth addysgu mathemateg yn debygol o fod yn un o'r prif resymau dros y gwelliant sylweddol yn sgorau mathemateg Cymru er 2012.

Fodd bynnag, yn yr adolygiad thematig ar gymwysterau newydd, dywedom hefyd:


> *Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw'r trefniadau ar gyfer datblygu medrau a strategaethau datrys problemau disgyblion mewn mathemateg a rhifedd yn ddigon cryf (Estyn, 2018d, tud.27).*

Mae hyn yn amlygu'r ffaith bod gwaith i'w wneud o hyd i wella addysgu mathemateg yng Nghymru, ac felly codi safonau mathemateg a rhifedd disgyblion Cymru.

## Gwyddoniaeth

Yn 2018, roedd y sgôr gyfartalog mewn gwyddoniaeth a gyflawnwyd gan ddisgyblion yng Nghymru yn gyson â chyfartaledd yr OECD. Mae sgôr Cymru wedi gwella ers 2015, y tro cyntaf y mae Cymru wedi gweld gwelliant yn ei sgôr gwyddoniaeth, tra bod sgôr gyfartalog yr OECD wedi gwanhau yn ystod yr un cyfnod. Roedd sgôr gwyddoniaeth Cymru wedi gostwng ar gyfer pob un o'r pedwar cylch PISA o 2006 i 2015, ac er gwaethaf gwelliannau yn 2018, mae'r sgôr ar gyfer 2018 yn sylweddol is nag yn 2006. Fe wnaeth perfformiad Cymru mewn gwyddoniaeth barhau ychydig yn is na pherfformiad yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac yn sylweddol is na pherfformiad Lloegr.

**Tueddiadau mewn sgorau gwyddoniaeth ledled y DU**



# Canfyddiadau PISA 2018

Am y tro cyntaf mewn gwyddoniaeth, fe wnaeth merched berfformio ychydig yn well na bechgyn yng Nghymru. Roedd y gwahaniaeth rhwng perfformiad gwell merched o gymharu â bechgyn yng Nghymru yn 2018 yn gyson â'r gwahaniaeth cyffredinol ar draws gwledydd yr OECD.

Roed cyfran y disgyblion a gyflawnodd hyfedredd sylfaenol lefel 2 neu'n uwch ar gyfer gwyddoniaeth ychydig yn well yng Nghymru, ar 81%, na chyfartaledd yr OECD, sef 78%. Mae hyn yn adlewyrchu gwelliant bach ar gyfer y disgyblion hyn ers 2015, ac mae'n gyson â pherfformiad o brofion PISA cynharach. Fe wnaeth y 10% o ddisgyblion â'r perfformiad isaf yng Nghymru sgorio ychydig yn uwch ar gyfartaledd na'r disgyblion cyfatebol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn ogystal ag yn uwch na'r rheiny ar draws yr OECD. Fodd bynnag, fe wnaeth y 10% uchaf o ddisgyblion yng Nghymru sgorio islaw'r OECD, ac islaw sgorau'r Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr.

Cyflawnodd cyfran debyg o ddisgyblion y lefelau uchaf mewn gwyddoniaeth (lefelau hyfedredd 5 a 6) yn 2018 o gymharu â 2015, ac mae Cymru yn parhau i fod islaw cyfartaledd yr OECD.

Mae'n rhy gynnar i ddweud p'un a yw'r ychydig o welliant ym mherfformiad disgyblion mewn gwyddoniaeth yn ddechrau tuedd o wella. Mae'r gwelliant yn rhy fach i gael ei briodoli'n uniongyrchol i newidiadau mewn addysg gwyddoniaeth ysgolion uwchradd yng Nghymru, yn enwedig y cynnydd yng nghyfran y disgyblion cyfnod allweddol 4 sy'n ymgymryd â chymwysterau TGAU gwyddoniaeth yn hytrach na chyrsiau gwyddoniaeth galwedigaethol dros y pedair blynedd diwethaf.

# Atodiad 3

# Deilliannau arolygu 2018-2019



# Atodiad 3 – Deilliannau arolygu 2018-2019

Mae'r atodiad hwn yn crynhoi deilliannau arolygu ar gyfer 2018-2019 ym mhob sector. Cyhoeddom ein deilliannau arolygu ar gyfer 2018-2019 fel ystadegau swyddogol.  Cafodd yr ystadegau eu datgan ymlaen llaw a'u cyhoeddi ar wefan Estyn, ac fe'u paratowyd yn unol ag egwyddorion a phrotocolau'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.


Mae ein gwefan ddata ryngweithiol yn rhoi crynodebau o'n deilliannau arolygu ac ymatebion i holiaduron gan ddisgyblion a rhieni. Gall defnyddwyr weithredu hidlwyr i addasu eu golygon data a lawrlwytho'r canlyniadau. Mae'r wefan yn cynnwys data ar gyfer arolygiadau a gynhaliwyd rhwng 1 Medi 2010 a 31 Awst 2019.  I fynd at ein gwefan ddata, ewch i: data.estyn.llyw.cymru

I gael mwy o wybodaeth am yr adroddiadau arolygu ar gyfer darparwyr unigol, ewch i: estyn.llyw.cymru/arolygu/chwilio


# Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan 5 oed

Mae'r deilliannau isod yn adlewyrchu'r arolygiadau o leoliadau meithrin nas cynhelir a gynhaliwyd ar y cyd rhwng Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru o Ionawr 2019.

**Nifer yr arolygiadau = 66**





**Gweithgarwch dilynol**




# Cynradd

**Nifer yr arolygiadau = 188**





**Gweithgarwch dilynol**





# Uwchradd

**Nifer yr arolygiadau = 29**





**Gweithgarwch dilynol**




# Ysgolion pob oed a gynhelir

**Nifer yr arolygiadau = 3**





**Gweithgarwch dilynol**





# Ysgolion arbennig a gynhelir

**Nifer yr arolygiadau = 3**





**Gweithgarwch dilynol**




# Ysgolion arbennig annibynnol

**Nifer yr arolygiadau = 7**





# Ysgolion prif ffrwd annibynnol

**Nifer yr arolygiadau = 6**



# Unedau cyfeirio disgyblion

**Nifer yr arolygiadau = 4**





**Gweithgarwch dilynol**




# Addysg bellach

**Nifer yr arolygiadau = 2**





**Gweithgarwch dilynol**



# Dysgu yn y gwaith

**Nifer yr arolygiadau = 2**




**Gweithgarwch dilynol**




# Sectorau eraill

Fe wnaethom arolygu 26 o leoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan 5 oed o dan Fframwaith Arolygu Cyffredin 2010 rhwng Awst a Rhagfyr 2019. Yn ogystal, yn 2018-2019, cynhaliom hefyd arolygiad o un darparwr Cymraeg i Oedolion, arolygiad peilot o Addysg Oedolion Cymru ac arolygiadau o bedwar awdurdod lleol. Mae eu harolygiadau i'w gweld ar ein gwefan

# Atodiad 4 Rhestr cyfeiriadau



# Rhestr cyfeiriadau

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (2019) *Arolygiad o wasanaethau troseddau ieuenctid ym Mae'r Gorllewin.* Manceinion: Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2019/03/Gwasanaeth-Cyfiawnder-Ieuenctid-ac-Ymyrryd-yn-Gynnar.pdf [Defnyddiwyd 4 Gorffennaf 2019]

Coleg Cymraeg Cenedlaethol (2018) *Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr: Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg.* [Ar-lein]. Ar gael ar: http://www.colegcymraeg.ac.uk/en/media/main/2015colegcymraeg/dogfennau/s-2210/tuagatcymraeg2050.pdf [Defnyddiwyd 7 Ionawr 2019]

Cordingley, P. (2013) *The contribution of research to teachers' professional learning and development*. British Educational Research Association. [Ar-lein]. Ar gael ar: http://www.curee.co.uk/files/publication/%5Bsite-timestamp%5D/BERA%20Paper%205%20Continuing%20professional%20development%20and%20learning.pdf [Defnyddiwyd 10 Gorffennaf 2019]

Cymwysterau Cymru (2019) *Cymwysterau 14-16 Newydd i Gymru – Cerrig Milltir Allweddol.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.qualificationswales.org/media/4318/new-14-16-qualifications-for-wales-key-milestones-mar-2019.pdf [Defnyddiwyd 13 Mai 2019]

Cyngor y Gweithlu Addysg (2019) Crynodeb Ystadegau 2019. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/ystadegau-ac-ymchwil/ystadegau-r-gweithlu-addysg.html [Defnyddiwyd 7 Rhagfyr 2019]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2003) Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Department for Education (2019) School workforce in England: Tachwedd 2018. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/811622/SWFC MainText.pdf [Defnyddiwyd 10 Gorffennaf 2019]

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf [Defnyddiwyd 10 Gorffennaf 2019]

Donaldson, G. (2018) *Arolygiaeth Dysgu – Adolygiad annibynnol o Estyn* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/A%20Learning%20Inspectorate%20-%20cy%20-%20June%202018.pdf [Defnyddiwyd 10 Gorffennaf 2019]

Estyn (2013) *Effaith TGCh ar ddysgu disgyblion mewn ysgolion cynradd*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Effaith%20TGCh%20ar%20ddysgu%20disgyblion%20mewn%20ysgolion%20cynradd%20-%20Gorffennaf%202013.pdf [Defnyddiwyd 8 Gorffennaf 2019]

# Rhestr cyfeiriadau


Estyn (2014) *TGCh yng nghyfnod allweddol 3: Effaith TGCh ar ddysgu disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 mewn ysgolion uwchradd*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/TGCh%20yng%20nghyfnod%20allweddol%203%3A%20Effaith%20TGCh%20ar%20ddysgu%20disgyblion%20yng%20nghyfnod%20allweddol%203%20mewn%20ysgolion%20uwchradd%20-%20Gorffennaf%202014%20%20.pdf [Defnyddiwyd 12 Gorffennaf 2019]

Estyn (2016) *Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg Awdurdodau Lleol*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Local%20authority%20Welsh%20in%20Education%20Strategic%20Plans%20CY%20-%20final.pdf [Defnyddiwyd 8 Gorffennaf 2019]

Estyn (2017a) *Dysgu gweithredol a thrwy brofiad: Arfer effeithiol yn y cyfnod sylfaen wrth gyflwyno llythrennedd a rhifedd ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Estyn%20Active%20and%20experiential%20learning_W_Accessible_0.pdf [Defnyddiwyd 8 Gorffennaf 2019]

Estyn (2017b) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2016–17*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Estyn%20Annual%20Report_Welsh_Accessible.pdf [Defnyddiwyd 1 Gorffennaf 2019]

Estyn (2017c) *Addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Bilingual%20Teaching%20in%20FE%20cy_0.pdf [Defnyddiwyd 12 Gorffennaf 2019]

Estyn (2018a) *Cyrsiau safon uwch mewn dosbarthiadau chweched a cholegau addysg bellach*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/A%20levels%20in%20sixth%20forms%20and%20further%20education%20colleges%20cy.pdf [Defnyddiwyd 1 Gorffennaf 2019]

Estyn (2018b) *Arloesi'r cwricwlwm mewn ysgolion cynradd*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Curriculum%20innovation%20in%20primary%20schools%20-%20cy.pdf [Defnyddiwyd 1 Gorffennaf 2019]

Estyn (2018c) *Gwella Addysgu*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Improving%20teaching%20-%20cy.pdf [Defnyddiwyd 1 Gorffennaf 2019]

Estyn (2018d) *Cymwysterau newydd*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/New%20qualifications%20cy.pdf [Defnyddiwyd 16 Medi 2019]

# Rhestr cyfeiriadau

Estyn (2018e) *Paratoi ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Preparing%20for%20the%20DCF%20cym.pdf [Defnyddiwyd 12 Gorffennaf 2019]

Estyn (2018f) *Cefnogi disgyblion mwy abl a thalentog: Sut orau i herio a meithrin disgyblion mwy abl a thalentog: Cyfnodau allweddol 2 i 4*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Supporting%20MAT%20pupils%20Cy.pdf [Defnyddiwyd 12 Gorffennaf 2019]

Estyn (2018g) *Y continwwm dysgu proffesiynol: mentora mewn addysg gychwynnol athrawon*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Mentoring%20in%20initial%20teacher%20education%20-%20cy.pdf [Defnyddiwyd 1 Gorffennaf 2019]

Estyn (2018h) *Ansawdd addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc sy'n gysylltiedig â thimau troseddau ieuenctid*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/The%20quality%20of%20education%20and%20training%20for%20young%20people%20engaged%20with%20youth%20offending%20teams%20-%20cy_0.pdf [Defnyddiwyd 2 Gorffennaf 2019]

Estyn (2019a) *Ysgolion Ffederal: Nodweddion cyffredin ffedereiddio effeithiol*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Federated%20schools%20cy.pdf [Defnyddiwyd 5 Gorffennaf 2019]

Estyn (2019b) *Iach a hapus – Effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Healthy%20and%20Happy%20report%20Cy_0.pdf [Defnyddiwyd 10 Gorffennaf 2019]

Estyn (2019c) *Darpariaeth ar gyfer disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr oed uwchradd*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Provision%20for%20secondary%20aged%20Gypsy%20Roma%20and%20Traveller%20pupils%20cy.pdf [Defnyddiwyd 8 Gorffennaf 2019]

Estyn (2019d) *Darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Young%20carers%20thematic%20report%20-%20cy.pdf [Defnyddiwyd 5 Gorffennaf 2019]

Estyn (2020) *Adnabod eich plant – cefnogi disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Knowing%20your%20children%20%20supporting%20pupils%20with%20adverse%20childhood%20experiences%20cy_1.pdf [Defnyddiwyd 20 Ionawr 2020]

# Rhestr cyfeiriadau


GIG Cymru (2018) *Cymru Well Wales (1000 o Ddiwrnodau Cyntaf)*. [Ar-lein]. Ar gael ar: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/88544 [Defnyddiwyd 4 Gorffennaf 2019]

Gyrfa Cymru (2017) *Newid Bywydau: Gweledigaeth ar gyfer Gyrfa Cymru: 2017–20*. [Ar-lein]. Ar gael ar: http://s3-eu-west-1.amazonaws.com/static.live.careerswales.net/Careers_Wales_Report_ENGLISH-lores.pdf [Defnyddiwyd 8 Gorffennaf 2019]

Hazelkorn, E. (2016) *Tuag at 2030 Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/tuag-at-2030-fframwaith-ar-gyfer-datblygu-system-addysg-ol-orfodol-or-radd-flaenaf-i-gymru.pdf [Defnyddiwyd 5 Gorffennaf 2019]

Humphreys, R. (2011) *Adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/adolygiad-annibynnol-o-drefniadau-llywodraethu-ar-gyfer-sefydliadau-addysg-bellach-yng-nghymru.pdf [Defnyddiwyd 5 Gorffennaf 2019]

Joint Council for Qualifications CIC (2020) *A-Levels*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.jcq.org.uk/examination-results/a-levels [Defnyddiwyd 30 Medi 2019]

Llywodraeth Cymru (2013) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein].

Llywodraeth Cymru (2017a) *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf [Defnyddiwyd 8 Gorffennaf 2019]

Llywodraeth Cymru (2017b) *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl: Cynllun Gweithredu 2017–21*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl.pdf [Defnyddiwyd 8 Gorffennaf 2019]

Llywodraeth Cymru (2017c) *Safonau proffesiynol ar gyfer athrawon addysg bellach ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://hwb.gov.wales/storage/04ac1db8-f5e0-4797-a806-89e9039b48eb/safonau-proffesiynol-athrawon-addysg-bethach-ymarferwyr-dysgu-seliedig-ar-waith-nghymru.pdf [Defnyddiwyd 8 Gorffennaf 2019]

Llywodraeth Cymru (2017d) *Erthygl Ystadegol: Cyrchfannau Addysgol Dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16, 2014/15*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://dera.ioe.ac.uk/30846/1/171214-educational-destinations-key-stage-4-post-16-learners-2014-15-en.pdf [Defnyddiwyd 8 Gorffennaf 2019]

# Rhestr cyfeiriadau

Llywodraeth Cymru (2018a) *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/meini-prawf-ar-gyfer-achredu-rhaglenni-addysg-gychwynnol-athrawon-yng-nghymru.pdf [Defnyddiwyd 8 Gorffennaf 2019]

Llywodraeth Cymru (2018b) *Fframwaith Cymhwysedd Digidol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://hwb.gov.wales/storage/d5a657fd-47bd-46e4-bb0b-bfbbec1ad8d9/fframwaith-cymhwysedd-digidol-atebion-i-ch-cwestiynau.pdf [Defnyddiwyd 8 Gorffennaf 2019]

Llywodraeth Cymru (2018c) *Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-12/cod-drafft-anghenion-dysgu-ychwanegol-cymru_0.pdf [Defnyddiwyd 2 Gorffennaf 2019]

Llywodraeth Cymru (2018d) B*udd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf: Dogfen Ymgynghori*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-04/180423-comisiwn-addysg-drydyddol-ac-ymchwil-i-gymru-dogfen-ymgynghori.pdf [Defnyddiwyd 4 Gorffennaf 2018]

Llywodraeth Cymru (2018e) *Cod Trefniadaeth Ysgolion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/cod-trefniadaeth-ysgolion-fersiwn-diwygiedig.pdf?ContensisTextOnly=true [Defnyddiwyd 4 Gorffennaf 2019]

Llywodraeth Cymru (2018f) *Ysgolion yng Nghymru yn gweithredu fel sefydliadau sy'n dysgu*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://hwb.gov.wales/storage/8008631d-2143-4326-96dd-a3b3498b8f44/ysgolion-yng-nghymru-yn-gweithredu-fel-sefydliadau-sy-n-dysgu.pdf [Defnyddiwyd 4 Gorffennaf 2019]

Llywodraeth Cymru (2019a) *Absenoldeb o ysgolion yn ôl nodweddion disgyblion: Medi 2017 i Awst 2018*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/absenoldeb-o-ysgolion-yn-ol-nodweddion-disgyblion-medi-2017-i-awst-2018 [Defnyddiwyd 4 Gorffennaf 2019]

Llywodraeth Cymru (2019b) *Cwricwlwm Drafft i Gymru 2022*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru

Llywodraeth Cymru (2019c) *Data dysgwyr Dysgu Cymraeg*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/data-dysgwyr-dysgu-cymraeg-awst-2017-i-gorffennaf-2018 [Defnyddiwyd 4 Tachwedd 2019]

Llywodraeth Cymru (2019d) *Astudiaeth Gwmpasu Dysgu Proffesiynol Ôl-16*. Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/astudiaeth-gwmpasu-dysgu-proffesiynol-ol-16-adroddiad-terfynol.pdf [Defnyddiwyd 6 Ionawr 2020]

Llywodraeth Cymru (2019e) *Datganiad i'r Wasg: Diolch i Reolwyr Busnes Ysgolion, mae mwy o amser gan benaethiaid i ganolbwyntio ar arweinyddiaeth*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/diolch-i-reolwyr-busnes-ysgolion-mae-mwy-o-amser-gan-benaethiaid-i-ganolbwyntio-ar-arweinyddiaeth [Defnyddiwyd 4 Tachwedd 2019]

Llywodraeth Cymru (2019f) *Bwletin Ystadegol: Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-05/addysg-gychwynnol-i-athrawon-medi-2017-awst-2018.pdf [Defnyddiwyd 4 Tachwedd 2019]

Llywodraeth Cymru (2019g) *Datganiad Ystadegol Cyntaf: Cyflawniad academaidd disgyblion 4 i 14 oed mewn pynciau craidd 2019*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/cyflawniad-academaidd-disgyblion-4-i-14-oed-mewn-pynciau-craidd-2019_0.pdf [Defnyddiwyd 4 Tachwedd 2019]

Llywodraeth Cymru (2019h) *Datganiad Ystadegol Cyntaf: Canlyniadau arholiadau mewn ysgolion yng Nghymru, 2018/19*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/canlyniadau-arholiadau-medi-2018-i-awst-2019-262.pdf [Defnyddiwyd 7 Ionawr 2020]

Llywodraeth Cymru (2019i) Datganiad Ystadegol Cyntaf: Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol: 2017/18. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-02/further-education-work-based-learning-community-learning-2017-18.pdf [Defnyddiwyd 8 Gorffennaf 2019]

Llywodraeth Cymru (2019j) *Datganiad Ystadegol Cyntaf: Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion, 2017/18*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-10/gwaharddiadau-parhaol-a-chyfnod-penodol-o-ysgolion-2017-18.pdf [Defnyddiwyd 4 Tachwedd 2019]

Llywodraeth Cymru (2019k) D*atganiad Ystadegol Cyntaf: Disgyblion sy'n Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol, 2018/19*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/disgyblion-syn-derbyn-addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-medi-2018-i-awst-2019-190.pdf [Defnyddiwyd 4 Tachwedd 2019]

Llywodraeth Cymru (2019l) *Datganiad Ystadegol Cyntaf: Cronfeydd wrth gefn ysgolion: ar 31 Mawrth 2019 (Diwygiedig)*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/reserves-held-schools-31-march-2019.pdf [Defnyddiwyd 2 Tachwedd 2019]

Llywodraeth Cymru (2019m) *Datganiad Ystadegol Cyntaf: Canlyniadau Cyfrifiad Ysgolion: ym mis Ionawr 2019*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion-737.pdf [Defnyddiwyd 4 Tachwedd 2019]

Llywodraeth Cymru (2019n) *Datganiad Ysgrifenedig: Gweithredu'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-gweithredur-system-anghenion-dysgu-ychwanegol [Defnyddiwyd 4 Tachwedd 2019]

# Rhestr cyfeiriadau


Llywodraeth Cymru (2019o) *Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar ad-drefnu dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ymateb-llywodraeth-cymru-ir-ymgynghoriad-ar-ad-drefnu-dysgu-oedolion-yn-y [Defnyddiwyd 4 Tachwedd 2019]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://dera.ioe.ac.uk/11114/14/100420welshmediumstrategycy_Redacted.pdf [Defnyddiwyd 8 Gorffennaf 2019]

OECD (2016) *What makes a school a learning organisation?* Paris: OECD. [Ar-lein]. Ar gael ar: http://www.oecd.org/education/school/school-learning-organisation.pdf [Defnyddiwyd 1 Gorffennaf 2019]

Sizmur, J., Ager, R., Bradshaw, J., Classick, R., Galvis, M., Packer, J., Thomas D. and Wheater R. (2019) *Cyflawniad disgyblion 15 oed yng Nghymru: Adroddiad Cenedlaethol PISA 2018*. Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/cyflawniad-disgyblion-15-mlwydd-oed-rhaglen-ryngwladol-asesu-myfyrwyr-pisa-adroddiad-cenedlaethol-2018.pdf [Defnyddiwyd 16 Rhagfyr 2019]

StatsCymru (2018) *Dangosyddion Cyfnod Allweddol 4 fesul hawl i Brydau Ysgol am Ddim, fesul rhyw*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4/ks4keyindicators-by-freeschoolmealentitlement-gender [Defnyddiwyd 4 Tachwedd 2019]

StatsCymru (2019a) *Dadansoddiad o asesiadau sy'n seiliedig ar ddangosyddion (IBA), Cymru*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Local-Government/Finance/Settlement/SSA-Breakdown/analysisofindicatorbasedassessmentsibas-wales [Defnyddiwyd 4 Tachwedd 2019]

StatsCymru (2019b) *Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd fesul chwarter, blwyddyn a phrif anhawster a/neu anabledd dysgu*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Work-Based-Learning/apprenticeshiplearningprogrammesstarted-by-quarter-primaryldd-year [Defnyddiwyd 4 Tachwedd 2019]

StatsCymru (2019c) *Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd fesul chwarter, blwyddyn ac ethnigrwydd*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Work-Based-Learning/apprenticeshiplearningprogrammesstarted-by-quarter-year-ethnicity [Defnyddiwyd 2 Rhagfyr 2019]

StatsCymru (2019d) *Myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar gyrsiau AGA yng Nghymru yn ôl math o radd, lefel ysgol a blwyddyn*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/teachers-and-support-staff/initial-teacher-education/students-in-Wales/firstyearsonitecoursesinwales-by-degreetype-schoollevel-year [Defnyddiwyd 16 Rhagfyr 2019]

# Rhestr cyfeiriadau


StatsCymru (2019e) *Myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar gyrsiau AGA yng Nghymru yn ôl pwnc a blwyddyn*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/teachers-and-support-staff/initial-teacher-education/students-in-Wales/firstyearsonitecoursesinwales-by-subject-year [Defnyddiwyd 4 Tachwedd 2019]

StatsCymru (2019f) *Mesurau Interim CA4 yn ôl PYD, o 2018/19*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4/interimexammeasuresforyear11pupils-by-fsmstatus [Defnyddiwyd 7 Ionawr 2020]

StatsCymru (2019g) *Mesurau Interim CA4 yn ôl Rhyw, o 2018/19*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4/interimexammeasuresforyear11pupils-by-gender [Defnyddiwyd 7 Ionawr 2020]

StatsCymru (2019h) *Mesurau Interim CA4 yn ôl Blwyddyn*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4/interimexammeasuresforyear11pupils-by-year [Defnyddiwyd 7 Ionawr 2020]

StatsCymru (2019i) *Canlyniadau cenedlaethol, yn ôl maes dysgu, blwyddyn a darpariaeth AAA (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cyfnod allweddol 2)*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Foundation-Phase/nationallevelresults-by-areaoflearning-year-sen [Defnyddiwyd 15 Rhagfyr 2019]

StatsCymru (2019j) *Canlyniadau cenedlaethol, yn ôl pwnc, blwyddyn a darpariaeth AAA (Anghenion Addysgol Arbennig)*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-2/nationallevelresults-by-subject-year-sen [Defnyddiwyd 15 Rhagfyr 2019]

StatsCymru (2019k) *Disgyblion yn ôl grŵp blwyddyn a rhyw*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Pupils/pupils-by-yeargroup-sex [Defnyddiwyd 16 Rhagfyr 2019]

StatsCymru (2019l) *Staff cymorth yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a chategori*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/teachers-and-support-staff/School-Staff/supportstaff-by-localauthorityregion-category [Defnyddiwyd 16 Rhagfyr 2019]

StatsCymru (2019m) *Recriwtio athrawon: nifer y swyddi gwag wedi'u hysbysebu yn ôl pwnc a blwyddyn*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/teachers-and-support-staff/Teacher-Recruitment-and-Retention/teacherrecruitmentposts-by-subject-year [Defnyddiwyd 16 Rhagfyr 2019]

StatsCymru (2019n) *Cadw athrawon: athrawon a adawodd y proffesiwn yn ôl pwnc a chyrchfan*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/teachers-and-support-staff/Teacher-Recruitment-and-Retention/teacherretentionleavers-by-subject-destination [Defnyddiwyd 16 Rhagfyr 2019]

# Rhestr cyfeiriadau

StatsCymru (2019o) *Athrawon yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a chategori*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/teachers-and-support-staff/School-Staff/teachers-by-localauthorityregion-category [Defnyddiwyd 16 Rhagfyr 2019]

Stonewall (2017) *Adroddiad ysgol Cymru 2017*. Caerdydd: Stonewall. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.stonewallcymru.org.uk/cy/system/files/adroddiad_ysgol_stonewall_cymru_2017.pdf [Defnyddiwyd 8 Gorffennaf 2019]

Webb (2007) *Addewid a chyflawniad: yr Adroddiad ar yr Adolygiad Annibynnol o Genhadaeth a Phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru yng nghyd-destun Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://dera.ioe.ac.uk/7317/5/A9RFC2B_Redacted.pdf [Defnyddiwyd 8 Gorffennaf 2019]

Y Cenhedloedd Unedig (1989) *Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.ohchr.org/Documents/ProfessionalInterest/crc.pdf [Defnyddiwyd 8 Gorffennaf 2019]